Cynulliad Cenedlaethol Cymru
(Y Cofnod Swyddogol)

The National Assembly for Wales
(The Official Record)

Dydd Iau 14 Medi 2000

Thursday 14 September 2000

Cynnwys
Contents

4 Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

4 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services

10 Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

16 Cwestiwn Brys: Cymhwyso Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru
Urgent Question: Applying the Welsh Index of Multiple Deprivation

28 Datganiad gan y Prif Ysgrifennydd ar ei Ymweliad â Siapan
Statement by the First Secretary on his Visit to Japan

36 Dirprwyo Swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd
Delegation of Functions to the First Secretary

43 Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 8) (Cymru) 2000
Approval of Special Grant Reort (No. 8) (Wales) 2000

52 Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Fathau) 2000
The Seeds (National List of Varieties) Regulations 2000

52 Pwynt o Drefn
Point of Order

55 Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) 2000
Approval of the Care Standards Act 2000 (Commencement No. 1) Order 2000

59 Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Devleopment

99 Datganiad ar y Prinder Tanwydd
Statement on the Fuel Shortage

113 Pwynt o Drefn
Point of Order

114 Dadl Fer: Y Symud Amhriodol Tuag at Gywirdeb Gwleidyddol yn y Cynulliad
Short Debate: The Inappropriate Slide Towards Political Correctness in the Assembly

Cofnodir y trafodion hyn yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn ogystal, cynhwyswyd cyfieithiad Saesneg o eiriau a lefarwyd yn y Gymraeg. Bydd cofnod dwyieithog cyflawn ar gael bum niwrnod gwaith ar ôl cynnal y sesiwn.

These proceedings are reported in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches has been included. A fully bilingual record will be available five working days after the session was held.

Cyfarfu'r Cynulliad am 9:05 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair
The Assembly met at 9:05 a.m. with the Presiding Officer in the Chair

Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

Y Llywydd: Hon yw ein sesiwn gyntaf ar ddydd Iau o dan y drefn newydd. Bydd y Dirprwy Lywydd, Jane Davidson, a minnau yn rhannu'r dyletswyddau llywyddu yn ystod y sesiwn. Fodd bynnag, mae gennyf newyddion drwg i'r Aelodau hynny a oedd yn disgwyl toriad yn y canol, oherwydd ni fydd un.

The Presiding Officer: This is our first session on a Thursday under the new arrangement. The Deputy Presiding Officer, Jane Davidson, and myself will share the presiding duties during the session. However, I have bad news for those Members who expected a break in the middle, because there will not be one.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Questions to the Secretary for Health and Social Services

Meddygon Ymgynghorol y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru
National Health Service Consultants in Wales

C1 Ieuan Wyn Jones: Faint o swyddi meddygon ymgynghorol sydd yn wag yn y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru? (OAQ6700)

Q1 Ieuan Wyn Jones: How many national health service consultant vacancies are there in Wales? (OAQ6700)

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): The latest medical and dental staff census information reported by NHS trusts on 30 September 1999 indicated that there were 26 vacancies for consultant posts. The specialities that had most vacancies included those with known national shortages such as radiology, anaesthetics, old age psychiatry and mental illness. However, the increase in consultant numbers from 1997 to 1999 was 159, or 15 per cent.

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Nododd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfrifiad staff meddygol a deintyddol a gyflwynwyd gan ymddiriedolaethau NHS ar 30 Medi 1999 fod 26 o swyddi ymgynghorol gwag. Ymhlith yr arbenigeddau â'r mwyaf o swyddi gwag yr oedd y rheini lle yr oedd prinder cenedlaethol yn hysbys megis radioleg, anesthetig, seiciatreg henoed a salwch meddwl. Fodd bynnag, y cynnydd yn nifer yr ymgynghorwyr rhwng 1997 a 1999 oedd 159, neu 15 y cant.

Ieuan Wyn Jones: Fel y gŵyr Jane, mae problem yn parhau o ran prinder ymgynghorwyr. Mae hyn yn cynnwys swyddi gwag mewn nifer o ysbytai yng Nghymru ynghyd â phrinder mewn rhai meysydd o arbenigedd, fel y cydnabu yn ei hateb. Mae Jane yn ymwybodol o'r pryder yng Ngwynedd ac Ynys Môn ynglŷn â'r diffyg cardiolegwyr yn Ysbyty Gwynedd. Pa bwysau y gallwch ei roi ar yr Ysgrifennydd Cyllid i sicrhau bod gennym ddigon o arian o'r ychwanegedd a gawsom yn yr adolygiad cynhwysfawr o wariant i sicrhau ein bod yn gallu cyflogi mwy o ymgynghorwyr lle mae

Ieuan Wyn Jones: As Jane knows, the shortage of consultants is a continuing problem. This includes vacancies in several hospitals in Wales as well as shortages in some areas of expertise, as she acknowledged in her answer. Jane is aware of the concern in Gwynedd and Anglesey regarding the lack of cardiologists in Ysbyty Gwynedd. What pressure can you put on the Finance Secretary to ensure that we have enough money from the addionality that we received in the comprehensive spending review to ensure that we can employ more consultants where they are needed, and certainly

eu hangen, ac yn sicr cardiolegwyr yn Ysbyty Gwynedd?

cardiologists in Ysbyty Gwynedd?

Jane Hutt: We know that there are difficulties in Gwynedd. I will not comment on specific difficulties because they are subject to an employment tribunal. However, a cardiologist post will be readvertised next week and it is important that we fill it. It is true that there are issues regarding specialities in areas of Wales where we have vacancies. This year, an extra £90,000, rising to £280,000 in 2001, has been set aside to expand specialist registrar training places. It is important that we provide that support to move on to consultancy grades. In addition, trusts are using a proportion of the new money that is coming through as a result of Gordon Brown's budget and the Finance Secretary's budget this year, which the Assembly approved. The extra £40 million for new consultant posts in Wales should go some way towards addressing that situation.

Jane Hutt: Gwyddom fod anawsterau yng Ngwynedd. Nid wyf am gyfeirio at anawsterau penodol am eu bod yn agored i dribiwnlys cyflogaeth. Fodd bynnag, caiff swydd cardiolegydd ei hailhysbysebu yr wythnos nesaf ac mae'n bwysig ein bod yn ei llenwi. Mae'n wir bod materion o ran arbenigeddau mewn ardaloedd o Gymru lle mae gennym swyddi gwag. Eleni, neilltuwyd £90,000 ychwanegol, sydd yn codi i £280,000 yn 2001, i ychwanegu at y lleoedd hyfforddi cofrestryddion arbenigol. Mae'n bwysig ein bod yn darparu'r cymorth hwnnw er mwyn symud ymlaen at raddfeydd ymgynghorol. Yn ogystal, mae ymddiriedolaethau yn defnyddio cyfran o'r arian newydd sydd yn dod ar gael o ganlyniad i gyllideb Gordon Brown a chyllideb yr Ysgrifennydd Cyllid eleni, a gymeradwywyd gan y Cynulliad. Dylai'r £40 miliwn ychwanegol ar gyfer swyddi ymgynghorol newydd yng Nghymru fynd beth o'r ffordd tuag at ymdrin â'r sefyllfa honno.

David Melding: Does the Secretary for Health and Social Services intend to prohibit new consultants from undertaking private practice? How will such a severe measure, which is proposed in England, help recruitment if it is applied in Wales?

David Melding: A yw'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn bwriadu gwahardd ymgynghorwyr newydd rhag ymgymryd â phractis preifat? Sut y bydd mesur mor ddifrifol, a argymhellir yn Lloegr, yn helpu i recriwtio os caiff ei gymhwyso yng Nghymru?

Jane Hutt: We expect that at least another 30 new consultant posts will be created in Wales as a result of the extra money that the Labour Government in the Assembly and in Westminster have introduced to the health service. I will expect those consultants to fulfil the terms of their NHS contracts and I will expect the chief executives to ensure that they fulfil their NHS consultancy agreements.

Jane Hutt: Yr ydym yn disgwyl y bydd o leiaf 30 o swyddi ymgynghorol newydd yn cael eu creu yng Nghymru o ganlyniad i'r arian ychwanegol a gyflwynwyd i'r gwasanaeth iechyd gan y Llywodraeth Lafur yn y Cynulliad ac yn San Steffan. Yr wyf yn disgwyl y bydd yr ymgynghorwyr hynny yn cyflawni telerau eu contractau NHS a byddaf yn disgwyl i'r prif weithredwyr sicrhau eu bod yn cyflawni eu cytundebau ymgynghorol NHS.

9:10 a.m.

Llawdriniaeth ar y Llygaid yn Awdurdod Iechyd Bro Taf
Eye Surgery in Bro Taf Health Authority

C2 Owen John Thomas: A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch rhestrau a chyfnodau

Q2 Owen John Thomas: Will Jane Hutt make a statement on waiting lists and waiting

aros am lawdriniaeth ar y llygaid yn ardal Awdurdod Iechyd Bro Taf? (OAQ6667)

periods for eye surgery in Bro Taf Health Authority area? (OAQ6667)

Jane Hutt: In the past week, all trusts in the Bro Taf area have confirmed that the target for cataract operations that I set for that area will be met. Therefore, by 31 March 2001, no one should have to wait for more than six months.

Jane Hutt: Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, mae pob ymddiriedolaeth o fewn ardal Bro Taf wedi cadarnhau y caiff y targed ar gyfer llawdriniaethau cataract a osodais ar gyfer yr ardal honno ei gyrraedd. Felly, erbyn 31 Mawrth 2001, ni ddylai neb orfod aros mwy na chwe mis.

Owen John Thomas: Yn ôl ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf, mae'r rhestr aros am driniaeth cataract wedi cynyddu ers i Lafur ddod i rym yn y Cynulliad. Mae nifer y bobl sydd yn aros am driniaeth bron wedi treblu ac wedi cynyddu o 219 i 636. Pam?

Owen John Thomas: According to figures published last week, the waiting list for cataract treatment has lengthened since Labour came to power in the Assembly. The number of people waiting for treatment has almost trebled and has risen from 219 to 636. Why?

Jane Hutt: During recent months, there has been a 10 per cent increase in referrals from primary care for cataract operations. The good news today is that, by 31 March 2001, nobody should have to wait for more than six months for a cataract operation. That has been agreed with the trusts and health authorities in the Bro Taf area. The underinvestment that we inherited from the previous Government has impinged on the need of the people of Wales for this important operation. It is good news that the health community in Bro Taf is working together on this. New appointments are being made for consultant surgeons and ophthalmic nurses in all the trusts and trusts are working together. Shared waiting lists are being operated and there will be additional theatre capacity. This is only happening because of the extra £40 million that the Labour Government and the Assembly has approved for extra health service needs in Wales, particularly, in terms of this question, in Bro Taf.

Jane Hutt: Yn ystod y misoedd diwethaf, bu cynnydd o 10 y cant mewn achosion cyfeirio o ofal sylfaenol ar gyfer llawdriniaethau cataract. Y newyddion da heddiw yw na ddylai neb, erbyn 31 Mawrth 2001, fod yn gorfod aros mwy na chwe mis am lawdriniaeth cataract. Cytunwyd ar hynny gyda'r ymddiriedolaethau a'r awdurdodau iechyd yn ardal Bro Taf. Mae'r tanfuddsoddiad a etifeddwyd gennym oddi wrth y Llywodraeth flaenorol wedi gwrthdaro ag angen pobl Cymru am y llawdriniaeth bwysig hon. Mae'r ffaith bod y gymuned iechyd ym Mro Taf yn gweithio ar hyn gyda'i gilydd yn newyddion da. Gwneir penodiadau newydd ar gyfer llawfeddygon ymgynghorol a nyrsys offthalmig ym mhob ymddiriedolaeth ac mae'r ymddiriedolaethau yn gweithio gyda'i gilydd. Mae'r rhestrau aros yn cael eu rhannu a bydd ystafelloedd llawdriniaeth ychwanegol ar gael. Mae hyn ond yn digwydd oherwydd y £40 miliwn ychwanegol a gymeradwywyd gan y Llywodraeth Lafur a'r Cynulliad ar gyfer anghenion gwasanaeth iechyd ychwanegol yng Nghymru, yn arbennig, yn nhermau'r cwestiwn hwn, ym Mro Taf.

Jonathan Morgan: Why have approximately 5,000 people in Wales been waiting for more than 18 months for hospital treatment, while in England, no patient has to wait more than 18 months? What is the Labour Government failing to achieve in Wales? Why are so many people being left untreated?

Jonathan Morgan: Pam bod tua 5,000 o bobl yng Nghymru wedi bod yn aros mwy na 18 mis am driniaeth ysbyty, tra nad oes yn rhaid i unrhyw glaf yn Lloegr aros mwy na 18 mis? Beth mae'r Llywodraeth Lafur yn methu â'i gyflawni yng Nghymru? Pam bod cymaint o bobl yn cael eu gadael heb eu trin?

Jane Hutt: I referred to the underinvestment that we inherited from the previous Government, which has resulted in this situation in Wales. I also mentioned that we have had a huge increase in demand. The NHS in Wales is treating more patients each year. There were 7,000 more elective patients, 7,800 more emergency patients and 5,000 more new outpatients. Unfortunately, we have a sick nation and an increasing elderly population, which has an impact on cataract operations. However, the extra money that we have approved as a result of a Labour budget in Westminster and in the Assembly has resulted in the changes that will improve healthcare in Wales. We will have to make new appointments, improve capacity and have a waiting times strategy, which we will discuss later today.

Jane Hutt: Cyfeiriais at y tanfuddsoddiad a etifeddasom oddi wrth y Llywodraeth flaenorol, sydd wedi arwain at y sefyllfa hon yng Nghymru. Soniais hefyd ein bod wedi gweld cynnydd mawr yn y galw. Mae’r NHS yng Nghymru yn trin mwy o gleifion bob blwyddyn. Yr oedd 7,000 yn fwy o gleifion dewisol, 7,800 yn fwy o gleifion brys a 5,000 yn fwy o gleifion allanol newydd. Yn anffodus, mae gennym genedl sâl a phoblogaeth hŷn sydd yn cynyddu a gaiff effaith ar lawdriniaethau cataract. Fodd bynnag, mae’r arian ychwanegol yr ydym wedi’i gymeradwyo o ganlyniad i gyllideb Lafur yn San Steffan ac yn y Cynulliad wedi arwain at y newidiadau a fydd yn gwella gofal iechyd yng Nghymru. Bydd yn rhaid inni wneud penodiadau newydd, gwella cynhwysedd a chael strategaeth amseyr oedd aros, y byddwn yn ei thrafod yn nes ymlaen heddiw.

Defnyddio’r Fenter Cyllid Preifat i Brynu Cyfarpar mewn Ysbytai
Using the Private Finance Initiative to Purchase Hospital Equipment

C3 Dafydd Wigley: A wnaiff Jane Hutt ddatganiad byr ynghylch defnyddio’r fenter cyllid preifat fel ffordd o godi arian i brynu cyfarpar mewn ysbytai yng Nghymru? (OAQ6737)

Q3 Dafydd Wigley: Will Jane Hutt make a brief statement on the use of PFI as a means of funding the purchase of hospital equipment in Wales? (OAQ6737)

Jane Hutt: The use of PFI to procure equipment is a matter for NHS trusts. It would need to be considered as part of any scheme negotiation on a case by case basis. The inclusion of equipment is consistent with the overall aims of public-private partnership. However, as with all PFI proposals, value for money and affordability remain the key factors.

Jane Hutt: Mae defnyddio’r fenter cyllid preifat i gaffael cyfarpar yn fater i’r ymddiriedolaethau NHS. Byddai angen ei ystyried yn rhan o unrhyw negodi ar gynllun fesul achos. Mae cynnwys cyfarpar yn gyson ag amcanion cyffredinol y bartneriaeth gyhoeddus-preifat. Fodd bynnag, fel gyda phob cynnig menter cyllid preifat, gwerth am arian a fforddiadwyedd yw’r ffactorau allweddol o hyd.

Dafydd Wigley: Oni ddylai fod arweiniad cyson dros Gymru yn hyn o beth? A yw’r Ysgrifennydd yn sylweddoli bod y modd y defnyddir y cynlluniau hyn yn amrywio o ardal i ardal? Yn y Gogledd ac yng Nghaerdydd, mae arian yn cael ei ddarparu’n uniongyrchol ar gyfer offer radiotherapi, tra bod yn rhaid defnyddio’r fenter cyllid preifat yn Abertawe. Yn Lloegr, daw’r arian ar gyfer dibenion o’r math hynny o’r gronfa loteri. Onid oes angen polisi cyson? Gan fod mwy o arian ar gael i’r gwasanaeth iechyd, a allwn symud i ffwrdd oddi wrth ddefnyddio’r fenter

Dafydd Wigley: Should there not be uniform guidance throughout Wales on this matter? Does the Secretary realise that the way that these schemes are used varies from area to area? In the North and in Cardiff, money is provided directly for radiotherapy equipment, while in Swansea PFI has to be used. In England, money for such purposes comes from the lottery fund. Is there not a need for a uniform policy? Given that there is more money available for the health service, can we move away from using PFI?

cyllid preifat?

Jane Hutt: We have a consistent policy. As I explained, it is up to each NHS trust to test the potential of PFI or public-private partnership, particularly for procuring equipment. We will receive £9.75 million from the new opportunities fund—the lottery money to which you referred—to spend on cancer prevention and diagnostic equipment in Wales. The health authorities are negotiating how that money will be spent. You mentioned the Swansea NHS Trust and its equipment. It has a scheme to replace two linear accelerators at a cost of £8 million. The trust is testing the private finance initiative option, with support from a new Treasury team that assists in public-private partnerships. It is important that that is tested, and decisions will be made as a result of that. However, that will not delay replacing the equipment or the equipping of new hospitals, which must be considered along the PFI line.

Jane Hutt: Mae gennym bolisi cyson. Fel yr eglurais, cyfrifoldeb pob ymddiriedolaeth NHS yw profi potensial y fenter cyllid preifat neu bartneriaeth gyhoeddus-preifat, yn arbennig ar gyfer caffael cyfarpar. Byddwn yn cael £9.75 miliwn o'r gronfa cyfleoedd newydd—yr arian loteri y cyfeiriasoch ato—i'w wario ar gyfarpar atal canser ac offer diagnostig yng Nghymru. Mae'r awdurdodau iechyd yn negodi sut y caiff yr arian hwnnw ei wario. Yr ydych wedi sôn am Ymddiriedolaeth NHS Abertawe a'i chyfarpar. Mae ganddi gynllun i brynu dau gyflymydd unionlin yn lle'r hen rai ar gost o £8 miliwn. Mae'r ymddiriedolaeth yn profi opsiwn y fenter cyllid preifat, gyda chefnogaeth gan dîm newydd y Trysorlys sydd yn helpu mewn partneriaethau cyhoeddus-preifat. Mae'n bwysig ei bod yn cael ei phrofi, a chaiff penderfyniadau eu gwneud o ganlyniad i hynny. Fodd bynnag, ni fydd hynny'n achosi oedi gyda'r gwaith o ddarparu cyfarpar newydd neu ddarparu cyfarpar mewn ysbytai newydd, y mae'n rhaid ei ystyried ar hyd trywydd y fenter cyllid preifat.

Peter Black: Does the Secretary for Health and Social Services accept that the Swansea NHS Trust believes that the PFI bid will delay replacing the equipment—equipment that is already out of date—and that it may well find itself in a situation where if one machine breaks down patients will have to be bussed to Bristol and further afield for cancer treatment? Do you not accept that we should try to find proper conventional capital funding for the replacement of that machine?

Peter Black: A yw'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn derbyn bod Ymddiriedolaeth NHS Abertawe o'r farn y bydd cynnig y fenter cyllid preifat yn achosi oedi yn y broses o ddarparu cyfarpar newydd—cyfarpar sydd eisoes yn hen—ac y gall fod mewn sefyllfa lle y bydd yn rhaid cludo cleifion i Fryste ac ymhellach i ffwrdd am driniaeth canser os bydd un peiriant yn torri? Onid ydych yn derbyn y dylem geisio dod o hyd i arian cyfalaf confensiynol i brynu peiriant arall yn lle'r un hwnnw?

Jane Hutt: As you know, Peter, Assembly officials, the Treasury team and the trust are working to meet the needs of this important £8 million prosiect. It is up to the trust to plan for its needs. The trust has known of this need, because of the age of the machines in Swansea, for some time. These needs that have developed over many years. What is important is that the trust's business plan has the backing of Iechyd Morgannwg Health and the Assembly, and that work is ongoing with the Treasury team. We would then have to identify whether the cost of replacing that

Jane Hutt: Fel y gwyddoch, Peter, mae swyddogion y Cynulliad, tîm y Trysorlys a'r ymddiriedolaeth yn gweithio i ddiwallu anghenion y prosiect £8 miliwn pwysig hwn. Cyfrifoldeb yr ymddiriedolaeth yw cynllunio ar gyfer ei hanghenion. Mae'r ymddiriedolaeth yn gwybod am yr angen hwn ers peth amser, oherwydd oedran y peiriannau yn Abertawe. Mae'r anghenion hyn wedi datblygu dros lawer o flynyddoedd. Yr hyn sydd yn bwysig yw bod gan gynllun busnes yr ymddiriedolaeth gefnogaeth Iechyd Morgannwg Health a'r Cynulliad, a bod y

equipment would mean that we would back the cost. However, the PFI route and support from the Treasury may come up with the necessary funds. The needs of the people of Swansea in terms of cancer and of access to the linear accelerators is vital.

gwaith yn mynd rhagddo gyda thîm y Trysorlys. Yna byddai'n rhaid inni nodi a fyddai cost prynu cyfarpar newydd yn lle'r hen gyfarpar yn golygu y byddem yn cefnogi'r gost. Fodd bynnag, efallai y daw'r fenter cyllid preifat a chefnogaeth gan y Trysorlys o hyd i'r arian angenrheidiol. Mae anghenion pobl Abertawe yn nhermau canser a chyfle i fanteisio ar y cyflymyddion unionlin yn holl bwysig.

Rhestrau Aros
Waiting Lists

Q4 David Davies: What is being done to reduce waiting lists in Welsh hospitals? (OAQ6679)

C4 David Davies: Beth sydd yn cael ei wneud i leihau rhestrau aros mewn ysbytai yng Nghymru? (OAQ6679)

Jane Hutt: You know what is being done, David, because I have told you many times in this Chamber. [*Interruption.*] You do not want to listen, David. You do not want to hear. People want to know that the £40 million that we allocated to reduce waiting lists and relieve pressures from winter emergencies is being spent. You know that Gwent Health Authority and the Gwent Healthcare NHS Trust are undertaking radical changes to meet needs. As part of the process, all health authorities have agreed to challenging waiting time targets, most of which are to be met by the end of March 2001. Some also address longer-term difficulties. Performance against these targets is closely monitored, and this afternoon we will discuss a new waiting times strategy, which is also part of the solution.

Jane Hutt: Yr ydych yn gwybod beth sydd yn cael ei wneud, David, gan fy mod wedi dweud wrthych sawl gwaith o'r blaen yn y Siambr hon. [*Torri ar draws.*] Nid ydych am wrando, David. Nid ydych am glywed. Mae pobl am wybod bod y £40 miliwn a ddyrannwyd gennym i leihau rhestrau aros a lleddfu'r pwysau o ganlyniad i argyfyngau'r gaeaf yn cael ei wario. Gwyddoch fod Awdurdod Iechyd Gwent ac Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent yn ymgymryd â newidiadau radical i fodloni'r anghenion. Fel rhan o'r broses, mae pob awdurdod iechyd wedi cytuno ar dargedau amser aros heriol, y mae'n rhaid cyrraedd y rhan fwyaf ohonynt erbyn diwedd Mawrth 2001. Mae rhai hefyd yn mynd i'r afael ag anawsterau tymor hwy. Caiff perfformiad yn erbyn y targedau hyn ei fonitro'n agos, a'r prynhawn yma byddwn yn trafod strategaeth amserau aros newydd, sydd hefyd yn rhan o'r ateb.

David Davies: Will the Secretary agree that waiting lists are far higher in Wales than they ever were under the previous Government, which she was so quick to criticise? Will she also agree that her excuse that it is the fault of the previous Government is sounding increasingly thin after three and a half years of a Labour Government? Is it not time that the Secretary took responsibility for this Government's failure to reduce waiting lists and, if she believes that her policies will reduce waiting lists, will she resign if they continue to rise?

David Davies: A wnaiff yr Ysgrifennydd gytuno bod rhestrau aros yn llawer uwch yng Nghymru nag y buont erioed o dan y Llywodraeth flaenorol, yr oedd mor barod i'w beirniadu? A wnaiff hefyd gytuno bod ei hesgus mai bai'r Llywodraeth flaenorol ydyw yn swnio'n gynyddol dila ar ôl tair blynedd a hanner o Lywodraeth Lafur? Onid yw'n bryd i'r Ysgrifennydd gymryd cyfrifoldeb dros fethiant y Llywodraeth hon i ostwng rhestrau aros ac, os yw o'r farn y bydd ei pholisïau yn gostwng rhestrau aros, a fydd yn ymddiswyddo os byddant yn parhau i godi?

Jane Hutt: You clearly did not listen to the

Jane Hutt: Mae'n amlwg na wrandawsoch ar

point I made in answer to the previous question, when I mentioned the increase in the number of patients being treated, and in health need and demand in Wales. During the last 30 years we have seen an increase of 500,000 in the number of inpatients treated and a 43 per cent increase over the past 10 years. Emergency activity has increased by 18 per cent. That means additional pressure on the service and the need to tackle capacity, employ more doctors and nurses and secure more operating theatres. The money that is coming through will address that. The health authorities and trusts will meet challenging targets. They need your support in that and for you to be aware of the pressure under which they are working.

y pwynt a wneuthum wrth ateb y cwestiwn blaenorol, pan soniais am y cynnydd yn nifer y cleifion sydd yn cael eu trin, ac mewn anghenion iechyd ac yn y galw yng Nghymru. Yn ystod y 30 mlynedd diwethaf yr ydym wedi gweld cynnydd o 500,000 yn nifer y cleifion mewnol a driniwyd, a chynnydd o 43 y cant dros y 10 mlynedd diwethaf. Mae gweithgaredd brys wedi cynyddu 18 y cant. Mae hynny'n golygu pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth a'r angen i fynd i'r afael â chynhwysedd, cyflogi mwy o feddygon a nyrsys a sicrhau mwy o theatrau llawdriniaeth. Bydd yr arian arfaethedig yn mynd i'r afael â hynny. Bydd yr awdurdodau a'r ymddiriedolaethau iechyd yn cwrdd â thargedau heriol. Bydd angen eich cymorth arnynt yn hynny o beth ac mae angen ichi fod yn ymwybodol o'r pwysau y maent yn gweithio oddi tano.

David Lloyd: Un agwedd ar hyn yw'r angen dybryd am ragor o feddygon, yn enwedig o gofio'r cyhoeddiad diweddar fod angen 1,000 o fyfyrwyr meddygol ychwanegol eleni, yn ogystal â'r 1,000 ychwanegol a gyhoeddwyd y llynedd. A gytunwch fod angen dybryd i gryfhau ac ehangu'r cynlluniau ar gyfer yr ysgol a'r campws meddygol arfaethedig yn Abertawe i ddelio â'r angen i gynhyrchu mwy o feddygon?

David Lloyd: One aspect of this is the great need for more doctors, especially in light of the recent announcement that an additional 1,000 medical students are required this year, along with the additional 1,000 announced last year. Do you agree that there is a great need to strengthen and expand the plans for the proposed medical school and campus in Swansea to deal with the need to produce more doctors?

9:20 a.m.

Jane Hutt: Of course I do. Andrew Davies led the debate on the need for medical education, with support from all Members in your patch. As a result of that debate, we moved forward even before we had received the extra money. Two hundred extra medical students will be trained in Wales as a result of decisions made by the Assembly and myself. That is important, as is the 20 per cent increase in nurse training that we have agreed as a result of the budget.

Jane Hutt: Wrth gwrs fy mod. Arweiniodd Andrew Davies y ddadl ar yr angen am addysg feddygol, gyda chefnogaeth gan bob Aelod yn eich ardal chi. O ganlyniad i'r ddadl honno, yr oeddem wedi symud ymlaen hyd yn oed cyn inni dderbyn yr arian ychwanegol. Caiff 200 yn ychwanegol o fyfyrwyr meddygol eu hyfforddi yng Nghymru o ganlyniad i'r penderfyniadau a wnaethpwyd gan y Cynulliad a minnau. Mae hynny'n bwysig, yn ogystal â'r cynnydd o 20 y cant mewn hyfforddiant nyrsys yr ydym wedi cytuno arno o ganlyniad i'r gyllideb.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

Adroddiad ar Gyngor Celfyddydau Cymru
Report on the Arts Council of Wales

C1 Geraint Davies: A wnaiff yr

Q1 Geraint Davies: Will the Secretary for

Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 ddatganiad ar adroddiad Richard Wallace ar Gyngor Celfyddydau Cymru? (OAQ6721)

Post-16 Education and Training make a statement on Richard Wallace's report on the Arts Council of Wales? (OAQ6721)

The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst): I have received Richard Wallace's report on the Arts Council's management systems and structure. It makes several recommendations on restructuring the council, rearranging its finance functions, improving the planning and management of its work, creating greater openness and revising its procedures. The council has considered the Wallace report and welcomed its recommendations, as I do. I met the chair of the council yesterday to discuss the report and to consider what action it needs to take to follow up on the recommendations. As Members know, I have placed copies of the report in the Library and I have made it available on the internet.

Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst): Yr wyf wedi derbyn adroddiad Richard Wallace ar systemau rheoli a strwythur Cyngor y Celfyddydau. Gwna sawl argymhelliad ar ailstrwythuro'r cyngor, ad-drefnu ei swyddogaethau cyllid, gwella'r broses o gynllunio a rheoli ei waith, creu naws fwy agored ac arolygu ei weithdrefnau. Mae'r cyngor wedi ystyried adroddiad Wallace ac wedi croesawu ei argymhellion, fel finnau. Cyfarfûm â chadeirydd y cyngor ddoe i drafod yr adroddiad ac i ystyried pa gamau sydd angen iddo eu cymryd i fynd ar drywydd yr argymhellion. Fel y gŵyr yr Aelodau, yr wyf wedi rhoi copïau o'r adroddiad yn y Llyfrgell ac wedi sicrhau ei fod ar gael ar y rhyngrwyd.

Geraint Davies: Mae adroddiad Richard Wallace yn codi sawl pwynt ynglŷn â diffygion rheolaethol a strwythurol Cyngor y Celfyddydau. Mae'n nodi bod diffyg strategaeth a diffyg gweledigaeth tymor hir. Yn bwysicach, mae'r adroddiad yn nodi diffyg arweinyddiaeth. Ym marn yr Ysgrifennydd, pwy ddylai arwain adnewyddiad Cyngor y Celfyddydau a sicrhau bod y gweddnewidiad yn adennill hyder staff, y cyhoedd a'r gymuned gelfyddydol yn gyffredinol?

Geraint Davies: Richard Wallace's report raises several points about the Arts Council's managerial and structural deficiencies. It notes that there is a lack of strategy and a lack of long-term vision. More importantly, the report notes a lack of leadership. In the Secretary's opinion, who should lead the renewal of the Arts Council and ensure that the transformation regains the confidence of staff, the public and the arts community in general?

Tom Middlehurst: I agree that we must rebuild confidence in the Arts Council's work and restore its credibility. I believe that that objective is shared by the chair of the Arts Council and its many new members. I want to give them every opportunity to address the issues. I am greatly encouraged by and embrace fully the Wallace report and its recommendations. I look to the council to tackle the issues raised vividly in the Wallace report, vigorously and quickly so that it can begin to deliver its essential service and support for the arts community in Wales.

Tom Middlehurst: Cytunaf fod yn rhaid inni ailadeiladu hyder yng ngwaith Cyngor y Celfyddydau ac adfer ei hygrededd. Credaf fod hynny'n nod a rennir gan gadeirydd Cyngor y Celfyddydau a'i nifer o aelodau newydd. Hoffwn roi pob cyfle iddynt ymdrin â'r materion. Yr wyf wedi fy nghalonogi'n fawr gan adroddiad Wallace a'i argymhellion ac yr wyf yn ei gymeradwyo'n llwyr. Edrychaf i'r cyngor i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn amlwg yn adroddiad Wallace, a hynny'n egnïol ac yn gyflym fel y gall ddechrau cyflwyno ei wasanaeth a'i gymorth hanfodol i gymuned y celfyddydau yng Nghymru.

Jonathan Morgan: The arts community in Wales has no confidence in the Arts Council of Wales. Should we consider starting from

Jonathan Morgan: Nid oes gan gymuned y celfyddydau yng Nghymru hyder yng Nghyngor Celfyddydau Cymru. A ddylem

scratch? We need a new arts funding agency to gain the confidence of the arts community, and new senior managers to run that agency. Do you agree that the chairman and the chief executive of the Arts Council should resign immediately? That would enable the Assembly and your colleagues in London to begin to rebuild confidence in the arts community, and provide the future and strategy for the arts that it so richly deserves.

ystyried dechrau ar ddalen lân? Mae angen asiantaeth ariannu'r celfyddydau newydd arnom er mwyn ennyn hyder cymuned y celfyddydau, ac uwch reolwyr newydd i redeg yr asiantaeth honno. A ydych yn cytuno y dylai cadeirydd a phrif weithredwr Cyngor y Celfyddydau ymddiswyddo ar unwaith? Byddai hynny'n galluogi'r Cynulliad a'ch cydweithwyr yn Llundain i ddechrau ailadeiladu hyder yng nghymuned y celfyddydau a darparu'r dyfodol a'r strategaeth ar gyfer y celfyddydau y mae'n eu llawn haeddu.

Tom Middlehurst: I acknowledge—and Wallace finds—that there is a lack of confidence in the Arts Council. That cannot be denied. However, the chair of the Arts Council is relatively new to the post, and had begun to tackle some of those issues prior to the Wallace report and welcomes it. We have an obligation to give the chair of the Arts Council and the Arts Council itself, which has readily embraced this report, an opportunity to put matters right. I am confident that it will tackle this issue with vigour and that we will see a reinvented, revitalised Arts Council.

Tom Middlehurst: Yr wyf yn cydnabod—ac mae Wallace yn canfod—bod diffyg hyder yng Nghyngor y Celfyddydau. Ni ellir gwadu hynny. Fodd bynnag, mae cadeirydd Cyngor y Celfyddydau yn gymharol newydd i'w swydd, ac wedi dechrau mynd i'r afael â rhai o'r materion hynny cyn adroddiad Wallace ac yn ei groesawu. Mae dyletswydd arnom i roi i gadeirydd Cyngor y Celfyddydau ac i Gyngor y Celfyddydau ei hun, sydd wedi cymeradwyo'r adroddiad hwn yn frwd, gyfle i unioni pethau. Yr wyf yn hyderus y bydd yn mynd i'r afael â'r mater hwn gyda brwdfrydedd ac y byddwn yn gweld Cyngor y Celfyddydau ar ei newydd wedd ac yn llawn bywyd.

Whatever you call it, Jonathan, we need an arm's length organisation to deliver arts policy in Wales. It should be divorced from the political process but take a clear lead from the policy directives that we give. As you know, the Post-16 Education and Training Committee is engaged in a major review of arts and cultural policy in Wales. That will give us the opportunity to provide the Arts Council of Wales with a clear direction.

Beth bynnag y byddwch yn ei alw, Jonathan, mae angen sefydliad hyd braich arnom i gyflwyno polisi celfyddydau yng Nghymru. Dylid ei wahanu oddi wrth y broses wleidyddol ond dylai gymryd arweiniad clir o'r cyfarwyddebau polisi a roddwn. Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 wrthi'n ymgymryd ag arolwg mawr o bolisi celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru. Bydd hynny yn rhoi'r cyfle inni roi cyfarwyddyd clir i Gyngor Celfyddydau Cymru.

Asesiad o Dlodi ymysg Myfyrwyr
Assessment of Student Poverty

Q2 Mick Bates: Following this year's round of applications to universities, does Tom Middlehurst have any plans to undertake an assessment of student poverty? (OAQ6687)

C2 Mick Bates: Yn dilyn cylch ceisiadau prifysgolion y flwyddyn hon, a oes gan Tom Middlehurst unrhyw gynlluniau i ymgymryd ag asesiad o dlodi ymysg myfyrwyr?

Tom Middlehurst: As I have stated on many occasions in this Chamber, responsibility for student support rests with the Department for

Tom Middlehurst: Fel yr wyf wedi nodi ar sawl achlysur yn y Siambr hon, yr Adran Addysg a Chyflogaeth sydd â'r cyfrifoldeb

Education and Employment. That function has not been devolved to the National Assembly for Wales. It is a matter for DfEE to monitor the impact of the Government's student support policies and introduce any necessary measures in the light of DfEE's findings.

dros gymorth i fyfyrwyr. Nid yw'r swyddogaeth honno wedi'i datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'n fater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth fonitro effaith polisïau cymorth myfyrwyr y Llywodraeth a chyflwyno unrhyw fesurau angenrheidiol yng ngoleuni canfyddiadau'r Adran Addysg a Chyflogaeth.

As you know, the Committee for Post-16 Education and Training resolved to undertake a thoroughgoing review of higher education in Wales. I am sure that student support will form a part of that review, which will start next month.

Fel y gwyddoch, mae'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 wedi addo ymgymryd ag arolwg trylwyr a pharhaus o addysg uwch yng Nghymru. Yr wyf yn siŵr y bydd cymorth i fyfyrwyr yn ffurfio rhan o'r arolwg hwnnw, a fydd yn dechrau fis nesaf.

Mick Bates: The forthcoming higher education review must consider ways of tackling student financial hardship. Do you agree that the UK Government—the majority of its representatives being university graduates, who reaped the benefits of full grants—is pulling up a drawbridge behind it, depriving the poorest students of the chance of a university education?

Mick Bates: Rhaid i'r arolwg arfaethedig o addysg uwch ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â chaledi myfyrwyr. A ydych yn cytuno bod Llywodraeth y DU—gyda'r mwyafrif o'i chynrychiolwyr yn raddedigion prifysgol, sydd wedi elwa ar fanteision grantiau llawn—yn chwalu'r bont ar ei hôl, gan atal y myfyrwyr tlotaf rhag cael y cyfle i fanteisio ar addysg prifysgol?

Tom Middlehurst: I do not agree with that. David Blunkett has introduced many measures to assist students from socially disadvantaged backgrounds and to encourage mature students to re-enter higher education—I hear mutterings that that does not work. Student numbers have increased again by one per cent on this time last year. That encourages me. There is evidence in Wales, in particular, that we are doing relatively well to attract people from socially disadvantaged backgrounds into higher education.

Tom Middlehurst: Ni chytunaf â hynny. Mae David Blunkett wedi cyflwyno sawl mesur i gynorthwyo myfyrwyr o gefndiyr oedd sydd o dan anfantais yn gymdeithasol ac i annog myfyrwyr hŷn i ddychwelyd at addysg uwch—clywaf sibrydion nad yw hynny'n gweithio. Mae nifeyr oedd myfyrwyr wedi cynyddu eto un y cant o gymharu â'r adeg hon y llynedd. Mae hynny'n fy nghalonogi. Mae tystiolaeth yng Nghymru, yn arbennig, ein bod yn llwyddo'n gymharol dda i ddenu pobl o gefndiyr oedd sydd o dan anfantais cymdeithasol i addysg uwch.

I acknowledge that one of the problems is that mature students are not returning to higher education in the number that we would have liked, which is why David Blunkett is targeting measures to attract mature students into higher education.

Cydnabyddaf mai un o'r problemau yw nad oes cymaint o fyfyrwyr hŷn ag y byddem yn dymuno yn dychwelyd i addysg uwch, a dyna pam y mae David Blunkett yn targedu mesurau i ddenu myfyrwyr hŷn i addysg uwch.

Jocelyn Davies: Further to your point on students from socially disadvantaged backgrounds, why have you changed the name of 'access funds' to 'hardship funds'?

Jocelyn Davies: Yn dilyn eich pwynt ynglŷn â myfyrwyr o gefndiyr oedd sydd o dan anfantais cymdeithasol, pam ydych wedi newid enw'r 'cronfeydd mynediad' i 'gronfeydd caledi'?

Tom Middlehurst: I have not changed that

Tom Middlehurst: Nid y fi a newidiodd yr

name. That is a matter for DfEE. The use of the fund is more important than its name. I encourage universities to make maximum use of those funds to ensure that students gain maximum advantages from the significant funds that are available to universities to aid students.

enw hwnnw. Mater i'r DfEE ydyw. Mae'r defnydd o'r gronfa yn bwysicach na'i henw. Yr wyf yn annog prifysgolion i wneud y defnydd mwyaf posibl o'r cronfeydd hynny er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y manteision gorau posibl o'r cronfeydd sylweddol sydd ar gael i brifysgolion i gynorthwyo myfyrwyr.

John Griffiths: Do you share my concern that students from working class backgrounds are less keen to get into debt for cultural reasons? There is an issue of cultural background; for example, people growing up in middle class families are used to their parents having big overdrafts, mortgages and loans. Culturally, that would be considered as an everyday occurrence, but that is not the case in many working class families where there is an overhang of past stigma relating to debt—you pay your way and you do not subject yourself to having to make repayments in the future. That should be considered and—

John Griffiths: A ydych yn rhannu fy mhryder bod myfyrwyr o gefndir dosbarth gweithiol yn llai awyddus i fynd i ddyled am resymau diwylliannol? Mae yna fater o gefndir diwylliannol; er enghraifft, mae pobl sydd yn cael eu magu mewn teuluoedd dosbarth canol wedi arfer â'u rhieni'n cael gorddrafftau, morgeisi a benthyciadau mawr. Yn ddiwylliannol, byddai hynny'n cael ei ystyried fel rhywbeth sydd yn digwydd o ddydd i ddydd, ond nid dyna'r achos mewn llawer o deuluoedd dosbarth gweithiol lle mae stigma'r gorffennol yn ymwneud â dyled yn parhau—yr ydych yn talu eich ffordd ac nid ydych yn gorfodi eich hun i orfod gwneud ad-daliadau yn y dyfodol. Dylid ystyried hynny a—

The Presiding Officer: Order. That should have been a question, not a speech. I called you on the cusp of the time and I insist that we observe the three-minute time limit for questions. I want crisp questions and answers so that we can get through the business.

Y Llywydd: Trefn. Cwestiwn ddylai hwnnw fod wedi bod, nid araith. Fe'ch gelwais ar flaen yr amser a mynnaf ein bod yn parchu'r terfyn amser o dri munud ar gyfer cwestiynau. Yr wyf am gael cwestiynau ac atebion sionc fel y gallwn gyflawni'r busnes.

Tom Middlehurst: I want to encourage maximum participation in higher education of socially disadvantaged individuals. There is clear evidence in Wales that we are succeeding. The average percentage of higher education entrants from state schools and colleges in Wales is 88 per cent against the UK average of 82 per cent. It is also true that the average percentage of individuals from unskilled backgrounds who enter higher education is higher in Wales. We are succeeding with that and I pay tribute to the higher education institutions which are pursuing the Assembly's objectives to provide all of the people of Wales with opportunities, not only those who would not have entered higher education traditionally.

Tom Middlehurst: Yr wyf am annog cymaint o unigolion o dan anfantais cymdeithasol â phosibl i gymryd rhan mewn addysg uwch. Mae tystiolaeth glir yng Nghymru ein bod yn llwyddo. Mae'r ganran o bobl sydd yn dewis addysg uwch o ysgolion y wladwriaeth a cholegau yng Nghymru yn 88 y cant ar gyfartaledd yn erbyn cyfartaledd y DU o 82 y cant. Mae hefyd yn wir bod canran yr unigolion o gefndiyr oedd di-grefft ar gyfartaledd sydd yn dewis addysg uwch yn uwch yng Nghymru. Yr ydym yn llwyddo yn hynny o beth a thalaf deyrnged i'r sefydliadau addysg uwch sydd yn mynd ar drywydd amcanion y Cynulliad i ddarparu cyfleoedd i holl bobl Cymru, nid dim ond y rheini na fyddent wedi dewis addysg uwch yn draddodiadol.

9:30 a.m.

Trafodaethau â Chwmïau Preswyl Canolfan Mileniwm Cymru
Discussions with the Wales Millennium Centre's Resident Companies

Q3 Janet Davies: What discussions has Tom Middlehurst had with representatives of the resident companies of the Wales Millennium Centre in the last two months? (OAQ6727)

C3 Janet Davies: Pa drafodaethau y mae Tom Middlehurst wedi'u cael â chynrychiolwyr o gwmnïau preswyl Canolfan Mileniwm Cymru yn y deufis diwethaf? (OAQ6727)

Tom Middlehurst: I have had no discussions recently with the potential resident companies of the Wales Millennium Centre.

Tom Middlehurst: Ni chefais unrhyw drafodaethau yn ddiweddar â darpar gwmnïau preswyl Canolfan Mileniwm Cymru.

Janet Davies: That is unfortunate because, as you must be aware, putting a cost ceiling of £75 million on the centre is generating considerable doubts and insecurity, not only among the resident companies, but also among the wider public. Have you taken any steps to examine in detail and to balance all the wider costs and implications of the possible loss of the centre if this ceiling is maintained, bearing in mind that the loss of such a world-class venue could be more costly to the public purse and to local businesses in the long run?

Janet Davies: Mae hynny'n anffodus oherwydd, fel y gwyddoch mae'n siŵr, mae rhoi uchafswm cost o £75 miliwn ar y ganolfan yn creu cryn amheuon ac ansicrwydd, nid yn unig ymhlith y cwmnïau preswyl, ond hefyd ymysg y cyhoedd yn gyffredinol. A ydych wedi cymryd unrhyw gamau i archwilio'n fanwl ac i gydbwyso holl gostau a goblygiadau ehangach y posibilrwydd o golli'r ganolfan pe cedwir yr uchafswm hwn, o gofio y gallai colli lleoliad o'r radd flaenaf fel hwn fod yn fwy costus i'r pwrs cyhoeddus ac i fusnesau lleol yn yr hir dymor?

Tom Middlehurst: I believe that this is a worthy prosiect. It is ambitious and has a unique design concept for a range of important national arts and cultural institutions in Wales. This is not a prosiect that is sponsored by the National Assembly; it is a privately sponsored prosiect that gained the support of publicly funded bodies. On the basis of a submission by the Wales Millennium Centre's board, which was originally a figure of £70.2 million, the prosiect gained the support of the Arts Council for Wales, the Millennium Commission and the National Assembly.

Tom Middlehurst: Credaf fod hwn yn brosiect gwerth chweil. Mae'n uchelgeisiol ac mae ei ddyluniad yn gysyniad unigryw i ystod o sefydliadau celfyddydol a diwylliannol cenedlaethol pwysig yng Nghymru. Nid yw hwn yn brosiect a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol; mae'n brosiect a noddir yn breifat sydd wedi ennyn cefnogaeth cyrff cyhoeddus. Ar sail cyflwyniad gan fwrdd Canolfan Mileniwm Cymru, a oedd yn ffigur o £70.2 miliwn yn wreiddiol, enillodd y prosiect gefnogaeth Cyngor Celfyddydau Cymru, Comisiwn y Mileniwm a'r Cynulliad Cenedlaethol.

That did not prove to be a robust cost profile for that prosiect. It was extended to £75 million, with our agreement. Our commitment to the prosiect remains. Not one penny of National Assembly money has yet been spent on that prosiect because I await the outcome of current deliberations by the Wales Millennium Centre concerning the production of a robust and reliable cost profile to ensure that that prosiect comes in within the £75 million ceiling.

Ni phrofodd hynny yn broffil cost cadarn ar gyfer y prosiect hwnnw. Fe'i hestynnwyd i £75 miliwn, gyda'n cytundeb ni. Erys ein hymrwymiad i'r prosiect. Nid oes yr un geiniog o arian y Cynulliad Cenedlaethol wedi'i wario ar y prosiect hwnnw hyd yma gan fy mod yn aros am ganlyniad trafodaethau cyfredol gan Ganolfan Mileniwm Cymru ynghylch cynhyrchu proffil cost cadarn a dibynadwy i sicrhau bod y prosiect hwnnw yn dod o fewn yr

uchafswm o £75 miliwn.

It is important that that centre is fit for its purpose. The first consideration is the users of that centre. The second consideration is the quality of the building. I believe that the building is an important statement and it is important that it should be a quality building in Cardiff Bay. However, we cannot underwrite an open-ended commitment to the costs of a prosiect that has not yet been robustly presented to us in an acceptable way.

Mae'n bwysig bod y ganolfan honno yn addas at y pwrpas. Yr ystyriaeth gyntaf yw defnyddwyr y ganolfan honno. Yr ail ystyriaeth yw ansawdd yr adeilad. Credaf fod yr adeilad yn ddatganiad pwysig ac mae'n bwysig iddo fod yn adeilad o ansawdd ym Mae Caerdydd. Fodd bynnag, ni allwn warantu ymrwymiad pen agored i gostau prosiect nad yw hyd yma wedi'i gyflwyno'n gadarn inni mewn modd derbyniol.

Jenny Randerson: In view of the financial crisis that is hitting this organisation, I am disappointed to hear that you have not met the users in recent months. Considering the yawning gap at the head of arts strategy in Wales, as indicated in the Wallace Report, is it not time that you took a more hands-on approach to arts funding in Wales, which is rapidly reaching a crisis point?

Jenny Randerson: O gofio'r argyfwng ariannol y mae'r sefydliad hwn yn ei wynebu, yr wyf yn siomedig o glywed nad ydych wedi cwrdd â'r defnyddwyr dros y misoedd diwethaf. O ystyried y bwlch anferth ar frig strategaeth y celfyddydau yng Nghymru, fel y nodir yn Adroddiad Wallace, onid yw'n bryd ichi gymryd mwy o ymagwedd ymarferol tuag at ariannu'r celfyddydau yng Nghymru, sydd yn prysur gyrraedd argyfwng?

Tom Middlehurst: On the first point, it is for the Wales Millennium Centre to consult and discuss the issues of concern with the potential residents of that centre. That is their responsibility, not ours. I am sure that they have done so; the resident companies are aware of the issues. Perhaps that is why the resident companies have not sought any meetings with me.

Tom Middlehurst: Ar y pwynt cyntaf, cyfrifoldeb Canolfan Mileniwm Cymru yw ymgynghori a thrafod materion o bryder â darpar breswylwyr y ganolfan honno. Eu cyfrifoldeb hwy yw hynny, nid ein cyfrifoldeb ni. Yr wyf yn sicr eu bod wedi gwneud hynny; mae'r cwmnïau preswyl yn ymwybodol o'r materion. Efallai mai dyna pam nad yw'r cwmnïau preswyl wedi gofyn am gyfarfod â mi.

This remains a worthy prosiect, which I want to see succeed. However, we cannot underwrite an open-ended financial commitment, in view of the current situation in the Wales Millennium Centre's board.

Erys hwn yn brosiect gwerth chweil yr wyf yn awyddus i'w weld yn llwyddo. Fodd bynnag, ni allwn warantu ymrwymiad ariannol pen agored, o gofio'r sefyllfa gyfredol ar fwrdd Canolfan Mileniwm Cymru.

Cwestiwn Brys
Urgent Question

Cymhwyso Mynegrif Amddifadedd Lluosog Cymru
Applying the Welsh Index of Multiple Deprivation

The Presiding Officer: I have allowed a question of urgent public importance, jointly submitted by Christine Gwyther and Richard Edwards, to be asked to the First Secretary.

Y Llywydd: Yr wyf wedi caniatau cwestiwn sydd yn fater brys o ran pwysigrwydd cyhoeddus, wedi'i gyflwyno ar y cyd gan Christine Gwyther a Richard Edwards, i'w ofyn i'r Prif Ysgrifennydd.

Richard Edwards: Can the Government of Wales give an assurance that the method of application of the Welsh index of multiple deprivation will be reviewed in order to eliminate anomalies and inconsistencies, particularly in Pembrokeshire, where the statistical application of the index of deprivation has meant that only 8 per cent of the population will qualify for assistance under priority 3, compared with 30 per cent across the Objective 1 area? (EAQ6764)

Richard Edwards: A all Llywodraeth Cymru roi sicrwydd yr adolygir y dull o gymhwyso mynegrif amddifadedd lluosog Cymru er mwyn dileu'r anghysondebau, yn arbennig yn Sir Benfro, lle mae'r dull ystadegol o gymhwyso'r mynegrif amddifadedd wedi golygu mai dim ond 8 y cant o'r boblogaeth fydd yn gymwys i gael cymorth o dan flaenoriath 3, o'i gymharu â 30 y cant ar draws ardal Amcan 1? (EAQ6764)

The First Secretary (Rhodri Morgan): The Programme Monitoring Committee took this decision on Monday at its meeting in Machynlleth. We in the Assembly must consider carefully the relationship between the Programme Monitoring Committee and the Assembly. It is widely understood, here and in Europe, that it is not the Assembly that runs the European programmes in Wales, but the Programme Monitoring Committee. That is a partnership body, based on one third public sector, one third private sector and one third voluntary sector. The Assembly does not have the power to override the Programme Monitoring Committee's decisions. The committee took its decision based on the objective figures as they came out. I have every sympathy with people in Pembrokeshire, including the Assembly Members who represent the area. I would even share their view that perhaps the figures that emerged were surprising—I think that counterintuitive is the technical term for it. However, I do not think that anyone has challenged the validity of the figures. They are the figures and, unless they are wrong, we are in some difficulty if they come out that way. The Programme Monitoring Committee did not accept the suggestion of forming a working party in case there were delays.

Y Prif Ysgrifennydd (Rhodri Morgan): Cymerodd y Pwyllgor Monitro Rhaglen y penderfyniad hwn ddydd Llun yn ei gyfarfod ym Machynlleth. Rhaid i ni yn y Cynulliad ystyried yn ofalus y berthynas rhwng y Pwyllgor Monitro Rhaglen a'r Cynulliad. Y ddealltwriaeth gyffredinol, yma ac yn Ewrop, yw nad y Cynulliad sydd yn rhedeg y rhaglenni Ewropeaidd yng Nghymru, ond y Pwyllgor Monitro Rhaglen. Corff ar ffurf partneriaeth yw hwnnw, yn seiliedig ar draean o'r sector cyhoeddus, traean o'r sector preifat a thraean o'r sector gwirfoddol. Nid oes gan y Cynulliad y pŵer i wyrdroi penderfyniadau'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Cymerodd y pwyllgor ei benderfyniad ar sail y ffigurau gwrthrychol wrth iddynt ymddangos. Mae gennyf bob cydymdeimlad â phobl Sir Benfro, gan gynnwys Aelodau'r Cynulliad sydd yn cynrychioli'r ardal. Byddwn hyd yn oed yn rhannu eu barn bod y ffigurau a ddaeth i'r amlwg yn annisgwyl—credaf mai gwrthreddfol yw'r term technegol amdano. Fodd bynnag, nid wyf o'r farn bod unrhyw un wedi herio dilysrwydd y ffigurau. Dyna'r ffigurau ac, oni bai eu bod yn anghywir, yr ydym yn wynebu cryn anhawster os dyna'r ffordd y dônt allan. Ni dderbyniodd y Pwyllgor Monitro Rhaglen yr awgrym o ffurfio gweithgor rhag ofn y byddai oedi.

We should also be aware that there are two spatially targeted aspects to Objective 1. Pembrokeshire comes out well from the spatially targeted priority 5. Priority 3 is also spatially targeted, but it only represents 6.5 per cent of the total programme value. Surprisingly, Pembrokeshire does not come out well from priority 3. However, that is what the figures show and I cannot change them. Those are the figures that have

Dylem hefyd fod yn ymwybodol bod dwy agwedd wedi'u targedu'n ofodol ar Amcan 1. Mae canlyniadau blaenoriaeth 5, sydd wedi'i thargedu'n ofodol, yn dda i Sir Benfro. Mae blaenoriaeth 3 hefyd wedi'i thargedu'n ofodol, ond dim ond 6.5 y cant o gyfanswm gwerth y rhaglen ydyw. Yn groes i'r digwyl, nid yw blaenoriaeth 3 yn arwain at ganlyniadau da i Sir Benfro. Fodd bynnag, dyna a ddengys y ffigurau ac ni allaf eu

emerged from the index of multiple deprivation. I suggested forming a working party, but there was no support around the table for that because people were anxious to proceed with priority 3 without delay.

newid. Dyna'r ffigurau sydd wedi deillio o'r mynegrif o amddifadedd lluosog. Awgrymais ffurfio gweithgor, ond nid oedd cefnogaeth o amgylch y bwrdd i hynny gan fod pobl yn awyddus i fynd ymlaen â blaenoriaeth 3 yn ddi-oed.

Richard Edwards: Milford Haven in my constituency, which, by any sane reckoning, is a community right for regeneration, is excluded from the Pembrokeshire threshold, which is pitifully low for priority 3 Objective 1 funding. Priority 3 is specifically designed to help regenerate communities and it attracts up to 70 per cent in grants, which is far higher than any other priority, including priority 5. Anyone with an iota of common sense who has been to Milford Haven knows that this is a deprived community to rank with the most deprived communities in Wales, no matter what any clever statistician may claim. It is a community very much on the periphery and is at the end of the line. It feels that it has lost out and that no one cares. It has lost confidence. As the local Assembly Member, I have invested a lot of time, effort and resource in setting up a steering group that represents all interests in the community to ensure that, as far as possible, Milford Haven benefits from the opportunities presented by Objective 1, not least from community regeneration. There is a natural scepticism, borne of decades of disappointment and disillusionment, that Milford Haven will lose out again. And, lo and behold, it will lose out as far as priority 3 is concerned. The people of Milford Haven feel betrayed and I feel undermined.

Richard Edwards: Mae Aberdaugleddau yn fy etholaeth i, sydd, yn ôl unrhyw resymeg gall, yn gymuned sydd yn addas ar gyfer ei hadfywio, wedi'i heithrio o drothwy Sir Benfro, sydd yn druenus o isel ar gyfer arian Amcan 1 blaenoriaeth 3. Mae blaenoriaeth 3 wedi'i chynllunio'n arbennig i helpu i adfywio cymunedau ac mae'n denu hyd at 70 y cant mewn grantiau, sydd yn llawer uwch nag unrhyw flaenoriaeth arall, gan gynnwys blaenoriaeth 5. Mae unrhyw un gydag arlliw o synnwyr cyffredin sydd wedi bod yn Aberdaugleddau yn gwybod bod hon yn gymuned sydd wedi'i hamddifadu sydd yn cymharu â'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, beth bynnag a honnir gan unrhyw ystadegydd clyfar. Mae'n gymuned sydd ar yr ymylon i bob pwrpas ac ar ddiwedd y llinell. Mae'n teimlo ei bod ar ei cholled ac nad oes neb yn malio. Mae wedi colli ei hyder. Fel yr Aelod lleol o'r Cynulliad, yr wyf wedi ymroi llawer o amser, ymdrech ac adnoddau yn sefydlu grŵp llywio sydd yn cynrychioli pob diddordeb yn y gymuned er mwyn sicrhau, cyn belled â phosibl, bod Aberdaugleddau yn elwa ar y cyfleoedd a gyflwynir gan Amcan 1, ac o adfywio'r gymuned yn anad dim. Mae sgeptigaeth naturiol sydd yn deillio o ddegawdau o siom a dadrithiad, y bydd Aberdaugleddau yn colli allan unwaith eto. A, rhyfeddod o ryfeddodau, bydd are ei cholled o ran blaenoriaeth 3. Mae pobl Aberdaugleddau yn teimlo iddynt gael eu bradychu a theimlaf fy mod wedi fy nhanseilio.

As someone who has visited Milford Haven on numerous occasions and knows the area well, do you agree, First Secretary, that this seems pretty unsatisfactory? I heard your earlier comments. However, are you not troubled by the apparent democratic deficit in the application of the index of multiple deprivation, the lack of accountability between the Welsh European Funding Office and Assembly Members, constricted timescales—with local partnerships having

A chithau wedi ymweld ag Aberdaugleddau ar sawl achlysur ac yn adnabod yr ardal yn dda, onid ydych yn cytuno, Brif Ysgrifennydd, fod hyn yn eithaf anfoddhaol? Clywais eich sylwadau cynharach. Fodd bynnag, onid yw'r diffyg democrataidd amlwg o ran cymhwyso'r mynegrif amddifadedd lluosog, y diffyg atebolrwydd rhwng Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ac Aelodau'r Cynulliad, terfynau amser cyfyng—gyda phartneriaethau lleol yn cael

difficulty in digesting information and comment—and the lack of transparency surrounding the methodology between the index of multiple deprivation and the ranking system?

anhawster i ddeall gwybodaeth a chyflwyno sylwadau—a diffyg tryloywder o ran y fethodoleg rhwng y mynegrif amddifadedd lluosog a'r system flaenoriaeth yn destun gofid ichi?

The First Secretary: Although we can all wish that the figures were different, we cannot change them. Once you decide to commit yourself to an objective measure, namely the index of multiple deprivation, the figures that emerge will surprise you here and there. I was as surprised as Richard by how the figures came out. However, that is what the figures are and I cannot change them. If Richard is suggesting that the figures are wrong or that the application has not been done correctly, that is a matter for officers involved in the local partnerships in Pembrokeshire to take up with people involved in the index of multiple deprivation, either here or in Oxford, where it was drawn up. However, you cannot say that you do not like the figures, neither as an Assembly Member nor as a member of the Programme Monitoring Committee. I cannot change the figures. I am not sure what Richard is asking me to do. The index of multiple deprivation has been carried out professionally, as far as we know. It is a matter for statisticians to argue about if that is not so.

Y Prif Ysgrifennydd: Er y gall pawb ohonom ddymuno i'r ffigurau fod yn wahanol, ni allwn eu newid. Unwaith y byddwch yn penderfynu ymrwymo hun i fesur gwrthrychol, sef y mynegrif amddifadedd lluosog, bydd y ffigurau sydd yn dod i'r amlwg yn eich synnu yma ac acw. Yr oeddwn wedi fy synnu cymaint â Richard gyda'r canlyniad o ran y ffigurau. Fodd bynnag, dyna'r ffigurau ac ni allaf eu newid. Os yw Richard yn awgrymu bod y ffigurau yn anghywir neu nad yw'r cymhwysiad wedi ei wneud yn gywir, mater i'r swyddogion dan sylw yn y partneriaethau lleol yn Sir Benfro yw codi hynny gyda'r bobl sydd yn ymwneud â'r mynegrif naill ai yma neu yn Rhydychen, lle y cafodd ei lunio. Fodd bynnag, ni allwch ddweud nad ydych yn hoffi'r ffigurau, naill ai fel Aelod o'r Cynulliad nac fel aelod o'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Ni allaf newid y ffigurau. Nid wyf yn siŵr beth mae Richard yn gofyn imi ei wneud. Ymgymerwyd â'r mynegrif amddifadedd lluosog yn broffesiynol, cyhyd ag y gwyddom. Mater i ystadegwyr ddadlau yn ei gylch ydyw os nad yw hynny'n wir.

On the wider issue of the democratic deficit, Richard must remember my earlier point. We would not have Objective 1 now had we said that it could be run by an Assembly Committee, where each Assembly Member could put his hand up and say, 'I want that programme there and that town or village included'. It does not work like that. The Commission would not allow us to have Objective 1 on that basis. Objective 1 is not run by assemblies or parliaments in any part of Europe. It is run by partnership bodies that are comprised of one-third representation from the private, public and voluntary sectors. We have had to abide by that rule. That is why the Programme Monitoring Committee took the decision. It did not accept the suggestion of forming a working group to look at this because it wanted to proceed. There was no support for having a working group. I am happy to entertain any detailed suggestions as to how the index of

Ar y mater mwy cyffredinol o ddiffyg democrataidd, rhaid i Richard gofio fy mhwynt cynharach. Ni fyddai Amcan 1 gennym yn awr pe baem wedi dweud y gallai un o Bwyllgorau'r Cynulliad ei redeg, lle gallai pob Aelod o'r Cynulliad godi ei law a dweud, 'Yr wyf am gael y rhaglen hon yno ac yr wyf am i'r dref neu'r pentref hwn gael ei gynnwys'. Nid yw'n gweithio felly. Ni fyddai'r Comisiwn yn caniatáu inni gael Amcan 1 ar y sail hwnnw. Nid yw Amcan 1 yn cael ei redeg gan gynulliadau na seneddau mewn unrhyw ran o Ewrop. Caiff ei redeg gan gyrff partneriaeth sydd yn cynnwys traean o gynrychiolaeth o'r sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol. Yr ydym wedi gorfod parchu'r rheol honno. Dyna pam y cymerodd y Pwyllgor Monitro Rhaglen y penderfyniad. Nid oedd yn derbyn yr awgrym o ffurfio gweithgor i edrych ar hyn gan ei fod am fynd yn ei flaen. Nid oedd unrhyw gefnogaeth i'r syniad o sefydlu gweithgor. Yr

multiple deprivation might have come out wrongly for Pembrokeshire. I find the statistics as surprising as Richard does but I cannot change figures simply because they are surprising or politically inconvenient.

wyf yn fwy na pharod i ystyried unrhyw awgrymiadau manwl ynghylch sut y gallai'r mynegrif amddifadedd lluosog fod wedi cael y canlyniadau anghywir i Sir Benfro. Yr wyf wedi fy synnu gymaint â Richard gyda'r ystadegau ond ni allaf newid y ffigurau ar y sail eu bod wedi peri syndod neu'n wleidyddol anghyfleus.

9:40 a.m.

Christine Gwyther: We must discuss this in public and address the democratic deficit. I support Richard on that. I ask your opinion on the issue of peripherality. We know that statistics and the application of statistics need a common-sense approach. The three criteria that we used in the index of multiple deprivation were access to a general practitioner's surgery, a food shop and a post office. That seems reasonable and most people were happy to accept that. However, given the way that things have shaken out, it appears that the truly peripheral villages and communities that have had to develop those services because they are not sufficiently close to a town, have lost out. That has happened in Pembrokeshire and in parts of Carmarthenshire. I have spoken to both partnerships. In Carmarthenshire, because its overall threshold is large enough, it can be innovative, creative and help the rural parts. I wish it good luck in that, and I have been supportive. In Pembrokeshire, the threshold is so terribly low that it cannot do anything and it is hog-tied. I ask you, as a member of the Programme Monitoring Committee, as well as Phil Williams, who is also a member, if the Committee would consider at its next meeting allowing retrospection for those prosiects which will not be supportable under the current conditions but which could be once we have this problem sorted out.

Christine Gwyther: Rhaid inni drafod hyn yn gyhoeddus ac ymdrin â'r diffyg democrataidd. Yr wyf yn cefnogi Richard ar hynny. Gofynnaf eich barn ar y mater o ymyloldeb. Gwyddom fod angen ymagwedd o synnwyr cyffredin tuag at ystadegau a chymhwyso ystadegau. Y tri maen prawf a ddefnyddiwyd gennym yn y mynegrif amddifadedd lluosog oedd mynediad i feddygfa meddyg teulu, siop fwyd a swyddfa'r post. Mae hynny'n ymddangos yn rhesymol ac yr oedd y rhan fwyaf o bobl yn fodlon derbyn hynny. Fodd bynnag, o gofio'r canlyniad, ymddengys fod y pentrefi a'r cymunedau gwirioneddol ymylol sydd wedi gorfod datblygu'r gwasanaethau hynny gan nad ydynt yn ddigon agos i dref, ar eu colled. Mae hynny wedi digwydd yn Sir Benfro ac mewn rhannau o Sir Gaerfyrddin. Yr wyf wedi siarad â'r ddwy bartneriaeth. Yn Sir Gaerfyrddin, gan fod ei throthwy cyffredinol yn ddigon mawr, gall fod yn ddyfeisgar, yn greadigol a helpu'r rhannau gwledig. Dymunaf bob lwc iddi yn hynny o beth, ac yr wyf wedi bod yn gefnogol iddi. Yn Sir Benfro, mae'r terfyn mor ofnadwy o isel fel na all wneud dim ac mae wedi'i glymu. Gofynnaf i chi, fel aelod o'r Pwyllgor Monitro Rhaglen, yn ogystal â Phil Williams, sydd hefyd yn aelod, a fyddai'r Pwyllgor yn fodlon ystyried yn ei gyfarfod nesaf caniatáu ôl-weithrediad ar gyfer y prosiectau hynny na allant gael eu cynnal o dan amodau cyfredol ond a allai gael eu cynnal wedi inni ddatrys y broblem hon.

The First Secretary: I do not determine the agenda of the Programme Monitoring Committee. If errors were found in the application of the index of multiple deprivation, which would be a matter to be dealt with by civil servants and officials rather than politicians, there would be retrospection. I would be surprised if that

Y Prif Ysgrifennydd: Ni phenderfynaf agenda'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Petai gwallau yn dod i'r amlwg wrth gymhwyso'r mynegrif amddifadedd lluosog, a fyddai'n fater i weision sifil a swyddogion ymdrin ag ef yn hytrach na gwleidyddion, byddai ôl-weithrediad. Synnwn pe bai hynny yn digwydd, ond gallai ddigwydd. Pe bai gwall

were to happen, but it could. If there were an error in the figures, there would be retrospection. That would be only right and proper and natural justice. I emphasise again that this particular priority covers 6.5 per cent of programme value. There is another spatially targeted section of the Objective 1 programme, the rural development section, in which 100 per cent of Pembrokeshire is included. It may well be that most of the prosiects that it may be feared will drop out of the programme could be covered under priority 5, under which Pembrokeshire is covered in full. I do not know.

yn y ffigurau, yna byddai ôl- weithrediad. Byddai hynny ond yn gywir ac yn briodol ac yn gyfiawnder naturiol. Pwysleisiaf eto fod y flaenoriaeth benodol hon yn cwmpasu 6.5 y cant o werth y rhaglen. Mae adran arall o'r rhaglen Amcan 1 sydd wedi'i thargedu'n ofodol, sef yr adran datblygu gwledig, lle caiff 100 y cant o Sir Benfro ei chynnwys. Efallai y bydd y rhan fwyaf o'r prosiectau yr ofnir y byddant yn gadael y rhaglen yn cael eu cwmpasu o dan flaenoriaeth 5, lle caiff Sir Benfro ei chwmpasu yn llawn. Ni wn.

I state again that it is not for me, or any Assembly Member, to say to the Programme Monitoring Committee that it or the index of multiple deprivation is wrong, and it should go back and look at this again. The Programme Monitoring Committee is not responsible to the Assembly. The European Commission would not allow it to be so and would withdraw Objective 1 if we sought to override the Programme Monitoring Committee's decisions. It is a multi-purpose, one-third public sector, one-third private sector and one-third voluntary sector body—the only kind of body that the European Commission will allow to administer European programmes. We can make our points, and I have offered to meet Richard, Christine and others with civil servants to discuss the detail, but the Assembly is not a superior court of appeal to override decisions of the Programme Monitoring Committee. If we attempted to make it so, we would lose Objective 1, 2, 3 and all the other European programmes.

Dywedaf eto nad fy lle i, nac unrhyw Aelod arall o'r Cynulliad, yw dweud wrth y Pwyllgor Monitro Rhaglen ei fod ef neu'r mynegrif amddifadedd lluosog yn anghywir, ac y dylai fynd yn ôl i ailedrych ar hyn. Nid yw'r Pwyllgor Monitro Rhaglen yn atebol i'r Cynulliad. Ni fyddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn caniatáu hynny a byddai'n tynnu Amcan 1 yn ôl pe baem yn ceisio gwyrdroi penderfyniadau'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Mae'n gorff aml-bwrpas, gyda thraean o'r sector cyhoeddus, traean o'r sector preifat a thraean o'r sector gwirfoddol—yr unig fath o gorff y byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn caniatáu iddo weinyddu rhaglenni Ewropeaidd. Gallwn wneud ein pwyntiau, ac yr wyf wedi cynnig cwrdd â Richard, Christine ac eraill gyda gweision sifil i drafod y manylion, ond nid goruchaf lys apêl yw'r Cynulliad i wyrdroi penderfyniadau'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Pe baem yn ymdrechu i wneud hynny, byddem yn colli Amcan 1, 2, 3 a phob rhaglen Ewropeaidd arall.

Phil Williams: We have been waiting with increasing impatience and for some time for the publication of the report on the index of multiple deprivation. I believe that it appeared at the end of August and is already being used as the basis for important decisions. You suggested that this might be a question for the statisticians. However, we do not need to consider the details but rather the algorithm that is used, which is surely the Assembly's property. What arrangements are there for the National Assembly to give this report full scrutiny and, if necessary, approval, before it is used to target resources, not only for Objective 1, but perhaps for

Phil Williams: Yr ydym wedi bod yn aros gyda'n hamynedd yn prysur brinhau ac ers peth amser i'r adroddiad ar y mynegrif amddifadedd lluosog gael ei gyhoeddi. Credaf iddo ymddangos ddiwedd mis Awst ac iddo eisoes gael ei ddefnyddio fel sail ar gyfer penderfyniadau pwysig. Awgrymoch efallai fod hwn yn gwestiwn i'r ystadegwyr. Fodd bynnag, nid oes angen inni ystyried y manylion ond yn hytrach yr algorithm a ddefnyddir, sydd, mae'n rhaid, yn eiddo i'r Cynulliad. Pa drefniadau sydd i'r Cynulliad Cenedlaethol archwilio'r adroddiad hwn yn fanwl ac, os oes angen, ei gymeradwyo, cyn iddo gael ei ddefnyddio i dargedu adnoddau,

other purposes as well? It is an important piece of work. I welcome its publication, but we ought to scrutinise it before it is used for irreversible decisions.

nid yn unig ar gyfer Amcan 1, ond efallai at ddibenion eraill hefyd? Mae'n ddarn pwysig o waith. Croesawaf ei gyhoeddi, ond dylem ei archwilio'n fanwl cyn ei ddefnyddio i wneud penderfyniadau na ellir eu gwyrdroi.

The First Secretary: You are right that this is not only about the application of the index to spatially targeted priorities within Objective 1. As far as I am aware, it covers proposals for targeting all manner of anti-deprivation measures, which could be in local government, the health service, social services, or specific community development programmes, not only ones that are supported by European money. The issue then is, is it sound and robust, have we had enough time to discuss it and are we competent to discuss it—you probably are, because you probably understand statistics better than most people here. I am happy that there should be a general debate on the index of multiple deprivation, especially as it was published on 23 August, two weeks before we reconvened.

Y Prif Ysgrifennydd: Yr ydych yn iawn i ddweud bod hyn yn ymwneud â mwy na chymhwyso'r mynegrif i flaenoriaethau sydd wedi'u targedu'n ofodol o fewn Amcan 1. Cyhyd ag y gwn i, mae'n cwmpasu cynigion ar gyfer targedu pob math o fesurau gwrth-amddifadedd, a allai fod mewn llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, neu raglenni datblygu cymunedol penodol, nid dim ond rhai a gefnogir gan arian Ewropeaidd. Y mater wedyn yw, a yw'n gadarn ac yn gryf, a ydym wedi cael digon o amser i'w drafod ac a ydym yn gymwys i'w drafod—yr ydych chi'n gymwys fwy na thebyg, gan eich bod siŵr o fod yn deall yr ystadegau yn well na'r rhan fwyaf o bobl sydd yma. Yr wyf yn fodlon y dylid cynnal dadl gyffredinol ar y mynegrif amddifadedd lluosog, yn arbennig gan iddo gael ei gyhoeddi ar 23 Awst, bythefnos cyn inni ailymgynnull.

Michael German: I have some sympathy with the Members for Pembrokeshire, because they raised two principled matters today. I do not want to comment on Pembrokeshire, because I do not have the data or the information before me. The data is not before us because we are not members of the Programme Monitoring Committee. However, they raised the issue of the relationship between the Assembly and the Programme Monitoring Committee, which is crucial. Members of the Economic Development Committee will be familiar with my arguments on what that should be. This may be the first example of a breakdown in the relationship between Assembly Members and the Programme Monitoring Committee in terms of how it operates. It will not be the last—others will follow.

Michael German: Mae gennyf rywfaint o gymdymdeimlad â'r Aelodau dros Sir Benfro, gan eu bod wedi codi dau fater o egwyddor heddiw. Nid wyf am wneud sylwadau ar Sir Benfro, gan nad oes gennyf y data na'r wybodaeth o'm blaen. Nid yw'r data o'n blaen gan nad ydym yn aelodau'r Pwyllgor Monitro Rhaglen. Fodd bynnag, codasant y mater o'r berthynas rhwng y Cynulliad a'r Pwyllgor Monitro Rhaglen, sydd yn holl bwysig. Bydd aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn gyfarwydd â'm dadleuon ar beth y dylai hynny fod. Efallai mai dyma'r enghraifft gyntaf o'r berthynas rhwng Aelodau'r Cynulliad a'r Pwyllgor Monitro Rhaglen yn methu yn nhermau'r ffordd y mae'n gweithredu. Nid hwn fydd yr olaf—bydd eraill yn dilyn.

The second issue that they raised, which is perhaps of even greater substance, is the validity of the data upon which we base our judgments in Wales. It is clear that we do not have sufficient information—and this is a widely held view in the Economic Development Committee—on how the

Yr ail fater a godasant, sydd o fwy o sylwedd byth o bosibl, yw dilysrwydd y data yr ydym yn seilio ein penderfyniadau arno yng Nghymru. Mae'n amlwg nad oes gennym ddigon o wybodaeth—a dyma farn nifer yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd—ar sut y mae economi Cymru yn gweithredu.

economy of Wales operates. Suggestions were made yesterday about how that might be put right. Given that there are insufficient data, a review brake should be introduced so that as new information becomes available, it is possible to review the decisions that have been made. I commend that to the Monitoring Committee.

Gwnaethpwyd awgrymiadau ddoe ynghylch sut y gellid unioni hynny. Gan nad oes digon o ddata, dylid cyflwyno ffrwyn adolygu a fydd yn ei gwneud yn bosibl adolygu'r penderfyniadau a wnaethpwyd wrth i wybodaeth newydd ddod i law. Yr wyf yn argymell hynny i'r Pwyllgor Monitro.

I return to the democratic issue, which will hit us again and again, of the relationship between the Assembly and the Monitoring Committee, and how it works. Have you taken on board the views of the Economic Development Committee? Are you prepared to bring forward the proposals that have been suggested in the Economic Development Committee on how the Assembly can have a distinctive approach to understanding what is happening on the ground with Objectives 1, 2 and 3 and the remaining European programmes? At the moment we do not know—

Dychwelaf at y mater democrataidd, a fydd yn ein taro dro ar ôl tro, o'r berthynas rhwng y Cynulliad a'r Pwyllgor Monitro Rhaglen, a sut mae'n gweithio. A ydych wedi nodi safbwyntiau'r Pwyllgor Datblygu Economaidd? A ydych yn barod i gyflwyno'r cynigion a argymhellwyd yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar sut y gallai'r Cynulliad gael ymagwedd unigryw i ddeall yr hyn sydd yn digwydd ar lawr gwlad gydag Amcan 1, 2, a 3 a gweddill y rhaglenni Ewropeaidd? Ar hyn o bryd ni wyddom—

The Presiding Officer: Order. You will have noticed that I have not operated the clock for this urgent question. I may well do so in future.

Y Llywydd: Trefn. Sylwch nad wyf wedi gweithredu'r cloc ar gyfer y cwestiwn brys hwn. Efallai y byddaf yn debygol o wneud hynny yn y dyfodol.

The First Secretary: Mike raises the issue of the quality of the available statistics. In the Economic Development Committee meeting yesterday we discussed the deficit of good, up-to-date statistics on the state of the economy. This is a slightly different issue in that everybody recognised that we did not have adequate statistics on local area relative poverty in Wales. Wales is a poor country. The Objective 1 area, which covers two thirds of Wales, is the poorest part of Wales. Within the Objective 1 area, however, some areas are poorer than others, so a targeted programme was suggested for the poorest 30 per cent of the Objective 1 area. This was always going to be targeted at the 30 per cent of the Objective 1 area that contained the poorest wards. We agreed to apply the index of multiple deprivation, as it was being produced just in time. It is doing exactly what you suggest should be done, Mike, namely focusing on the state of the economy, not on the state of relative deprivation. When you consider the relative deprivation, every part of Wales does not come into the 30 per cent category. Some parts are included in the 30

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Mike yn codi'r mater o ansawdd yr ystadegau sydd ar gael. Yng nghyfarfod y Pwyllgor Datblygu Economaidd ddoe trafodasant brinder ystadegau da, diweddar ar gyflwr yr economi. Mae hwn yn fater ychydig yn wahanol yn yr ystyr bod pawb yn cydnabod nad oedd gennym ystadegau digonol ar dlodi cymharol ardaloedd lleol yng Nghymru. Mae Cymru yn wlad dlawd. Ardal Amcan 1, sydd yn cwmpasu dwy ran o dair o Gymru, yw'r rhan dlotaf o Gymru. O fewn ardal Amcan 1, fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn dlotach nag eraill, felly awgrymwyd rhaglen wedi'i thargedu ar gyfer y 30 y cant tlotaf o ardal Amcan 1. Yr oedd hyn wastad yn mynd i gael ei dargedu ar y 30 y cant o'r ardal Amcan 1 a oedd yn cynnwys y wardiau tlotaf. Cytunasom i gymhwyso'r mynegrif amddifadedd lluosog, gan ei fod yn cael ei gynhyrchu mewn pryd. Mae'n gwneud yn union yr hyn yr ydych yn awgrymu y dylid ei wneud, Mike, sef canolbwyntio ar gyflwr yr economi, nid ar gyflwr yr amddifadedd cymharol. Pan ystyriwch amddifadedd cymharol, nid yw pob rhan o Gymru yn

per cent and some are not because that is what the figures show. In this area it would have been totally irresponsible, as we have commissioned the index of multiple deprivation, not to apply it in attempting to ascertain which are the 30 per cent most deprived areas of Objective 1 Wales.

syrthio i'r categori o 30 y cant. Caiff rhai ardaloedd eu cynnwys yn y 30 y cant ond nid eraill gan mai dyma a ddangosir gan y ffigurau. Yn yr ardal hon byddai wedi bod yn gwbl anghyfrifol, gan ein bod wedi comisiynu'r mynegrif amddifadedd lluosog, i beidio â'i gymhwyso wrth geisio sefydlu pa rai yw'r 30 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig Amcan 1 yng Nghymru.

9:50 a.m.

Cynog Dafis: Teimlaf yn gryf am yr hyn a ddywedodd Richard Edwards a Christine Gwyther am y sefyllfa yn Sir Benfro. Mae canlyniad y broses hon yn amlwg yn groes i synnwyr cyffredin ac nid yw'n cyfateb i'r realiti caled sydd yn bodoli yn ardaloedd diwydiannol deheudir Sir Benfro, yn enwedig. Os yw canlyniad proses fel hon yn groes I synnwyr cyffredin ac os nad yw'n cyfateb I realiti ar y llawr, mae'n annerbyniol bod y patrymau y mae hynny'n esgor arnynt yn ddigyfnewid am holl gyfnod y rhaglen. Pa drefniadau y gall Rhodri Morgan eu cyflwyno i sicrhau yr ailedrychir ar y gwahanol elfennau a arweiniodd at y sefyllfa hon fel bod modd addasu patrwm a lefel y cymorth ar gyfer yr adran arbennig hon o'r cronfeydd strwythurol I gyfateb i'r realiti yn Sir Benfro?

Cynog Dafis: I feel strongly about what Richard Edwards and Christine Gwyther said about the situation in Pembrokeshire. The result of this process is obviously contrary to common sense and does not correspond to the hard reality that exists in the industrial areas of southern Pembrokeshire, in particular. If the outcome of a process such as this one is contrary to common sense and if it does not correspond to the reality on the ground, it is unacceptable that the patterns that emerge from that are unchangeable for the whole period of the programme. What arrangements can Rhodri Morgan introduce to ensure that the various elements that have led to this situation are revisited so that it is possible to adapt the pattern and level of assistance for this particular section of the structural funds to correspond to the reality in Pembrokeshire?

Y Prif Ysgrifennydd: Fel gwleidyddion, mae'n rhwydd inni ddweud nad ydym yn fodlon â'r ffigurau hyn a bod yn rhaid eu bod yn anghywir gan eu bod yn groes i synnwyr cyffredin. Y pwynt yw ein bod wedi ceisio bod yn wrthrychol. Yr ydym wedi llunio'r mynegrif hwn—credaf fod pawb yn cefnogi'r angen am fynegrif gwrthrychol o ffigurau—a phan gyflwynir y canlyniadau, nid ydym yn hapus â hwy. Beth a ddywedwn wedyn: y byddwn ni fel gwleidyddion yn penderfynu mewn Pwyllgor Cynulliad pwy fydd yn derbyn yr arian hwn, neu a ydych yn derbyn bod yn rhaid inni geisio gwneud y broses mor wrthrychol ag y bo modd? Os oes gwallau yn y ffigurau hyn, gobeithiaf fod swyddogion Sir Benfro ac eraill yn y bartneriaeth yno yn edrych drwy'r ffigurau er mwyn ceisio'u darganfod. Os oes gwallau, byddwn yn ailystyried. Os nad oes gwallau, beth yr ydych yn gofyn I ni ei wneud: taflu'r mynegrif a dweud y byddwn ni'n trefnu

The First Secretary: As politicians, it is facile for us to say that we are unhappy with these figures and that they must be inaccurate as they are contrary to common sense. The point is that we have tried to be objective. We have drawn up this index—I think that everyone supports the need for an objective index of figures—and when the results are presented, we are unhappy with them. What do we say then: that we as politicians will decide in an Assembly Committee who will receive this funding, or do you accept that we must try to make the process as objective as possible? If there are errors in these figures, I hope that Pembrokeshire officials and others in the partnership there are looking through the figures to identify them. If there are errors, we will reconsider. If there are no errors, what are you asking us to do: throw away the index and say that we will organise things according to our common sense and what we estimate to be the most deprived

pethau yn unol â'n synnwyr cyffredin ni a'r hyn yr amcangyfrifwn yw ardaloedd tlotaf ardal Amcan 1 Cymru? Rhaid bod yn ofalus ynghylch yr hyn y gofynnwch amdano fel gwleidyddion pan of ystadegwyr wedi gwneud eu gwaith.

areas in Wales's Objective 1 regions? You must be careful what you ask for as politicians when statisticians have done their job.

Alun Cairns: Mr Llywydd, it is rare that Richard Edwards and I agree on issues in this Chamber, but on this issue we are one. Nick Bourne and Glyn Davies, as regional Assembly Members who also represent Pembrokeshire, are aware of the problems that have occurred in relation to the partnership in Pembrokeshire, in particular, as well as across Wales. In Pembrokeshire, obvious issues have come to the fore since the partnerships were formed.

Alun Cairns: Mr Llywydd, anaml y mae Richard Edwards a minnau yn cytuno ar faterion yn y Siambr hon, ond ar y mater hwn yr ydym fel un. Mae Nick Bourne a Glyn Davies, fel Aelodau Cynulliad rhanbarthol sydd hefyd yn cynrychioli Sir Benfro, yn ymwybodol o'r problemau sydd wedi codi mewn perthynas â'r bartneriaeth yn Sir Benfro, yn arbennig, yn ogystal ag ar draws Cymru. Yn Sir Benfro, mae materion amlwg wedi dod i'r amlwg ers i'r partneriaethau gael eu ffurfio.

Richard Edwards said that there was a lack of transparency and co-ordination and I agree with that. I was pleased to hear in your reply to him and others that you as Chair of the Programme Monitoring Committee proposed the establishment of a working group. As Chair, you are responsible for taking the lead and I would like to know why you could not deliver on that. One benefit of devolution is that we are closer to the affected areas and understand the situation better than the Westminster Government. In spite of the outcome of the index of multiple deprivation, we know that the reality is different. Is it not your responsibility as First Secretary and as Chair of the Programme Monitoring Committee to use that awareness and to act accordingly?

Dywedodd Richard Edwards fod diffyg tryloywder a chydweithrediad a chytunaf â hynny. Yr oeddwn yn falch o glywed yn eich ateb iddo ef ac eraill eich bod chi fel cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglen wedi cynnig sefydlu gweithgor. Fel Cadeirydd, yr ydych yn gyfrifol am gymryd yr awenau a hoffwn wybod pam na lwyddoch yn hynny o beth. Un o fanteision datganoli yw ein bod yn agosach at yr ardaloedd a effeithir arnynt ac yn deall y sefyllfa yn well na Llywodraeth San Steffan. Er gwaethaf canlyniadau'r mynegrif amddifadedd lluosog, gwyddom fod y realiti yn wahanol. Onid eich cyfrifoldeb chi fel y Prif Ysgrifennydd ac fel Cadeirydd y Pwyllgor Monitro Rhaglen yw defnyddio'r ymwybyddiaeth honno a gweithredu yn unol â hynny?

The First Secretary: Whatever would have happened as regards priority 3—the community regeneration priority—70 per cent of Objective 1 Wales would have been excluded because priority 3 can only cover 30 per cent of Objective 1 Wales. Whatever would have happened regarding the application of the index of multiple deprivation, AMs, MPs or local councillors from the 70 per cent that would have been excluded in any case because it was not sufficiently deprived, would have wished these figures to have come out differently. Of course, if your area is in the 70 per cent that is not covered, you will protest. If you are not saying that the figures are wrong, what are

Y Prif Ysgrifennydd: Beth bynnag fyddai wedi digwydd o ran blaenoriaeth 3—y flaenoriaeth adfywio cymunedol—byddai 70 y cant o Gymru Amcan 1 wedi ei heithrio oherwydd dim ond 30 y cant o Gymru Amcan 1 y gall blaenoriaeth 3 ei chwmpasu. Beth bynnag fyddai wedi digwydd o ran cymhwyso'r mynegrif amddifadedd lluosog, byddai ACau, ASau neu gynghorwyr lleol o'r 70 y cant a fyddai wedi ei eithrio beth bynang gan nad oedd digon o amddifadedd yno, wedi dymuno I'r ffigurau hyn fod yn wahanol. Wrth gwrs, os yw eich ardal chi yn y 70 y cant nas cwmpesir, byddwch yn protestio. Os nad ydych yn dweud bod y ffigurau yn anghywir, beth yr ydych yn ei ddweud? A

you saying? Are you saying that we in the Assembly should decide which areas are the most deprived and should be included in the 30 per cent? Who in this Assembly will volunteer to be in the 70 per cent that receives no funding? Would any Assembly Member from the Objective 1 regions of Wales volunteer for their area to be in the 70 per cent of regions that will not get money from priority 3? The answer is no, as we all know. Everybody wants the money but only 30 per cent of regions can have it. That is the rule. Furthermore, if we said that we were going to settle this matter in the Assembly and not in a Programme Monitoring Committee, the European Commission would say that we were not serious about Objective 1 and would take the funding away.

ydych yn dweud mai ni yn y Cynulliad ddylai benderfynu pa ardaloedd sydd â'r mwyaf o amddifadedd ac a ddylai gael eu cynnwys yn y 30 y cant? Pwy yn y Cynulliad hwn fydd yn gwirfoddoli I fod yn y 70 y cant nad yw'n derbyn unrhyw arian? A fyddai unrhyw Aelod o'r Cynulliad o ranbarthau Amcan 1 Cymru yn gwirfoddoli i'w ardal fod ymysg y 70 y cant o ranbarthau na fyddant yn cael arian o flaenoriaeth 3? Yr ateb yw na fyddai, fel y gŵyr pawb ohonom. Mae pawb eisiau'r arian ond dim ond 30 y cant o ranbarthau all ei gael. Dyna'r rheol. Yn fwy na hynny, pe baem yn dweud mai yn y Cynulliad y byddwn yn setlo'r mater hwn ac nid yn y Pwyllgor Monitro Rhaglen, byddai'r Comisiwn Ewropeaidd yn dweud nad ydym o ddifrif ynglŷn ag Amcan 1 ac yn tynnu'r arian yn ôl.

Val Feld: Clearly it is difficult to decide how to determine priorities but priority 3 is important to our long-term social exclusion strategy. There are two issues here. First, I know that this formula has been developed over a long period, that there has been much discussion and that it has been approved by the European Union. I understand that there would be problems with changing it now. However, it is inevitable that when the results of the 2001 census come through—assuming that the people of Wales agree to fill in the census forms, which I hope that they will and I hope that you will support them doing so—there will be a new set of data. Do you not agree that it is inevitable that the formula will need to be reviewed over the period of the programme?

Val Feld: Yn amlwg, mae'n anodd penderfynu sut I bennu blaenoriaethau ond mae blaenoriaeth 3 yn bwysig i'n strategaeth allgáu cymdeithasol hir dymor. Mae dau fater yma. Yn gyntaf, gwn i'r fformwla hon gael ei datblygu dros gyfnod hir, y bu llawer o drafod a'i fod wedi'i chymeradwyo gan yr Undeb Ewropeaidd. Deallaf y byddai problemau o'i newid yn awr. Fodd bynnag, mae'n anochel pan ddaw canlyniadau cyfrifiad 2001 i law—gan dybio y bydd pobl Cymru yn cytuno i lenwi ffurflenni'r cyfrifiad, a gobeithiaf y byddant yn gwneud hynny ac y byddwch yn cefnogi hwy yn hynny—y bydd yna set newydd o ddata. Onid ydych yn cytuno ei bod yn anochel y bydd angen adolygu'r fformwla dros gyfnod y rhaglen?

Secondly, the other key issue regarding priority 3 and community regeneration is the potential 75 per cent grant rate. We have not spent much time in the Assembly and in Assembly Committees considering and forming our view on grant rates. Would you ask the Welsh European Funding Office to consider the potential for variation of grant rates, or the potential for particular help, to enable some of the deprived communities that are excluded from Objective 3 to get extra help under the other priorities so that they can still bring bids in under those other measures?

Yn ail, y mater allweddol arall ynglŷn â blaenoriaeth 3 ac adfywio cymunedau yw'r gyfradd grant bosibl o 75 y cant. Nid ydym wedi treulio llawer o amser yn y Cynulliad ac ym Mhwyllgorau'r Cynulliad yn ystyried ac yn ffurfio ein barn am y cyfraddau grant. A wnewch chi ofyn i Swyddfa Ariannu Ewropeaidd Cymru ystyried y posibilrwydd o amrywiad yn y cyfraddau grant, neu'r posibilrwydd o gymorth penodol, i alluogi rhai o'r cymunedau amddifad sydd wedi'u heithrio o Amcan 3 i gael cymorth ychwanegol o dan y blaenoriaethau eraill fel y gallant barhau i gyflwyno cynigion o dan y mesurau eraill hynny?

The First Secretary: That raises wider issues. I have no objection to much greater flexibility between the different priorities or between grant rates. However, it is not possible to affect the overall intention of priority 3. I am sure that Val Feld meant priority 3, although she said Objective 3. Priority 3 is meant to target the poorest 30 per cent of a poor two-thirds of a poor country, namely Wales. If you target 30 per cent of the Objective 1 areas, and then change the figures after the census, which you probably would do, you will then disadvantage a different 70 per cent. Different Assembly Members for other Objective 1 regions in Wales will then say that it is a shame that the census figures have now included Pembrokeshire but have excluded somewhere else. A cut-off line of 30 per cent of Objective 1 Wales, as measured by population, means that 70 per cent is excluded and 30 per cent is included. No matter which 30 per cent you choose, based on the best, most up-to-date statistics available, there will always be marginal cases and people who will say that it is a pity that their area is just outside and if only the figures were slightly different it would be included. We are targeting the 30 per cent of poorest regions in Objective 1 Wales. All parts of Objective 1 regions in Wales are poor. This targets the poorest 30 per cent of those areas. We have used the index of multiple deprivation to measure that and have applied those figures objectively. If the census figures show a different situation, then fine, we can change the way that the 30 per cent cut-off fits various areas. However, although an area like Pembrokeshire may then be included after the census, another will be excluded because the 30 per cent cut-off still applies for that particular community regeneration prosiect. This is meant to target the 30 per cent of poorest wards or communities in Objective 1 Wales. The whole of Objective 1 Wales is deprived but 30 per cent of the areas are particularly deprived, even by the standards of Objective 1.

Y Prif Ysgrifennydd: Mae hynny'n codi materion ehangach. Nid oes gennyf wrthwynebiad i lawer mwy o hyblygrwydd llawer mwy rhwng y gwahanol flaenoriaethau neu rhwng cyfraddau grant. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl effeithio ar fwriad cyffredinol blaenoriaeth 3. Yr wyf yn siŵr mai blaenoriaeth 3 yr oedd Val Feld yn ei olygu, er iddi ddweud Amcan 3. Bwriad blaenoriaeth 3 yw targedu'r 30 y cant tlotaf o ddwy ran o dair dlawd gwlad dlawd, sef Cymru. Os byddwch yn targedu 30 y cant o ardaloedd Amcan 1, ac yna'n newid y ffigurau ar ôl y cyfrifiad, a byddech fwy na thebyg yn gwneud hynny, yna byddwch yn rhoi 70 y cant gwahanol o dan anfantais. Bydd gwahanol Aelodau o'r Cynulliad ar gyfer rhanbarthau Amcan 1 eraill yng Nghymru wedyn yn dweud ei bod yn drueni bod ffigurau'r cyfrifiad yn awr yn cynnwys Sir Benfro ond wedi eithrio rhywle arall. Mae llinell derfyn o 30 y cant o Amcan 1 yng Nghymru, wedi'i mesur yn ôl poblogaeth, yn golygu bod 70 y cant wedi'I eithrio a 30 y cant wedi'I gynnwys. Waeth pa 30 y cant a ddewiswch, yn seiliedig ar yr ystadegau gorau a'r mwyaf diweddar sydd ar gael, bydd achosion ymylol bob amser a phobl a fydd yn dweud ei bod yn drueni bod eu hardal hwy ychydig y tu allan a phetai'r ffigurau ychydig yn wahanol y byddai wedi'I chynnwys. Yr ydym yn targedu 30 y cant o'r rhanbarthau tlotaf yng Nghymru Amcan 1. Mae pob rhan o ranbarthau Amcan 1 yng Nghymru yn dlawd. Mae hyn yn targedu'r 30 y cant tlotaf o'r ardaloedd hynny. Yr ydym wedi defnyddio'r mynegrif amddifadedd lluosog I fesur hynny ac wedi cymhwyso'r ffigurau hynny yn wrthrychol. Os bydd ffigurau'r cyfrifiad yn dangos sefyllfa wahanol, yna digon teg, gallwn newid y ffordd y mae'r terfyn 30 y cant yn gweddu i ardaloedd amrywiol. Fodd bynnag, er y gallai ardal fel Sir Benfro gael ei chynnwys ar ôl y cyfrifiad, bydd ardal arall yn cael ei heithrio gan fod y terfyn o 30 y cant yn parhau i fod yn gymwys ar gyfer y prosiect adfywio cymunedau penodol hwnnw. Bwriad hwn yw targedu 30 y cant o'r wardiau neu'r cymunedau tlotaf yng Nghymru Amcan 1. Mae amddifadedd ym mhob ran o Gymru Amcan 1 ond mae 30 y cant o'r ardaloedd yn arbennig o ddifreintiedig, hyd yn oed yn ôl safonau Amcan 1.

10:00 a.m.

Datganiad gan y Prif Ysgrifennydd ar ei Ymweliad â Siapan
Statement by the First Secretary on his Visit to Japan

The First Secretary: As I have done for previous visits, I make a statement to the Assembly on my visit to Japan last week. I spent four nights in Tokyo and one night in Osaka in western Japan and met a wide range of representatives of Japanese industry, commerce, tourism and politics, as well as British people living and working in Japan. The warmth of the welcome that I received everywhere emphasised the regard that Japanese industry and others have for Wales and the remarkably high profile of Wales, given relative to its size and location on the other side of the world. The events attended were all aimed specifically at raising awareness about Wales and the profile of Wales in general, as well as to increase the perception of Wales as a land of high technology, leading edge research and higher education. That is quite new for us.

Y Prif Ysgrifennydd: Fel y gwneuthum ar gyfer ymweliadau blaenorol, gwnaf ddatganiad i'r Cynulliad ar fy ymweliad â Siapan yr wythnos diwethaf. Treuliais bedair noson yn Tokyo ac un noson yn Osaka yng ngorllewin Siapan a chyfarfûm ag ystod eang o gynrychiolwyr o ddiwydiannau, masnach, twristiaeth a gwleidyddiaeth Siapan, yn ogystal â phobl o Brydain sydd yn byw ac yn gweithio yn Siapan. Yr oedd y croeso cynnes a gefais ym mhobman yn pwysleisio'r parch sydd gan ddiwydiant Siapan ac eraill tuag at Gymru, a phroffil hynod uchel Cymru, o gofio ei maint a'i lleoliad ar ochr arall y byd. Yr oedd y digwyddiadau a fynychais oll wedi'u hanelu'n benodol at godi ymwybyddiaeth o Gymru a phroffil Cymru yn gyffredinol, yn ogystal â chynyddu'r amgyffrediad o Gymru fel gwlad uwch dechnoleg, ymchwil flaengar ac addysg uwch. Mae hynny'n eithaf newydd inni.

I held high-level talks with senior officials of some of the major Japanese companies with operations in Wales—Sony, Hitachi, Sharp, Takiron, Toyota and Matsushita—and attended receptions with many representatives of other companies based in Wales, as well as leading business organisations such as the British Market Council and the Ministry of International Trade and Industry. Some of the news that we received from these firms, in particular, from Hitachi, was not good. What was innovative about this multi-purpose mission was the inclusion of a number of senior academics from our universities and hospitals who are involved in cancer research and drug delivery systems. Those people were invited by the Welsh Development Agency to make presentations on their research in the UK to Japanese healthcare and pharmaceutical companies. They participated in a number of seminars that aimed to raise interest among Japanese companies, universities and research establishments in establishing research links with us.

Cynheliais drafodaethau ar lefel uchel gydag uwch swyddogion rhai o brif gwmnïau Siapan sydd â gweithfannau yng Nghymru—Sony, Hitachi, Sharp, Takiron, Toyota a Matsushita—a mynychais sawl derbyniad gyda chynrychiolwyr cwmnïau eraill sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, yn ogystal â phrif sefydliadau busnes fel y Cyngor Marchnad Prydeinig a'r Weinyddiaeth Masnach a Diwydiant Rhyngwladol. Nid oedd peth o'r newyddion a gawsom gan y cwmnïau hyn, yn arbennig gan Hitachi, yn newyddion da. Yr hyn a oedd yn arloesol ynghylch y genhadaeth aml-bwrpas hon oedd cynnwys nifer o uwch ysgolheigion o'n prifysgolion a'n hysbytai sydd yn ymwneud ag ymchwil canser a systemau cyflenwi cyffuriau. Gwahoddwyd y bobl hynny gan Awdurdod Datblygu Cymru i wneud cyflwyniadau ar eu hymchwil yn y DU i gwmnïau gofal iechyd a fferyllol Siapaneaidd. Cymerasant ran mewn nifer o seminarau wedi'u hanelu at ennyn diddordeb ymysg cwmnïau, prifysgolion a sefydliadau ymchwil Siapan i sefydlu cysylltiadau ymchwil gyda ni.

Another major part of the visit related to trade promotion from Wales. Sixteen small and medium sized Welsh businesses made the trip to Japan to promote their products there. The current value of orders obtained during the trade mission is £820,000. The estimated value of orders still being negotiated and finalised is £8.5 million.

Yr oedd hybu masnach o Gymru yn rhan fawr arall o'r ymweliad. Ymwelodd 16 o fusnesau Cymreig bach a chanolig eu maint â Siapan er mwyn hyrwyddo eu cynnyrch yno. Gwerth cyfredol yr archebion a gafwyd yn ystod y genhadaeth fasnach yw £820,000. Amcangyfrifir mai gwerth yr archebion sydd yn parhau i gael eu negodi a'u cwblhau yw £8.5 miliwn.

Another innovation which played a significant part in the visit was a seminar organised by PriceWaterhouse Coopers, assisted by British Telecom, on customer resource centres, which is the new name for call centres. It emphasised the work already done to put in place the fibre optic infrastructure, staff training facilities and so on, to enable companies of this nature to base their operations in Wales. None of the existing 57 Japanese companies in Wales have established a customer resource centre in Wales as yet. We received a great deal of interest from them on doing that.

Cam arloesol arall a chwaraeodd ran arwyddocaol yn yr ymweliad oedd seminar a drefnwyd gan PriceWaterhouse Coopers, gyda chymorth British Telecom, ar ganolfannau adnoddau cwsmeriaid, sef yr enw newydd ar ganolfannau galw. Yr oedd yn pwysleisio'r gwaith a wnaethpwyd eisoes i sefydlu'r isadeiledd opteg ffibr, cyfleusterau hyfforddi staff ac ati, er mwyn galluogi cwmnïau o'r natur hon i leoli eu gweithfannau yng Nghymru. Nid oes unrhyw un o'r 57 cwmni Siapaneaidd sydd yng Nghymru ar hyn o bryd wedi sefydlu canolfan adnoddau cwsmeriaid yng Nghymru hyd yma. Cafwyd cryn ddiddordeb ganddynt i wneud hynny.

Officials' work in organising this multi-purpose visit is to be commended. I also acknowledge the contribution of the WDA and the Wales Tourist Board in preparing the visit. It will continue to encourage more, and a newer type of, Japanese investment in Wales for a long time to come. It will also encourage more Japanese visitors to come to Wales.

Mae gwaith y swyddogion wrth drefnu'r ymweliad aml-bwrpas hwn yn ganmoladwy. Yr wyf hefyd yn cydnabod cyfraniad y WDA a Bwrdd Croeso Cymru wrth baratoi'r ymweliad. Bydd yn annog mwy o fuddsoddiad Siapaneaidd o fath newydd yng Nghymru am amser maith. Bydd hefyd yn annog mwy o ymwelwyr o Siapan i ddod i Gymru.

Several companies expressed concern over the euro:sterling exchange rate. However, none indicated that they would withdraw from Wales because of the current exchange rate problems.

Mynegodd sawl cwmni bryder ynghylch y gyfradd gyfnewid ewro:sterling. Fodd bynnag, nid awgrymodd unrhyw un y byddant yn tynnu eu busnes allan o Gymru oherwydd y problemau cyfredol gyda'r gyfradd gyfnewid.

Japanese technical expertise in high volume manufacturing is now increasingly moving into systems, services and software. That is the nature of the emerging Japanese economy and is also the kind of economy that we would like to see more of in Wales. I want to see a partnership between Wales and Japan and for us to evolve together in moving from hardware towards software. We have already laid the foundations for that in Wales in our information technology, research and

Mae arbenigedd technegol Siapan mewn gweithgynhyrchu ar raddfa fawr bellach yn symud yn gynyddol tuag at systemau, gwasanaethau a meddalwedd. Dyna natur economi bresennol Siapan a dyna'r math o economi yr hoffem weld mwy ohoni yng Nghymru. Yr wyf am weld partneriaeth rhwng Cymru a Siapan a'n gweld yn esblygu gyda'n gilydd wrth symud o galedwedd I feddalwedd. Yr ydym eisoes wedi gosod y sylfeini ar gyfer hynny yng Nghymru yn ein

development and customer resource centres, as well as in the development of a fibre optic cable network in the ground ready for the newer kinds of industries and services.

technoleg gwybodaeth, ymchwil a datblygiad a chanolfannau adnoddau cwsmeriaid, yn ogystal ag yn natblygiad rhwydwaith ceblau opteg ffibr yn y ddaear yn barod ar gyfer y mathau newydd o ddiwydiannau a gwasanaethau.

If ever there was an excellent example of the Team Wales approach, this was it. It showed how all the different agencies and bodies in Wales can work together in a week to raise the profile of Wales in an important market of 130 million people. During the week, I stressed the importance of Japanese investment to Wales and the need for us to move forward together away from low technology, production line, electronic consumer products to the high value, high technology products and services of the future.

Os bu erioed enghraifft wych o ymagwedd Tîm Cymru, dyma hi. Yr oedd yn dangos sut y gallai'r holl asiantaethau a'r cyrff gwahanol yng Nghymru gydweithio mewn wythnos i godi proffil Cymru mewn marchnad bwysig o 130 miliwn o bobl. Yn ystod yr wythnos, pwysleisiais bwysigrwydd buddsoddiad Siapaneaidd i Gymru a'r angen inni symud ymlaen gyda'n gilydd oddi wrth dechnoleg isel, llinellau cynhyrchu, cynnyrch electronig i ddefnyddwyr tuag at gynnyrch a gwasanaethau uwch dechnoleg, gwerth uchel y dyfodol.

Michael German: Towards the end of your statement, you said that Japanese companies are moving away from high volume manufacturing. That is a threat in Wales. We are clearly moving into a second wave of development of Japanese companies in Wales. If we are not careful we will lose many more of the screwdriver jobs in Wales without getting replacements for them. What steps are you taking to ensure that we are prepared for that second wave of development? Do we need a clear strategy now, is that strategy in place and will you bring an urgent report to the Economic Development Committee on what steps we are taking and how we should support such a move?

Michael German: Tuag at ddiwedd eich datganiad, dywedasoch fod cwmnïau Siapaneaidd yn symud oddi wrth weithgynhyrchu ar raddfa fawr. Mae hynny'n fygythiad yng Nghymru. Yr ydym yn amlwg yn symud i mewn i'r ail don o ddatblygiad mewn cwmnïau Siapaneaidd yng Nghymru. Os na fyddwn yn ofalus, byddwn yn colli llawer mwy o'r swyddi sylfaenol yng Nghymru ac ni fyddwn yn cael rhai yn eu lle. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer yr ail don honno o ddatblygiad? A oes angen strategaeth glir arnom bellach, a yw'r strategaeth honno yn ei lle ac a fyddwch yn dod ag adroddiad brys i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar ba gamau yr ydym yn eu cymryd a sut y dylem gefnogi symudiad o'r fath?

The First Secretary: That was the exact purpose of the visit. It is true perhaps that Japanese companies in general have a vision of Wales comprised partly of chocolate-box scenery and partly of closed-down coal mines, high unemployment and high grants to put in their electronic assembly lines. Perceptions lag about 20 years behind reality. The purpose of this visit was to say, 'That was true in 1975 but it is not now. We are ready to move forward with you towards a higher technology future. You need to do it for reasons relating to the Japanese economy, which has been stagnant for 10 years or more, but we need to do it also.'

Y Prif Ysgrifennydd: Dyna union bwrpas yr ymweliad. Mae'n wir dweud efallai bod gan gwmnïau Siapaneaidd yn gyffredinol weledigaeth o Gymru sydd yn cynnwys yn rhannol olygfeydd oddi ar glawr bocs siocled ac yn rhannol lofeydd segur, diwethdra uchel a grantiau uchel i'w rhoi yn eu llinellau cynhyrchu electronig. Mae'r amgyffred tuag 20 mlynedd ar ei hôl hi o gymharu â'r realiti. Pwrpas yr ymweliad hwn oedd dweud, 'Yr oedd hynny'n wir yn 1975 ond nid bellach. Yr ydym yn barod i symud ymlaen gyda chi tuag at ddyfodol o uwch dechnoleg. Mae angen ichi wneud hynny am resymau sydd yn ymwneud ag economi Siapan, sydd wedi bod yn llonydd ers 10 mlynedd neu fwy, ond mae angen i ni wneud hynny hefyd.'

When I told the Japanese that the world's first fibre-optic cable was developed and manufactured in St Asaph in north Wales, their jaws dropped open. They had never thought of Wales as a land of research and technology. That is why we took healthcare and pharmaceutical academics with us. We thought that they would impress the Japanese with the cutting edge research that is going on in Welsh medical schools, hospitals and university departments. In later visits to Japan, we will do the same with electronics.

Pan ddywedais wrth y Siapaneaid bod y cebl optig ffibr cyntaf yn y byd wedi'I ddatblygu a'I weithgynhyrchu yn Llanelwy yng ngogledd Cymru, edrychasant yn gegrwth. Nid oeddent erioed wedi ystyried Cymru fel gwlad o ymchwil a thechnoleg. Dyna pam y gwnaethom fynd ag ysgolheigion gofal iechyd a fferyllol gyda ni. Yr oeddem yn credu y byddent yn creu argraff ar y Siapaneaid gyda'r ymchwil flaengar sydd ar droed mewn ysgolion meddygol, ysbytai ac adrannnau prifysgolion yng Nghymru. Mewn ymweliadau diweddarach â Siapan, byddwn yn gwneud yr un peth gydag electroneg.

We need to persuade the Japanese to see Wales in a different light. They must see that it is not only a place for television assembly lines but also for employing software engineers, that we have the fibre-optic cable in the ground—as you would expect as we invented it—and so on. That was the image that we presented. That is the start of doing what you outlined in your question, Mike.

Mae angen inni ddarbwyllo'r Siapaneaid i weld Cymru mewn goleuni gwahanol. Rhaid iddynt weld nad dim ond lle ar gyfer llinellau cynhyrchu teledu ydyw ond hefyd ar gyfer cyflogi peirianwyr meddalwedd, bod gennym y cebl optig ffibr yn y ddaear—fel y byddech yn ei ddisgwyl gan mai ni â'I dyfeisiodd—ac ati. Dyna'r ddelwedd a gyflwynasom. Dyna ddechrau gwneud yr hyn yr amlinelloch yn eich cwestiwn, Mike.

Nick Bourne: I welcome much of this statement. However, it is significant that when there is good news the First Secretary is willing to tell us about it but when it comes to the fuel crisis, he ducks the issue completely. You should have given a lead on that. All we have had from you is talking to camera when there were no protesters or politicians about. You have not made a statement in the Assembly on the burgeoning

Nick Bourne: Croesawaf lawer o'r datganiad hwn. Fodd bynnag, mae'n arwyddocaol pryd bynnag y bydd gan y Prif Ysgrifennydd newyddion da ei fod yn barod i ddweud wrthym amdano ond pan ddaw i'r argyfwng tanwydd, mae'n osgoi'r mater yn llwyr. Dylech fod wedi rhoi arweiniad ar hynny. Y cyfan yr ydym wedi'i glywed gennych yw siarad â'r camera pan nad oedd unrhyw brotestwyr neu wleidyddion o gwmpas. Nid

fuel crisis. That is a serious issue.

ydych wedi gwneud datganiad yn y Cynulliad ar yr argyfwng tanwydd cynyddol. Mae hynny'n fater difrifol.

To return to the statement on your visit, I am glad that someone went to represent us, but how much time in Japan was spent on economic development issues, which we hope, in time, that somebody else will take care of because it is a separate portfolio—and perhaps you would like to comment on that—and how much was spent on First Secretary issues?

I ddychwelyd I'r datganiad ar eich ymweliad, yr wyf yn falch bod rhywun wedi mynd I'n cynrychioli, ond faint o amser a dreuliwyd yn Siapan yn trafod materion datblygu economaidd, yr ydym yn gobeithio, ymhen amser, y bydd rhywun arall yn ymdrin â hwy gan ei fod yn bortffolio ar wahân—ac efallai yr hoffech wneud sylwadau ar hynny—a faint o amser a dreuliwyd ar faterion y Prif Ysgrifennydd?

We are pleased to note that industry does not regard the sterling:euro exchange rate as an issue that would justify reconsidering investment decisions. Today's newspapers report that sterling is at its lowest rate against the dollar for some seven years. We must note that in terms of securing investment from countries other than those in Europe. I welcome the inclusion of academics in the visit. That is important. I also welcome the emphasis on trade promotion. However, we continue to feel that you spread yourself far too thinly over two different roles. That will become increasingly obvious as time goes on, First Secretary.

Yr ydym yn falch o nodi nad yw diwydiant yn ystyried y gyfradd gyfnewid sterling:ewro fel mater a fyddai'n cyfiawnhau ailystyried penderfyniadau buddsoddi. Yn y papurau newydd heddiw dywedir bod sterling ar y gyfradd isaf yn erbyn y ddoler ers rhyw saith mlynedd. Rhaid inni nodi hynny o ran sicrhau buddsoddiad o wledydd heblaw gwledydd yn Ewrop. Croesawaf gynnwys ysgolheigion yn yr ymweliad. Mae hynny'n bwysig. Croesawaf hefyd y pwyslais ar hyrwyddo masnach. Fodd bynnag, yr ydym yn parhau i deimlo nad yw'n bosibl i chi wneud cyfiawnder â dwy rôl wahanol. Daw hyn yn gynyddol amlwg gyda threigl amser, Brif Ysgrifennydd.

The Presiding Officer: Order. We have been in this situation before. This statement is about the visit to Japan, not the First Secretary's portfolio. I am sure that Members are sufficiently versed in constitutional practice to find other ways of discussing the First Secretary's portfolio.

Y Llywydd: Trefn. Yr ydym wedi bod yn y sefyllfa hon o'r blaen. Mae'r datganiad hwn yn ymwneud â'r ymweliad â Siapan, nid portffolio'r Prif Ysgrifennydd. Yr wyf yn siŵr bod yr Aelodau yn ddigon cyfarwydd ag arfer cyfansoddiadol i ddod o hyd i ffyrdd eraill o drafod portffolio'r Prif Ysgrifennydd.

The First Secretary: Thank you, Llywydd. Perhaps I should be relieved that Nick had a small measure of praise for how the mission was carried out, despite all the usual nit-picking niggles on other aspects. In response to the wider point that he insists on raising, he is saying that he would rather spend twice as much money on two separate visits to Japan—one by a First Secretary and one by a Secretary for Economic Development.

Y Prif Ysgrifennydd: Diolch, Lywydd. Efallai y dylwn deimlo rhyddhad bod gan Nick ychydig o ganmoliaeth ynglŷn â'r ffordd y cynhaliwyd y genhadaeth, er gwaethaf yr holl hollti blew arferol ar agweddau eraill. Mewn ymateb I'r pwynt ehangach y mae'n mynnu ei godi, dywed y byddai'n well ganddo wario dwywaith gymaint o arian ar ddau ymweliad gwahanol â Siapan—un gan Brif Ysgrifennydd ac un gan Ysgrifennydd Datblygu Economaidd.

The advantage of last week's visit was that we could work synoptically on behalf of the whole of Wales in attempting to raise the

Mantais yr ymweliad yr wythnos ddiwethaf oedd y gallem weithio'n gyfolwg ar ran Cymru gyfan wrth ymdrechu i godi proffil

profile of Wales. We dealt with economic development, political, tourism, healthcare and pharmaceutical issues in one visit. That represents much better value for money. I do not want to waste public money and I am sure that Nick does not, were he to think seriously about it instead of thinking about nit-picking niggles.

Cymru. Ymdriniasom â materion datblygu economaidd, gwleidyddol, twrisitiaeth, gofal iechyd a fferyllol yn ystod un ymweliad. Mae hynny'n cynrychioli gwerth llawer gwell am arian. Nid wyf am wastraffu arian cyhoeddus ac yr wyf yn sicr nad yw Nick am wneud hynny, petai'n meddwl o ddifrif am hyn yn hytrach nag am hollti blew.

I am grateful for the small amount of support that Nick gave. I think that he recognises in his heart of hearts that this is the right way to repackage Wales in the far eastern market. That is, as a country that can do much more in conjunction with Japan, not only in television assembly lines but in the new products, services, software and systems that it is designing and that we can help it to design.

Yr wyf yn ddiolchgar o'r gefnogaeth fechan a roddodd Nick. Credaf ei fod yn cydnabod yn ei galon mai dyma'r ffordd gywir i ailgyflwyno Cymru ym marchnad y dwyrain pell. Hynny yw, fel gwlad a all wneud llawer mwy ar y cyd â Siapan, nid yn unig ar linellau cynhyrchu setiau teledu ond yn y cynnyrch, gwasanaethau, meddalwedd a'r systemau newydd y mae'n eu dylunio ac y gallwn ei helpu i ddylunio.

Phil Williams: I am sure that it is an unfortunate coincidence that within a day of your meeting with Hitachi in Japan on investment in Wales, it announced a transfer of 350 jobs from Hirwaun to eastern Europe. That is a catastrophic blow to an area in Wales that suffers from the highest levels of unemployment. I am also informed—and you will appreciate that I will not give details—that there are strong possibilities that other firms that you met in Japan are considering the possibility of transferring manufacturing jobs from Wales to eastern Europe. What assurances did you receive about that? While you were in Japan, the rest of the Economic Development Committee was in Ireland. A theme repeated there by many of the people we met was the need to ensure embeddedness, that is, to ensure that any inward investment is embedded and cannot disappear as a result of a single decision by a board in a foreign country. What discussions did you have on the extent to which Japanese investment is embedded and on whether we have security for the remaining Japanese jobs in Wales? What steps would they require us to take to ensure that they regard Wales as a place for long-term investment?

Phil Williams: Yr wyf yn siŵr bod hyn yn gyd-ddigwyddiad anffodus bod Hitachi, o fewn diwrnod o'ch cyfarfod gyda hwy yn Siapan ar fuddsoddi yng Nghymru, wedi cyhoeddi eu bod yn trosglwyddo 350 o swyddi o Hirwaun i ddwyrain Ewrop. Mae honno'n ergyd drychinebus i ardal yng Nghymru sydd yn dioddef o'r lefelau uchaf o ddiweithdra. Yr wyf hefyd ar ddeall—a byddwch yn gwerthfawrogi na fyddaf yn rhoi manylion—bod posibilrwydd cryf bod cwmnïau eraill y cyfarfyddoch â hwy yn Siapan yn ystyried y posibilrwydd o drosglwyddo swyddi gweithgynhyrchu o Gymru i ddwyrain Ewrop. Pa sicrwydd a gawsoch ynglŷn â hynny? Tra yr oeddech yn Siapan, yr oedd gweddill y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn Iwerddon. Thema a ailadroddwyd yno gan lawer o'r bobl y cyfarfyddom â hwy oedd yr angen i sicrhau ymgorfforiad, sef sicrhau bod unrhyw fewnfuddsoddiad wedi'I ymgorffori ac ni all ddiflannu o ganlyniad i un penderfyniad gan fwrdd mewn gwlad dramor. Pa drafodaethau a gawsoch ar y graddau y mae buddsoddiad Siapaneaidd wedi'I ymgorffori ac ar p'un a oes gennym sicrwydd ar gyfer y swyddi Siapaneaidd sydd yn weddill yng Nghymru? Pa gamau y byddent yn gofyn inni eu cymryd i sicrhau eu bod yn ystyried Cymru fel lle ar gyfer buddsoddiad tymor hir?

10:10 a.m.

Finally, I notice that one reason given by Hitachi when it started discussing redundancy was the drop of 20 per cent in the cost of television sets. That is close to the drop in the value of the euro against the pound. It is close to the burden that is being carried by all manufacturing industries because of the overvalued pound. Therefore, would you say that you have, perhaps, been a bit complacent about the effect of the overvalued pound on foreign investment in Wales?

Yn olaf, sylwaf mai un rheswm a roddwyd gan Hitachi pan ddechreuodd drafod diswyddiadau oedd y gostyngiad o 20 y cant yng ngost setiau teledu. Mae hynny'n agos at y gostyngiad yng ngwerth yr ewro yn erbyn y bunt. Mae'n agos at y baich sydd yn cael ei ysgwyddo gan bob diwydiant gweithgynhyrchu oherwydd y bunt gref. Felly, a fyddech yn dweud eich bod, o bosibl, wedi llaesu dwylo rhyw ychydig ynghylch effaith y bunt gref ar fuddsoddiad tramor yng Nghymru?

The First Secretary: Let me take that a little further. I will tell you exactly what the Japanese companies told us. There are two issues for them in terms of low to medium technology, mass production, high volume assembly goods, that is, televisions, hi-fis, videos, microwave ovens and so on—the commodity goods of the white goods store. They said that there are two factors, one long-term and the other short-term. The long-term factor is the difference in wages between eastern Europe or East Asia and Wales, which is at a ratio of 1:6 or 1:7—1:10 probably in respect of east Asia. That exists regardless of the euro. The euro tends to make that situation worse because instead of having five years to effect your transformation to high technology, software and systems, you perhaps have one year, which may be too short a period. That is when you have net job losses. Some firms are affected even more. If they import components from Japan and use them to manufacture final products in the UK in order to sell the bulk of those final products in Europe, they are hit in two ways. Sterling is low compared to the yen. Therefore, you pay more for yen based key components. If you then manufacture goods not for export to the USA, where they would be cheaper, or Japan, where they would be cheaper again, but to the euro zone, your goods are far more expensive. Some firms are being hit by that double whammy now.

Y Prif Ysgrifennydd: Gadewch i mi fynd â hynny ychydig ymhellach. Dywedaf wrthych yn union beth a ddywedodd y cwmnïau Siapaneaidd wrthym. Mae dau fater iddynt eu hystyried o ran technoleg isel i ganolig, masgynhyrchu, nwyddau llinell gynhyrchu ar raddfa fawr, hynny yw, teledu, hi-fi, fideos, poptai microdon ac ati—nwyddau y siopau nwyddau gwyn. Dywedasant fod yna ddwy ffactor, un tymor hir a'r llall yn un tymor byr. Y ffactor tymor hir yw'r gwahaniaeth mewn cyflogau rhwng dwyrain Ewrop neu Ddwyrain Asia a Chymru, sydd ar gymhareb o 1:6 neu 1:7—1:10 fwy na thebyg mewn perthynas ag Asia. Mae hynny'n bodoli er gwaethaf yr ewro. Mae'r ewro yn tueddu i wneud y sefyllfa yn waeth oherwydd yn lle cael pum mlynedd i weithredu'r trosglwyddiad i uwch dechnoleg, meddalwedd a systemau, efallai mai dim ond blwyddyn fydd gennych, sydd o bosibl yn gyfnod rhy fyr. Dyna pryd y collir llawer o swyddi. Effeithir hyd yn oed yn fwy ar rai cwmnïau. Os byddant yn mewnforio cydrannau o Siapan a'u defnyddio i gynhyrchu cynnyrch terfynol yn y DU er mwyn gwerthu'r rhan fwyaf o'r cynnyrch terfynol hwnnw yn Ewrop, cânt eu taro mewn dwy ffordd. Mae gweth sterling yn isel o gymharu â'r ien. Felly, byddwch yn talu mwy am gydrannau allweddol yn seiliedig ar yr ien. Os byddwch wedyn yn cynhyrchu nwyddau nid i'w hallforio i'r Unol Daleithiau, lle byddant yn rhatach, neu Siapan, lle byddant yn rhatach byth, ond i barth yr ewro, bydd eich nwyddau yn llawer drutach. Mae rhai cwmnïau yn cael eu heffeithio gan y gost ddeublyg honno yn awr.

Other firms seem to be able to cope with this to varying degrees. It depends on how much

Ymddengys bod cwmnïau eraill yn gallu ymdopi â hyn i amrywiol raddau. Mae'n

time they have to effect the change from high volume, low value goods to low volume, high value goods, for example, from hardware to software. Some firms have a lot of time to effect that change, others have very little. Hitachi ran out of time as regards its television manufacturing, in terms of low and medium technology.

dibynnu faint o amser sydd ganddynt i weithredu'r newid o nwyddau gwerth isel ar raddfa fawr i nwyddau gwerth uchel ar raddfa fach, er enghraifft, o galedwedd i feddalwedd. Mae gan rai cwmnïau lawer o amser i weithredu'r newid hwnnw, ond ychydig iawn o amser sydd gan eraill. Daeth amser Hitachi i ben o ran cynhyrchu setiau teledu, yn nhermau technoleg isel a chanolig.

Phil asked what I said to the other companies that I met and whether I was being complacent. The precise purpose of the visit and the reason why we had face-to-face meetings with the senior management in Sharp, Hitachi, Sony and Panasonic was because we were not being complacent.

Gofynnodd Phil beth a ddywedais wrth y cwmnïau eraill y cyfarfum â hwy ac a oeddwn yn llaesu dwylo. Union bwrpas yr ymweliad a'r rheswm pam ein bod wedi cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb ag uwch reolwyr yn Sharp, Hitachi, Sony a Panasonic oedd i brofi nad oeddem yn llaesu dwylo.

Christine Chapman: The news that we received from Hitachi last week was a body blow for Cynon Valley, where there is already high unemployment. What further help can this Assembly offer to workers at the Hitachi factory in Hirwaun, in my constituency, who might face redundancy?

Christine Chapman: Yr oedd y newyddion a gawsoch gan Hitachi yr wythnos ddiwethaf yn ergyd drom i Gwm Cynon, lle mae diweithdra eisoes yn uchel. Pa gymorth ychwanegol y gall y Cynulliad hwn ei gynnig i weithwyr yn ffatri Hitachi yn Hirwaun, yn fy etholaeth I, a allai fod yn wynebu cael eu diswyddo?

The First Secretary: When we discussed this with Hitachi, we got it to agree that it would work closely with the Assembly and the Welsh Development Agency to see if there were other products within its huge product range that could be manufactured in the Hirwaun factory, or if it was not a factory type of product and required a different type of facility, to at least try to bring alternative products into Wales. I do not know whether there will be a successful outcome because there is a 90-day period of negotiations between Hitachi and the unions. Phil asked earlier if it was a coincidence that we were in Japan at the time. I do not know because I do not know if the closure decision was driven by management in Hirwaun or Japan. All I can say is that it was a big shock for us as well as for the community in Hirwaun. The issue is whether the company is willing to work with us to see if alternative products can be made in Wales and jobs created to help compensate for the 350 jobs being lost. It said that it was willing to do that.

Y Prif Ysgrifennydd: Pan drafodasom hyn gyda Hitachi, llwyddasom i'w gael i gytuno y byddai'n gweithio'n agos gyda'r Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru i weld a oedd cynnyrch eraill o fewn ei ystod enfawr o gynnyrch y gellid eu gynhyrchu yn ffatri Hirwaun, neu os nad oedd yn gynnyrch ffatri a bod angen gwahanol fath o gyfleuster, i geisio cyflwyno cynnyrch amgen i Gymru o leiaf. Ni wn a fydd canlyniad llwyddiannus gan fod cyfnod o 90 diwrnod o negodi rhwng Hitachi a'r undebau. Gofynnodd Phil yn gynharach ai cyd-ddigwyddiad ydoedd ein bod yn Siapan ar y pryd. Ni wn oherwydd ni wn a gafodd y penderfyniad i gau ei symbylu gan y rheolwyr yn Hirwaun ynteu Siapan. Y cyfan y gallaf ei ddweud yw ei fod yn sioc fawr i ni yn ogystal ag i gymuned Hirwaun. Y mater dan sylw yw a yw'r cwmni yn barod i weithio gyda ni i weld a ellir gwneud cynnyrch amgaen yng Nghymru a chreu swyddi i helpu i wneud iawn am y 350 o swyddi a gollir. Dywedodd y byddai'n fodlon gwneud hynny.

Dirprwyo Swyddogaethau i'r Prif Ysgrifennydd
Delegation of Functions to the First Secretary

The Business Secretary (Andrew Davies): I propose that

Y Trefnydd (Andrew Davies): Cynigiaf fod

the National Assembly, acting under Section 62 (1)(b) of the Government of Wales Act 1998, resolves to delegate to the Assembly First Secretary all of its functions in or under the Sheep and Goats Identification (Wales) Order IS 2000/2335 (W 152) (laid in the Table Office on 7 September 2000).

Y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Adran 62(1)(b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo pob un o'I swyddogaethau yn neu o dan Orchymyn Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) IS 2000/2335 (W152) (a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Medi 2000) i Brif Ysgrifennydd y Cynulliad.

Before I move this motion, as I said on Tuesday, the Government will be giving a statement in Plenary today on the latest situation on the fuel crisis. My colleague Sue Essex will be doing that later in the session today.

Cyn imi gynnig y cynnig hwn, fel y dywedais ddydd Mawrth, bydd y Llywodraeth yn rhoi datganiad I'r Cyfarfod Llawn heddiw ar y sefyllfa ddiweddaraf gyda'r argyfwng tanwydd. Bydd fy nghyd-Aelod Sue Essex yn gwneud hynny yn ddiweddarach yn y sesiwn heddiw.

The Sheep and Goats Identification (Wales) Regulations 2000 implement council directive 92/102/EEC. This sets out rules—

Mae'r Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000 yn gweithredu cyfarwyddeb y cyngor 92/102/EEC. Mae hyn yn nodi'r rheolau—

The First Secretary: This is the highlight of the year.

Y Prif Ysgrifennydd: Dyma uchafbwynt y flwyddyn.

The Presiding Officer: Order. Sheep and goats are important to some of us.

Y Llywydd: Trefn. Mae defaid a geifr yn bwysig i rai ohonom.

Alun Cairns: They are more important to some than others.

Alun Cairns: Y maent yn bwysicach i rai nag i eraill.

Andrew Davies: It is important that we are able to tell the difference between them. It provides that sheep and goats should be permanently marked before they leave their holding of birth with a sheep flock mark or goat herd mark. The regulations were made using executive legislative procedures and were implemented on 1 September. There were many reasons for using this procedure and we informed party business managers of it. The UK had already received a reasoned opinion letter as a prelude to infraction proceedings for non-implementation of the council directive. By meeting the planned implementation date we eliminated any such risk of possible ramifications from the

Andrew Davies: Mae'n bwyisg ein bod yn gallu gwahaniaethu rhyngddynt. Mae'n darparu y dylid marcio defaid a geifr yn barhaol cyn iddynt adael y fferm lle y cawsant eu geni gyda marc diadell o ddefaid neu farc diadell o eifr. Gwnaethpwyd y rheoliadau drwy ddefnyddio gweithdrefnau deddfwriaethol uwch ac fe'u gweithredwyd ar 1 Medi. Yr oedd llawer o resymau dros ddefnyddio'r weithdrefn hon a hysbyswyd rheolwyr busnes y pleidiau ohoni. Yr oedd y DU eisoes wedi derbyn llythyr barn rhesymegol fel rhagarweiniad i weithdrefnau torri rheolau am beidio â gweithredu cyfarwyddeb y cyngor. Drwy gwrdd â'r dyddiad gweithredu arfaethedig fe wnaethom

European Commission. The record keeping requirements under the new regulations are now the same in England and Wales, removing any animal health and traceability issues. We also avoided any cost implications for the Assembly. In addition, it gave farmers in Wales adequate time to order tags to comply with the regulations, to digest the publicity material and better understand the implications of the new requirements.

ddileu unrhyw berygl o israniadau posibl gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r gofynion cadw cofnodion o dan y rheoliadau newydd bellach yr un fath yng Nghymru a Lloegr, gan ddileu unrhyw faterion yn ymwneud ag iechyd anifeiliaid ac olrhain anifeiliaid. Llwyddom hefyd i osgoi unrhyw oblygiadau o ran cost i'r Cynulliad. Yn ogystal, rhoddodd ddigon o amser i ffermwyr yng Nghymru archebu tagiau er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau, cymathu'r deunydd cyhoeddusrwydd a chael gwell dealltwriaeth o oblygiadau'r gofynion newydd.

The regulations confer on the Assembly the functions of allocating to the keepers of sheep and goats a flock mark in the case of sheep and a herd mark in the case of goats. The allocation of flock and herd marks is currently made by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food staff at local health offices on a Great Britain basis. It is necessary to make arrangements for MAFF to continue to provide this service to farmers in Wales on behalf of the Assembly. That can be done under Section 41 of the Government of Wales Act 1998, which delegates power that has been transferred to the Assembly to outside bodies to carry out functions in Wales. The purpose of this debate is to request the delegation in respect of the allocation of flock and herd marks to farmers in Wales to the First Secretary for onward delegation to officials. The authorisation to delegate these functions will enable farmers in Wales to receive their new flock and herd marks on receipt of notification of their intention to keep sheep and goats.

Mae'r rheoliadau yn gosod swyddogaethau ar y Cynulliad i ddyrannu marc diadell yn achos defaid a marc gyrr yn achos geifr I'r rhai sydd yn cadw defaid a geifr. Dyrennir y marciau diadell a gyrr ar hyn o bryd gan staff y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd mewn swyddfeydd iechyd lleol ledled Prydain Fawr. Mae angen gwneud trefniadau I'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd barhau i ddarparu'r gwasanaeth hwn i ffermwyr yng Nghymru ar ran y Cynulliad. Gellid gwneud hynny o dan Adran 41 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, sydd yn dirprwyo pŵer sydd wedi ei drosglwyddo I'r Cynulliad i gyrff allanol er mwyn gweithredu swyddogaethau yng Nghymru. Pwrpas y ddadl hon yw gofyn i'r swyddogaeth o ddyrannu marciau diadell a gyrr i ffermwyr yng Nghymru gael ei dirprwyo I'r Prif Ysgrifennydd i'w dirprwyo ymhellach i swyddogion. Bydd yr awdurdod i ddirprwyio'r swyddogaethau hyn yn galluogi ffermwyr yng Nghymru i dderbyn eu marciau diadell a gyrr newydd pan dderbyniant hysbysiad o'u bwriad i gadw defaid a geifr.

Before I close, on Tuesday John Marek asked whether a list of delegations could be made available to Members. Officials have been compiling a database of delegations from the First Secretary to my Assembly Secretary colleagues and onwards to officials. Building the database—as I am sure you are aware—has been a huge task and has taken some time. However, it is now near completion and I expect that it will be available on the intranet in the next month or so. It will then allow delegations to be found either by Act or by Assembly Secretary responsibilities. I

Cyn imi derfynnu, ddydd Mawrth gofynnodd John Marek a ellid sicrhau bod rhestr o ddirprwyaethau ar gael I'r Aelodau. Mae'r swyddogion wedi bod yn llunio cronfa ddata o ddirprwyaethau gan y Prif Ysgrifennydd I'm cyd-Aelodau sydd yn Ysgrifenyddion yn y Cynulliad ac ymlaen i swyddogion. Mae adeiladu'r gronfa ddata—fel y gwyddoch mae'n siŵr—wedi bod yn dasg enfawr ac wedi cymryd cryn amser. Fodd bynnag, mae bellach yn tynnu at y terfyn a disgwyliaf y bydd ar gael ar y fewnrwyd yn ystod y mis neu ddau nesaf. Bydd wedyn yn caniatáu i

hope that answers John's query.

ddirprwyaethau gael eu canfod naill ai gan y Ddeddf neu gan gyfrifoldebau Ysgrifenyddion y Cynulliad. Gobeithiaf fod hynny'n ateb cwestiwn John.

I ask you to approve the motion to delegate the functions conferred on the Assembly under these regulations to the First Secretary.

Gofynnaf ichi gymeradwyo'r cynnig i ddirprwyo'r swyddogaethau a osodir ar y Cynulliad o dan y rheoliadau hyn I'r Prif Ysgrifennydd.

10:20 a.m.

Elin Jones: Ategaf eich sylwadau bod y cynllun hwn yn bwysig I ffermwyr defaid a geifr Cymru. Er y bydd y system newydd hon yn ychwanegu at lwyth gwaith a chostau'r ffermydd defaid a geifr yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn defnyddio'r cynllun hwn yn gadarnhad o ansawdd cig oen, caws geifr a chynnyrch arall Cymru. Pwysleisiaf—a hoffwn glywed sylwadau'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig am hyn—fy ngobaith y bydd Adran Amaethyddiaeth y Cynulliad yn cymryd agwedd bragmataidd a hyblyg yn nyddiau cynnar y cynllun hwn. Gobeithiaf hefyd y bydd yn sicrhau y caiff ffermwyr yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt mewn da bryd, gyda digon o amser ymarferol i gydymffurfio â'r cynllun.

Elin Jones: I endorse your comments that this scheme is important to the sheep and goat farmers of Wales. Although this new system will add to the workload and costs of sheep and goat farms in Wales, it is important that we use this scheme as confirmation of the quality of Welsh lamb, goats' cheese and other produce. I emphasise—and I would like to hear the Secretary for Agriculture and Rural Development's comments on this—my hope that the Assembly's Agriculture Department will take a pragmatic and flexible approach in the early days of this scheme. I also hope that it will ensure that farmers have the information that they need in good time, with enough practical time to comply with the scheme.

Mick Bates: The Liberal Democrats can support a process that enables quality Welsh products to be identified as Welsh, particularly sheep, which are extremely important to many people in this country. Fifty per cent of Welsh lamb is exported. The increased bureaucracy and cost need to be rigorously monitored, particularly the cost of tags to the farmer, and the effectiveness of the tags. We regret the further imposition of costs on an industry that is already under severe pressure. It took a long time to realise that good marketing requires traceability.

Mick Bates: Gall y Democratiaid Rhyddfrydol gefnogi proses sydd yn galluogi i gynnyrch Cymreig o safon gael ei adnabod fel rhywbeth Cymreig, yn arbennig defaid, sydd yn bwysig iawn i nifer o bobl yn y wlad hon. Caiff 50 y cant o gig oen Cymru ei allforio. Mae angen monitro'r fiwrocratiaeth a'r gost gynyddol yn drylwyr, yn arbennig cost tagiau I'r ffermwr, ac effiethiolrwydd y tagiau. Mae gosod mwy o gostau ar ddiwydiant sydd eisoes o dan gymaint o bwysau yn anffodus. Cymerodd amser hir i sylweddoli bod marchnata da yn gofyn am y gallu i olrhain.

There remain three concerns that I would like addressed this morning. The first relates to the movement of sheep from holdings. During the next 12 months, sheep, for example, may be moved to wintering and then returned to their holding. Must they be tagged? I also hope that the First Secretary will be able to tell me whether exporters will have to use yet another tag in addition to the one that identifies the sheep. Finally, will he

Erys tri phryder yr hoffwn ichi ymdrin â hwy y bore yma. Mae'r cyntaf yn ymwneud â symud defaid o ffermydd. Yn ystod y 12 mis nesaf, gellir symud defaid, er enghraifft, i aeafu ac yna eu dychwelyd i'w fferm. A oes rhaid iddynt gael eu tagio? Gobeithiaf hefyd y gall y Prif Ysgrifennydd ddweud wrthyf a fydd yn rhaid i allforwyr ddefnyddio tag arall yn ychwnaegol at y rhai sydd yn adnabod defaid. Yn olaf, a fydd yn sicrhau na fydd y

give an assurance that the tags, which will be purchased with the flock number on them, will not be subject to any future change, which would incur further costs for the producer?

tagiau a gaiff eu prynu gyda rhif y ddiadell arnynt, yn cael eu newid yn y dyfodol, a fyddai'n achosi rhagor o gostau I'r cynhyrchydd?

Y Llywydd: Cyn inni fynd ymhellach ar y ddadl hon, atgoffaf amaethwyr neu berchnogion tir a allai fod yn dir pori, I ddatgan buddiant.

The Presiding Officer: Before we go any further with this debate, I remind farmers or landowners, whose land could be used for grazing, to declare an interest.

Elin Jones: Mae gennyf fuddiant anuniongyrchol.

Elin Jones: I have an indirect interest.

Mick Bates: I declare an interest.

Mick Bates: Datganaf fuddiant.

Peter Rogers: I also declare an interest.

Peter Rogers: Yr wyf innau hefyd yn datgan buddiant.

The Conservatives also welcome this important measure of tagging sheep so that we can maintain the export trade, which is so vital for Welsh agriculture. Certain factors ought to be brought to your attention, however, in particular the transitional period for ewes that are already on farms. I realise that, once this is implemented, those ewe lambs that are born and marked will be available for export, but there will be a great problem with the ewes and yearlings that are already on farms and that are not under this scheme. We could do with some safeguard in the transitional period so that they could be exported with the tag of the holding on which they are currently kept.

Mae'r Ceidwadwyr hefyd yn croesawu'r mesur pwysig hwn o dagio defaid fel y gallwn gynnal y fasnach allforio, sydd mor hanfodol ar gyfer amaethyddiaeth yng Nghymru. Dylid tynnu eich sylw at rai ffactorau, fodd bynnag, yn enwedig y cyfnod trosiannol ar gyfer mamogiaid sydd eisoes ar ffermydd. Sywleddolaf, unwaith y bydd hyn yn cael ei weithredu, y bydd y mamogiaid ifanc sydd yn cael eu geni a'u marcio ar gael i'w hallforio, ond bydd problem fawr gyda'r mamogiaid a'r hesbinod sydd eisoes ar ffermydd ac nad ydynt yn rhan o'r cynllun hwn. Gallai rhywfaint o gamau diogelwch yn y cyfnod trosiannol fod yn ddefnyddiol fel y gellid eu hallforio gyda thag y fferm y cânt eu cadw arni ar hyn o bryd.

The other matter that ought to be highlighted are the two different regulations with regard to ewe lambs. Under this scheme, it is proposed that they should be tagged and put in the stock record if they are deemed to go for breeding and they have not lambed at 12 months old. The other scheme, under the National Assembly, has a date of 16 months. Therefore, there will be two different dates: one for this tagging scheme and one for the recording of ewe lambs under the other scheme. This ought to be clarified.

Y mater arall y dylid ei amlygu yw'r ddau reoliad gwahanol o ran mamogiaid ifanc. O dan y cynllun hwn, argymhellir y dylid eu tagio a'u cynnwys yn y cofnod o stoc os bwriedir iddynt gael eu magu ac nad ydynt wedi ŵyna yn 12 mis oed. Mae gan y cynllun arall, o dan y Cynulliad Cenedlaethol, ddyddiad o 16 mis. Felly, bydd yna ddau ddyddiad gwahanol: un ar gyfer y cynllun tagio hwn ac un ar gyfer cofnodi mamogiaid ifanc o dan y cynllun arall. Dylid egluro hyn.

Also, a greater emphasis ought to be put on considering the costs of these tags. I agree with Mick about the initial cost of numbering and that to do all the tagging at the same time, instead of changing the regulations in a

Yn ogystal, dylid rhoi mwy o bwyslais ar ystyried costau'r tagiau hyn. Cytunaf gyda Mick ynglŷn â chost cychwynnol y rhifo ac y byddai gwneud yr holl waith tagio ar yr un pryd, yn hytrach na newid y rheoliadau

couple of years, would be a great boost to the industry. There are problems if we lose cattle tags in transit. There will be problems with putting tags in the small ears of lambs that could be lost in transportation. We must ensure that there is an appeal procedure that we can address. The other problem is that during spring, when couples are sold, we should ask for an exemption on young lambs up to a week old, as tags will not be applicable.

ymhen blwyddyn neu ddwy, yn hwb mawr I'r diwydiant. Ceir problemau os byddwn yn colli tagiau gwartheg wrth eu cludo. Bydd problemau yn codi gyda rhoi tagiau yng nghlustiau bach ŵyn y gellid eu colli wrth eu cludo. Rhaid inni sicrhau bod gweithdrefn apelio y gallwn fynd I'r afael â hi. Y broblem arall yw yn ystod y gwanwyn, pan werthir cyplau, dylem ofyn am eithriad ar ŵyn ifanc hyd at wythnos oed, gan na fydd tagiau yn berthnasol.

Gwenda Thomas: This sounds quite complicated to me. Can we have an assurance that there will be a free telephone helpline service available for Welsh farmers?

Gwenda Thomas: Mae hwn yn swnio'n eithaf cymhleth i mi. A allwn gael sicrwydd y bydd yna wasanaeth llinell gymorth ddi-dâl ar gael i ffermwyr Cymru?

Janet Davies: I will not mention sheep or costs. How on earth will this system be implemented for goat keepers who may keep just one or two goats on their holdings? They may not be aware of the regulations. There is an enormous number of these people to police, which is rather impractical.

Janet Davies: Ni chrybwyllaf ddefaid na chostau. Sut yn y byd y gellid gweithredu'r system hon ar gyfer pobl sydd yn cadw geifr sydd ond ag un neu ddwy o eifr ar eu ffermydd? Efallai nad ydynt yn ymwybodol o'r rheoliadau. Mae nifer fawr iawn o'r bobl hyn i'w plismona, sydd yn eithaf anymarferol.

Glyn Davies: I declare an interest as a sheep keeper. I agree with previous speakers that in introducing legislation that is bureaucratic and expensive, the administration should adopt a flexible and pragmatic approach, certainly in the early years.

Glyn Davies: Datganaf fuddiant fel rhywun sydd yn cadw defaid. Cytunaf â'r siaradwyr blaenorol y dylai'r weinyddiaeth fabwysiadu ymagwedd hyblyg a phragmataidd wrth gyflwyno deddwriaeth sydd yn fiwrocrataidd ac yn ddrud, yn sicr yn y blynyddoedd cynnar.

John Marek: I hope that it has not gone without notice, but this motion is about whether we delegate the powers or not, and has nothing to do with tags, sheep or whatever. I am grateful to you, Dafydd, for having allowed the discussion to range widely. However, the important procedural point is that we ought to have a system where we can discuss such matters before they are in print and signed by you as statutory instruments. Could you consider this so that we can have a proper procedure?

John Marek: Gobeithiaf fod pobl wedi sylweddoli, ond mae'r cynnig hwn yn ymwneud â ph'un a ydym yn dirprwyo'r pwerau ai peidio, ac nid oes a wnelo â thagiau, defaid neu beth bynnag. Yr wyf yn ddiolchgar ichi, Dafydd, am ganiatáu I'r drafodaeth fod yn un mor eang. Fodd bynnag, y pwynt trefniadol pwysig yw y dylem gael system lle y gallwn drafod materion o'r fath cyn iddynt gael eu hargraffu a'u llofnodi gennych chi fel offerynnau statudol. A allech chi ystyried hyn fel y gallwn gael gweithdrefn briodol?

The Presiding Officer: This is an appropriate matter for discussion in the review group. It is an issue that has already been set out in the initial discussions on the scoping for the review.

Y Llywydd: Mae hwn yn fater sydd yn briodol i'w drafod yn y grŵp arolygu. Mae'n fater sydd eisoes wedi ei nodi yn y trafodaethau cychwynnol ar gyfer cwmpas yr arolwg.

William Graham: As it, I think, says in the

William Graham: Fel y dywed, mi gredaf,

book of Amos: 'I am not a prophet, I am but a keeper of sheep'. I therefore declare an interest, as appropriate.

yn llyfr Amos: 'Nid proffwyd ydwyf, ond ceidwad defaid.' Yr wyf felly yn datgan buddiant, fel y bo'n briodol.

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Carwyn Jones): On Elin and Glyn's points, I hope that we are always as pragmatic and as reasonable as possible within the rules that are imposed upon us by the European Commission. I will take on board the views that you both expressed. Mick and Peter, you made remarks on the operation of the schemes. This is a debate about the adoption of the Order itself, and I would be glad to discuss your points with you. They are important points that deserve a full answer, which I will give you in due course. Janet, I did not hear a word you said, unfortunately—I could not hear you. Is it in order, Llywydd, for a question to be repeated?

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Carwyn Jones): Ynglŷn â phwyntiau Elin a Glyn, gobeithio ein bod bob amser mor bragmataidd a rhesymol â phosibl o fewn y rheolau a osodir arnom gan y Comisiwn Ewropeaidd. Byddaf yn ystyried y sylwadau a fynegwyd gan y ddau ohonoch. Mick a Peter, fe wnaethoch sylwadau ar weithrediad y cynlluniau. Dadl ynglŷn â mabwysiadu'r Gorchymyn ei hun yw hon, a byddai'n bleser gennyf drafod eich pwyntiau gyda chi. Maent yn bwyntiau pwysig sydd yn haeddu ateb llawn, ac fe roddaf ateb llawn ichi maes o law. Janet, ni chlywais air a ddywedasoch, yn anffodus—nid oeddwn yn gallu eich clywed. A yw'n dderbyniol, Lywydd, i gwestiwn gael ei ailadrodd?

The Presiding Officer: Yes, in the form of an intervention.

Y Llywydd: Ydyw, ar ffurf ymyriad.

Janet Davies: I was concerned about goat keepers—those people who keep one or two goats, who may not hear of this. How on earth will you practically police and supervise this system? It could be extremely difficult.

Janet Davies: Yr oeddwn yn pryderu ynghylch y rhai sydd yn cadw geifr—y bobl hynny sydd yn cadw un neu ddwy afr, na fyddant o bosibl yn clywed am hyn. Sut ar wyneb y ddaear y byddwch yn plismona ac yn arolygu'r system hon yn ymarferol? Gallai fod yn hynod o anodd.

Carwyn Jones: We will need to publicise the operation of this Order as soon as the National Assembly approves it. I will ensure that as much publicity as possible goes out so that people understand their obligations. We can argue about the financing and the difficulty of this Order, but it is important for us to have such an Order so that we can say to the world that we can produce the best sheep's meat and goats' milk in the world. This is another step towards ensuring that we achieve that priority.

Carwyn Jones: Bydd angen inni roi cyhoeddusrwydd i weithredu'r Gorchymyn hwn cyn gynted ag y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gymeradwyo. Byddaf yn sicrhau bod cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl yn cael ei ddosbarthu er mwyn i bobl ddeall eu dyletswyddau. Gallwn ddadlau ynghylch ariannu ac anhawster y Gorchymyn hwn, ond mae'n bwyisg inni gael Gorchymyn o'r fath fel y gallwn ddweud wrth y byd y gallwn gynhyrchu'r cig oen a'r llaeth gafr gorau yn y byd. Mae hyn yn gam arall tuag at sicrhau ein bod yn cyflawni'r flaenoriaeth honno.

Kirsty Williams: I declare an interest as, following my marriage, I will have an interest in a farm.

Kirsty Williams: Yr wyf yn datgan buddiant oherwydd, yn dilyn fy mhriodas, bydd gennyf fuddiant mewn fferm.

The Presiding Officer: I intended to say this later but, given your statement, it is timely for me to extend our congratulations to you and

Y Llywydd: Yr oeddwn wedi bwriadu dweud hyn yn ddiweddarach ond, yng ngoleuni eich datganiad, mae'n amserol imi

to Richard on that future happy occasion.

eich llongyfarch chi a Richard ar yr achlysur hapus arfaethedig hwnnw.

10:30 a.m.

Cynnig: O blaid 51, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 51, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 8) (Cymru) 2000
Approval of Special Grant Report (No. 8) (Wales) 2000

The Secretary for Local Government and Housing (Peter Law): I propose that

the National Assembly, under section 88B of the Local Government Finance Act 1988, and in accordance with Standing Order No. 19.8, approves the Special Grant for Asylum Seekers (Adults, Families of Asylum Seekers and Unaccompanied Asylum Seeking Children)(No. 8) (Wales) 2000, which was laid in the Table Office on 7 September 2000.

This report, made under section 88B of the Local Government Finance Act 1988, specifies determinations concerning special grants that the Assembly proposes to pay to local authorities. This report has the effect of modifying Special Grant Report (No. 2) (Wales) 2000, which the Assembly approved in February of this year. Approving this report will provide the additional legal authority needed to enable the Assembly to fully reimburse local authorities in Wales for their grant claims in respect of defined costs incurred in taking care of asylum seekers. I pay tribute to local authorities in Wales for their good work now and in future to help asylum seekers.

In previous years, the former Welsh Office administered grants to local authorities that had incurred expenditure as a result of their support for asylum seekers under the National Assistance Act 1948 and the Children Act 1989. This responsibility has now passed to the National Assembly. Asylum is essentially a non-devolved issue in Wales and, from December 1999, new arrangements were introduced which are administered for Wales and England by the Home Office. However, there remains a residual need to reimburse Welsh local authorities for their costs in this area in the period from 1 April 1999 to 3 December 1999.

Yr Ysgrifennydd Llywodraeth Leol a Thai (Peter Law): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol, o dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 19.8, yn cymeradwyo'r Grant Arbennig i Geiswyr Lloches (Oedolion, Teuluoedd Ceiswyr Lloches a Phlant ar eu pennau eu hunain sydd yn Ceisio Lloches) (Rhif 8) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Medi 2000.

Mae'r adroddiad hwn, a wnaethpwyd o dan adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn manylu ar benderfyniadau yn ymwneud â grantiau arbennig y mae'r Cynulliad yn bwriadu eu talu i awdurdodau lleol. Effaith yr adroddiad hwn yw addasu Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru) 2000, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ym mis Chwefror eleni. Bydd cymeradwyo'r adroddiad hwn yn darparu'r awdurdodod cyfreithiol ychwanegol sydd ei angen i alluogi'r Cynulliad i ad-dalu awdurdodau lleol yng Nghymru yn llawn o ran eu ceisiadau am grant mewn perthynas â chostau diffiniedig a ddeilliodd o ofalu am geiswyr Lloches. Talaf deyrnged i awdurdodau lleol Cymru am eu gwaith da yn awr ac yn y dyfodol i helpu ceiswyr Lloches.

Yn y blynyddoedd blaenorol, yr oedd yr hen Swyddfa Gymreig yn gweinyddu grantiau i awdurdodau lleol a oedd wedi creu gwariant o ganlyniad i'w cefnogaeth i geiswyr Lloches o dan Ddeddf Cymorth Cenedlaethol 1948 a Deddf Plant 1989. Bellach trosglwyddwyd y cyfrifoldeb hwn i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae Lloches yn ei hanfod yn fater sydd heb ei ddatganoli yng Nghymru ac, o fis Rhagfyr 1999, cyflwynwyd trefniadau newydd a weinyddir ar ran Cymru a Lloegr gan y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, erys angen gweddilliol i ad-dalu costau awdurdodau lleol yng Nghymru yn y maes hwn yn y cyfnod o 1 Ebrill 1999 i 3 Rhagfyr 1999.

In Plenary on 29 February, the Assembly debated and approved Special Grant Report (No. 2) (Wales), which gave the legal authority to reimburse local authorities within defined limits for their reasonable costs in taking care of asylum seekers. The earlier report specified £350,000 as the maximum amount payable to all Welsh local authorities in respect of claims in the 1999-2000 financial year. In setting this ceiling, we took account of expenditure on this scheme in earlier years and of the fact that our administration of the scheme would end in December 1999. However, given the nature of the support provided, expenditure by local authorities in this area has proved difficult to estimate accurately. Faced with this, officials advised me that expenditure in the 1999-2000 financial year would have to be limited to a total of £350,000 for all authorities. By late March, final actual claims from local authorities totalled around £500,000. Each authority's claim was therefore scaled back in proportion to their claim as a percentage of total claims received.

Yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Chwefror, trafododd a chymeradwyodd y Cynulliad Adroddiad Grant Arbennig (Rhif 2) (Cymru), a roddai'r awdurdod cyfreithiol i ad-dalu costau rhesymol awdurdodau lleol, o fewn cyfyngiadau diffiniedig, wrth ofalu am geiswyr Lloches. Nododd yr adroddiad cynharach £350,000 fel yr uchafswm sydd yn daladwy i bob awdurdod lleol yng Nghymru mewn perthynas â cheisiadau yn y flwyddyn ariannol 1999-2000. Wrth osod y terfyn hwn, ystyriwyd gwariant ar y cynllun hwn mewn blynyddoedd cynharach a'r ffaith y byddai ein gweinyddiaeth o'r cynllun yn dod i ben ym mis Rhagfyr 1999. Fodd bynnag, o gofio natur y cymorth a ddarperir, mae gwariant gan awdurdodau lleol yn y maes hwn wedi bod yn anodd i'w amcangyfrif yn gywir. Gyda hyn yn eu hwynebu, cefais fy hysbysu gan swyddogion y byddai'n rhaid i wariant yn y flwyddyn ariannol 1999-2000 gael ei gyfyngu i gyfanswm o £350,000 ar gyfer pob awdurdod. Erbyn diwedd Mawrth, daeth y ceisiadau gwirioneddol terfynol gan awdurdodau lleol i gyfanswm o tua £500,000. Felly cwtogwyd ar gais pob awdurdod yn gymesur â'u cais fel canran o gyfanswm y ceisiadau a dderbyniwyd.

I made it clear in the debate on the earlier report that I was very concerned to ensure that local authorities that had legitimately incurred expenditure in supporting those seeking asylum in Wales should be fully reimbursed for the expenditure, together with any further costs that might arise from the normal audit process. I was advised that the Home Office had agreed to make an unprecedented one-off reimbursement of the cost that the Assembly incurred on this scheme in 1999-2000. As a result, funding was available in the current financial year to meet the full cost of the funding shortfall that I mentioned, at no additional cost to the National Assembly. In light of this, and of the comments made by all parties during the debate in February, I asked officials to write to local authorities informing them that I intended to ask the Assembly to approve a further grant report giving us the legal authority to fully meet all claims. To a large extent therefore, this report is a technical matter giving effect to a decision that we took in principle in February. As a consequence of the Asylum and Immigration Act 1999,

Gwneuthum yn glir yn y ddadl ar yr adroddiad cynharach fy mod yn awyddus iawn i sicrhau y dylai awdurdodau lleol a oedd wedi creu gwariant dilys wrth gefnogi'r rhai a oedd yn ceisio Lloches yng Nghymru gael eu had-dalu'n llawn am y gwariant, ynghyd ag unrhyw gostau eraill a allai godi o'r broses archwilio arferol. Cefais fy hysbysu bod y Swyddfa Gartref wedi cytuno i wneud ad-daliad unigryw—rhywbeth nas gwnaethpwyd erioed o'r blaen—o'r gost a grewyd gan y Cynulliad ar y cynllun hwn yn 1999-2000. O ganlyniad, yr oedd arian ar gael yn y flwyddyn ariannol gyfredol i gwrdd â chost lawn y diffyg mewn cyllid a grybwyllais, heb unrhyw gost ychawngol i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yng ngoleuni hyn, a'r sylwadau a wnaethpwyd gan bob plaid yn ystod y ddadl ym mis Chwefror, gofynnais i swyddogion ysgrifennu at awdurdodau lleol yn eu hysbysu fy mod yn bwriadu gofyn i'r Cynulliad gymeradwyo adroddiad grant arall gan roi'r hawl gyfreithiol inni gwrdd yn llawn â phob cais. I raddau helaeth felly, mae'r adroddiad hwn yn fater technegol sydd yn gweithredu penderfyniad a gymerwyd

asylum seeker arrangements are now the responsibility of a new unit, the National Asylum Support Service at the Home Office. However, I am sure that the National Assembly for Wales will want to support this fair reimbursement to our local authorities.

gennym mewn egwyddor ym mis Chwefror. O ganlyniad i Ddeddf Llochesu a Mewnfudo 1999, cyfrifoldeb uned newydd, sef y Gwasanaeth Cymorth Lloches Cenedlaethol yn y Swyddfa Gartref, yw'r trefniadau ar gyfer ceiswyr Lloches. Fodd bynang, yr wyf yn siŵr y bydd Cynulliad Cenedlaehol Cymru am gefnogi'r ad-daliad teg hwn i'n hawdurodau lleol.

Helen Mary Jones: Yr wyf yn cefnogi'r cynnig hwn a chroesawaf yr arian ychwanegol a fydd yn helpu awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau teilwng i geiswyr Lloches, yn enwedig plant. Mae hynny'n cyd-fynd â'r traddodiad balch sydd gennym fel gwlad o groesawu ffoaduriaid a gofalu amdanynt. Maent yn aml wedyn yn cyfrannu llawer i'n gwlad. Yn ogystal, rhaid inni gofio bod gan Gymru, ynghyd â gwledydd eraill Prydain, hanes o hiliaeth erchyll a threisgar. Clywsom ormod o iaith hiliol yn ystod y flwyddyn diwethaf gan wleidyddion o fwy nag un blaid ar lefel Brydeinig, yn y drafodaeth ar geiswyr Lloches. Gobeithiaf nad ydym yn mynd i glywed y math hwnnw o iaith yn y Cynulliad hwn.

Helen Mary Jones: I support this motion and welcome the additional money that will help local authorities to ensure that there are decent services for asylum seekers, especially children. That is in accordance with the proud tradition we have as a country of welcoming refugees and caring for them. They often then contribute a great deal to our country. In addition, we must remember that Wales, as well as other British countries, has a history of terrible and violent racism. In the past year we have heard too much racist language from politicians from more than one party on a British level, in the debate on asylum seekers. I hope that we will not hear that kind of language in this Assembly.

Yr ydym ni fel plaid wedi ystyried erioed bod y Ddeddf Llochesu a Mewnfudo 1999 yn un hiliol. Mae'n gorfodi pobl i symud ac yn rhoi talebau iddynt yn hytrach nag arian. Nid yw'r Cynulliad yn gallu gwneud dim i newid y sefyllfa honno. Fodd bynnag, gallwn sicrhau bod ceiswyr Lloches a ddaw i Gymru yn derbyn pob cefnogaeth a'r holl wasanaethau y mae arnynt eu hangen. Mae'n holl bwysig, wrth ddarparu'r croeso hwn, nad yw'r gwasanaethau a dderbyniant ar draul gwasanaethau i bobl leol ac yn dod o gyllideb llywodraeth leol, sydd eisoes yn dynn. Felly, mae'n briodol y telir y costau hynny ar lefel genedlaethol.

We as a party have always regarded the Asylum and Immigration Act 1999 as being racist. It forces people to move and gives them vouchers instead of money. The Assembly cannot do anything to change that situation. However, we can ensure that asylum seekers who come to Wales receive every support and all the services that they need. It is important, when providing that welcome, that the services that they receive are not at the expense of services for local people and do not come out of the already stretched local government budget. Therefore, it is appropriate that those costs are paid on a national level.

David Davies: We do not so much welcome this grant as accept it as being necessary because of the large numbers of asylum seekers who are coming into the country. Most of these asylum seekers—who come from eastern Europe in general—will cause a strain on public services, and the vast majority of them will be shown to be making false claims. Helen Mary may talk about racist language, but the Government and even

David Davies: Nid ydym yn croesawu'r grant hwn fel y cyfryw, ond yn hytrach yn ei dderbyn oherwydd y nifer fawr o geiswyr Lloches sydd yn dod i mewn i'r wlad. Bydd y rhan fwyaf o'r ceiswyr Lloches hyn—sydd yn dod o ddwyrain Ewrop yn gyffredinol—yn rhoi straen ar wasanaethau cyhoeddus, a chanfyddir y bydd y mwyafrif helaeth ohonynt yn gwneud ceisiadau ffug. Efallai y gall Helen Mary siarad am iaith hiliol, ond

the head of the Commission for Racial Equality accept that a percentage will make false claims and come over here purely for economic gain. The only issue for discussion is how high that percentage is.

mae'r Llywodraeth a hyd yn oed bennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol yn derbyn y bydd canran yn gwneud ceisiadau ffug ac yn dod yma dim ond er budd economaidd. Yr unig destun trafod yw pa mor uchel yw'r canran hwnnw.

Jocelyn Davies: You say that it is a vast majority and then you say that it is a percentage. What is that percentage? Is it over 50 per cent?

Jocelyn Davies: Dywedwch fod hyn yn fwyafrif helaeth ac yna dywedwch mai canran ydyw. Faint yw'r ganran honno? A yw'n fwy na 50 y cant?

David Davies: The Government's figures indicate that it is about 90 per cent and I am happy to accept them, although I admit that the head of the Commission of Racial Equality put it at much lower than that and could not justify those figures. Everybody seems to accept that there is a percentage of asylum seekers that is causing a problem. Peter Law should accept that this is a problem; that it is not fair that asylum seekers from countries such as Zimbabwe, Iran, Iraq, and possibly Sri Lanka, are having their applications delayed because of the large number of people from eastern Europe who come over, basically for economic gain. That is the situation; it is a matter of fact. We accept that this motion is necessary and we will vote in favour of it. However, we ask Peter to convey our concerns about this very real problem to the Cabinet.

David Davies: Dengys ffigurau'r Llywodraeth ei fod tua 90 y cant ac yr wyf yn fodlon derbyn hynny, er fy mod yn cyfaddef i bennaeth y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol roi'r ffigur yn llawer is na hynny ac na allai gyfiawnhau'r ffigurau hynny. Ymddengys bod pawb yn derbyn bod canran o geiswyr Lloches sydd yn achosi problem. Dylai Peter Law dderbyn bod hyn yn broblem; nad yw'n deg bod oedi'n digwydd gyda cheisiadau ceiswyr Lloches o wledydd fel Zimbabwe, Iran, Iraq ac o bosibl Sri Lanka, oherwydd y nifer fawr o bobl o orllewin Ewrop sydd yn dod drosodd, dim ond er budd economaidd. Dyna'r sefyllfa; mae'n ffaith. Yr ydym yn derbyn bod angen y cynnig hwn a byddwn yn pleidleisio o'i blaid. Fodd bynnag, gofynnwn i Peter gyfleu ein pryderon ynghylch y broblem wirioneddol hon i'r Cabinet.

Peter Black: We also welcome this report. It is important that local authorities have this money fully reimbursed. There is an issue in relation to the amount of money that is paid to local authorities for asylum seekers. The money that is allocated is currently far too limited, as it is mainly confined to housing. As we know from our work in the field of housing and homelessness, simply giving vulnerable people a house and leaving them to get on with it is not enough. They need all sorts of support services and that will be a cost on local authorities that is not currently met from this grant. For instance, many of these people, flee persecution and are in need of counselling. They may need legal help to help them organise their affairs after arriving in the country. Child asylum seekers arriving in a foreign school system may need extra language help, and that also applies to adults. However, the provision of assistance for those who have English as an additional

Peter Black: Yr ydym hefyd yn croesawu'r adroddiad hwn. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn cael ad-daliad llawn o'r arian hwn. Mae mater yn codi o ran faint o arian a delir i awdurdodau lleol ar gyfer ceiswyr Lloches. Mae'r arian a ddyrennir ar hyn o bryd yn llawer rhy gyfyngedig, gan ei fod wedi'i gyfyngu'n bennaf i dai. Fel y gwyddom o'n gwaith ym maes tai a digartrefedd, nid yw'n ddigon rhoi tŷ i bobl ddiamddiffyn a gadael llonydd iddynt. Mae angen pob math o wasanaethau cymorth arnynt a bydd hynny'n gost ar awdurdodau lleol na chaiff ei thalu o'r grant hwn ar hyn o bryd. Er enghraifft, mae llawer o'r bobl hyn yn dianc rhag erledigaeth ac mae angen cyngor arnynt. Efallai y bydd angen cymorth cyfreithiol arnynt i'w helpu i drefnu eu materion ar ôl cyrraedd y wlad. Efallai y bydd angen help ychwanegol gydag iaith ar blant sydd yn geiswyr Lloches wrth iddynt gyrraedd ysgol dramor, ac mae hynny hefyd

language is far from adequate. We need to put more money into that budget to meet this need.

yn berthnasol i oedolion. Fodd bynnag, mae'r cymorth a ddarperir i'r rheini y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt ymhell o fod yn ddigonol. Mae angen inni roi rhagor o arian yn y gyllideb honno er mwyn cwrdd â'r angen hwn.

Extra funding for all these things should come from the UK Government. I hope that the Executive and the Assembly can make the strongest possible case for this. If the UK Government will not provide the money, then the Assembly will need to find it from within its own resources to relieve the burden on local authorities.

Dylai'r arian ychwanegol ar gyfer yr holl bethau hyn ddod oddi wrth Lywodraeth y DU. Gobeithio y gall y Weithrediaeth a'r Cynulliad gyflwyno'r achos cryfaf posibl ar gyfer hyn. Os na fydd Llywodraeth y DU yn darparu'r arian, bydd angen i'r Cynulliad ddod o hyd iddo o fewn ei adnoddau ei hun er mwyn lleddfu baich awdurodau lleol.

I heard David Davies's remarks just now and, of course, David has made these comments many times before. David, the figures for 1999 show that 54 per cent of asylum seekers were found to be genuine. That is a far cry from the 90 per cent so-called bogus asylum seekers to which you refer. The whole use of the term 'bogus' is semi-racist language in itself—

Clywais sylwadau David Davies yn awr ac, wrth gwrs, mae David wedi gwneud y sylwadau hyn sawl gwaith o'r blaen. David, mae'r ffigurau ar gyfer 1999 yn dangos y canfuwyd bod 54 y cant o geiswyr Lloches yn ddilys. Nid yw hyn yn cymharu â'r 90 y cant o geiswyr Lloches ffug y cyfeiriasoch atynt. Mae'r holl ddefnydd o'r term 'ffug' yn iaith lled-hiliol ynddi'i hun—

David Davies: Will you accept an intervention?

David Davies: A wnewch chi dderbyn ymyriad?

Peter Black: No, I will not. My time is limited—[*Interruption.*]

Peter Black: Na wnaf. Mae fy amser yn gyfyngedig—[*Torri ar draws.*]

10:40 a.m.

The Presiding Officer: Order. If a Member does not accept an intervention, that is a matter for the Member concerned. It is not appropriate for other Members to seek to barrack them.

Y Llywydd: Trefn. Os nad yw Aelod yn derbyn ymyriad, mater i'r Aelod dan sylw yw hynny. Nid yw'n briodol i Aelodau eraill geisio gweiddi ar eu traws.

Peter Black: As I said, the use of the term 'bogus' is semi-racist, because it deliberately labels a group of people as seeking help and trying to defraud the system. It labels a group of people who are of a different ethnic origin from the speaker himself. That is why it is justifiable for me to say that use of the term 'bogus' is semi-racist.

Peter Black: Fel y dywedais, mae'r defnydd o'r term 'ffug' yn lled-hiliol, gan ei fod yn fwriadol labelu grŵp o bobl fel rhai sy'n ceisio help ac yn ceisio twyllo'r system. Mae'n labelu grŵp o bobl sydd o darddiad ethnig gwahanol i'r siaradwr ei hun. Dyna pam y gallaf gyfiawnhau dweud bod y term 'ffug' yn lled-hiliol.

The last Tory Government left us with a backlog of asylum applications. The only solution that you have been able to offer so far is secure detention camps which, of course, breach many of our international obligations and could cost over £2 billion a

Gadawodd y Llywdoraeth Doriaidd ddiwethaf ôl-groniad o geisiadau Lloches ar eu hôl. Yr unig ateb yr ydych wedi gallu ei gynnig hyd yn hyn yw cadw pobl dan glo mewn gwersylloedd cadw sydd, wrth gwrs, yn torri nifer o'n dyletswyddau cenedlaethol

year to implement. Detention camps were a common feature of certain regimes in Europe in the past, but they are not something that I would like to see implemented in Britain.

a gallai gostio dros £2 biliwn y flwyddyn i'w weithredu. Yr oedd gwersylloedd cadw yn nodwedd gyffredin o rai systemau yn Ewrop yn y gorffennol, ond nid ydynt yn rhywbeth yr hoffwn eu gweld yn cael eu gweithredu ym Mhrydain.

There are also problems in terms of how the Labour Government is tackling the asylum seeker issue. Asylum seekers are still only able to claim 70 per cent of the normal income support allowance. Much of this is paid through the demeaning voucher system, which the Government refuses to get rid of. This system stigmatises asylum seekers. It penalises them by restricting what they can buy and allows supermarkets to pocket any change from a purchase. Even Bill Morris, the leader of the Transport and General Workers' Union, described this system as insane.

Mae problemau hefyd o ran sut y mae'r Llywodraeth Lafur yn ymdrin â'r mater o geiswyr Lloches. Gall ceiswyr Lloches wneud cais am ddim ond 70 y cant o'r lwfans cymhorthdal incwm arferol o hyd. Caiff llawer ohono ei dalu drwy'r system dalebau ddiraddiol y mae'r Llywodraeth yn gwrthod cael gwared â hi. Mae'r system hon yn gosod stigma ar geiswyr Lloches. Mae'n eu cosbi drwy gyfyngu ar yr hyn y gallant ei brynu ac yn caniatáu i archfarchnadoedd bocedu unrhyw newid o bryniant. Disgrifiodd hyd yn oed Bill Morris, arweinydd yr Undeb y Gweithwyr Trafnidiaeth a Chyffredinol, y system hon fel un wallgof.

We believe that the only real solution is a thorough review of immigration and asylum legislation to ensure that individual rights are recognised and families are not split up. Asylum applicants should have free access to the information and help they need, and we should ensure that they are not left destitute or dispersed to unsuitable accommodation. I hope that the Government can take that on board and that the Assembly and the Executive, particularly, can press the Government on all those points.

Credwn mai'r unig ateb gwirioneddol yw adolygiad trylwyr o ddeddfwriaeth mewnfudo a Lloches i sicrhau y caiff hawliau'r unigolyn eu cydnabod ac na chaiff teuluoedd eu rhannu. Dylai ceiswyr Lloches gael mynediad am ddim i'r wybodaeth a'r help sydd ei angen arnynt, a dylem sicrhau na chânt eu gadael yn ddiymgeledd ac ar wasgar mewn llety anaddas. Gobeithio y gall y Llywodraeth ystyried hynny ac y gall y Cynulliad a'r Weithrediaeth, yn arbennig, roi pwysau ar y Llywodraeth o ran bob un o'r pwyntiau hynny.

Alun Cairns: I support the comments made by my colleague David Davies and say that if we are to debate this constructively we must be prepared to accept each other's form of language and accept that saying 'bogus' is not racist.

Alun Cairns: Yr wyf yn cefnogi'r sylwadau a wnaethpwyd gan fy nghyd-Aelod David Davies ac yn dweud os ydym i gael dadl adeiladol ar hyn bod yn rhaid inni fod yn barod i dderbyn iaith ein gilydd a derbyn nad yw 'ffug' yn air hiliol.

I want to clarify a point and I ask the Assembly Secretary to respond to it. My understanding is that each local authority has been given a quota of asylum seekers to be received to their area. However, if a private sector landlord chooses to attract a large number of asylum seekers to a particular area, that number is not detracted from the local authority's quota. Therefore, I want to clarify the situation regarding the regulations that we will pass later this morning. I wish to

Hoffwn gael eglurhad ar un pwynt a gofyn i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb iddo. Fy nealltwriaeth yw y rhoddwyd cwota o geiswyr Lloches i bob awdurdod lleol i'w derbyn yn eu hardal. Fodd bynnag, os bydd landlord yn y sector preifat yn dewis denu nifer fawr o geiswyr Lloches i ardal benodol, ni chaiff y nifer hwnnw ei dynnu o gwota'r awdurdod lleol. Felly, hoffwn gael eglurhad o'r sefyllfa ynghylch y rheoliadau y byddwn yn eu pasio yn ddiweddarach y bore yma.

know whether these grants cover asylum seekers who have been attracted to the area by private sector landlords, because that could pose a burden on local authorities and cause problems in the community.

Hoffwn wybod a yw’r grantiau hyn yn cwmpasu ceiswyr Lloches sydd wedi cael eu denu i’r ardal gan landlordiaid yn y sector preifat, oherwydd gallai hynny roi baich ar awdurdodau lleol ac achosi problemau yn y gymuned.

The Finance Secretary (Edwina Hart): We must approve this report so that local authorities are fully reimbursed for the legitimate expenses that they have incurred. In my response, I will not justify aspects of this policy. That is not the National Assembly’s role in this. Our role is to ensure adequate reimbursement for local government in Wales.

Yr Ysgrifennydd Cyllid: (Edwina Hart): Rhaid inni gymeradwyo’r adroddiad hwn fel bod awdurdodau lleol yn cael ad-daliad llawn o’r treuliau dilys y maent wedi’u gwario. Yn fy ymateb, ni chyfiawnhaf agweddau ar y polisi hwn. Nid dyma yw rôl y Cynulliad Cenedlaethol yn hyn o beth. Ein rôl ni yw sicrhau ad-daliad digonol i lywodaeth leol yng Nghymru.

I thank Helen Mary Jones for her comments on racism. Those were important comments in the context of this debate. Much is said about asylum seekers, to which Peter alluded. It is not a question of people being ‘legitimate’ or ‘bogus’ asylum seekers. They are all asylum seekers. I am not prepared to make a judgment on this. The system will do so. We must recognise that people come to this country from parts of the world where none of us would want to live. Neither would we want to experience what they have experienced. That is why we must take a principled stance on this issue.

Diolch i Helen Mary Jones am ei sylwadau ar hiliaeth. Yr oeddent yn sylwadau pwysig yng ngyd-destun y ddadl hon. Dywedir llawer am geiswyr Lloches, a chyfeiriodd Peter at hynny. Nid yw’n fater o bobl yn geiswyr Lloches ‘dilys’ neu ‘ffug’. Maent oll yn geiswyr Lloches. Nid wyf yn barod i ffurfio barn ar hyn. Bydd y system yn gwneud hynny. Rhaid inni gydnabod bod pobl yn dod i’r wlad hon o rannau o’r byd na fyddai unrhyw un ohonom yn dymuno byw ynddynt. Ni fyddem ychwaith am gael yr un profiadau â hwy. Dyna pam bod yn rhaid inni gymryd safiad egwyddorol ar y mater hwn.

David Davies: There are people who come from parts of the world which none of us would want to experience. I have visited one such country. It upsets me that applications from people from those parts of the world are delayed because people from other parts of the world which are not so badly off, such as eastern Europe, come here and block up the system.

David Davies: Mae yna bobl sydd yn dod o rannau o’r byd na fyddai unrhyw un ohonom am gael profiad ohonynt. Yr wyf wedi ymweld ag un wlad o’r fath. Mae’n ofid imi bod oedi’n digwydd gyda cheisiadau gan bobl o’r rhannau hynny o’r byd gan fod pobl o rannau eraill o’r byd nad ydynt mewn sefyllfa cynddrwg, fel gorllewin Ewrop, yn dod yma ac yn blocio’r system.

Edwina Hart: I will come to that point later on. On Peter Black’s point on expenditure areas, the implications for other local authority services and, indirectly, the health service, we must recognise that the money that we are discussing today is for local government for accommodation costs. We will perhaps have to make further representations as the need arises for additional resources for education—because of the language issue—and for health screening. It is important that we recognise that.

Edwina Hart: Dof at y pwynt hwnnw yn nes ymlaen. Ynglŷn â phwynt Peter Black ar feysydd gwariant, y goblygiadau i wasanaethau eraill awdurdodau lleol ac, yn anuniongyrchol, i’r gwasanaeth iechyd, rhaid inni gydnabod bod yr arian a drafodwn heddiw ar gyfer costau llety llywodraeth leol. Efallai bydd yn rhaid inni wneud sylwadau pellach wrth i’r angen am adnoddau ychwanegol ar gyfer addysg godi—oherwydd mater yr iaith—ac ar gyfer sgrinio iechyd. Mae’n bwysig ein bod yn cydnabod hynny.

Alun Cairns raised an interesting point. I had discussions this week with the consortia in Wales, which raised the issue of private sector accommodation. We are looking into that and I will be happy to respond to you when I have clarified the position myself. It raises interesting questions of what the local authorities will do and what private landlords can do. There is an emphasis on getting people into private accommodation. The consortia has not yet finalised figures. This has been the difficulty for the Home Office. However, I will report back to you on this. Rosemary Butler has also had meetings with the all-Wales consortia.

Codod Alun Cairns bwynt diddorol. Cefais drafodaeth yr wythnos hon gyda'r consortia yng Nghymru, a gododd y mater o lety yn y sector preifat. Yr ydym yn ystyried hynny a byddem yn fwy na bodlon ymateb i chi pan fyddaf wedi cael eglurhad o'r sefyllfa fy hun. Mae'n codi cwestiynau diddorol ynglŷn â beth fydd awdurdodau lleol yn ei wneud a beth y gall landlordiaid preifat ei wneud. Rhoddir pwyslais ar roi pobl mewn llety preifat. Nid yw'r consortia wedi cael y ffigurau terfynol eto. Dyna'r anhawster a gafodd y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, byddaf yn adrodd yn ôl ichi ar hyn. Cafodd Rosemary Butler hefyd gyfarfodydd gyda chonsortia Cymru gyfan.

Brian Gibbons: On that point, could you disseminate information more widely than just Alun Cairns? This concern is more widespread than what Alun Cairns suggested.

Brian Gibbons: Ar y pwynt hwnnw, a allech chi ddosbarthu gwybodaeth yn ehangach na dim ond i Alun Cairns? Mae'r pryder hwn yn fwy eang na'r hyn a awgrymwyd gan Alun Cairns.

Edwina Hart: If it is helpful and acceptable to Alun, I will ask the Business Secretary to schedule a statement in due course, when I have additional information and I am clearer about what is happening with the consortia and what the implications for education and healthcare.

Edwina Hart: Os yw'n ddefnyddiol ac yn dderbyniol gan Alun, gofynnaf i'r Trefnydd amserlennu datganiad maes o law, pan fydd gennyf wybodaeth ychwanegol a phan fyddaf yn gliriach ynghylch yr hyn sydd yn digwydd gyda'r consortia a beth yw'r goblygiadau i addysg a gofal iechyd.

On David Davies's point, I am not looking at the system. The system is in place and I hope that it will work. There is economic migration. When I consider the countries from which some people migrate, I do not blame them for wanting to go somewhere else for a better life. After all, consider all the people who went to Australia and America—

Ar bwynt David Davies, nid wyf yn edrych ar y system. Mae'r system yn bodoli ac yr wyf yn gobeithio y bydd yn gweithio. Mae yna fudo economaidd. Pan ystyriaf y gwledydd y mae pobl yn mudo ohonynt, nid wyf yn eu beio am fod eisiau mynd i rywle arall i gael gwell bywyd. Wedi'r cyfan, ystyriwch yr holl bobl a aeth i Awstralia ac America—

David Davies: Yes, but they did that within the rules.

David Davies: Ie, ond gwnaethant hynny o fewn y rheolau.

Edwina Hart: We must consider the rules and the Government is seeking to do that. However, this resolution should not be hijacked by emotions. This is about ensuring that local government can function and about the Assembly making a statement. I welcome the skills, experience, language and culture that asylum seekers have brought to nations like Wales. That has increased the diversity of our nation. I propose that we support the motion.

Edwina Hart: Rhaid inni ystyried y rheolau ac mae'r Llywodraeth yn ceisio gwneud hynny. Fodd bynnag, ni ddylai'r penderfyniad hwn gael ei wneud ar sail emosiwn. Mae hyn yn ymwneud â sicrhau y gall llywodraeth leol weithredu ac â datganiad gan y Cynulliad. Yr wyf yn croesawu'r sgiliau, profiad, iaith a diwylliant a gyflwynwyd i wledydd fel Cymru gan geiswyr Lloches. Mae hynny wedi cynyddu amrywiaeth ein cenedl. Cynigiaf ein bod yn

cefnogi'r cynnig.

The Presiding Officer: Will all Members who wish to declare an interest please rise.

Y Llywydd: A wnaiff pob Aelod sydd yn dymuno datgan buddiant godi.

Jenny Randerson, Peter Black, William Graham, Pauline Jarman, David Lloyd, Geraint Davies and **Gareth Jones** *rose.*

Jenny Randerson, Peter Black, William Graham, Pauline Jarman, David Lloyd, Geraint Davies a **Gareth Jones** *a gododd.*

Cynnig: O blaid 50, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 50, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Cairns, Alun
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davidson, Jane
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Fathau) 2000
The Seeds (National List of Varieties) Regulations 2000

The Presiding Officer: The motion to approve the Seeds (National List of Varieties) Regulations 2000 has been withdrawn.

Y Llywydd: Mae'r cynnig i gymeradwyo'r Rheoliadau Hadau (Rhestr Genedlaethol o Fathau) 2000 wedi'i dynnu'n ôl.

Rhodri Glyn Thomas: Pwynt o drefn. Croesawn esboniad o'r rhesymau dros dynnu'r cynnig yn ôl. Mae hwn yn fater sensitif. Yr ydym yn sôn am y profion yn Seland ac nid ydym yn siŵr a ydynt yn gwbl gyfreithlon. Mae'r cnydau bron wedi blodeuo. Cyn iddynt flodeuo, rhaid inni gael eglurhad ynglŷn ag a yw'r profion yn gyfreithlon neu beidio.

Rhodri Glyn Thomas: Point of order. I would welcome an explanation of the reasons for withdrawing the motion. This matter is sensitive. We are talking about the tests in Sealand and we are not sure if they are completely legal. The crops have almost come into flower. Before they flower, we must have clarification as to whether the tests are legal or not.

10:50 a.m.

Mae Aelodau wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r mater hwn yn y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac yn y Cyfarfod Llawn. Sefydlwyd pwyllgor trawsbleidiol i drafod y materion hyn gyda rhagflaenydd Carwyn Jones fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig. Hoffem gael sicrwydd heddiw fod y pwyllgor hwnnw'n mynd i gynnull i drafod y mater pwysig hwn.

Members have expressed concerns about this matter in the Agriculture and Rural Development Committee and in Plenary. A cross-party committee was established to discuss these matters with Carwyn Jones's predecessor as Secretary for Agriculture and Rural Development. We want an assurance today that that committee will convene to discuss this important matter.

Andrew Davies: It is unfortunate that we have to deal with the handling of business in Plenary. This issue was raised in the Business Committee and I discussed it with all the business managers on Tuesday. I regret that that has not been communicated to Plaid Cymru Members. I said that we would defer this matter until a later date and that I would want to table that debate at the earliest opportunity. If possible, it will be tabled for debate in the first Plenary after the party conference season.

Andrew Davies: Mae'n anffodus bod yn rhaid inni ddelio gydag ymdrin â busnes yn y Cyfarfod Llawn. Codwyd y mater hwn yn y Pwyllgor Busnes ac fe'i trafodais gyda phob un o'r rheolwyr busnes ddydd Mawrth. Yn anffodus ni chafodd hynny ei gyfleu i Aelodau Plaid Cymru. Dywedais y byddem yn gohirio'r mater hwn tan ddyddiad diweddarach ac y byddwn am gyflwyno'r ddadl honno ar y cyfle cyntaf. Os yn bosibl, caiff ei gyflwyno ar gyfer y ddadl yn y Cyfarfod Llawn cyntaf ar ôl tymor cynadleddau'r pleidiau.

Pwynt o Drefn
Point of Order

Jocelyn Davies: Point of order. Given that the comprehensive spending review debate was adjourned on Tuesday with the

Jocelyn Davies: Pwynt o drefn. O gofio y gohiriwyd y ddadl ar yr arolygiad cynhwysfawr o wariant ddydd Mawrth

expectation that it would be reconvened today, will the Business Secretary indicate when the remainder of that debate will take place?

gyda'r disgwyliad y byddai'n ailgynnull heddiw, a wnaiff y Trefnydd nodi pryd y bydd gweddill y ddadl honno yn cael ei chynnal?

Andrew Davies: I indicated on Tuesday, when Nick Bourne proposed an adjournment, that I would seek to reschedule that debate at the earliest opportunity. I need to discuss with my colleagues and the other parties the best time to do that. We aim to do that as soon as we reconvene after the party conference season. I will discuss that with my colleague, Edwina Hart, the Finance Secretary, and business managers of the other parties. I have already given that assurance.

Andrew Davies: Nodais ddydd Mawrth pan gynigiodd Nick Bourne ohiriad, y byddwn yn ceisio ailamserlennu'r ddadl honno ar y cyfle cyntaf. Mae angen imi drafod gyda'm cyd-Aelodau a'r pleidiau eraill yr amser gorau i wneud hynny. Ein nod yw gwneud hyn cyn gynted ag y byddwn yn ailgynnull ar ôl tymor cynadleddau'r pleidiau. Byddaf yn trafod hynny gyda'm cyd-Aelod, Edwina Hart, yr Ysgrifennydd Cyllid, a rheolwyr busnes y pleidiau eraill. Yr wyf eisoes wedi rhoi'r sicrwydd hwnnw.

The Presiding Officer: I am grateful for the Business Secretary's assurance, but as he knows, this matter does cause the Office of the Presiding Officer concern. Under Standing Order No. 6.18, I accepted a motion to adjourn the debate to another day, because at least 10 Members supported it. That Standing Order clearly states that adjournment should be allowed only if the Presiding Officer

Y Llywydd: Yr wyf yn falch o sicrwydd y Trefnydd, ond fel y gŵyr, mae'r mater hwn yn achos pryder i Swyddfa'r Llywydd. O dan Reol Sefydlog Rhif 6.18, derbyniais gynnig i ohirio'r ddadl tan ddiwrnod arall, gan i o leiaf 10 Aelod ei gefnogi. Mae'r Rheol Sefydlog honno yn nodi'n glir y dylid ond caniatáu gohiriad os yw'r Llywydd yn

'is satisfied that to do so would not be an abuse of the Assembly's procedures or cause excessive delay.'

'fodlon na fyddai gwneud hynny yn camddefnyddio gweithdrefnau'r Cynulliad nac yn achosi gormod o oedi.'

I am concerned that a three-week period—and I understand why this has happened—could be defined as an excessive delay. Therefore, in future, I will exercise caution when allowing motions to adjourn a debate, if there is not a clear agreement about when the debate will be rescheduled.

Yr wyf yn pryderu y gellid diffinio cyfnod o dair wythnos—a deallaf pam bod hyn wedi digwydd—fel oedi gormodol. Felly, yn y dyfodol, byddaf yn ofalus iawn wrth ganiatáu cynigion i ohirio dadl, os nad oes cytundeb clir ynghylch pryd y caiff y ddadl ei hailamserlennu.

Andrew Davies: I accept your view and I am grateful for your forbearance. The three-week break for the party conference season puts us in some difficulty. However, I have given a commitment that I will table this debate at the earliest opportunity.

Andrew Davies: Derbyniaf eich barn ac yr wyf yn ddiolchgar i chi am eich amynedd. Mae'r egwyl o dair wythnos ar gyfer tymor cynadleddau'r pleidiau yn achosi peth anhawster inni. Fodd bynnag, yr wyf wedi gwneud ymrwymiad y byddaf yn cyflwyno'r ddadl hon ar y cyfle cyntaf.

Brian Gibbons: Further to that point of order. The debate on Tuesday over-ran because of the number of questions that arose from a statement. I do not understand how we can agree on a date to which a debate can be adjourned if the reason for the over-run is

Brian Gibbons: Ymhellach i'r pwnt o drefn hwnnw. Aeth y ddadl ddydd Mawrth ymlaen oherwydd nifer y cwestiynau a gododd o ddatganiad. Ni ddeallaf sut y gallwn gytuno ar ddyddiad y gall dadl gael ei gohirio iddo os yw'r rheswm dros fynd dros yr amser yn

happening cotemporaneously, unless people leave the Chamber and engage in chats in small corners. Therefore, I would be grateful if you could reflect on what you mean.

digwydd ar y pryd, oni bai fod pobl yn gadael y Siambr ac yn cynnal sgyrsiau mewn corneli bach. Felly, byddwn yn ddiolchgar pe gallech fyfyrio ar yr hyn yr ydych yn ei olygu.

The Presiding Officer: I have reflected on this overnight and this morning, Brian. I am making a clear statement that the chair has responsibilities in relation to the conduct of business. Those responsibilities are discharged following advice from the Business Committee. Ultimately it is a matter for the person presiding at the time—the Deputy Presiding Officer or myself—whether we accept motions to adjourn if the result of adjournment would be excessive delay or an abuse of Assembly procedures. It is important for the Deputy Presiding Officer and myself to consider how we use our discretion in these matters. We are the guardians, and not only of the rights of party groups. The Assembly has one independent Conservative Member, who is not here at the moment. There may be others. [*Laughter.*] There may be other independent Members in future, either elected as such or having become such in the course of our activities. I will say no more about that. However, the Office of the Presiding Officer—and I think that I speak for the Deputy Presiding Officer in this; she will be able to speak for herself in a few minutes—takes a strong view of its role as guardian of the equal rights of all Members, and not just those expressed through the agreements which may be achieved between party groups.

Y Llywydd: Yr wyf wedi myfyrio ar hyn dros nos a'r bore yma, Brian. Yr wyf yn gwneud datganiad clir bod gan y cadeirydd gyfrifoldebau mewn perthynas ag ymdrin â'r busnes. Cyflawnir y cyfrifoldebau hynny yn dilyn cyngor gan y Pwyllgor Busnes. Yn y pen draw mae'n fater i'r person sydd yn llywyddu ar y pryd—y Dirprwy Lywydd neu fi fy hun—p'un a ydym yn derbyn cynigion i ohirio pe bai canlyniad y gohiriad yn achosi oedi gormodol neu'n groes i weithdrefnau'r Cynulliad. Mae'n bwysig i'r Dirprwy Lywydd a minnau ystyried sut y gallwn ddefnyddio ein disgresiwn ar y materion hyn. Ni yw'r gwarcheidwaid, ac nid yn unig o hawliau grwpiau'r pleidiau. Mae gan y Cynulliad un Aelod Ceidwadol annibynnol, nad yw yma ar hyn o bryd. Efallai bod yna rai eraill. [*Chwerthin.*] Efallai y bydd Aelodau annibynnol eraill yn y dyfodol, naill ai wedi'u hethol felly neu wedi dod felly yn rhinwedd ein gweithgareddau. Ni ddywedaf fwy am hynny. Fodd bynnag, mae Swyddfa'r Llywydd—a chredaf fy mod yn siarad ar ran y Dirprwy Lywydd yn hyn o beth; gall siarad drosti hi ei hun ymhen ychydig funudau—yn rhoi'r pwys mwyaf ar ei rôl fel gwarcheidwad cyfle cyfartal pob Aelod, ac nid dim ond y rheini a fynegir drwy'r cytundebau a allai gael eu ffurfio rhwng grwpiau'r pleidiau.

Brian Gibbons: To clarify, can a Member only propose for a debate to be adjourned and reconvened if he or she has a named date and time for its reconvening?

Brian Gibbons: I egluro, a all Aelod ond cynnig i ddadl gael ei gohirio a'i hailgynnull os yw ef neu hi wedi enwi dyddiad ac amser ar gyfer ei ailgynnull?

The Presiding Officer: That is not precisely what I said.

Y Llywydd: Nid dyna'n union a ddywedais.

Brian Gibbons: This is what I am trying to clarify.

Brian Gibbons: Dyna'r hyn yr wyf yn ceisio cael eglurhad yn ei gylch.

The Presiding Officer: I said that in future when we discuss these matters and take advice on the question of an adjournment, I would have to consider carefully Standing Order No. 6.18, which indicates that the person presiding must be satisfied that an adjournment would not cause excessive

Y Llywydd: Dywedais pan fyddwn yn trafod y materion hyn yn y dyfodol ac yn cymryd cyngor ar y cwestiwn o ohirio, y byddai'n rhaid imi ystyried yn ofalus Reol Sefydlog Rhif 6.18, sydd yn nodi bod yn rhaid i'r person sydd yn llywyddu fod yn fodlon na fyddai gohirio yn achosi gormod o oedi. Mae

delay. We need to explore how we might develop guidelines that would not too heavily circumscribe our discretion in these matters. I merely make that point without belabouring it any further.

angen i ni ymchwilio i sut y gallem ddatblygu canllawiau na fyddai'n caethiwo ein disgresiwn yn ormodol o ran y materion hyn. Yr wyf yn gwneud y pwynt hwnnw heb ei wyntyllu ymhellach.

Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) 2000
Approval of the Care Standards Act 2000 (Commencement No. 1) Order 2000

The Secretary for Health and Social Services (Jane Hutt): I propose that

the National Assembly, acting in accordance with Standing Order No. 22.33 approves the draft of the Care Standards Act 2000 (Commencement No. 1) Order 2000 a copy of which was laid in the Table Office on 7 September 2000.

This Commencement Order is intended to bring into force those provisions of the Care Standards Act 2000 that amend the provisions of the Protection of Children Act 1999. The Order is not the commencement of the mainstream provisions of the Care Standards Act 2000. Its main effect will be to bring into force tomorrow, 15 September, the following provisions. First, Section 96 of the Care Standards Act 2000, which allows for individuals named in findings of certain inquiries, such as the Waterhouse inquiry, to be included in the new statutory list of persons considered unsuitable to work with children, established for England and Wales under the Protection of Children Act 1999. Secondly, it brings into force Section 99 of the Care Standards Act 2000, which allows the names of those people already listed on the consultancy service index of persons deemed unsuitable to work with children as a result of the Waterhouse inquiry, to be transferred to the new statutory list.

The Order will also bring into force the following provisions from 2 October: Section 80(8), which allows the Secretary of State for Health to make regulations under Section 103 of the Care Standards Act 2000 to enable adoption agencies, in considering the suitability of a prospective adopter, to apply to check names of prospective adopters against the Protection of Children Act 1999 list. It also brings into force Section 94, which extends the scope of the list to include persons considered unsuitable to work with

Yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt): Cynigiaf fod

y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu yn unol â Rheol Sefydlog Rhif 22.33 yn cymeradwyo'r drafft o Orchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 1) 2000, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Medi 2000.

Nod y Gorchymyn Cychwyn hwn yw dod â'r darpariaethau hynny o Ddeddf Safonau Gofal 2000 sydd yn diwygio darpariaethau Deddf Diogelu Plant 1999. Nid cychwyn darpariaethau prif ffrwd y Ddeddf Safonau Gofal yw'r Gorchymyn hwn. Ei brif effaith fydd dod â'r darpariaethau canlynol i rym yfory, 15 Medi. Yn gyntaf, Adran 96 Deddf Safonau Gofal 2000, sydd yn caniatáu i unigolion a enwir yng nghanfyddiadau rhai ymchwiliadau, fel ymchwiliad Waterhouse, gael eu cynnwys yn y rhestr statudol newydd o bobl a ystyrir yn anaddas i weithio gyda phlant, a sefydlwyd ar gyfer Cymru a Lloegr o dan Ddeddf Diogelu Plant 1999. Yn ail, daw ag Adran 99 Deddf Safonau Gofal 2000 i rym, sydd yn galluogi i enwau pobl sydd eisoes wedi'u rhestru ar fynegai'r gwasanaeth ymgynghorol o bobl y bernir eu bod yn anaddas i weithio gyda phlant o ganlyniad i ymchwiliad Waterhouse, gael eu trosglwyddo i'r rhestr statudol newydd.

Bydd y Gorchymyn hefyd yn dod â'r darpariaethau canlynol i rym o 2 Hydref: Adran 80(8), sydd yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd wneud rheoliadau o dan Adran 103 Deddf Safonau Gofal 2000 i alluogi i asiantaethau mabwysiadu, wrth ystyried addasrwydd darpar fabwysiadwr, wneud cais i wirio enwau darpar fabwysiadwyr yn erbyn rhestr Deddf Diogelu Plant 1999. Mae hefyd yn dod ag Adran 94 i rym, sydd yn ymestyn cwmpas y rhestr i gynnwys personau yr ystyrir eu bod

children by reason of their conduct while engaged on work arranged by an employment agency. Previously only persons dismissed by their employer could by referred to the list. Other provisions relating to the Protection of Children Act 1999 are also commenced by this Order. These include Section 101, which makes provision about the effects of inclusion in the list; Section 103, which makes provision about temporary access to lists of unsuitable people; and Section 116 and part of Schedule 4, which cover minor and consequential amendments. It also makes transitional provision in connection with the commencement of provision of the Act. The Order also commences Section 100 of the Care Standards Act 2000, which adds the category of a person considered unsuitable to work with children employed at an independent school to the grounds upon which the National Assembly can issue a notice of complaint against the school under Section 469 of the Education Act 1996, and grounds upon which the independent schools tribunal can issue an Order under Section 470(f) of the Act, disqualifying a person from employment at a school.

yn anaddas i weithio gyda phlant oherwydd eu hymddygiad tra'n ymgymryd â gwaith a drefnir gan asiantaeth cyflogaeth. Cyn hyn dim ond personau a ddiswyddwyd gan eu cyflogwr y gellid eu cyfeirio i'r rhestr. Caiff darpariaethau eraill sydd yn ymwneud â Deddf Diogelu Plant 1999 hefyd eu cychwyn gan y Gorchymyn hwn. Mae'r rhain yn cynnwys Adran 101, sydd yn gwneud darpariaethau am effeithiau cynnwys enw ar y rhestr; Adran 103, sydd yn gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad dros dro i restr o bobl anaddas; ac Adran 116 a rhan o Atodlen 4, sydd yn cwmpasu mân welliannau a gwelliannau canlyniadol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth drosiannol mewn perthynas â chychwyn darpariaeth y Ddeddf. Mae'r Gorchymyn hefyd yn cychwyn Adran 100 Deddf Safonau Gofal 2000, sydd yn ychwanegu categori person yr ystyrir ei fod yn anaddas i weithio gyda phlant a gyflogir mewn ysgol annibynnol at y seiliau y gall y Cynulliad Cenedlaethol gyhoeddi hysbysiad o gwyn arnynt yn erbyn yr ysgol o dan Adran 469 Deddf Addysg 1996, a'r seiliau y gall y tribiwnlys ysgolion annibynnol gyhoeddi Gorchymyn o dan Adran 470(f) y Ddeddf arnynt, er mwyn gwahardd person rhag cael ei gyflogi mewn ysgol.

11:00 a.m.

Our main concern is to enable the Secretary of State for Health to add the names of the 21 individuals named in the Waterhouse report, 'Lost in Care', as being unsuitable to work with children to a new statutory list of such people being drawn up under the provisions of the Protection of Children Act 1999.

Ein prif bryder yw galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Iechyd ychwanegu enwau 21 o unigolion a enwir yn adroddiad Waterhouse, 'Ar Goll Mewn Gofal', fel pobl sydd yn anaddas i weithio gyda phlant at restr statudol newydd o bobl o'r fath sydd yn cael ei llunio o dan ddarpariaethau Deddf Diogelu Plant 1999.

To safeguard the integrity of a comprehensive England and Wales list, there are no devolved functions under the Protection of Children Act. However, these sections of the Care Standards Act 2000 can only be brought into force through a Commencement Order made jointly by the Assembly and Parliament. I invite Members to approve that Commencement Order to ensure that those provisions are fully implemented and that we provide strengthened safeguards for our children and young people.

I ddiogelu integredd rhestr gynhwysfawr ar gyfer Cymru a Lloegr, nid oes unrhyw swyddogaethau datganoledig o dan y Ddeddf Diogelu Plant. Fodd bynnag, dim ond drwy Orchymyn Cychwyn wedi'i lunio ar y cyd gan y Cynulliad a'r Senedd y gellir dod â'r adrannau hyn o Ddeddf Safonau Gofal 2000 i rym. Estynnaf wahoddiad i'r Aelodau gymeradwyo'r Gorchymyn Cychwyn hwnnw er mwyn sicrhau y caiff y darpariaethau hynny eu gweithredu'n llawn a'n bod yn darparu camau diogelwch wedi'u hatgyfnerthu ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc.

Pauline Jarman: The statutory instrument

Pauline Jarman: Mae Plaid Cymru yn

that serves to effect the list of convicted or named people who are a danger to children is welcomed by Plaid Cymru—The Party of Wales. It is a positive way forward following the saddening necessity of the Waterhouse report.

croesawu'r offeryn statudol sydd yn rhoi bodolaeth i restr o bobl sydd wedi'u collfarnu neu bobl a enwir sydd yn berygl i blant. Mae'n gam cadarnhaol ymlaen yn dilyn anghenraid trist adroddiad Waterhouse.

I will take this opportunity to ask about the Act's wider implications. Jane, following your comments on the registration of the social care workforce—and I know that there is to be a debate on the phased approach that you recommend towards that—will you consider whether the timing of that approach is appropriate? The information that I have suggests that it would not start until 2002. It is crucial that the scheme proceeds and that it is strongly supported by the Government of Wales.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i holi ynghylch goblygiadau ehangach y Ddeddf. Jane, yn dilyn eich sylwadau ar gofrestru'r gweithlu gofal cymdeithasol—a gwn y bydd dadl ar yr ymagwedd cam wrth gam a argymhellir gennych tuag at hynny—a fyddech yn ystyried a fydd amseriad yr ymagwedd honno yn briodol? Mae'r wybodaeth sydd gennyf yn awgrymu na fyddai yn dechrau tan 2002. Mae'n holl bwysig bod y cynllun yn mynd rhagddo ac y caiff gefnogaeth gref gan Lywodraeth Cymru.

Many laypeople are shocked by how few of those who work with vulnerable people are qualified. However, qualifications alone do not make caring or experienced professionals. Hopefully, a programme of improved training will raise the prestige of the profession, raise morale within the profession and improve career opportunities.

Mae llawer o leygwyr wedi synnu cyn lleied o'r bobl hynny, sydd yn gweithio gyda phobl ddiamddiffyn, sydd â chymwysterau. Fodd bynnag, nid yw cymwysterau ynddynt eu hunain yn sicrhau pobl broffesiynol sydd yn ofalgar ac yn brofiadol. Gobeithio y bydd rhaglen o well hyfforddiant yn codi bri'r proffesiwn, yn codi'r morál o fewn y proffesiwn ac yn gwella cyfleoedd gyrfaol.

I declare an interest as a member of a local authority. Local government funding for training programmes must be considered in this matter. If valuable professionals are to be released from work and encouraged to take up these training schemes in higher numbers, further funding may well be needed. Generally, we welcome the Care Standards Act and all that it provides for. However, we would be disappointed if the phasing-in approach that I referred to is delayed until 2002.

Yr wyf yn datgan buddiant fel aelod o awdurdod lleol. Rhaid ystyried cyllid llywodraeth leol ar gyfer hyfforddiant yn y mater hwn. Os bydd pobl broffesiynol werthfawr yn cael eu rhyddhau o'r gwaith a bod mwy ohonynt yn cael eu hannog i ymgymryd â'r cynlluniau hyfforddi hyn, mae'n bosibl iawn y bydd angen mwy o arian. Yn gyffredinol, yr ydym yn croesawu'r Ddeddf Safonau Gofal a phopeth y mae'n darparu ar ei gyfer. Fodd bynnag, byddem yn siomedig petai'r ymagwedd cam wrth gam y cyfeiriais ati yn cael ei gohirio tan 2002.

David Melding: The Care Standards Act is an important piece of legislation and we will support all measures for its speedy implementation. We will also support the Assembly Secretary this afternoon. Many issues will require wider consideration, and Pauline Jarman alluded to some of those. They will be scheduled for discussion in the Health and Social Services Committee, when they will receive detailed attention. An Act such as this goes across the field of social

David Melding: Mae'r Ddeddf Safonau Gofal yn ddarn pwysig o ddeddfwriaeth a byddwn yn cefnogi pob mesur i'w weithredu'n gyflym. Byddwn hefyd yn cefnogi'r Ysgrifennydd Cynulliad y prynhawn yma. Bydd angen ystyried llawer o faterion yn ehangach, a chyfeiriodd Pauline Jarman at rai o'r rheini. Cânt eu hamserlennu i'w trafod yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, pan roddir sylw manwl iddynt. Mae Deddf fel hon yn

care, and its consequences and ramifications are considerable. However, all parties are considering them and are in discussions with the Assembly Secretary.

mynd ar draws maes gofal cymdeithasol, ac mae ei chanlyniadau a'i goblygiadau yn sylweddol. Fodd bynnag, mae pob plaid yn eu hystyried ac yn cynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Cynulliad.

Kirsty Williams: The Liberal Democrats welcome the introduction of these regulations. They provide a first step along the road of implementing the wider consequences of the Care Standards Act and go some way towards improving the protection of children and young people in Wales, as a result of the horrendous incidences outlined in the Waterhouse report. As David said, we will schedule time in the Health and Social Services Committee for further discussion on these measures, and the Liberal Democrats look forward to the debate on 24 October on the full range of the Act.

Kirsty Williams: Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu cyflwyno'r rheoliadau hyn. Maent yn gam cyntaf ar y ffordd i weithredu canlyniadau ehangach y Ddeddf Safonau Gofal ac yn mynd gam o'r ffordd tuag at wella diogelwch plant a phobl ifanc yng Nghymru, o ganlyniad i'r digwyddiadau erchyll a amlinellwyd yn adroddiad Waterhouse. Fel y dywedodd David, byddwn yn amserlennu ar gyfer trafodaethau pellach ar y mesurau hyn yn y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn edrych ymlaen at y ddadl ar 24 Hydref ar ystod lawn y Ddeddf.

Jane Hutt: Thank you Pauline, David and Kirsty. As David and Kirsty said, this is not about the commencement of the mainstream provisions of the Care Standards Act. We must have extensive debate on that in Committee and Plenary. The points that Pauline raised about social care workforce provisions and timing will be subject to a full debate on 24 October. This Act, and its implementation in Wales, is immensely complex, as we are having our own care standards commission. The impact in terms of regulation and inspection will be huge for local authorities and the Assembly, as you know. Those points will be debated and discussed. Today, however, is about approving this important commencement Order to ensure the safety of our children and young people. I am glad that all parties will support this commencement Order today.

Jane Hutt: Diolch ichi Pauline, David a Kirsty. Fel y dywedodd David a Kirsty, nid yw hyn yn ymwneud â chychwyn darpariaethau prif ffrwd y Ddeddf Safonau Gofal. Rhaid inni gael dadl helaeth ar hynny yn y Pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn. Bydd y pwyntiau a gododd Pauline ynghlych darpariaethau ac amseriad tasglu gofal cymdeithasol yn destun dadl lawn ar 24 Hydref. Mae'r Ddeddf hon, a'r broses o'i gweithredu yng Nghymru, yn hynod gymhleth, gan ein bod yn cael ein comisiwn safonau gofal ein hunain. Bydd yr effaith o ran rheoleiddio ac arolygu yn enfawr ar gyfer awdurdodau lleol a'r Cynulliad, fel y gwyddoch. Caiff y pwyntiau hyn eu dadlau a'u trafod. Mae heddiw, fodd bynnag, yn ymwneud â chymeradwyo'r Gorchymyn cychwyn i sicrhau diogelwch ein plant a'n pobl ifanc. Yr wyf yn falch y bydd pob plaid yn cefnogi'r Gorchymyn cychwyn hwn heddiw.

Cynnig: O blaid 49, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Motion: For 49, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Butler, Rosemary
Cairns, Alun

Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig.
Motion adopted.

Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 11.05 a.m.
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 11.05 a.m.

Datblygu Cynaliadwy
Sustainable Development

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1, 2, 3, 4, 5 and 8 in the name of Rhodri Glyn Thomas and amendments 6, 7, 9, 10 and 11 in the name of Jenny Randerson.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 2, 3, 4, 5 ac 8 yn enw Rhodri Glyn Thomas a gwelliannau 6, 7, 9, 10 ac 11 yn enw Jenny Randerson.

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Carwyn Jones): I propose that the National Assembly

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Carwyn Jones): Cynigiaf fod y Cynulliad Cenedlaethol

notes the Analysis of Responses to the Assembly's Consultation Document 'A Sustainable Wales—Learning to Live Differently' laid in the Table Office on 7 September 2000;

yn nodi'r Dadansoddiad o Ymatebion i Ddogfen Ymgynghorol y Cynulliad 'Cymru Gynaliadwy—Dysgu Byw'n Wahanol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Medi 2000;

expresses its gratitude to all individuals and organisations who responded to the consultation;

yn mynegi ei ddiolchgarwch i'r holl unigolion a'r cyrff a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori;

affirms that it wishes the scheme to be concise, clear, usable by staff in everyday work; to inform development of the Assembly's strategic plan; to be embedded in mainstream activities and to have a real effect for change; and

yn cadarnhau ei fod yn awyddus i'r cynllun: fod yn gryno, yn glir, yn addas i'w ddefnyddio gan staff wrth eu gwaith beunyddiol; helpu i ddatblygu cynllun strategol y Cynulliad; bod yn rhan annatod o weithgareddau prif ffrwd; a chael effaith go-iawn; ac

instructs the Assembly Secretary responsible for championing sustainable development to place a draft scheme before the Assembly for making, taking account of the responses to the consultation.

yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Cynulliad sydd yn gyfrifol am gefnogi datblygiad cynaliadwy i roi cynllun drafft gerbron y Cynulliad, gan dalu sylw i'r ymatebion i'r ymgynghori.

It gives me great pleasure today to open this debate on a scheme in which we lead Europe and is among the best in the world. I stress that the purpose of today's debate is not to make the scheme but for us to consider the responses we have had to consultation and for Assembly Members to express their views. Before I move on to the body of the debate, I express my thanks to Christine Gwyther for her work as Secretary for Agriculture and Rural Development on this scheme and for all her other work during her time in post.

Mae'n bleser mawr imi heddiw agor y ddadl hon ar gynllun lle yr ydym yn arwain Ewrop a chynllun sydd gyda'r gorau yn y byd. Pwysleisiaf nad llunio'r cynllun yw diben y ddadl heddiw ond ystyried yr ymatebion a gawsom i'r ymgynghori a rhoi cyfle i Aelodau'r Cynulliad fynegi barn. Cyn imi symud ymlaen i brif ran y ddadl, hoffwn ddiolch i Christine Gwyther am ei gwaith fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar y cynllun hwn ac am ei holl waith arall yn ystod ei chyfnod yn y swydd.

On this day last year, when the Assembly first discussed sustainable development, Christine Gwyther and Peter Law rightly stressed our unique sustainable development obligation. We are the only Government in the whole of Europe, as far as we are aware, with a statutory obligation to ensure that a sustainable development scheme is implemented. I want us to lead Europe and the world in this. I want to be able to boast to the rest of the world about the sustainable development scheme that we will adopt in Wales. Many people will think that this will be a matter of lip service, a scheme that we can implement and then forget. Nothing could be further from the truth. Once we

Ar y diwrnod hwn y llynedd, pan drafododd y Cynulliad ddatblygu cynaliadwy yn gyntaf, pwysleisiodd Christine Gwyther a Peter Law, a hynny'n gwbl gyfiawn, fod arnom rwymedigaeth unigryw i ddatblygu cynaliadwy. Ni yw'r unig Lywodraeth yn Ewrop gyfan, hyd y gwyddom, sydd â dyletswydd statudol i sicrhau y caiff cynllun datblygu cynaliadwy ei weithredu. Yr wyf am inni arwain Ewrop a'r byd yn hyn o beth. Hoffwn allu brolio i weddill y byd am y cynllun datblygu cynaliadwy y byddwn yn ei fabwysiadu yng Nghymru. Bydd llawer o bobl o'r farn mai mater o eiriau teg fydd hyn, yn gynllun y gallwn ei fabwysiadu ac yna yn anghofio amdano. Nid oes dim byd

adopt this, it is set in stone in effect. We will not have the luxury of being able to make policy on the hoof without referring to the sustainable development scheme. We cannot adopt the scheme one week and a contradictory policy the next. That would lay us open to challenge and also to the challenge of not knowing what we are doing. It would also frustrate sensible resource allocation. That emphasises how important this debate is, and how important it is that we get the scheme right. We must ensure that our decisions on every aspect of policy—and I stress that—take account of the effects of the proposals. We must satisfy ourselves that our spending plans strike the right balance between objectives and we must design our policies and programmes in a joined-up way so that they reinforce one another.

ymhellach o'r gwirionedd. Unwaith y byddwn wedi mabwysiadu'r cynllun hwn, mae'n derfynol i bob diben. Ni fydd modd inni lunio polisi ar fympwy heb gyfeirio at y cynllun datblygu cynaliadwy. Ni allwn fabwysiadu'r cynllun hwn un wythnos a pholisi sydd yn mynd yn groes iddo yr wythnos wedyn. Byddai hynny'n ein gwneud yn agored i her ac i'r cyhuddiad hefyd nad ydym yn gwybod beth yr ydym yn ei wneud. Byddai hefyd yn rhwystro'r gwaith o ddyrannu adnoddau'n synhwyrol. Mae hynny'n pwysleisio pa mor bwysig y mae'r ddadl hon, a pha mor bwysig ydyw inni sicrhau bod y cynllun yn gywir gennym. Rhaid inni sicrhau bod ein penderfyniadau ar bob agwedd ar bolisi—a phwysleisiaf hynny—yn ystyried effaith y cynigion. Rhaid inni fodloni ein hunain bod ein cynlluniau gwario yn cael cydbwysedd cywir rhwng yr amcanion a rhaid inni lunio ein polisïau a'n rhaglenni mewn modd cydlynus fel eu bod yn atgyfnerthu ei gilydd.

Our desire is that the scheme that we will make in November will be sufficiently robust to last unchanged at least until after our next ordinary elections in 2003. That is particularly relevant in terms of the amendments tabled for today. I emphasise that I want you to instruct me to include matters in the scheme only if you are happy to live with that for the future. Beware of making commitments that we may have to change in the future. We should not make commitments that we lack the power to deliver, nor should we make commitments that force us onto a narrow track and do not allow us to advance on a broad front. We should avoid commitments that dilute the scheme's focus on what we as an Assembly can do, or which contribute little to the task at hand. However, by all means embrace commitments that you are determined to see through.

Ein dymuniad yw y bydd y cynllun a luniwn ym mis Tachwedd yn ddigon cadarn i barhau heb ei newid tan ein hetholiadau cyffredin nesaf yn 2003 o leiaf. Mae hynny'n arbennig o berthnasol i'r gwelliannau a gyflwynwyd ar gyfer heddiw. Pwysleisiaf fy mod am ichi fy nghyfarwyddo i gynnwys materion yn y cynllun dim ond os ydych yn fodlon cadw atynt yn y dyfodol. Gocheler rhag gwneud ymrwymiadau y bydd yn rhaid inni eu newid o bosibl yn y dyfodol. Ni ddylem wneud ymrwymiadau lle nad oes gennym y pŵer i'w cyflwyno, nac ymrwymiadau sydd yn gorfodi inni ddilyn llwybr cul nad yw'n caniatáu inni symud ymlaen ar drywydd ehangach. Dylem osgoi ymrwymiadau sydd yn gwanhau pwyslais y cynllun ar yr hyn y gallwn ni, fel Cynulliad, ei wneud, neu ymrwyiadau nad ydynt yn cyfrannu fawr ddim at y dasg o dan sylw. Fodd bynnag, mae croeso ichi wneud ymrwymiadau yr ydych yn benderfynol o lynu atynt.

11:10 a.m.

I aim to place before you a revised draft of the scheme in November, which would take into account the responses to the consultation and the comments that Members make this morning. I want to deliver a scheme with which you can be happy and I need to know

Fy nod yw cyflwyno drafft diwygiedig o'r cynllun ger eich bron ym mis Tachwedd, a fyddai'n ystyried yr ymatebion i'r ymgynghori a sylwadau'r Aelodau y bore yma. Yr wyf am gyflwyno cynllun y gallwch fod yn fodlon arno ac mae angen imi wybod

today what your views are on the responses to the consultation.

It is evidence of the popularity and importance of this debate that 11 amendments have been tabled. I think that that may be a record for a National Assembly debate. I will address the amendments one by one and outline the Government's view on each one.

We do not have a problem with Rhodri Glyn Thomas's amendment 3 as it coincides with what we were planning to do. I am happy that sustainable development should guide the future development of our strategic plan. The matters raised in amendment 4 are important and we can be positive about them. However, we must be careful about their possible financial implications, which would need to be considered fully alongside other priorities. I agree wholeheartedly with the point in amendment 5 about Wales's contribution to global sustainability. We can usefully address that. I am also grateful to Jenny Randerson for amendment 6, which recognises the role of local authorities in consultation. That is not to belittle the role of other consultees. Similarly, I do not have a problem with amendment 7. However, while I am described as the champion of sustainable development, sustainable development must be borne in mind by every member of this institution.

I have difficulty with amendment 2, because it seems to be a distraction from the task in hand. The size and location of the sustainable development unit is a matter that comes under the province of staffing. It is not a matter for political determination, but for the Permanent Secretary to decide upon. Consideration is being given to the appropriate resourcing of the unit through the normal resource allocation process. It is important to stress that securing a cross-cutting approach does not depend on where officials sit or are positioned in a building. It depends upon us all in the Assembly taking sustainable development into account in all that we do. That is a matter for politicians to consider, whereas staffing is a matter for the Permanent Secretary. I urge Members, in the spirit of amendment 2, to consider

heddiw beth yw eich barn ar yr ymtebion i'r ymgynghori.

Mae'n arwydd o ba mor boblogaidd a phwysig yw'r ddadl hon fod 11 o welliannau wedi eu cyflwyno. Dyna'r nifer uchaf hyd yn hyn, mi gredaf, ar gyfer dadl yn y Cynulliad Cenedlaethol. Ymdriniaf â'r gwelliannau fesul un gan amlinellu barn y Llywodraeth ar bob un ohonynt.

Nid ydym yn anghytuno â gwelliant 3 Rhodri Glyn Thomas gan ei fod yn gydnaws â'r hyn yr oeddem yn bwriadu ei wneud. Yr wyf yn fodlon y dylai datblygu cynaliadwy lywio datblygiad ein cynllun strategol yn y dyfodol. Mae'r materion a godwyd yng ngwelliant 4 yn bwysig a gallwn fod yn gadarnhaol amdanynt. Fodd bynnag, rhaid inni fod yn ofalus ynglŷn â'u goblygiadau ariannol y bydd angen eu hystyried yn llawn ochr yn ochr â blaenoriaethau eraill. Cytunaf yn llwyr â'r sylw yng ngwelliant 5 ynglŷn â chyfraniad Cymru tuag at gynaliadwyedd byd-eang. Gallwn fynd i'r afael â hynny yn ymarferol. Yr wyf hefyd yn ddiolchgar i Jenny Randerson am welliant 6, sydd yn cydnabod rôl yr awdurdodau lleol yn yr ymgynghori. Ni olyga hynny ein bod yn rhoi llai o bwys ar rôl pobl eraill yr ymgynghorir â hwy. Yn yr un modd, nid wyf yn anghytuno â gwelliant 7. Fodd bynnag, er imi gael fy nisgrifio yn amddiffynnydd datblygu cynaliadwy, rhaid i bob aelod yn y sefydliad hwn gofio am ddatblygu cynaliadwy.

Ni allaf gytuno'n llwyr â gwelliant 2, am ei fod yn tynnu sylw oddi ar y gwaith dan sylw i bob golwg. Mae maint a lleoliad yr uned datblygu cynaliadwy yn bwnc sydd yn ymwneud â staffio. Nid y gwleidyddion sydd yn penderfynu ar y mater hwn ond yr Ysgrifennydd Parhaol. Ystyrir beth yw'r adnoddau priodol ar gyfer yr uned drwy'r broses dyrannu adnoddau arferol. Mae'n bwysig pwysleisio nad yw ymagwedd drawsbynciol yn dibynnu ar ble mae'r swyddogion yn eistedd neu wedi eu lleoli mewn adeilad. Mae'n dibynnu ar bob un ohonom yn y Cynulliad i ystyried datblygu cynaliadwy ymhob peth a wnawn. Mae hynny'n fater i'r gwleidyddion, tra bod staffio yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol. Apeliaf ar yr Aelodau, yn unol ag ysbryd gwelliant 2, i ystyried datblygu cynaliadwy

sustainable development in all that they do.

ymhob peth a wnânt.

I seek further clarification from Jenny Randerson on amendments 9 and 11. Amendment 9 states that we should

Hoffwn gael eglurhad pellach gan Jenny Randerson ar welliannau 9 ac 11. Mae Gwelliant 9 yn nodi y dylem

‘Ensure that all the Assembly Committees are fully involved in the consultation of the draft scheme.’

‘Sicrhau bod gan Bwyllgorau’r Cynulliad ran lawn i’w chwarae pan fydd y cynllun drafft yn destun ymgynghori.’

If the amendment’s intention is that all Subject Committees should consider the responses to the consultation—if they have not already done so—I can agree with it. However, if the aim is that all Subject Committees should clear the revised draft scheme before it comes back to Plenary, that causes difficulty because it would delay the scheme. It is not worth delaying the scheme on those grounds. I would, therefore, welcome clarification on that from whoever proposes the amendment.

Os mai bwriad y gwelliant yw y dylai pob un o’r Pwyllgorau Pwnc ystyried yr ymatebion i’r ymgynghori—os nad ydynt wedi gwneud hyn eisoes—gallaf gytuno ar hynny. Fodd bynnag, os mai’r nod yw y dylai pob Pwyllgor Pwnc gytuno ar y cynllun drafft diwygiedig cyn iddo ddychwelyd i’r Cyfarfod Llawn, mae hynny’n achosi anhawster oherwydd y byddai’n gohirio’r cynllun. Nid yw’n werth gohirio’r cynllun ar y sail honno. Byddwn yn croesawu, felly, eglurhad am hynny oddi wrth y sawl sydd yn cynnig y gwelliant.

Amendment 11 seems to suggest investigating the feasibility of establishing a Subject Committee for sustainable development, which is a matter that we have collectively considered and rejected previously. That was partly because of the implications on scheduling committee business, but primarily because it would dilute the responsibility of all Committees to take sustainability into account in their work. I do not want sustainable development to be ghettoised in that way. It is important that the concept is threaded through everything that the National Assembly does.

Ymddengys bod gwelliant 11 yn awgrymu ymchwilio i ymarferoldeb sefydlu Pwyllgor Pwnc ar gyfer datblygu cynaliadwy, sef mater yr ydym wedi ei ystyried gyda’n gilydd ac wedi ei wrthod cyn hyn. Yr oedd hynny yn rhannol oherwydd y goblygiadau i drefnu busnes y pwyllgorau, ond yn bennaf oherwydd y byddai’n gwanhau’r cyfrifoldeb ar bob Pwyllgor i ystyried cynaliadwyedd yn eu gwaith. Nid wyf am i ddatblygu cynaliadwy gael ei etöeiddio yn y modd hwnnw. Mae’n bwysig bod y cysyniad wedi ei gydblethu drwy bopeth a wna’r Cynulliad Cenedlaethol.

Cynog Dafis: Derbyniaf fod pryder ynglŷn â threfnu amser ar gyfer pwyllgor ychwanegol. Fodd bynnag, nid wyf yn gallu gweld sut y byddai sefydlu pwyllgor datblygu cynaliadwy yn peri getöeiddio’r pwnc. Os yw hynny’n wir am ddatblygu cynaliadwy, rhaid ei fod yn wir hefyd am gyfle cyfartal. Er bod cyfle cyfartal yn rhan o gyfrifoldeb pob pwyllgor mae gennym bwyllgor arbennig ar ei gyfer.

Cynog Dafis: I accept the concern about arranging time for an additional committee. However, I fail to see how the establishment of a sustainable development committee would cause the subject to be ghettoised. If that is true for sustainable development, it must also be true for equality of opportunity. Even though equality of opportunity is part of the responsibility of every committee we have a special committee for it.

Carwyn Jones: Byddai sefydlu pwyllgor arbennig ar gyfer datblygu cynaliadwy yn wendid wrth geisio sicrhau ei fod yn cael ei weu drwy holl waith y Cynulliad. Fodd bynnag, os mai nod gwelliant 11 yw sefydlu

Carwyn Jones: Establishing a special committee for sustainable development would be a weakness in trying to ensure that it is interwoven through all of the Assembly’s work. However, if the aim of amendment 11

math o grŵp gorchwyl a fyddai'n cynnwys Aelodau a swyddogion y Cynulliad, ac efallai eraill tu allan i'r Cynulliad, byddwn yn barod i'w gefnogi. Byddai hynny'n peri inni symud ymlaen a byddai'n well na sefydlu pwyllgor a fyddai'n cynnwys Aelodau o'r Cynulliad yn unig. Os mai dyna nod y gwelliant, fe'i cefnogaf.

is to establish a kind of task group which would include Assembly Members and officials, and perhaps others from outside the Assembly, I would be willing to support it. That would enable us to move forward and would be better than establishing a committee that comprised solely of Assembly Members. If that is the amendment's aim, I will support it.

On amendments 1, 8 and 10, I am happy to leave them for your consideration, with these comments. The Cabinet agenda is set out in our strategic plan 'Betterwales.com'. The Assembly, in Plenary, endorsed the visions, priorities and values set out in the introduction to 'Betterwales.com'. Having seen the sustainable development scheme, we must recognise the interdependence of our various commitments. However, we must also realise that these are different documents, and we should not get into an argument about which should be paramount. The two documents serve different purposes and we will see how things work during the next few months. The issue of which overarches the other has a more symbolic than a practical importance. The amendment suggests that there is an incompatibility between our commitments that I do not think exists. Given that, you may think that the amendment is superfluous.

O ran gwelliannau 1, 8 a 10, yr wyf yn fodlon ichi eu hystyried gyda'r sylwadau hyn. Nodir agenda'r Cabinet yn ein cynllun strategol 'Gwellcymru.com'. Cefnogwyd y gweledigaethau, y blaenoriaethau a'r gwerthoedd a nodwyd yn y rhagair i 'Gwellcymru.com' gan Gyfarfod Llawn y Cynulliad. Ar ôl gweld y cynllun datblygu cynaliadwy, rhaid inni gydnabod rhyngddibyniaeth ein hamrywiol ymrwymiadau, Fodd bynnag, rhaid inni hefyd sylweddoli mai dogfennau ar wahân yw'r rhain, ac ni ddylem ddadlau ynghylch pa un a ddylai fod yn ben. Mae dibenion gwahanol i'r ddwy ddogfen a byddwn yn gweld sut y byddai pethau'n gweithio yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf. Mae'r mater o ba un sydd yn ben ar y llall o fwy o bwys symbolaidd nac ymarferol. Mae'r gwelliant yn awgrymu anghysonder o ran ein hymrwymiadau nad yw'n bodoli yn fy marn i. O ystyried hynny, efallai y byddwch o'r farn nad oes angen y gwelliant.

Amendments 8 and 10 call on us to convene an expert panel on sustainable development for various purposes. I do not have a problem with the spirit of this amendment. One proposal in the draft scheme was to establish a Welsh sustainable development forum, and there is a UK forum. That attracted wide support and views were canvassed at the time as to whether the forum should be composed solely of experts, solely of stakeholders or of both. The opinion of respondents was split. Either of these amendments would lead us towards an expert panel and not a stakeholder forum, which poses a problem. That is a decision of principle. If you are happy for that, you can vote for either amendment as they appear to be the same. However, if you prefer a stakeholder forum, or wish to leave the question open, you must vote against the amendments as they stand, because they would lead to an expert rather than a mixed

Mae gwelliannau 8 a 10 yn galw arnom i gynnull panel o arbenigwyr ar ddatblygu cynaliadwy am wahanol ddibenion. Nid wyf yn anghytuno ar ysbryd y gwelliant hwn. Un o'r cynigion yn y cynllun drafft oedd sefydlu fforwm datblygu cynaliadwy i Gymru, ac mae yna fforwm DU. Yr oedd cryn gefnogaeth i'r cynnig hwnnw a cheisiwyd barn ar y pryd ynghylch a ddylai'r fforwm gynnwys arbenigwyr yn unig, buddianwyr yn unig neu'r ddau. Yr oedd barn ymatebwyr yn rhanedig. Byddai'r naill welliant neu'r llall yn ein tywys ar drywydd panel o arbenigwyr yn hytrach na fforwm buddianwyr, sydd yn achosi problem. Penderfyniad ar egwyddor ydyw. Os ydych yn fodlon ar hynny, gallwch bleidleisio dros y naill welliant neu'r llall oherwydd yr un nod sydd ganddynt i bob golwg. Fodd bynnag os byddai'n well gennych fforwm buddianwyr, neu os hoffech adael y cwestiwn yn agored, rhaid ichi

panel and there would not be an element of stakeholder involvement.

bleidleisio yn erbyn y gwelliannau fel y maent ar hyn o bryd, oherwydd y byddant yn arwain at banel o arbenigwyr yn hytrach na phanel cymysg ac ni fyddai elfen o gyfraniad gan fuddianwyr.

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you wind up, please?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi derfynu, os gwelwch yn dda?

Carwyn Jones: It is important that all the Committees put sustainable development on the agenda for their meetings. Four Committees have already done so. The Pre-16 Education Committee will discuss the matter next month. I therefore urge the Post-16 Education and Training Committee and the Health and Social Services Committee to put sustainable development on their agendas as soon as possible so that we can receive your comments.

Carwyn Jones: Mae'n bwysig bod pob Pwyllgor yn cynnwys datblygu cynaliadwy ar agenda eu cyfarfodydd. Mae pedwar Pwyllgor wedi gwneud hyn eisoes. Bydd y Pwyllgor Addysg Cyn 16 oed yn trafod y mater y mis nesaf. Anogaf y Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 a'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol felly i gynnwys datblygu cynaliadwy ar eu hagendâu hwy cyn gynted â phosibl fel y gallwn gael eich sylwadau.

I have two final points, the first is on indicators. We are consulting on indicators and will report on that exercise in our debate in November. Secondly, some of you may want to know what is happening as regards an action plan. There will be an action plan, which will cover details of implementation, including public awareness, appraisal tools and other important matters. The plan will need to be revised frequently and, therefore, it should not be part of the scheme as that would mean revising the whole scheme and create unnecessary work. I therefore suggest that it should be an annex to the scheme rather than an integral part of it. However, that does not lessen its importance. I look forward to hearing the views of each party today and will consider your collective wishes before returning with proposals in November.

Mae gennyf ddau bwynt i gloi, mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â dangosyddion. Yr ydym yn ymgynghori ar ddangosyddion a byddwn yn cyflwyno adroddiad ar yr ymarferiad hwnnw yn ein dadl ym mis Tachwedd. Yn ail, efallai y bydd rhai ohonoch am wybod beth sydd yn digwydd o ran cynllun gweithredu. Bydd cynllun gweithredu, a fydd yn cynnwys manylion ar weithredu, gan gynnwys ymwybyddiaeth y cyhoedd, offer gwerthuso a materion pwysig eraill. Bydd angen diwygio'r cynllun yn fynych ac, felly, ni ddylai fod yn rhan o'r cynllun oherwydd byddai hynny'n golygu diwygio'r cynllun cyfan gan achosi gwaith yn ddiangen. Awgrymaf felly y dylai fod yn atodiad i'r cynllun yn hytrach na rhan annatod ohono. Fodd bynnag, nid yw hynny'n ei gwneud yn llai pwysig. Edrychaf ymlaen at glywed barn pob plaid heddiw a byddaf yn ystyried eich cyd-ddymuniadau cyn dychwelyd gyda chynigion ym mis Tachwedd.

11:20 a.m.

Rhodri Glyn Thomas: Cynigiaf welliant 1. Ychwaneger ar ddiwedd y cymal cyntaf

Rhodri Glyn Thomas: I propose amendment 1. Add at the end of the first clause

ac yn cyfarwyddo'r Weithrediaeth i gydnabod dilysrwydd y farn sydd yn cael ei harddel yn gyffredinol, sef y dylai'r cynllun datblygu cynaliadwy fod yn fframwaith trosfwaol ar gyfer pob un o strategaethau a

and instructs the Executive to recognise the validity of the widely held view that the sustainable development scheme should form the overarching framework for all other Assembly strategies and policies, including

pholisïau eraill y Cynulliad, gan gynnwys Gwell Cymru, ac yn penderfynu y dylai'r berthynas rhwng y ddwy ddogfen gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu hyn.

Better Wales, and resolves that the relationship between these two documents be revised to reflect this.

Cynigiaf hefyd welliant 2. Ychwaneger ail gymal newydd

I also propose amendment 2. Add a new second clause

Yn cyfarwyddo'r Weithrediaeth i leoli uned datblygu cynaliadwy estynedig o fewn prif Uned Bolisi y Cynulliad, er mwyn sicrhau ymagwedd wirioneddol drawsbynciol tuag at ddatblygu polisi.

Instructs the Executive to locate an expanded sustainable development unit within the Assembly's main Policy Unit, in order to ensure a truly cross-cutting approach in the development of policy.

Cynigiaf hefyd welliant 3. Yn y trydydd cymal, rhodder '*arwain datblygiad*' yn lle '*helpu i ddatblygu*' ac ychwaneger ar y diwedd

I also propose amendment 3. In the third clause, replace '*inform development*' with '*guide development*' and add at the end

drwy ddatblygu peirianwaith priodol ar gyfer gwerthuso datblygu cynaliadwy.

by developing appropriate sustainable development appraisal mechanisms.

Cynigiaf hefyd welliant 4. Ychwaneger pedwerydd cymal newydd gan ailrifo'r lleill

I also propose amendment 4. Add a new fourth clause and renumber accordingly

Yn penderfynu y dylai'r cynllun fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at gyfleoedd ar gyfer twf mewn sectorau datblygu cynaliadwy megis technoleg amgylcheddol, trafnidiaeth gyhoeddus, ynni adnewyddadwy a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

Resolves that the scheme should adopt a positive approach to opportunities for growth in key sustainable development sectors such as environmental technology, public transport, renewable energy and information and communication technology.

Cynigiaf hefyd welliant 5. Ychwaneger pumed cymal newydd gan ailrifo'r lleill

I also propose amendment 5. Add a new fifth clause and renumber accordingly

Yn argymell hefyd y dylai'r cynllun adlewyrchu sut y gallai datblygiadau yng Nghymru gyfrannu at gynaliadwyedd byd-eang.

Recommends also that the scheme should reflect how development in Wales might contribute to global sustainability.

Cynigiaf hefyd welliant 8. Ychwaneger ar ddiwedd y pedwerydd cymal

I also propose amendment 8. Add at the end of the fourth clause

, ac yn galw ar y Weithrediaeth i gynnull panel o arbenigwyr i roi cyngor ar sut y dylid gweithredu a chymhwyso'r cynllun a'i ddangosyddion cysylltiedig ac i fonitro cynnydd y Cynulliad tuag at ddatblygu cynaliadwy.

, and calls upon the executive to convene an expert panel to advise on the implementation and application of the scheme and its associated indicators and monitor the Assembly's progress toward sustainable development.

Croesawaf y datganiadau a wnaeth Carwyn wrth gyflwyno'r mater hwn. Ategaf ei ddiolchiadau i Christine Gwyther am ei gwaith yn ystod ei chyfnod fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ac am

I welcome the statements made by Carwyn in introducing this matter. I endorse his thanks to Christine Gwyther for her work during her time as Secretary for Agriculture and Rural Development and for promoting issues

hyrwyddo materion yn ymwneud â datblygu cynaliadwy.

involving sustainable development.

Mae hwn yn fater holl bwysig. Byddai Plaid Cymru yn dadlau ei fod yn elfen sylfaenol a chreiddiol ym mhob peth y mae'r Cynulliad yn ceisio ei gyflawni. Cytunaf â Carwyn fod cyfle gan y Cynulliad i fod yn fentrus ac i arwain gweddill Ewrop. Mae gennym gyfrifoldeb statudol o ran datblygu cynaliadwy. Mae gennym gyfle hefyd i fod yn beilot ar gyfer gweddill Ewrop ac i dderbyn cefnogaeth ariannol oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i'r perwyl hwnnw. Pwysaf ar Carwyn i sicrhau'r arian Ewropeaidd hwnnw, er mwyn i'r Cynulliad a Chymru fod yn beilot i greu strategaeth Ewropeaidd ar gyfer datblygu cynaliadwy. Mae'r arian hwnnw ar gael yn y gronfa Ewropeaidd.

This is a crucial matter. Plaid Cymru would argue that it is a fundamental and crucial element of everything that the Assembly is trying to achieve. I agree with Carwyn that the Assembly has an opportunity to be innovative and to lead the rest of Europe. We have a statutory responsibility towards sustainable development. We also have an opportunity to be a pilot for the rest of Europe and to receive financial support from the European Union for that end. I would press Carwyn to secure that European funding, so that the Assembly and Wales can be a pilot to create a European strategy for sustainable development. That money is available in the European fund.

Mae'n bryder gennyf fod Carwyn yn credu bod modd ychwanegu datblygu cynaliadwy at yr hyn a wna'r Cynulliad. Y gwir amdani yw bod honno'n ddadl anghynaliadwy. Os nad yw datblygu cynaliadwy yn cyfeirio'r hyn a wnawn ac yn gwbl ganolog iddo, y mae'n anghynaliadwy ac ni ellir ei ychwanegu. Dyna'r ddadl o ran perthynas y cynllun datblygu cynaliadwy a 'Gwellcymru.com'. Os nad oes partneriaeth lawn rhwng y dogfennau hynny, a bod yr hyn y cytunwyd arno yn 'Gwellcymru.com' yn cael ei fwydo i'r strategaeth, ni fydd datblygu cynaliadwy yn gweithio.

I am concerned that Carwyn believes that sustainable development can be added to what the Assembly does. The truth is that that is an unsustainable argument. If sustainable development does not direct our actions, and is not completely central to them, it is unsustainable and cannot be bolted on. That is the argument as regards the relationship between the sustainable development plan and 'Betterwales.com'. If there is not a full partnership between those documents, and that which was agreed upon in 'Betterwales.com' is not fed into the strategy, sustainable development will not work

Mae perygl inni ystyried datblygu cynaliadwy yn gysyniad haniaethol. Nid dyna ydyw. Yr ydym wedi sôn am ddatblygu economaidd cynaliadwy, a chlywsom eisoes am y cyllid Ewropeaidd y bydd gorllewin a hen gymoedd glofaol de Cymru yn ei dderbyn. Dengys y ffaith fod yr ardaloedd hynny'n dlawd tra bod ardaloedd eraill yn gymharol gyfoethog fod ein hymdrechion o ran datblygu cynaliadwy wedi bod yn wallus a diffygiol yn y gorffennol. Soniasom am wasanaethau cynaliadwy a'r problemau yn y gwasanaeth iechyd. Mae gan y gwasanaeth addysg yr un math o broblemau, sydd yn anghynaliadwy ar hyn o bryd. Soniwn am gymunedau a ffordd gynaliadwy o fyw. Dangosodd yr argyfwng tanwydd diweddar fod ein ffordd o fyw a'n trefniadaeth yn anghynaliadwy.

There is a danger that we consider sustainable development as an abstract concept. That is not what it is. We have mentioned sustainable economic development, and we have already heard about the European funding that the west and the former mining valleys of south Wales will receive. The fact that those areas are poor while other areas are comparatively wealthy shows that our endeavours in the context of sustainable development have been flawed and deficient in the past. We have talked about sustainable services and the problems in the health service. The education service has the same kind of problems, which are unsustainable at the moment. We talk about sustainable communities and lifestyles. The recent fuel crisis has shown that our way of life and our systems are unsustainable.

Mae gwelliannau 1 a 2 yn gosod datblygu cynaliadwy wrth graidd gweithgareddau'r Cynulliad, a phwysaf arnoch i gefnogi'r ddau ohonynt. Ni dderbyniaf y pwyntiau a wnaeth Carwyn yn eu cylch. Credaf iddo ddefnyddio'i gefndir fel bargyfreithiwr i geisio osgoi'r hyn y mae'n rhaid ei wneud o ran datblygu cynaliadwy. Mae'n broblem fod datblygu cynaliadwy yn aml yn cael ei weld fel rhwystr, a hynny am ein bod yn ceisio ei ychwanegu yn hytrach na'i wneud yn elfen ganolog. Rhaid i ddatblygu cynaliadwy fod yn greadigol a rhaid iddo arwain, fel y dywed y ddogfen, at ffordd wahanol o fyw. Apeliaf arnoch i gefnogi'r gwelliannau a fyddai'n caniatáu inni wneud datblygu cynaliadwy yn ganolog i weithgareddau'r Cynulliad. Cefnogwn hefyd welliannau 6, 7, 9, 10 ac 11 yn enw Jenny Randerson. Apeliaf arnoch hefyd i wneud yr hyn y mae Carwyn am inni ei wneud, sef sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ganolog i weithgareddau'r Cynulliad.

Amendments 1 and 2 put sustainable development at the heart of the Assembly's activities, and I urge you to support them both. I do not accept the points made by Carwyn about those amendments. I believe that he used his background as a barrister to try to avoid what needs to be done about sustainable development. It is a problem that sustainable development is often seen as an obstacle; this is because we attempt to bolt it on instead of making it a central element. Sustainable development must be creative and must lead, as the document states, towards a different way of living. I urge you to support the amendments that would enable us to make sustainable development central to the Assembly's activities. We support amendments 6, 7, 9, 10 and 11 in the name of Jenny Randerson. I also urge you to do what Carwyn wants us to do, namely to ensure that sustainable development is central to the Assembly's activities.

Unless sustainable development is at the core of everything we do in this Assembly, it is not sustainable. It is not an extra or an option that can be appended to something else. It must be central. Everything that this Assembly does must stem from the principle of sustainable development, otherwise we will not be able to achieve Carwyn's vision of Wales leading Europe and being a champion of this issue throughout Europe.

Oni fydd datblygu cynaliadwy wrth wraidd popeth a wnawn fel Cynulliad, nid yw'n gynaliadwy. Nid yw'n ychwanegiad nac yn opsiwn y gellir ei atodi at rywbeth arall. Rhaid iddo fod yn ganolog. Rhaid i bopeth a wna'r Cynulliad hwn ddeillio o egwyddor datblygu cynaliadwy, fel arall ni fyddwn yn gallu cyflawni gweledigaeth Carwyn o Gymru yn arwain Ewrop a bod yn amddiffynnydd y mater hwn ledled Ewrop.

Yr wyf yn gofyn ichi i gefnogi nid yn unig ein gwelliannau ni ond hefyd rai'r Democratiaid Rhyddfrydol.

I ask you to support not only our amendments but also those of the Liberal Democrats.

Mick Bates: I propose the following amendments, which are all in the name of Jenny Randerson.

Mick Bates: Cynigiaf y gwelliannau canlynol, y mae pob un ohonynt yn enw Jenny Randerson.

I propose amendment 6. Add a new clause between the third and fourth clauses

Cynigiaf welliant 6. Rhwng y trydydd a'r pedwerydd cymal ychwaneger

Welcomes the recognition of the significant role of local government in promoting and enabling sustainable development, in particular:

Yn croesawu'r ffaith fod y rôl arwyddocaol sydd yn cael ei chwarae gan lywodraeth leol i hybu a galluogi datblygu cynaliadwy yn cael ei chydnabod yn arbennig:

through the Local Agenda 21 initiative

trwy'r fenter Agenda 21 leol

through Best Value to ensure local services

trwy'r Gwerth Gorau er mwyn sicrhau bod

are delivered without jeopardising long-term sustainability.

gwasanaethau lleol yn cael eu cyflwyno heb roi cynaliadwyedd tymor-hir yn y fantol.

Instructs the Assembly Secretary responsible for sustainable development to assist the Assembly in its commitment to sustainable development by placing a draft scheme before the Assembly which takes account of the responses to the consultation.

Yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Cynulliad sydd yn gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy i gynorthwyo'r Cynulliad yn ei ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy drwy osod cynllun drafft gerbron y Cynulliad a fydd yn cymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghori.

I also propose amendment 9. Add a new fifth clause

Cynigiaf hefyd welliant 9. Ychwaneger pumed cymal newydd

Ensures that all the Assembly Committees are fully involved in the consultation of the draft scheme.

Sicrhau bod gan Bwyllgorau'r Cynullliad ran lawn i'w chwarae pan fydd y cynllun drafft yn destun ymgynghori.

I also propose amendment 10. Add a new sixth clause

Cynigiaf hefyd welliant 10. Ychwaneger chweched cymal newydd

Investigates the feasibility of appointing a panel of sustainability experts to assist the Assembly in the appraisal of policies to achieve sustainable development.

Yn ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai penodi panel o arbenigwyr ar gynaliadwyedd i gynorthwyo'r Cynulliad i werthuso polisïau er mwyn ymgyrraedd at ddatblygu cynaliadwy.

I also propose amendment 11. Add a new seventh clause

Cynigiaf hefyd welliant 11. Ychwaneger seithfed cymal newydd

Investigates the feasibility of establishing a sustainable committee, cutting across departments and assisting the Assembly's development and implementation of sustainable development initiatives.

Yn ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai sefydlu Pwyllgor Datblygu Cynaliadwy, a fyddai'n torri ar draws adrannau ac yn cynorthwyo'r Cynulliad i ddatblygu mentrau datblygu cynaliadwy a'u rhoi ar waith.

I welcome Carwyn's encouraging words and I also endorse the vote of thanks to Christine Gwyther for her work in introducing the consultation document on sustainable development.

Croesawaf eiriau calonogol Carwyn ac ategaf innau hefyd y diolchiadau i Christine Gwyther am ei gwaith o gyflwyno'r ddogfen ymgynghorol ar ddatblygu cynaliadwy.

It is a great privilege to speak in this debate. As we have already heard, sustainable development is fundamental. We have lived by the assumption that what is good for us is good for the world. We have been wrong. We must change our lives and, as the title of the consultation document suggests, we must learn to live differently. We must make the assumption that what is good for the world is good for us. As Assembly Members, we have an opportunity to improve the quality of life for the people of Wales. Indeed, we have a duty to promote this concept, since it is embodied in Section 121 of the Government

Mae'n fraint fawr cael siarad yn y ddadl hon. Fel y clywsom eisoes, mae datblygu cynaliadwy yn hanfodol. Yr ydym wedi byw yn ôl y rhagdybiaeth fod yr hyn sydd o fudd inni hefyd o fudd i'r byd. Buom yn cyfeiliorni yn hyn o beth. Rhaid inni newid ein bywydau ac fel y mae teitl y ddogfen ymgynghorol yn ei awgrymu, rhaid inni ddysgu byw'n wahanol. Rhaid inni ragdybio bod yr hyn sydd o fudd i'r byd hefyd o fudd i ni. Fel Aelodau'r Cynulliad, mae gennym gyfle i wella ansawdd bywyd pobl Cymru. Yn wir, mae dyletswydd arnom i hyrwyddo'r cysyniad hwn, gan ei fod wedi ei ymgorffori

of Wales Act 1998.

yn Adran 121 Deddf Llywodraeth Cymru 1998.

The document 'Sustainable Wales—Learning to Live Differently' and the responses given have been skilfully produced. The consultation has proved effective, although I note that only eight of the responses were received by e-mail. The programme has been run effectively. The Liberal Democrats agree with the second clause of the motion and we wish to congratulate those involved in the consultation.

Mae'r ddogfen 'Cymru Gynaliadwy—Dysgu Byw'n Wahanol' a'r ymatebion a roddwyd yn raenus iawn. Bu'r ymgynghori yn effeithiol, er imi nodi mai wyth yn unig o'r ymatebion a gafwyd trwy'r e-bost. Cafodd y rhaglen ei rhedeg yn effeithiol. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn cytuno ar ail gymal y cynnig a hoffem longyfarch y rhai a oedd wedi cymryd rhan yn yr ymgynghori.

This debate is about considering the responses and setting up a scheme. The Liberal Democrats see this as being an international process and one that will rely on good communications, partnerships, education and commitment from the Government. To carry out our duty we need vision, skills, incentives, resources and an action plan of specific Welsh sustainable development policies.

Mae'r ddadl hon yn ymwneud ag ystyried yr ymatebion a llunio cynllun. Mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ystyried y broses hon yn un ryngwladol ac yn un a fydd yn dibynnu ar gyfathrebu da, partneriaethau, addysg ac ymrwymiad gan y Llywodraeth. Er mwyn cyflawni ein dyletswydd, mae angen gweledigaeth, sgiliau, cymhellion, adnoddau a chynllun gweithredu ar bolisïau datblygu cynaliadwy penodol i Gymru.

There has always been discussion regarding the best definition of sustainable development. The United Nations Brundtland report's definition is generally acceptable. However, as you will see in the documents, I prefer the simple way of summing up sustainable development, that is

Bu trafod erioed ynglŷn â'r ffordd orau o ddiffinio datblygu cynaliadwy. Mae adroddiad Brundtland y Cehedloedd Unedig yn dderbyniol yn gyffredinol. Fodd bynnag, fel y gwelwch yn y dogfennau, mae'n well gennyf y ffordd syml o grynhoi datblygu cynaliadwy, sef

'treating the Earth as though we intend to stay'.

'trin y Ddaear fel pe baem yn bwriadu aros'.

People will always argue over terms and definitions, but the vision and implementation of sustainable development must set Wales apart in this new millennium as a leader, improving the quality of life with ambitious and stimulating programmes that are idealistic and practical.

Bydd pobl bob amser yn dadlau ynglŷn â thermau a diffiniadau, ond rhaid i'r weledigaeth a'r ffordd o weithredu datblygu cynaliadwy osod Cymru ar wahân, fel arweinydd yn y mileniwm newydd, wrth wella ansawdd bywyd trwy raglenni uchelgeisiol a symbylol sydd yn ddelfrydgar ac ymarferol.

It is for similar reasons that we have a Committee on Equality of Opportunity. Sustainable development is fundamentally the equal of that. It should be integrated across all Assembly strategies and policies. For this reason, we support Plaid Cymru's amendments, and trust that the Liberal Democrat amendments will receive your support. I will discuss them in more detail later.

Am resymau tebyg y mae gennym Bwyllgor Cyfle Cyfartal. Yn sylfaenol mae datblygu cynaliadwy yn gydradd â hynny. Dylid ei integreiddio ymhob un o strategaethau a pholisïau'r Cynulliad. Am y rheswm hwn, cefnogwn welliannau Plaid Cymru, gan hyderu y byddwch yn cefnogi gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Fe'u trafodaf yn fanylach yn nes ymlaen.

We believe that in order to develop the skills necessary to implement our vision of a sustainable Wales, a committee needs to be formed to implement these principles. The huge challenge that the Assembly faces to implement a fundamental cultural change and place sustainable development firmly at the top of the agenda across all departments and Subject Committees is surely too big a remit to be effectively carried out by one Assembly Secretary, however competent.

Yr ydym o’r farn bod angen sefydlu pwyllgor i weithredu’r egwyddorion hyn er mwyn datblygu’r sgiliau sydd eu hangen i weithredu ein gweledigaeth o Gymru gynaliadwy. Mae’n rhaid bod yr her fawr a wyneba’r Cynulliad wrth weithredu newid diwylliannol sylfaenol a gosod datblygu cynaliadwy yn sicr ar ben yr agenda ar draws pob adran a Phwyllgor Pwnc yn gylch gorchwyl sydd yn rhy fawr i un Ysgrifennydd Cynulliad, waeth pa mor gymwys ydyw, ei weithredu’n effeithiol.

A number of AMs, drawn from different Subject Committees could develop a deeper understanding and expertise in sustainability issues, inform their Subject Committees of aspects of sustainable development, and bring desperately needed input from their specific areas to the inter-departmental sustainability committee. As a result of Section 120 in the Government of Wales Act 1998, the crucial issue of equal opportunities is directly addressed by the Assembly’s Committee on Equality of Opportunity. Sustainable development can only be seen as a poor relation, an issue that the Assembly believes it can implement on its own, despite its huge-ranging repercussions for the future of Wales.

Gallai nifer o ACau, wedi eu tynnu o wahanol Bwyllgorau Pwnc, ddatblygu gwell dealltwriaeth ac arbenigedd o ran materion sydd yn ymwneud â chynaliadwyedd, arwain eu Pwyllgorau Pwnc ar agweddau ar ddatblygu cynaliadwy a rhoi mewnbwn y mae angen dybryd amdano am eu meysydd penodol i’r pwyllgor cynaliadwyedd rhyngadrannol. O ganlyniad i Adran 120 Deddf Llywodraeth Cymru 1998, ymdrinnir â mater hanfodol cyfle cyfartal yn uniongyrchol gan Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad. Ni ellir ond ystyried bod datblygu cynaliadwy yn israddol, yn fater y cred y Cynulliad y gall ei weithredu ar ei ben ei hun, er gwaethaf y goblygiadau enfawr ar gyfer dyfodol Cymru.

11:30 a.m.

The creation of a sustainability committee is the best way to ensure openness, consultation and a genuine partnership of interests within, and outside, the Assembly. This process could be enhanced by a working group of experts representing the private, public and voluntary sectors, together with civil servants and AMs, to develop practical integrated policies. These policies would demonstrate to the people of Wales, urban and rural, that sustainable development means an improvement in the quality of their lives. This process must deliver change. The Liberal Democrats are pleased that programmes will run for five years. This must be a long-term commitment. We wish to see a set of sustainable criteria, against which committees can assess their own decisions: in particular in social development terms, and in economic, cultural and environmental terms.

Sefydlu pwyllgor cynaliadwyedd yw’r ffordd orau o sicrhau natur agored, ymgynghori a phartneriaeth wirioneddol o ddiddordebau y tu mewn a’r tu allan i’r Cynulliad. Gellid ategu’r broses hon trwy weithgor o arbenigwyr sydd yn cynrychioli’r sector preifat, y sector cyhoeddus a’r sector gwirfoddol, ynghyd â gweision sifil ac ACau, er mwyn datblygu polisïau integredig ymarferol. Byddai’r polisïau hyn yn profi i bobl Cymru, waeth a ydynt yn byw mewn trefi neu yn y wlad, bod datblygu cynaliadwy yn golygu gwelliant i ansawdd eu bywydau. Rhaid i’r broses hon gyflwyno newid. Mae’n dda gan y Democratiaid Rhyddfrydol y bydd y rhaglenni’n parhau am bum mlynedd. Rhaid iddo fod yn ymrwymiad tymor hir. Yr ydym yn awyddus i weld cyfres o feini prawf cynaliadwy y gall y pwyllgorau asesu eu penderfyniadau eu hunain yn eu herbyn: o ran datblygu cymdeithasol yn arbennig, ac yn

nhermau economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol.

The development of policy-specific best practice will play a critical role in promoting sustainable development. I shall give a few examples of what I mean by these policies: the development of a renewable energy industry, small-scale community energy prosiects, the development of green tourism, community regeneration prosiects, parent-craft schemes, community composting schemes, and green-waste composting schemes using worms—I am sorry that the First Secretary is not here; on a visit to Montgomeryshire he was amazed to see how worms are used to compost green waste. Other examples include food miles by bringing processing and retailing back into our communities, also helping to keep our smaller abattoirs, and finally—one of my own pet prosiects—providing free milk in schools at key stage 1. Yes, school milk is a sustainable development policy. This policy crosses the health boundary. It will save the national health service £1 billion in combating tooth decay and producing stronger bones—

Bydd datblygu arfer gorau sydd yn gysylltiedig â pholisïau penodol yn chwarae rhan holl bwysig wrth hybu datblygu cynaliadwy. Rhoddaf ychydig o enghreifftiau ichi o'r hyn yr wyf yn ei olygu wrth y polisïau hyn: datblygu diwydiant ynni adnewyddol, prosiectau ynni bach yn y gymuned; datblygu twristiaeth werdd, prosiectau adfywio'r gymuned, cynlluniau sgiliau bod yn rhiant, cynlluniau compostio yn y gymuned, cynlluniau compostio gwastraff gwyrdd sydd yn defnyddio mwydod—mae'n ddrwg gennyf nad yw'r Prif Ysgrifennydd yma; ar ymweliad â Sir Drefaldwyn yr oedd yn rhyfeddu wrth weld sut y gellir defnyddio mwydod i gompostio gwastraff gwyrdd. Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae milltiyr oedd bwyd gan ddod â phrosesu a manwerthu yn ôl i'n cymunedau; hefyd helpu i gadw ein lladd-dai bach ac yn olaf—un o'm hoff brosiectau—yn rhoi llaeth am ddim i ysgolion i blant yng nghyfnod allweddol 1. Ie wir, mae llaeth ysgol yn bolisi datblygu cynaliadwy. Mae'r polisi'n croesi ffin iechyd. Bydd yn arbed £1 biliwn i'r gwasanaeth iechyd gwladol wrth ymladd yn erbyn pydredd dannedd a datblygu esgyrn cryfach—

Janet Ryder: Mick, you talked about the need to have truly cross-cutting aspects of sustainable development, but you did not mention bringing sustainable development into the way we plan our communities and our buildings and how we set out our infrastructure. Sustainable development must touch the social aspects of our development as well as the environmental. I am sure that you will address that later.

Janet Ryder: Mick, yr ydych wedi sôn bod angen agweddau gwir drawsbynciol ar ddatblygu cynaliadwy, ond nid ydych wedi sôn am ddatblygu cynaliadwy yn y ffordd yr ydym yn cynllunio ein cymunedau a'n hadeiladau a sut yr ydym yn pennu ein seilwaith. Rhaid i ddatblygu cynaliadwy gyffwrdd â'r agweddau cymdeithasol ar ein datblygiad yn ogystal â'r agweddau amgycheddol. Mae'n siŵr y gwnewch ymdrin â hynny yn nes ymlaen.

Mick Bates: I agree with you entirely, Janet. I intended to mention those points, although I might skip them because of the time.

Mick Bates: Yr wyf yn cydfynd â chi yn llwyr, Janet. Yr oeddwn yn bwriadu sôn am y pwyntiau hynny, ond efallai y byddaf yn eu hepgor oherwydd prinder amser.

To return to school milk: this is a battle against fizzy drinks and sticky sweets. It has an economic benefit; it will boost the sale of Welsh milk. It will help the returns of hard-pressed dairy farmers. It will bring Welsh milk into schools to be drunk by Welsh

I ddychwelyd at laeth ysgol: mae hon yn frwydr yn erbyn diodydd byrlymog a melysion. Bydd o fudd economaidd; bydd yn hybu gwerthiant llaeth Cymru. Bydd yn cynyddu enillion ffermwyr llaeth sydd mewn sefyllfa dynn. Bydd yn dod â llaeth Cymru i'r

children.

ysgolion er mwyn i blant Cymru ei yfed.

I know that there are many AMs who are deeply committed to sustainable development, and I thank those who supported the cross-party group that we started for sustainable energy. This has provided a forum for all sectors to meet and form partnerships. The process of forming partnerships is absolutely critical to this whole debate: a recent Joseph Rowntree study highlighted that real partnerships are the key to successful implementation. We heard earlier today that the Assembly needs to be a leader, and I hope that it will become a leader—locally, nationally and internationally. At a local government level, Agenda 21 will have the biggest impact; I draw your attention to amendment 7. I will outline the reasons why it is so critical to this debate.

Gwn fod llawer o Aelodau Cynulliad yn ymrwymedig iawn i ddatblygu cynaliadwy, a diolchaf i'r rhai sydd yn cefnogi'r grŵp trawsbleidiol ar ynni cynaliadwy a ddechreuwyd gennym. Mae hwn wedi rhoi fforwm i bob sector gyfarfod â'i gilydd a llunio partneriaethau. Mae'r broses o lunio partneriaethau yn gwbl hanfodol i'r holl ddadl hon; yn ôl adroddiad diweddar Joseph Rowntree, mae gwir bartneriaethau'n allweddol i weithredu'n llwyddiannus. Clywsom yn gynharach heddiw bod angen i'r Cynulliad fod yn arweinydd, a gobeithiaf y daw yn arweinydd—yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Ar lefel llywodraeth leol, Agenda 21 a gaiff yr effaith fwyaf; hoffwn dynnu eich sylw at welliant 7. Nodaf y rhesymau pam ei fod mor hanfodol i'r ddadl hon.

As stated in 'A Sustainable Wales—Learning to Live Differently', local government accounts for 47 per cent of public spending in Wales and must be a major component in our sustainable development policy. The local Agenda 21 initiative mentioned in the document is a major way of promoting and implementing sustainable development. Some local authorities have had great success in establishing an ethos of sustainability. The problem for us is that the draft proposal does not mention what role sustainable development could play in Best Value service provision. The current criteria for Best Value authorities on providing services relates to economy, efficiency and effectiveness, according to the Assembly's draft guidance on Best Value to local authorities in Wales. The draft guidance also states that Best Value is a duty to secure continuous improvement in how local authority services and functions are delivered and exercised and that it is not only about reviews, performance indicators and performance plans, but it is a fundamental cultural change, requiring new attitudes towards current and prospective service users and openness towards other organisations.

Fel y nodwyd yn 'Cymru gynaliadwy—Dysgu Byw'n Wahanol', mae llywodraeth leol yn cyfrif am 47 y cant o'r gwariant cyhoeddus yng Nghymru a rhaid iddi fod yn brif gydran yn ein polisi datblygu cynaliadwy. Mae'r fenter Agenda 21 leol a grybwyllwyd yn y ddogfen yn un o'r prif ffyrdd o hyrwyddo a gweithredu datblygu cynaliadwy. Mae rhai awdurdodau lleol wedi llwyddo'n eithriadol wrth sefydlu ethos o gynaliadwyedd. Y broblem inni yw nad yw'r cynnig drafft yn crybwyll pa rôl y gallai datblygu cynaliadwy ei chwarae wrth ddarparu gwasanaeth Gwerth Gorau. Mae'r meini prawf cyfredol i awdurdodau Gwerth Gorau ar ddarparu gwasanaethau yn ymwneud â darbodusrwydd, effeithiolrwydd ac effeithiolrwydd, yn ôl arweiniad drafft y Cynulliad ar Werth Gorau i'r awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r arweiniad drafft hefyd yn datgan mai dyletswydd i sicrhau gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff gwasanaethau a swyddogaethau awdurdodau lleol eu cyflawni a'u harfer yw Gwerth Gorau ac nid dim ond ymwneud ag arolygon, dangosyddion perfformiad a chynlluniau perfformiad, ond mae'n newid diwylliannol sylfaenol, sydd yn gofyn am agweddau newydd tuag at y defnyddwyr gwasanaethau presennol ac yn y dyfodol a bod yn agored tuag at sefydliadau eraill.

The Deputy Presiding Officer: Order.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi

Please wind up now.

gloi yn awr.

Mick Bates: Fundamentally, the White Paper 'Local Voices—Modernising Local Government in Wales', the precursor of the 1999 Act, emphasises that policymaking and service provision needs to be forward-looking and not reactive to short-term pressures. Best Value and sustainable development must work together to guarantee that services are provided not only for the needs of today's communities but also to ensure that future communities meet their needs.

Mick Bates: Mae'r Papur Gwyn 'Lleisiau Lleol—Moderneiddio Llywodraeth Leol yng Nghymru', a ragflaenodd Ddeddf 1999, yn y bôn, yn pwysleisio bod angen i'r broses llunio polisïau a darparu gwasanaethau edrych i'r dyfodol ac nid ymateb i bwysau tymor byr. Rhaid i Werth Gorau a datblygu cynaliadwy gydweithio er mwyn sicrhau y caiff gwasanaethau eu darparu nid yn unig ar gyfer anghenion cymunedau heddiw ond hefyd i sicrhau y caiff anghenion cymunedau yn y dyfodol eu diwallu.

I commend the other amendments and hope that we will work with public bodies, in particular the Welsh Development Agency, which I hope will eventually become the Welsh Sustainable Development Agency. We all share the responsibility to make our sustainable development scheme work. We are on the threshold of profound transformations—socially, culturally, economically and environmentally. When future generations look back, I hope that they will say that the Welsh Assembly was the leader of a process that has genuinely improved the quality of people's lives.

Argymhellaf y gwelliannau eraill gan obeithio y byddwn yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus, Awdurdod Datblygu Cymru yn arbennig, a fydd gobeithio yn dod yn Awdurdod Datblygu Cynaliadwy Cymru. Mae cyfrifoldeb arnom oll i sicrhau bod y cynllun datblygu cynaliadwy yn gweithio. Yr ydym ar drothwy trawsnewidiadau mawr—yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, yn economaidd ac yn amgylcheddol. Pan fydd cenedlaethau'r dyfodol yn edrych yn ôl, gobeithiaf y byddant yn dweud i'r Cynulliad Cenedlaethol fod yn arweinydd ar broses sydd yn wirioneddol wedi gwella ansawdd bywyd pobl.

Peter Rogers: I am also grateful for Christine Gwyther's work on the sustainable development programme. It was good to hear her firing on all cylinders in defence of her constituency earlier.

Peter Rogers: Yr wyf innau hefyd yn diolch i Christine Gwyther am ei gwaith ar y rhaglen datblygu cynaliadwy. Yr oedd yn dda ei chlywed yn llawn egni wrth amddiffyn ei hetholaeth yn gynharach.

The Brundtland definition of sustainable development in the United Nations report that was published in 1987 is:

Diffiniad Brundtland o ddatblygu cynaliadwy yn adroddiad y Cenhedloedd Unedig a gyhoeddwyd yn 1987 yw:

'development, which meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their needs.'

'datblygu, sydd yn diwallu'r anghenion presennol heb beryglu gallu'r cenedlaethau yn y dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwy.'

In 1992 the European Community produced the document entitled 'Towards Sustainability', which promoted environmental sensitivity in Government decisions. A UK sustainable development strategy was formulated by John Gummer in 1994 and was designed to examine the relationship between economic and environmental factors.

Yn 1992 cyhoeddodd y Gymuned Ewropeaidd ddogfen o'r enw 'Towards Sustainability', a oedd yn hyrwyddo sensitifrwydd amgylcheddol ym mhenderfyniadau Llywodraeth. Lluniwyd strategaeth datblygu cynaliadwy ar gyfer y DU gan John Gummer yn 1994 â'r nod o archwilio'r berthynas rhwng ffactorau eoncomaidd ac amgylcheddol.

In 1998, the Department for the Environment, Transport and the Regions reconsidered this strategy and decided that a social dimension should be included. The resulting document 'A Better Quality of Life—A Strategy for Sustainable Development in the UK' was published in 1999 and focused on investing more in people and equipment for a competitive economy; reducing the level of social exclusion; promoting a transport system which provides choice, minimised environmental impact and reduces congestion; improving large towns and cities and making them better places in which to live and work; directing development and promoting agricultural practices that protect and enhance the countryside and wildlife; improving energy efficiency and tackling waste and working with others to achieve those goals internationally.

Yn 1998, ailystyriwyd y strategaeth gan Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau a benderfynodd y dylid cynnnwys dimensiwn cymdeithasol. Cyhoeddwyd y ddogfen ddilynol 'A Better Quality of Life—A Strategy for Sustainable Development in the UK' yn 1999 gan ganolbwyntio ar fuddsoddi mwy mewn pobl a chyfarpar ar gyfer economi gystadleuol; gostwng lefel eithrio cymdeithasol; hyrwyddo system drafnidiaeth sydd yn rhoi dewisiadau, yn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd i'r eithaf a lleihau tagfeydd; gwella trefi mawr a dinasoedd a sicrhau eu bod yn well lleoedd i fyw a gweithio ynddynt; cyfeirio datblygiad a hyrwyddo arferion amaethyddol sydd yn diogelu ac yn gwella cefn gwlad a bywyd gwyllt; gwella effeithlonrwydd ynni a mynd i'r afael â gwastraff a gweithio gyda phobl eraill i gyflawni'r nodau yn rhyngwladol.

11:40 a.m.

The term 'sustainable development' is difficult to define. It is variously defined as a method by which we live off the interest of our planet without eroding the capital; a three-legged stool where the legs represent social, environmental and financial considerations; and a means of improving the quality of our lives instead of concentrating on the quantity that we produce.

Mae'r term 'datblygu cynaliadwy' yn anodd i'w ddiffinio. Gellir ei ddiffinio fel dull o fyw ar log ein planed heb wario'r cyfalaf; yn stôl deircoes lle mae'r coesau'n cynrychioli ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol; ac yn fodd o wella ansawdd ein bywyd yn hytrach na chanolbwyntio ar faint yr ydym yn ei gynhyrchu.

The definition to be adopted must be understood across society. Annex A, which lists the Assembly's principles for making the scheme, states that sustainable development should become part of the mainstream of the Assembly's work. That is vital if the scheme is to flourish across Wales. It is also important that the Assembly works with other bodies and is willing to accept proposals from them.

Rhaid bod y gymdeithas gyfan yn deall y diffiniad i'w fabwysiadu. Mae Atodiad A, sydd yn rhestru egwyddorion y Cynulliad ar lunio'r cynllun, yn datgan y dylai datblygu cynaliadwy fod yn rhan o brif ffrwd gwaith y Cynulliad. Mae hynny'n hanfodol er mwyn i'r cynllun ffynnu ledled Cymru. Mae'n bwysig hefyd bod y Cynulliad yn gweithio gyda chyrff eraill ac yn fodlon derbyn cynigion ganddynt.

The specific policy actions that have been proposed are to encourage more sustainable agriculture. It is also proposed to take forward and develop biodiversity action plans. As priorities for review of its existing policies and programmes, the Assembly must develop ways of assisting Welsh businesses to exploit the opportunities of emerging eco-friendly markets. It must also review Planning Guidance (Wales) for compliance with sustainability objectives.

Y gweithrediadau polisi penodol a gynigiwyd yw hyrwyddo amaethyddiaeth fwy cynaliadwy. Mae hefyd yn cynnig gweithredu datblygu cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth. Fel blaenoriaethau o ran adolygu ei bolisïau a'i raglenni presennol rhaid i'r Cynulliad ddatblygu ffyrdd o helpu busnesau yng Nghymru i fanteisio ar y cyfle o ran marchnadoedd eco-gyfeillgar sydd yn dod i'r amlwg. Rhaid hefyd iddo arolygu Canllawiau Cynllunio (Cymru) o ran

cydymffurfiad ag amcanion cynaliadwyedd.

The question that must be asked is what weight will be attached to whether a development is sustainable and, if not, will planning permission be denied. The Campaign for the Protection of Rural Wales states that central to the concept of sustainable development is a recognition that there are environmental limits to human activity and that geographical characteristics provide constraints and opportunities.

Y cwestiwn y mae'n rhaid ei ofyn yw pa mor bwysig fydd i ddatblygiad fod yn gynaliadwy ac, os nad ydyw, a gaiff ganiatâd cynllunio ei wrthod. Mae'r Ymgyrch dros Ddiogelu Cymru Wledig yn datgan mai rhan ganolog y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy yw'r gydnabyddiaeth bod terfynau amgylcheddol i weithgareddau dynol a bod nodweddion daearyddol yn cyfyngu ac yn rhoi cyfle.

CPRW goes on to say that the overall high environmental quality of the country should be viewed as its primary asset. The scheme should be developed within that context. Friends of the Earth Cymru believe that rapid deployment of on-shore and off-shore renewable energy schemes and energy efficiency measures should be a priority of Objective 1. The fast-flowing currents, shallow seas and high tidal ranges around Wales offer prime sites and viable opportunities for deploying tidal generators, marine current generators and off-shore wind farms. It is vital—

Mae Ymgyrch dros Ddiogelu Cymru Wledig yn mynd ymlaen i ddweud y dylid ystyried ansawdd uchel amgylchedd y wlad yn gyffredinol yn brif ased. Dylid datblygu'r cynllun o fewn y cyd-destun hwnnw. Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru o'r farn y dylai rhoi cynlluniau ynni adnewyddol mewndraeth ac alltraeth a mesurau effeithlonrwydd ynni ar waith yn fuan fod yn flaenoriaeth Amcan 1. Mae rhedlifau cyflym, moyr oedd bas ac ystod y penllanw ar hyd arfordir Cymru yn rhoi safleodd gwych a chyfleoedd ymarferol i ddefnyddio generaduron llanw, generaduron rhedlifa'r môr a ffermydd gwynt alltraeth. Mae'n holl bwysig—

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you wind up please?

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch chi gloi, os gwelwch yn dda?

Peter Rogers: It is vital that the indicators are developed so that we can track the success of sustainable development prosiects. One of the theories behind sustainable development is that gross domestic product is not an accurate measure of the quality of life.

Peter Rogers: Mae'n holl bwysig y caiff dangosyddion eu datblygu fel y gallwn fesur llwyddiant prosiectau datblygu cynaliadwy. Un o'r theorïau datblygu cynaliadwy yw nad yw cynnyrch mewnwladol crynswth yn fesur cywir o ansawdd bywyd.

This will require a major commitment of resource, time and training. I agree with one of the county councils that the challenge is to go beyond the rhetoric of sustainable development and to be able to communicate sustainable development in a way that people understand. That is the challenge.

Mae hyn yn gofyn am gryn ymrwymiad o ran adnoddau, amser a hyfforddiant. Cytunaf ag un o'r cynghorau sir mai'r her yw mynd y tu hwnt i rethreg datblygu cynaliadwy a gallu cyfleu datblygu cynaliadwy mewn ffordd y gall pobl ei ddeall. Dyna'r her.

The Deputy Presiding Officer: I remind Members that the Presiding Officer indicated on Tuesday that Members who are not proposing amendments and who are not members of the Cabinet are restricted to speaking for five minutes. I would be grateful if Members could stay within that timeframe,

Y Dirprwy Lywydd: Atgoffaf Aelodau i'r Llywydd nodi ddydd Mawrth na chaiff Aelodau nad ydynt yn cynnig gwelliannau nac yn aelod o'r Cabinet siarad am fwy na phum munud. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Aelodau gadw at y terfyn amser hwnnw, yn bennaf am na fydd angen imi alw

not least because I will not have to call Members to order, but particularly today because we are anticipating an update statement from Sue Essex on fuel after 12 p.m. I am sure that Members would like to allow sufficient time for that statement and questions on it.

ar yr Aelodau am drefn, ond yn arbennig heddiw am ein bod yn rhagweld y bydd Sue Essex yn rhoi datganiad ar y newyddion diweddaraf ar danwydd ar ôl 12. p.m. Yr wyf yn siŵr y byddai'r Aelodau am ganiatáu digon o amser i'r datganiad hwnnw a chwestiynau arno.

Delyth Evans: Siaradaf am dwf economaidd a sut y gallwn wneud i hynny gyd-fynd â'n rhwymedigaethau o ran datblygu cynaliadwy. Mae rhai o'r ymatebion i'r ymgynghori yn gwrthod y syniad hwnnw. Yr wyf wedi clywed Aelodau Plaid Cymru yn dweud, ac yr wyf yn siŵr bod pobl eraill y tu allan i'r Cynulliad yn meddwl, nad yw'r ddau beth yn gallu cyd-fynd â'i gilydd a bod yn rhaid rhoi un o flaen y llall. Mae hyn yn peri pryder i mi, oherwydd er mwyn inni gyflawni ein hymrwymiadau ym mhob maes o fewn y Cynulliad hwn, ym maes iechyd, datblygu ac ati, rhaid inni gynnal lefelau uchel o dwf economaidd. Felly, rhaid inni beidio â chreu problem lle nad oes rhaid i un fodoli. Y peth pwysig yw inni ddod o hyd i ffordd o ganolbwyntio ar dyfiant economaidd mewn ffordd sydd yn hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Delyth Evans: I will speak about economic growth and how we can make that go hand in hand with our commitments on sustainable development. Some of the responses to the consultation reject that idea. I have heard Plaid Cymru Members say, and I am sure that there are other people outside the Assembly who think that the two cannot go together and that we must put one before the other. This causes me concern, because in order to fulfil our comitments in every area within this Assembly, in the field of health, development and so on, we must sustain high levels of economic growth. Therefore, we must not create a problem where one needs not exist. The important thing is for us to find a way of focusing on economic growth in a way that promotes sustainable development.

Yr oeddwn yn falch o weld bod gwelliant 4 Rhodri Glyn Thomas yn tynnu sylw arbennig at yr agweddau hynny o'r economi sydd yn ffafriol i ddatblygu cynaliadwy. Cyfeiriaf at ddau sector arall fel enghreifftiau. Yn gyntaf, y sector technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, sydd yn agos at fy nghalon. Mae datblygiad yn y sector hwn yn ganolog i'n cyfoeth fel cenedl yn y dyfodol. Hoffwn weld buddsoddiad mawr yn y sector hwn ar lefel gyhoeddus a phreifat. Mae'r sector hwn yn cyd-fynd yn llwyr â datblygu cynaliadwy. Sector arall yw'r diwydiant pysgota, y bydd y Cynulliad yn gwneud ymgais arbennig i'w hyrwyddo, yn enwedig o safbwynt twristiaeth.

I was pleased to see that Rhodri Glyn Thomas's amendment 4 draws particular attention to those aspects of the economy that are favourable to sustainable development. I refer to two other sectors as examples. First, the information and communication technology sector, which is close to my heart. Development in this sector is central to our future wealth as a nation. I want to see major investment in this sector on both a public and private level. This sector is fully consistent with sustainable development. Another sector is the fishing industry, which the Assembly will attempt particularly to promote, especially in terms of tourism.

Mae'n glir y gall datblygu cynaliadwy gyd-fynd â thwf economaidd. Mae'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei ystyried o ddifrif. Fodd bynnag, y neges y dylem ei chyfleu i'r sector preifat yw nid ein bod yn ceisio creu problemau o ran datblygu cynaliadwy, ond ein bod am helpu'r sector i ddatblygu ei ddiwydiannau, beth bynnag ydynt, mewn ffordd sydd yn edrych i'r dyfodol ac sydd yn

It is clear that sustainable development can go hand in hand with economic growth. It is something that we must consider seriously. However, the message that we should convey to the private sector is not that we are trying to create problems in terms of sustainable development, but that we want to assist the sector to develop its industries, whatever they may be, in a way that looks to the future and

sicrhau cymunedau gwell, iachach a hapusach ar ein cyfer yn y dyfodol. Mae'r neges yr ydym yn ei rhoi o ran datblygu cynaliadwy yng nghyd-destun tyfiant economaidd yn bwysig iawn. Rhaid inni fod yn ofalus ynglŷn â sut yr ydym yn ystyried hynny.

secures better, healthier and happier communities for us in the future. The message that we give in terms of sustainable development in the context of economic growth is very important. We must be careful about how we consider that.

Cynog Dafis: Diolchaf i Delyth am ei chyfraniad. Yr wyf yn cyd-weld â hi, yng nghyd-destun Cymru ar hyn o bryd yn arbennig.

Cynog Dafis: I thank Delyth for her contribution. I agree with her, especially in the context of Wales at the moment.

Yr wyf am sôn yn fyr am welliannau 4 a 5 Rhodri Glyn Thomas. Hoffwn wneud hynny yng nghyd-destun digwyddiadau'r wythnos hon ynghylch y protestiadau ynglŷn â phris petrol. Nid oes amheuaeth mai ynni yw'r cwestiwn amgylcheddol pwysicaf. Mae'r ffordd yr ydym yn ei ddefnyddio ar hyn o bryd yn berygl difrifol i sefydlogrwydd yr hinsawdd, ac mae effeithiau llygreddol eraill yn codi o'r ffaith ein bod yn gorfod alldynnu, cludo, prosesu a llosgi tanwydd ffosil. Rhaid i ynni, felly, fod yn ganolog i'r strategaeth datblygu cynaliadwy ac i'n polisïau economaidd.

I want to briefly mention Rhodri Glyn Thomas's amendments 4 and 5. I wish to do so in the context of this week's events concerning the protests over petrol prices. There is no doubt that energy is the most important environmental question. The way we use it at the moment poses a serious danger to climate stability, and other polluting effects of pollution arise from the fact that we have to extract, transport, process and burn fossil fuel. Energy, therefore, must be central to the sustainable development strategy and to our economic policies.

Mae'r ymgynghori ar y cynllun drafft—cyfeiriaf at baragraff 222—yn mynegi'r pryder mawr yr oedd Delyth Evans yn sôn amdano, ynglŷn â chysoni twf economaidd â'r ymrwymiad cyfreithiol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy. Credaf y gall y gwrthdrawiad hwn fod yn un real. Mae'n berygl y bydd pobl yn defnyddio datblygu cynaliadwy a dadleuon amgylcheddol fel ffordd o rwystro datblygu cynaliadwy dro ar ôl tro. Dyna pam y mae gwelliant 4 mor bwysig. Mae'n delio â'r gwrthdrawiad drwy dargedu sectorau twf ym maes datblygu cynaliadwy. Dyna'r ffordd y mae mynd ati ac mae'n eu targedu yn gadarnhaol ac yn egnïol.

The consultation on the draft scheme—I refer to paragraph 222—expresses the great concern Delyth Evans mentioned about reconciling economic growth with the legal obligation to promote sustainable development. I believe that this can be a real conflict. There is a danger that people will use sustainable development and environmental arguments as a way of blocking sustainable development time after time. That is why amendment 4 is so important. It deals with the conflict by targeting growth sectors in the field of sustainable development. That is the way to proceed and it targets them positively and energetically.

Fodd bynnag, yr wyf pryderu nad hynny sydd yn digwydd ar hyn o bryd. Mae rhyw fath o gyfuniad o *nimby*-iaeth a chadwraeth gul yn faen tramgwydd ar hyn o bryd i lawer o ddatblygiadau, yn y maes ynni yn benodol. Hoffwn roi dwy enghraifft. Mae'r ffaith fod gennym wynt yn rhoi potensial mawr i ni yng Nghymru; mae gennym hedyn diwydiant. Gyda gwynt, wrth gwrs, nid oes unrhyw alldynnu, cludo, prosesu na llosgi. Beth sydd

However, I am afraid that that is not happening at the moment. There is some sort of combination of nimbyism and narrow conservation that is a stumbling block to many developments, especially in the field of energy. I will give two examples. The fact that we have wind in Wales gives us great potential; we have the makings of an industry. With wind, of course, there is no extraction, transportation, processing or

yn lanach na hynny? Mae hefyd yn adnawdd mawr: erbyn 2020 bydd Denmarc yn cynhyrchu 30 y cant o'i thrydan o wynt. Nid peth bach yw hynny, ac mae gennym lawer mwy o wynt yng Nghymru nag sydd ganddynt yn Nenmarc.

burning. What could be cleaner than that? It is also a great resource: by 2020 Denmark will produce 30 per cent of its electricity from wind. That is no small matter, and we in Wales have much more wind than they have in Denmark.

11:50 a.m.

Eto, mae hwn wedi mynd yn destun llosg ar sail effaith weledol, effaith ar y tirwedd, a pheth wmbredd o gamwybodaeth. Mae gwrthwynebiad wedi codi. Fodd bynnag, yn achos cynllun Pentrefoelas, cynllun National Wind Power, mae'r gefnogaeth leol wedi bod yn gryf. Mae'r pwyllgor cynllunio lleol wedi pasio'r cynllun drwy fwyafrif mawr. Mae pob cyngor cymuned yn yr ardal wedi cefnogi'r cynllun. Er gwaethaf hynny, mae Sue Essex wedi penderfynu galw'r cynllun i mewn ar sail cyngor Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar un ystyr, yr oedd yn rhaid iddi wneud hynny os datganasant y farn honno. Gwyddom fod gan y Cyngor Cefn Gwlad ragfarn gref yn erbyn ynni gwynt ar dir ac, i raddau helaeth, ar y môr hefyd, ar sail effaith weledol. Mae'n wir bod y cynllun hwnnw ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig—SoDdGA—ond 14 hectar yn unig sydd i'w colli o dan y cynllun mewn cannoedd lawer o hectarau sydd yn y SoDdGA hwnnw. Byddai National Wind Power yn y cynllun hwn yn cyfrannu'n sylweddol at gynllun i ddiogelu a rheoli'r SoDdGA, ac felly credaf y byddai'r amgylchedd ar ei ennill. Yn ogystal, byddai arian yn llifo i'r economi leol mewn ffyrdd eraill. Byddai contract pwysig—

Yet, this has become a controversial subject on the grounds of visual impact, impact on the landscape, and a huge amount of misinformation. Opposition has arisen. However, in the case of the Pentrefoelas scheme, the National Wind Power scheme, local support has been strong. The local planning committee has passed the scheme by a large majority. Every community council in the area has supported the scheme. Despite that, Sue Essex has decided to call in the scheme on the basis of the advice of the Countryside Council for Wales and the Environment Agency. In one sense, she had to do that if they had declared that opinion. We know that the Countryside Council has a strong prejudice against wind power on land, and to a large degree on sea also, on the grounds of visual impact. It is true that that this scheme is on a site of special scientific interest—an SSSI—but only 14 hectares are to be lost under this scheme in the many hundreds of hectares in that SSSI. In this scheme National Wind Power would make a substantial contribution to a scheme to protect and manage the SSSI, and so I believe that the environment would benefit. In addition, money would flow into the local economy in other ways. An important contract—

Peter Rogers: Do you agree that not only that loss, but also the loss to the engineering company that is manufacturing these power plants, could put jobs in north Wales at risk?

Peter Rogers: A ydych yn cytuno y gallai nid yn unig y golled honno, ond hefyd y golled i'r cwmni peirianyddol sydd yn cynhyrchu'r gweithfannau pŵer hyn roi swyddi yng ngogledd Cymru yn y fantol?

Cynog Dafis: Cytunaf yn llwyr. Yr oeddwn yn mynd i sôn am Cambrian Engineering, cwmni gwerthfawr sydd yn datblygu yn y sector hwn, sydd mewn perygl oherwydd yr agwedd tuag at ddatblygiadau o'r math hwn.

Cynog Dafis: I agree entirely. I was going to talk about Cambrian Engineering, a valuable company that is developing in this sector, and which is at threat because of the attitude towards this kind of development.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gwrthwynebu hefyd ar sail tirwedd. Dyma faes lle nad oes ganddynt ddim arbenigedd a

The Environment Agency has also opposed on the grounds of landscape. This is a field in which they have no expertise and I am

synnaf iddynt gyfeirio at hynny o gwbl. Mae cwmni lleol o'r enw Gwynt Teg—ffermwyr lleol sydd yn ceisio arallgyfeirio—sydd hefyd yn mynd i gael eu siomi gan y penderfyniad hwn. Mae'n fater difrifol.

surprised that they referred to it at all. There is a local firm called Gwynt Teg—local farmers who are trying to diversify—which is also going to be disappointed by this decision. It is a serious issue.

Yr ail enghraifft yw'r Bontnewydd ar Wy, Sir Faesyfed, lle mae cwmni lleol, BSW, am greu melin lifio newydd ar sail yr un bresennol. Byddai hynny yn cynnwys pwerdy bio-ynni a fyddai'n cynhyrchu trydan a gwres, yn rhannol i'r felin lifio ond hefyd i'r ardal o'i hamgylch. Os na fydd y cais hwnnw'n llwyddo, mae perygl mawr y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei gau. Byddai colli'r datblygiad yn golygu colli tua 450 o swyddi mewn ardal wledig lle mae mawr eu hangen. Yn fwy na hynny, byddai colli'r cyfle hwnnw, yn golygu colli'r cyfle i roi cychwyn i ddiwydiant newydd â photensial mawr i greu swyddi, gan gynnwys swyddi ar ffermydd trwy dyfu cnwd newydd, helyg ar gylchdro byr, sydd yn gnwd proffidiol iawn. Eto cafwyd gwrthwynebiad gan y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd—

The second example is Newbridge on Wye, Radnorshire, where a local company, BSW, wants to establish a new sawmill based on the site of the present one. That would include a bio-energy power station, which would generate electricity and heat, partially for the sawmill but also for its surrounding area. If that application does not succeed, there is a great danger that those works will be closed. Losing the development would mean losing about 450 jobs in a rural area where they are greatly needed. More than that, losing that opportunity would mean losing the chance to give a kick-start to a new industry which has a great potential to create jobs, including jobs on farms by growing a new crop, willow on short rotation coppacing, which is a very profitable crop. Again, objections were received from the Countryside Council and the Environment Agency—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A wnewch ddod i ben, Cynog?

The Deputy Presiding Officer: Order. Will you draw to a close, Cynog?

Cynog Dafis: Crynhoaf drwy wneud dau argymhelliad i Carwyn Jones, Sue Essex a'r Ysgrifennydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu economaidd yn arbennig. Yn gyntaf, mae'n bryd iddynt fynd i siarad â'r cyrff ymgynghorol hyn am eu blaenoriaethau.

Cynog Dafis: I shall summarise by making two recommendations to Carwyn Jones, Sue Essex and to the Secretary with responsibility for economic development in particular. First, it is time that they went to speak with these consultative bodies about their priorities.

Yn ail, yn ein cynllun datblygu cynaliadwy mae eisiau i ni bennu hierarchiaeth o ystyriaethau amgylcheddol ar sail y blaenoriaethau pwysig o ran dyfodol y blaned. Dyma'r ystyriaethau: un, diogelu'r hinsawdd; dau, diogelu bioamrywiaeth; tri, defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol—â phwyslais ar yr adnewyddadwy; pedwar, osgoi allyriadau ac allyrru llygredd gwenwynig. Mewn unrhyw hierarchiaeth felly, byddai'r math o wrthwynebiadau a ddaw o'r Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn isel iawn. Rhaid i ni ymdrin â hyn—

Secondly, in our sustainable development scheme we need to put in place a hierarchy of environmental considerations based on the important priorities as regards the future of the planet. Here are the considerations: one, safeguard the climate; two, safeguard biodiversity; three, the sustainable development of natural resources—with the emphasis on the renewable; four, avoid emissions and the emission of toxic pollutants. In such a hierarchy, the kinds of objections that come from the Countryside Council and the Environment Agency would be very low. We must deal with this—

The Deputy Presiding Officer: Cynog, your time is up. I call Christine Humphreys.

Y Dirprwy Lywydd: Cynog, mae eich amser ar ben. Galwaf ar Christine Humphreys.

Christine Humphreys: The events of the last week have shown how essentially we need the document called 'Sustainable Wales—Learning to Live Differently'. This week we have learned that we do have the wits to live differently.

Christine Humphreys: Dengys digwyddiadau'r wythnos ddiwethaf pa mor angenrheidiol yw'r ddogfen 'Cymru Gynaliadwy—Dysgu Byw'n Annibynnol' inni. Yr ydym wedi dysgu yr wythnos hon ein bod yn gallu byw'n wahanol.

First I will deal with our amendments. There might be some confusion about some of them, so an explanation is needed. Carwyn has already supported amendment 7. We are not saying that Carwyn would not make a marvellous champion for sustainable development, but amendment 7 seeks to put responsibility on the whole Assembly for sustainable development and not on one particular person. There is some confusion about amendment 9. Carwyn feels that it might delay the whole document. That is not our intention. The amendment seeks to put responsibility on the Committees to look at their own programmes. If Carwyn accepts that comments from Committees would be suitable, rather than for them to be part of the whole consultation process, we will accept that. The amendment seeks to put responsibility on Committees for their sustainable development obligation.

Yn gyntaf, ymdriniaf â'n gwelliannau. Efallai bod peth dryswch ynglŷn â rhai ohonynt, felly mae angen eglurhad. Mae Carwyn eisoes wedi cefnogi gwelliant 7. Nid ydym yn dweud na fyddai Carwyn yn amddiffynnydd gwych ar gyfer datblygu cynaliadwy, ond nod gwelliant 7 yw sicrhau bod y Cynulliad cyfan yn gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy ac nid unigolyn penodol. Mae peth dryswch ynglŷn â gwelliant 9. Mae Carwyn o'r farn y byddai'n gohirio'r ddogfen gyfan o bosibl. Nid dyna yw ein bwriad. Nod y gwelliant yw sicrhau y bydd y Pwyllgorau yn gyfrifol am eu rhaglenni eu hunain. Os byddai Carwyn yn derbyn y byddai'n briodol cael sylwadau gan y Pwyllgorau yn hytrach na'u bod yn cymryd rhan yn y broses ymgynghori gyfan, derbyniwn hynny. Nod y gwelliant yw sicrhau y bydd y Pwyllgorau yn gyfrifol am eu dyletswydd datblygu cynaliadwy ei hun.

We would be willing to include the word 'stakeholders' with 'experts' in amendment 10, although I am concerned about changing an amendment. However, stakeholders may be included with experts. A panel of experts and stakeholders is needed to advise the Committee. This panel is essential because there are some issues with which we cannot deal. One of the things that the panel could look at is changes in the UK attitude towards sustainability. We only have a remit for Wales, not for the UK. There are matters that could have an impact on Wales and how we need to develop our ideas and get the UK Government to change its mind on things such as building regulations, which need higher standards of energy saving. A panel also needs to look at how we can influence the UK Government to change its attitude to tax incentives. Tax incentives need to be given to encourage planting biomass, for example.

Byddwn yn fodlon cynnwys y gair 'buddianwyr' ynghyd ag 'arbenigwyr' yng ngwelliant 10, er fy mod yn pryderu braidd ynglŷn â newid gwelliant. Fodd bynnag, caiff buddianwyr eu cynnwys ynghyd â'r arbenigwyr. Mae angen panel o arbenigwyr a buddianwyr i gynghori'r Pwyllgor. Bydd y panel hwn yn hanfodol gan fod yna rai materion na allwn ymdrin â hwy. Un o'r pethau y gallai'r panel ei ystyried yw newidiadau mewn agwedd tuag at ddatblygu cynaliadwy yn y DU. Cymru yn unig yw ein cylch gorchwyl, ac nid y DU. Mae yna faterion a all effeithio ar Gymru a sut y mae angen inni ddatblygu ein syniadau a sicrhau bod Llywodraeth y DU yn newid ei barn ar bethau megis rheoliadau adeiladu, sydd angen safonau arbed ynni uwch. Mae angen i banel ystyried hefyd sut y gallwn ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i newid ei hagwedd tuag at gymhellion treth. Mae angen i gymhellion treth gael eu rhoi er mwyn annog plannu biofas, er enghraifft.

Amendment 11 is important. The issue has

Mae gwelliant 11 yn bwysig. Trafodwyd y

been discussed in the past. However, we are asking the Executive to investigate the feasibility of a sustainable development committee. If Carwyn does not want a committee, but there is another option, we would be willing to look at that. We are asking him to investigate the possibility. Carwyn has said that as an Assembly we cannot pay lip service to sustainable development and then forget about it. That is a danger if we leave the responsibility for sustainable development within each Committee to that particular Committee, which might be focused on its main remit and not on sustainable development. I do not accept Carwyn's comment about ghettoising sustainable development by creating a cross-cutting committee. We would ensure that the issues are always raised

mater yn y gorffennol. Fodd bynnag, yr ydym yn gofyn i'r Weithrediaeth ymchwilio pa mor ymarferol fyddai pwyllgor datblygu cynaliadwy. Os nad yw Carwyn am gael pwyllgor, ond bod yna opsiwn arall, byddwn yn fodlon ystyried hynny. Yr ydym yn gofyn iddo ymchwilio i'r posibilrwydd. Mae Carwyn wedi dweud nad ydym fel Cynulliad ond yn mynegi geiriau teg am ddatblygu cynaliadwy ac yn anghofio amdano. Yr ydym mewn perygl o wneud hynny os gadawn i bob Pwyllgor fod yn gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy o fewn y Pwyllgor hwnnw, a allai ganolbwyntio ar brif gylch gorchwyl yn hytrach na datblygu cynaliadwy. Ni dderbyniaf sylw Carwyn am ynysu datblygu cynaliadwy drwy sefydlu pwyllgor trawsbynciol. Byddwn yn sicrhau bod y materion hyn yn cael eu codi bob amser.

My final plea is for the Deputy Presiding Officer to give some guidance to Members. I appreciate what Cynog said about the Pentrefoelas wind farm. However, I am concerned, as a member of the planning decision panel, that other Members do not try to influence the decision of the panel. As a member of that panel, I am more sensitive to the implications of what Cynog said. I would appreciate some guidance in case that could be construed as trying to influence members on a panel when they were dealing with an application that has been called in.

Yn olaf apeliaf ar y Dirprwy Lywydd i roi arweiniad i'r Aelodau. Gwerthfawrogaf yr hyn a ddywedodd Cynog ynglŷn â fferm wynt Pentrefoelas. Fodd bynnag, yr wyf yn pryderu fel aelod o'r panel gwneud penderfyniadau, bod Aelodau eraill yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad y panel. Fel aelod o'r panel hwnnw, yr wyf yn fwy sensitif i oblygiadau'r hyn a ddywedodd Cynog. Byddwn yn gwerthfawrogi arweiniad rhag ofn y gellir dehongli bod rhywun yn ceisio dylanwadu ar aelodau panel pan fyddant yn ymdrin â chais a alwyd i mewn.

12:00 p.m.

The Deputy Presiding Officer: I am happy to consider your request and, if appropriate, I will write to all Members in response to that.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf yn fodlon ystyried eich cais a, lle bo'n briodol, ysgrifennu at bob Aelod mewn ymateb i hynny.

Christine Gwyther: In the spirit of inclusivity and in recognition of Alun Cairns's spirited and totally non-cynical defence of Richard Edwards earlier, I have decided to go that extra mile and support Rhodri Glyn Thomas's amendment 5. Rhodri asks for the scheme to reflect how development in Wales might contribute to global sustainability. We have gone very far with our remit and with the scheme. The administration has ensured that we have a voice in UK sustainable development circles. In the future, I am sure that we will have to

Christine Gwyther: Mewn ysbryd o gynwysoldeb a chan gydnabod amddiffyniad brwdfrydig a chwbl ddiffuant Alun Cairns o Richard Edwards yn gynharach, penderfynais wneud yr ymdrech i gefnogi gwelliant 5 Rhodri Glyn Thomas. Mae Rhodri yn gofyn i'r cynllun adlewyrchu sut y gallai datblygu yng Nghymru gyfrannu at gynaliadwyedd bydeang. Yr ydym wedi gwneud cryn dipyn o ran ein cylch gorchwyl a'r cynllun. Mae'r weinyddiaeth wedi sicrhau bod gennym lais ym myd datblygu cynaliadwy'r DU. Yr wyf yn siŵr y bydd yn rhaid inni frwydro yn y

battle to ensure that we retain that voice. I know that we will do so.

dyfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cadw'r llais hwnnw. Gwn y byddwn yn gwneud hyn.

However, we must look further. Our commitment to sustainability is probably not unique in Europe, but, as Carwyn said, our remit is. We must use that to our advantage and ensure that other people recognise that. I ask Carwyn to work with the Wales European Centre in Brussels to promote our scheme in the European institutions, particularly given that the European Parliament will begin a review of its own environmental policy soon. We must ensure that our voice is heard.

Fodd bynnag, rhaid inni edrych ymhellach. Mae'n debyg nad yw ein hymrwymiad i gynaliadwyedd yn unigryw yn Ewrop, ond fel y dywed Carwyn, mae ein cylch gorchwyl yn un unigryw. Rhaid inni fanteisio ar hynny a sicrhau bod pobl eraill yn cydnabod hynny. Gofynnaf i Carwyn weithio gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru ym Mrwsel er mwyn hyrwyddo ein cynllun yn sefydliadau Ewrop, yn enwedig o gofio y bydd y Senedd Ewropeaidd yn dechrau bwrw golwg dros ei pholisi amgylcheddol ei hun cyn bo hir. Rhaid inni sicrhau ei bod yn gwrando arnom.

We have much to be proud of, not only in our scheme and our commitments, but in other matters that we have discussed during the last year. One of those is the promotion, where possible, of a GM free Wales. That is proving a long and tough task to achieve. Every influence that can be exercised must be exercised, especially, in the light of our international environment obligations, in Europe. Therefore, in addition to learning to live differently, we must learn to lobby differently. Our scheme should be used as a tool, not only in Wales for our own purposes, but in the United Kingdom, Europe and the world.

Mae gennym lawer y gallwn ymfalchio ynddo, nid yn unig yn ein cynllun a'n hymrwymiadau, ond o ran y materion eraill a drafodwyd gennym y llynedd. Un o'r materion hyn yw hyrwyddo, lle bo'n bosibl, Gymru sydd yn rhydd o GM. Dengys i honno fod yn dasg hirfaith ac anodd i'w chyflawni. Rhaid defnyddio pob dylanwad posibl, yn enwedig, yng ngoleuni ein rhwymedigaethau amgylcheddol rhyngwladol, yn Ewrop. Felly, yn ogystal â dysgu byw'n wahanol, rhaid inni ddysgu lobïo'n wahanol. Dylid defnyddio ein cynllun fel arfer, nid yn unig yng Nghymru at ein dibenion ein hunain, ond yn y Deyrnas Unedig, Ewrop a'r byd.

Phil Williams: I am concerned that the term 'sustainable development' is used in at least four separate ways, covering continual economic growth, long-term economic stability, the permanence of communities and environmental sustainability. It is a challenge to the Assembly to pursue all of those aspects, where they are compatible. However, you will remember how I applauded the honesty of the Objective 2 single programming document, which pointed out that general economic growth can have negative environmental consequences. Fortunately, there are several major economic developments, such as renewable energy, information technology, integrated passenger transport and waste recycling, that support environmental sustainability. That is why those are so important in our economic strategy. However, I stress that where there is a clash, environmental sustainability and, above all, global sustainability, must have

Phil Williams: Yr wyf yn pryderu ynghylch y ffaith y defnyddir y term 'datblygu cynaliadwy' mewn pedair ffordd wahanol, gan gwmpasu twf economaidd parhaus, sefydlogrwydd economaidd tymor hir, parhad cymunedau a datblygu cynaliadwy. Mae'n her i'r Cynulliad ddilyn pob un o'r agweddau hyn, lle y maent yn gydnaws â'i gilydd. Fodd bynnag, fe gofiwch imi gymeradwyo gonestrwydd dogfen raglenni sengl Amcan 2, a nododd y gall twf economaidd cyffredinol gael effaith negyddol ar yr amgylchedd. Yn ffodus, mae sawl datblygiad economaidd o bwys, fel ynni adnewyddol, technoleg gwybodaeth, cludiant teithwyr integredig ac ailgylchu gwastraff, sydd yn ategu cynaliadwyedd amgylcheddol. Dyna pam y mae'r rhain mor bwysig yn ein strategaeth economaidd. Fodd bynnag, pwysleisiaf fod yn rhaid i gynaliadwyedd amgylcheddol a chynaliadwyedd bydeang, yn anad dim, gael blaenoraeth lle y bo gwrthdaro.

priority.

Some of you will remember that in the debate on climate change, I warned that for climate scientists, one of the most significant danger signs would be the disappearance of the North Polar ice cap. I assumed that that might begin in 10 years' time. You will understand my deep depression, as an atmospheric scientist, at the news that this summer, a large area of clear water appeared at the North Pole. A few weeks later, it was reported that, despite the Montreal protocol, the polar ozone hole was the largest ever recorded. I must convey the feelings of many of my colleagues in atmospheric science that time is running out. However, as an Assembly, we cannot give in to despair. In implementing the policies of environmental sustainability, there are two challenges that we must face. First, we must find the right balance between what we can achieve in Wales and what is achieved worldwide. I accept that there is no point in making huge efforts in Wales if there is no correspondent improvement worldwide, especially throughout Europe and the USA. At the same time, we cannot add to the necessary and increasing international pressure to make countries like the USA conform if we have not set an example. Fuel tax is a classic example. The introduction of the fuel escalator by the Conservative Government was a commendable step. However, we must realise that if the UK alone follows such a policy the global problem will not be solved. As a consequence of the present crisis, I would hope that the UK would use the moral lead it has established to ensure a common scheme throughout the UK. To make any steps for climate control acceptable to the public there must be a recognition of equal terms and a level playing field.

Bydd rhai ohonoch yn cofio imi rybuddio yn y ddadl ar newidiadau hinsoddol bod gwyddonwyr ar yr hinsawdd o'r farn mai un o'r arwyddion pwysicaf o berygl fyddai toddi capan rhew Pegwn y Gogledd. Rhagdybais y gallai hynny ddigwydd ymhen 10 mlynedd. Byddwch yn deall pam yr wyf yn digalonni, fel gwyddonydd ar yr atmosffer, o glywed y newyddion yn ystod yr haf eleni, bod darn mawr o ddŵr wedi ymddangos ym Mhegwn y Gogledd. Ychydig wythnosau wedyn, nodwyd bod twll osôn y pegwn yn fwy nag erioed yn ôl y cofnodion er gwaethaf protocol Montreal. Rhaid imi fynegi teimladau llawer o'm cyd-wyddonwyr ym maes gwyddoniaeth yr atmosffer bod amser yn mynd yn brin. Fodd bynnag, fel Cynulliad, ni allwn ddigalonni. Wrth weithredu polisïau cynaliadwyedd amgylcheddol, mae yna ddwy sialens y mae'n rhaid inni eu hwynebu. Yn gyntaf, rhaid inni gael y cydbwysedd iawn rhwng yr hyn y gallwn ei gyflawni yng Nghymru a'r hyn a gyflawnir ledled y byd. Derbyniaf nad oes pwynt gwneud ymdrech enfawr yng Nghymru os nad oes gwelliant cyfatebol ledled y byd, yn enwedig yn Ewrop ac UDA. Ar yr un pryd, ni allwn gyfrannu at y pwysau rhyngwladol cynyddol, angenrheidiol i sicrhau y bydd gwledydd fel UDA yn cydymffurfio os nad ydym wedi gosod esiampl. Mae'r dreth ar danwydd yn enghraifft wych. Yr oedd cyflwyno esgynnydd tanwydd gan y Llywodraeth Geidwadol yn gam i'w ganmol. Fodd bynnag, rhaid inni sylweddol os mai'r DU yn unig sydd yn dilyn y polisi hwnnw ni ellir datrys y broblem ledled y byd. O ganlyniad i'r argyfwng presennol, gobeithiaf y bydd y DU yn defnyddio'r esiampl foesol a roddwyd ganddi i sicrhau y bydd cynllun cyffredin trwy gydol y DU. Er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau tuag at reoli'r hinsawdd yn dderbyniol i'r cyhoedd rhaid bod yna gydnabyddiaeth o amodau cyfartal a chwarae teg.

That leads me to my final point about which I feel deeply as a committed 'green'. Our policies are only sincere if we gain public acceptance. The steps that we must take to preserve our global environment must be acceptable to the majority of our people and they must understand that they are in all our

Mae hynny'n fy arwain at fy mhwynt olaf yr wyf yn teimlo'n gryf yn ei gylch fel un sydd ym ymrwymedig i'r mudiad 'gwyrdd'. Ni fydd ein polisïau yn rhai diffuant oni fyddwn yn darbwyllo'r cyhoedd. Rhaid i'r camau y mae angen inni eu cymryd i gadw ein hamgylchedd bydeang fod yn dderbyniol i

interests and in the interests of our children and grandchildren. One unacceptable feature of the fuel price crisis was the very large, sudden and unanticipated hike in fuel prices. That is why we have urged the Government to use fuel tax to modulate the increase, so that it is a long-term process, which is co-ordinated with other countries.

drwch y bobl ac mae rhaid iddynt ddeall bod y polisïau er budd pob un ohonom ac er budd ein plant a'u plant hwy. Un o'r nodweddion annerbyniol o'r argyfwng pris tanwydd oedd y codiad sydyn mawr iawn nas ragwelwyd ym mhrisiau tanwydd. Dyna pam ein bod wedi annog y Llywodraeth i ddefnyddio'r dreth ar danwydd i gyfaddasu'r cynnnydd, fel y bo'n broses tymor hir, sydd wedi ei chydlynu gyda gwledydd eraill.

To conclude, I return to my earlier point. We face a virtuous situation in Wales in the expansion of all forms of renewable energy, the provision and use of broadband communication in all communities in Wales and the commitment to a substantial increase in waste recycling far better than the targets set in the WLGA document. All these would provide long-term new employment, sustain communities and improve the quality of our life. We have a virtuous opportunity. Let us seize it.

I gloi, dychwelaf at fy mhwynt cynharach. Yr ydym yn wynebu sefyllfa dda yng Nghymru o ran ehangu pob math o ynni adnewyddol, darparu a defnyddio cyfathrebu band eang ymhob cymuned yng Nghymru a'r ymrwymiad i gynnydd sylweddol ym maint y gwastraff a ailgylchir sydd yn llawer uwch na'r targedau a bennwyd yn nogfen y WLGA. Byddai'r rhain i gyd yn darparu cyflogaeth newydd tymor hir, cynnal cymunedau a gwella ansawdd ein bywyd. Mae gennym gyfle da. Gadwch inni fachu ar y cyfle hwnnw.

Lorraine Barrett: One of the most important aspects of sustainable development is how such decisions impact on children particularly in regard to road safety and the environment in which children live, play and learn. Children need open spaces in which to play and we need to keep that in mind when planning housing estates, for instance. We also need to protect the open spaces that we already have in our parks and schools. As for road safety, it is the responsibility of local authorities to draw up local transport plans and it is disappointing that, despite the guidance set out by the Assembly to recognise the importance of considering how these local transport plans impact on children, hardly any of those plans mentioned children and young people. These local transport plans should have included the importance of safe routes to schools and cycle paths, for example. According to the information that I have been given, that has not happened and that is disappointing. I ask, therefore, that consideration be given to attaching child impact statements to the funding decisions on local transport plans to ensure that we do all that we can to provide our children with the safest environment possible in which they can grow and develop into healthy adults.

Lorraine Barrett: Un o'r agweddau pwysicaf ar ddatblygu cynaliadwy yw sut y mae penderfyniadau o'r fath yn effeithio ar blant yn arbennig o ran diogelwch ar y ffordd a'r amgylchedd y mae plant yn byw, chwarae a dysgu ynddo. Mae angen lleoedd agored ar blant lle y gallant chwarae ac mae angen inni gadw hynny mewn cof pan fyddwn yn cynllunio ystadau tai, er enghraifft. Mae angen hefyd inni ddiogelu'r lleoedd agored sydd gennym eisoes yn ein parciau a'n hysgolion. O ran diogelwch ar y ffordd, yr awdurdodau lleol sydd yn gyfrifol am lunio cynlluniau trafnidiaeth lleol ac mae'n siomedig nodi bod prin un o'r cynlluniau hyn yn cyfeirio at blant a phobl ifanc er gwaethaf yr arweiniad a roddwyd gan y Cynulliad ar gydnabod pa mor bwysig ydyw i ystyried sut y gall y cynlluniau trafnidiaeth lleol hyn effeithio ar blant. Dylai'r cynlluniau trafnidaeth lleol hyn fod wedi cynnwys pa mor bwysig y mae llwybrau diogel i'r ysgolion a llwybrau sieclo, er enghraifft. Yn ôl y wybodaeth a gefais i, nid yw hynny wedi digwydd ac mae hynny'n siomedig. Gofynnaf, felly, i ystyriaeth gael i rhoi i gysylltu datganiadau effaith ar blant i benderfyniadau ariannu ar gynlluniau trafnidiaeth lleol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y cwbl a allwn i roi'r amgylchedd

mwyaf diogel posibl i'n plant lle y gallant dyfu a datblygu'n oedolion iach.

Carwyn Jones: Even with 11 amendments, the debate has been shorter than I expected.

Carwyn Jones: Hyd yn oed ar ôl 11 gwelliant, mae'r ddadl hon wedi bod yn fyrrach nag yr oeddwn yn ei ddisgwyl.

Dechreuaf gyda'r hyn a ddywedodd Rhodri Glyn Thomas. Chwarddais pan ddywedodd fod gennyf fantais annheg fel cyn fargyfreithiwr. Daw hynny gan bregethwr sydd yn gyfarwydd iawn â siarad yn gyhoeddus. Dywedodd ar un llaw fy mod wedi dweud—

I will begin with what Rhodri Glyn Thomas said. I laughed when he said that I had an unfair advantage as a former barrister. That comes from a preacher who is very familiar with speaking in public. On the one hand, he said that I had said—

Pauline Jarman: I call on your other qualities, apart from those of a barrister, and ask you in what context the word 'development' is being used today. Is it specific in its meaning? Would 'improvement' be a definition with which you would feel comfortable? There have been examples of the use of different meanings of the word today: the Assembly's development, the development of policy and the sustainable development unit. I would not want 'development' to be misunderstood as being about buildings.

Pauline Jarman: Galwaf ar eich rhinweddau eraill, ar wahân i'ch rhinweddau fel bargyfreithiwr, a gofyn ichi egluro ym mha gyd-destun y defnyddir y gair 'datblygu' heddiw. A oes ystyr benodol iddo? A fyddai 'gwelliant' yn ddiffiniad y byddech yn fodlon arno? Cafwyd enghreifftiau o ddefnyddio'r gair mewn sawl gwahanol ystyr heddiw: datblygiad y Cynulliad, datblygu polisi a'r uned datblygu cynaliadwy. Ni fyddwn am i'r gair 'datblygu' gael ei gamddehongli fel rhywbeth sydd yn ymwneud ag adeiladau.

12:10 p.m.

Carwyn Jones: That is right, Pauline. You cannot divorce the word 'development' from the word 'sustainable'. The two must be taken together. We must understand that we are custodians rather than pillagers of the planet. Sustainable development is a wide concept, which encompasses the whole framework of economic and social activity in Wales, not just the environment, buildings and housing. Therefore, I reject a narrow definition of the word 'development'.

Carwyn Jones: Yr ydych yn iawn, Pauline. Ni ellir gwahanu'r gair 'datblygu' oddi wrth y gair 'cynaliadwy'. Rhaid ystyried y ddau gyda'i gilydd. Rhaid inni ddeall mai gwarcheidwaid y blaned ydym ac nid ysbeilwyr. Mae datblygu cynaliadwy yn gysyniad eang, sydd yn cwmpasu'r holl fframwaith o weithgareddau economaidd a chymdeithasol yng Nghymru, ac nid yr amgylchedd, adeiladau a thai yn unig. Felly gwrthodaf ddiffiniad caeth o'r gair 'datblygu'.

I return to what Rhodri Glyn said. On the one hand, he said that I had suggested that sustainable development was additional to the 'Betterwales.com' plan. On the other hand, he then agreed with me when I said that it was central to it, which seems to be a contradiction. Nevertheless, I will seek to address the points that he made. I do not believe that there is a contradiction at this stage. Any work carried out to revise both schemes at this stage would be superfluous

Dychwelaf at yr hyn a ddywedodd Rhodri Glyn. Ar y naill law, dywedodd imi awgrymu bod datblygu cynaliadwy yn ychwanegol at gynllun 'Gwellcymru.com'. Ar y llaw arall, cytunodd â mi wedyn pan ddywedais ei fod yn ganolog iddo, sydd yn ymddangos yn wrthddywediad. Eto i gyd, ceisiaf ymdrin â'r pwyntiau a wnaeth. Ni chredaf fod gwrthddweud ar hyn o bryd. Byddai unrhyw waith i ddiwygio'r ddau gynllun ar hyn o bryd yn ddiangen a heb fod yn gydnaws â

and not in keeping with the concept of sustainable development, because of the amount of paper that would be generated. If there are difficulties in the future, we can consider them then. However, at this stage I do not believe that it is necessary to do so.

chysyniad datblygu cynaliadwy, oherwydd maint y papur a gai ei gynhyrchu. Os bydd anawsterau yn y dyfodol, gallwn eu hystyried bryd hynny. Fodd bynnag, ar hyn o bryd ni chredaf fod angen gwneud hynny.

Rhodri Glyn Thomas: Dywedais fod ‘Gwellcymru.com’ yn cwmpasu dyheadau’r Cynulliad ar gyfer y pump i 10 mlynedd nesaf. Os nad yw hynny hefyd yn cael ei fwydo i mewn i’n dyheadau ar gyfer datblygu cynaliadwy, a bod y ddwy agwedd ar wahân, nid yw hynny’n gynaliadwy. Rhaid i ddatblygu cynaliadwy fod yn greiddiol. Felly, rhaid ailedrych ar y berthynas rhwng y dogfennau hyn. Dywedais fod hynny’n anghyson â’r hyn a ddywedasoch ar y dechrau wrth sôn am y cyfle sydd gan Gymru i arwain ar y mater hwn. Os ydych am gyflawni hynny, rhaid ichi osod datblygu cynaliadwy yn y canol ac ailedrych ar y berthynas rhwng y dogfennau hyn.

Rhodri Glyn Thomas: I said that ‘Betterwales.com encompasses the aspirations of this Assembly for the next five to 10 years. If that is not also fed into our aspirations for sustainable development, and if the two aspects are separated, that is not sustainable. Sustainable development must be central. Therefore, we must look again at the relationship between these documents. I said that that was inconsistent with what you said at the beginning when you talked about Wales’s opportunity to lead on this matter. If you want to accomplish that, you must place sustainable development at the centre and look again at the relationship between these documents.

Carwyn Jones: Cytunaf fod datblygu cynaliadwy yn ganolog. Fodd bynnag, nid wyf o’r farn fod angen gwneud unrhyw newidiadau ar hyn o bryd. Byddaf yn edrych ar hynny fel y bydd yn datblygu.

Carwyn Jones: I agree that sustainable development is central. However, at present I do not think that we need to make any changes. I will look at that as it develops.

I agree with Peter Black that it is important that we look at the quality of our produce and not only the quantity; that is an important point. I also endorse his point that GDP is not a measure of the quality of life. That is why we have a sustainable development scheme in the National Assembly for Wales. I was glad to receive clarification from Christine Humphreys of the Liberal Democrat amendments. I presume therefore that a stand-alone Assembly Committee is not the only option that amendment 11 asks me to consider. The best way forward on the consultation process—if you are saying that you do not intend that every Committee should have to look at the draft and provide comments—is for amendment 9 to be withdrawn on an undertaking from me that Committees will be able to comment on the scheme rather than having to analyse it in committee, which would delay it for months.

Cytunaf â Peter Black ei bod yn bwysig inni edrych ar ansawdd ein cynnyrch ac nid ei faint yn unig; mae hwnnw’n bwynt pwysig. Ategaf hefyd ei bwynt nad yw cynnyrch mewnwladol crynswth yn fesur o ansawdd bywyd. Dyna pam bod gennym gynllun datblygu cynaliadwy yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru. Yr oeddwn yn falch o dderbyn eglurhad gan Christine Humphreys am welliannau’r Democratiaid Rhyddfrydol. Tybiaf felly nad Pwyllgor Cynulliad penodol yw’r unig opsiwn y mae gwelliant 11 yn gofyn imi ei ystyried. Y ffordd orau ymlaen ar y broses ymgynghori—os dywedwch nad yw’n fwriad gennych y dylai pob Pwyllgor orfod ystyried y drafft a chynnig sylwadau—yw tynnu gwelliant 9 yn ôl os ymgymeraf y bydd y Pwyllgorau yn gallu cynnig sylwadau ar y cynllun yn hytrach na’i ddadansoddi yn y pwyllgor, a fyddai’n ei ohirio am fisoedd.

On amendment 10 regarding the panel of experts, if we are to have a choice as to whether there should be experts or

O ran gwelliant 10 ynglŷn â phanel o arbenigwyr, os ydym am gael dewis ynghylch a ddylai fod arbenigwyr neu

stakeholders or both, I need to have maximum flexibility. Again, the correct way of dealing with that is for the amendment to be withdrawn on the undertaking that I have just given. I agree with what Christine Gwyther said about the Wales European Centre. We are seeking to influence the European sustainable development strategy. In addition, next year we intend to hold a major seminar that will encompass all sectors in Wales so that we can go to Europe and provide, once, again a valuable export to Europe that originates in Wales.

fuddianwyr neu'r ddau, bydd yn rhaid imi gael hyblygrwydd llwyr. Unwaith eto, y ffordd gywir o ymdrin â hynny yw tynnu'r gwelliant yn ôl ar yr ymgymeriad yr wyf newydd ei roi. Cytunaf â'r hyn a ddywedodd Christine Gwyther am Ganolfan Ewropeaidd Cymru. Yr ydym yn ceisio dylanwadu ar strategaeth datblygu cynaliadwy Ewrop. Yn ogystal, bwriadwn gynnal seminar fawr y flwyddyn nesaf a fydd yn cynnwys pob sector yng Nghymru fel y gallwn fynd i Ewrop ac, unwaith eto, gyflwyno rhywbeth gwerthfawr i Ewrop sydd yn hannu o Gymru.

Jenny Randerson: I declare an interest. My husband is in receipt of a grant that relates to renewable energy, and it has been mentioned this morning.

Jenny Randerson: Datganaf fuddiant. Mae fy ngŵr yn derbyn grant sydd yn ymwneud ag ynni adnewyddol, a chrybwyllwyd hynny y bore yma.

Christine Humphreys: We are willing to withdraw amendment 9 in the name of Jenny Randerson in light of the Assembly Secretary's comments.

Christine Humphreys: Yr ydym yn fodlon tynnu gwelliant 9 yn enw Jenny Randerson yn ôl yn sgîl sylwadau'r Ysgrifennydd Cynulliad.

12:20 p.m.

Brian Hancock: I declare an interest, as I am involved with a small company that advises on health, safety and environmental matters.

Brian Hancock: Datganaf fuddiant gan fod gennyf gysylltiad â chwmni bach sydd yn rhoi cyngor ar faterion sydd yn ymwneud â iechyd, diogelwch a'r amgylchedd.

Gwelliant 1: O blaid 30, Ymatal 21, Yn erbyn 0.
Amendment 1: For 30, Abstain 21, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Marek, John
Middlehurst, Tom
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 2: O blaid 30, Ymatal 1, Yn erbyn 22.
Amendment 3: For 30, Abstain 1, Against 22.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Barrett, Lorraine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Marek, John
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Butler, Rosemary

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 3: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 3: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick

Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 4: O blaid 43, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 4: For 43, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine

Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Glyn
Davies, Jocelyn
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Law, Peter
Lloyd, David
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 5: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 5: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val

German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 6: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 6: For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Gregory, Janice

Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 7: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 7: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian

Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 8: O blaid 29, Ymatal 23, Yn erbyn 0.
Amendment 8: For 29, Abstain 23, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Marek, John
Middlehurst, Tom
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Amendment 9 withdrawn.
Tynnwyd gwelliant 9 yn ôl.

Gwelliant 10: O blaid 29, Ymatal 23, Yn erbyn 0.
Amendment 10: For 29, Abstain 23, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Dafis, Cynog
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
German, Michael
Graham, William
Hancock, Brian
Humphreys, Christine
Jarman, Pauline
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Lloyd, David
Melding, David
Morgan, Jonathan
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Barrett, Lorraine
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Davies, Andrew
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
Gibbons, Brian
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hart, Edwina
Hutt, Jane
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Law, Peter
Marek, John
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gwelliant 11: O blaid 53, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amendment 11: For 53, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Butler, Rosemary
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn

Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary
Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment adopted.

Gareth Jones: Mater o eglurhad yw hwn, gan ein bod yn pleidleisio. Gan fod gwelliant 6 yn cyfeirio at lywodraeth leol, oni ddylem ddatgan buddiant fel aelodau o lywodraeth leol?

Gareth Jones: This is a matter for clarification, as we are voting. As amendment 6 refers to local government, should we not declare an interest as members of local government?

The Deputy Presiding Officer: Yes. We can do that afterwards.

Y Dirprwy Lywydd: Dylem. Gallwn wneud hynny wedyn.

Amended motion:

Cynnig wedi'i ddiwygio:

that the Assembly

bod y Cynulliad

notes the Analysis of Responses to the Assembly's Consultation Document 'A Sustainable Wales—Learning to Live Differently' laid in the Table Office on 7

yn nodi'r Dadansoddiad o Ymatebion i Ddogfen Ymgynghorol y Cynulliad 'Cymru Gynaliadwy—Dysgu Byw'n Wahanol' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 7 Medi

September 2000 and instructs the Executive to recognise the validity of the widely held view that the sustainable development scheme should form the overarching framework for all other Assembly strategies and policies, including Better Wales, and resolves that the relationship between these two documents be revised to reflect this;

2000 ac yn cyfarwyddo'r Weithrediaeth i gydnabod dilysrwydd y farn sydd yn cael ei harddel yn gyffredinol, sef y dylai'r cynllun datblygu cynaliadwy fod yn fframwaith trosfwaol ar gyfer pob un o strategaethau a pholisïau eraill y Cynulliad, gan gynnwys Gwell Cymru, ac yn penderfynu y dylai'r berthynas rhwng y ddwy ddogfen gael eu diwygio er mwyn adlewyrchu hyn;

instructs the Executive to locate an expanded sustainable development unit within the Assembly's main Policy Unit, in order to ensure a truly cross-cutting approach in the development of policy;

yn cyfarwyddo'r Weithrediaeth i leoli uned datblygu cynaliadwy estynedig o fewn prif Uned Bolisi y Cynulliad, er mwyn sicrhau ymagwedd wirioneddol drawsbynciol tuag at ddatblygu polisi;

expresses its gratitude to all individuals and organisations who responded to the consultation;

yn mynegi ei ddiolchgarwch i'r holl unigolion a'r cyrff a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori;

affirms that it wishes the scheme to be concise, clear, usable by staff in everyday work; to guide development of the Assembly's strategic plan; to be embedded in mainstream activities and to have a real effect for change by developing appropriate sustainable development appraisal mechanisms;

yn cadarnhau ei fod yn awyddus i'r cynllun fod yn gryno, yn glir, yn addas i'w ddefnyddio gan staff wrth eu gwaith beunyddiol; arwain datblygiad cynllun strategol y Cynulliad; bod yn rhan annatod o weithgareddau prif ffrwd; a chael effaith go-iawn drwy ddatblygu peirianwaith priodol ar gyfer gwerthuso datblygu cynaliadwy;

resolves that the scheme should adopt a positive approach to opportunities for growth in key sustainable development sectors such as environmental technology, public transport, renewable energy and information and communication technology;

yn penderfynu y dylai'r cynllun fabwysiadu ymagwedd gadarnhaol tuag at gyfleoedd ar gyfer twf mewn sectorau datblygu cynaliadwy megis technoleg amgylcheddol, trafnidiaeth gyhoeddus, ynni adnewyddadwy a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

recommends also that the scheme should reflect how development in Wales might contribute to global sustainability;

yn argymell hefyd y dylai'r cynllun adlewyrchu sut y gallai datblygiadau yng Nghymru gyfrannu at gynaliadwyedd byd-eang;

welcomes the recognition of the significant role of local government in promoting and enabling sustainable development, in particular:

yn croesawu'r ffaith fod y rôl arwyddocaol sydd yn cael ei chwarae gan lywodraeth leol i hybu a galluogi datblygu cynaliadwy yn cael ei chydnabod, yn arbennig:

through the Local Agenda 21 initiative

drwy'r fenter Agenda 21 leol

through Best Value to ensure local services are delivered without jeopardising long-term sustainability;

drwy'r Gwerth Gorau er mwyn sicrhau bod gwasanaethau lleol yn cael eu cyflwyno heb roi cynaliadwyedd tymor hir yn y fantol;

instructs the Assembly Secretary responsible for sustainable development to assist the Assembly in its commitment to sustainable

yn cyfarwyddo'r Ysgrifennydd Cynulliad sydd yn gyfrifol am ddatblygu cynaliadwy i gynorthwyo'r Cynulliad yn ei ymrwymiad i

development by placing a draft scheme before the Assembly which takes account of the responses to the consultation, and calls upon the Executive to convene an expert panel to advise on the implementation and application of the scheme and its associated indicators and monitor the Assembly's progress toward sustainable development;

ddatblygu cynaliadwy drwy osod cynllun drafft gerbron y Cynulliad a fydd yn cymryd i ystyriaeth yr ymatebion i'r ymgynghori, ac yn galw ar y Weithrediaeth i gynnull panel o arbenigwyr i roi cyngor ar sut y dylid gweithredu a chymhwyso'r cynllun a'i ddangosyddion cysylltiedig ac i fonitro cynnydd y Cynulliad tuag at ddatblygu cynaliadwy;

investigates the feasibility of appointing a panel of sustainability experts to assist the Assembly in the appraisal of policies to achieve sustainable development; and

yn ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai penodi panel o arbenigwyr ar gynaliadwyedd i gynorthwyo'r Cynulliad i werthuso polisïau er mwyn ymgyrraedd at ddatblygu cynaliadwy; ac

investigates the feasibility of establishing a Sustainable Committee, cutting across departments and assisting the Assembly's development and implementation of sustainable development initiatives.

yn ymchwilio i ba mor ymarferol fyddai sefydlu Pwyllgor Cynaliadwy, a fyddai'n torri ar draws adrannau ac yn cynorthwyo'r Cynulliad i ddatblygu mentrau datblygu cynaliadwy a'u rhoi ar waith.

Cynnig wedi'i ddiwygio: O blaid 52, Ymatal 0, Yn erbyn 0.
Amended motion: For 52, Abstain 0, Against 0.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine
Bates, Mick
Black, Peter
Bourne, Nick
Chapman, Christine
Dafis, Cynog
Davies, Andrew
Davies, David
Davies, Geraint
Davies, Glyn
Davies, Janet
Davies, Jocelyn
Davies, Ron
Edwards, Richard
Essex, Sue
Evans, Delyth
Feld, Val
German, Michael
Gibbons, Brian
Graham, William
Gregory, Janice
Griffiths, John
Gwyther, Christine
Hancock, Brian
Hart, Edwina
Humphreys, Christine
Hutt, Jane
Jarman, Pauline
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Jones, Gareth
Jones, Helen Mary

Jones, Ieuan Wyn
Law, Peter
Lloyd, David
Marek, John
Melding, David
Middlehurst, Tom
Morgan, Jonathan
Morgan, Rhodri
Pugh, Alun
Randerson, Jenny
Rogers, Peter
Ryder, Janet
Sinclair, Karen
Thomas, Gwenda
Thomas, Owen John
Thomas, Rhodri Glyn
Wigley, Dafydd
Williams, Kirsty
Williams, Phil

Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.
Amended motion adopted.

The Deputy Presiding Officer: I now ask any Members who are members of local government to stand to declare their interest.

Y Dirprwy Lywydd: Gofynnaf yn awr i unrhyw Aelod sydd yn aelod o lywodraeth leol sefyll i ddatgan buddiant.

Gareth Jones, Geraint Davies, Pauline Jarman, David Lloyd, Peter Black, Jenny Randerson and **William Graham** *rose.*

Gareth Jones, Geraint Davies, Pauline Jarman, David Lloyd, Peter Black, Jenny Randerson a **William Graham** *a gododd.*

Datganiad ar y Prinder Tanwydd
Statement on the Fuel Shortage

The Secretary for the Environment, Planning and Transport (Sue Essex): I follow on from where I left off in my Plenary statement on Tuesday, when I described the serious situation that existed in Wales. I said that I would give regular updates via the e-mail system to Assembly Members and that I would also give a report on development in Plenary today. I hope that another update will be available by mid afternoon.

Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth (Sue Essex): Yr wyf yn parhau o'r fan lle y gorffennais yn fy natganiad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth, pan ddisgrifiais y sefyllfa ddifrifol a oedd yn bodoli yng Nghymru. Dywedais y byddwn yn rhoi diweddariadau rheolaidd drwy'r system e-bost i Aelodau'r Cynulliad ac y byddwn hefyd yn rhoi adroddiad ar ddatblygiadau yn y Cyfarfod Llawn heddiw. Gobeithiaf y bydd diweddariad arall ar gael erbyn canol y prynhawn.

As we are all aware, the situation is still extremely serious, even though demonstrators at the Tremorfa distribution centre in Cardiff have withdrawn, as have protesters at Stanlow, urging others to do the same. The current situation, from the information I received before I came into the Chamber, is that tankers are leaving from all the depots that serve Wales. I think that everyone will agree that that is extremely

Fel y gŵyr pob un ohonom, mae'r sefyllfa yn ddifrifol iawn o hyd, er bod protestwyr yng nghanolfan ddosbarthu Tremorfa yng Nghaerdydd wedi tynnu'n ôl, yn ogystal â'r protestwyr yn Stanlow, gan annog eraill i wneud yr un peth. Y sefyllfa bresennol, o'r wybodaeth a dderbyniais cyn dod i mewn i'r Siambr, yw bod y tanceri yn gadael o bob depo sy'n gwasanaethu Cymru. Credaf y bydd pawb yn cytuno bod hynny'n

good news. However, I must stress that it will be some time before the recovery is completed.

newyddion da iawn. Fodd bynnag, rhaid i mi bwysleisio y bydd yn rhaid aros cryn amser cyn y bydd yr adferiad wedi ei gwblhau.

I called for an immediate withdrawal of the blockade on Tuesday. It is now clear that the withdrawal has come too late for many key services and that there will be further deterioration over the next few days. The important message is that, as a result, there will be a delay before the expected improvements are fed through. There is a list of petrol stations that have been prioritised for petrol once deliveries restart. Of the 2,700 listed petrol stations across Great Britain, nearly 200 are in Wales. We expect that these will be the first to receive fuel as part of the general restoration of fuel. Guidance has been issued from the Home Office to chief police officers and oil companies, copied to health authorities and local authorities, on the implementation of this scheme to ensure that priority petrol users are given that priority on the ground. That arrangement will stay in place as long as necessary. There will be police presence at garage forecourts to ensure compliance with this, although there will be patrols rather than 100 per cent presence in some rural areas.

Gelwais am godi'r blocâd ar unwaith ddydd Mawrth. Bellach mae'n glir bod hynny wedi digwydd yn rhy hwyr i lawer o'r gwasanaethau allweddol ac y bydd pethau'n parhau i waethygu dros yr ychydig ddyddiau nesaf. Y neges bwysig yw, o ganlyniad, y bydd yna oedi cyn y gwelir y gwelliannau disgwyliedig. Mae rhestr ar gael o'r gorsafoedd petrol sy'n cael y flaenoriaeth o ran petrol unwaith y bydd y broses dosbarthu yn ailddechrau. O'r 2,700 o orsafoedd petrol rhestredig ledled Prydain Fawr, mae bron 200 ohonynt yng Nghymru. Yr ydym yn disgwyl mai'r rhain fydd y cyntaf i gael tanwydd fel rhan o'r gwaith cyffredinol o adfer tanwydd. Mae'r Swyddfa Gartref wedi rhoi canllawiau i brif swyddogion yr heddlu a chwmnïau olew, gan roi copïau i awdurdodau iechyd ac awdurdodau lleol, ar weithredu'r cynllun hwn er mwyn sicrhau bod defnyddwyr petrol sydd yn cael blaenoriaeth yn cael y flaenoriaeth honno yn ymarferol. Bydd y trefniant hwnnw yn aros mewn grym cyhyd ag y bo angen. Bydd yr heddlu ar gyrtiau blaen pob garej er mwyn sicrhau bod pobl yn cydymffurfio â hyn, er mai patrolau yn hytrach na phresenoldeb 100 y cant a fydd mewn rhai ardaloedd gwledig.

Nonetheless, while fuel distribution will improve over the next few days, the position will deteriorate further in the short term for those services that have already been badly affected by the blockades. In this context, I especially want to draw attention to increasing concern about food supplies. Larger stores and supermarkets are mostly able to operate normally until the end of the week, but the outlook beyond that is serious. Many smaller outlets are also facing difficulties, and I am particularly concerned about elderly or disabled people who may rely on their local shop for essential goods. Difficulties will be most acute in rural areas. We want to ensure that food suppliers are given a high priority in the restoration of fuel supplies.

Serch hynny, er y bydd y dosbarthiad tanwydd yn gwella dros yr ychydig ddyddiau nesaf, bydd y sefyllfa yn parhau i waethygu yn y tymor byr ar gyfer y gwasanaethau hynny y mae'r blocadau eisoes wedi effeithio'n wael arnynt. Yn y cyd-destun hwn, yr wyf am dynnu sylw yn arbennig at y pryder cynyddol am gyflenwadau bwyd. Ar y cyfan, gall y siopau mwy a'r archfarchnadoedd weithredu yn ôl eu harfer tan ddiwedd yr wythnos, ond mae'r rhagolygon y tu hwnt i hynny yn ddifrifol. Mae llawer o'r siopau llai yn wynebu anawsterau hefyd, ac yr wyf yn gofidio'n benodol am hen bobl neu bobl anabl a fydd efallai yn dibynnu ar eu siop leol am nwyddau hanfodol. Bydd yr anawsterau ar eu gwaethaf mewn ardaloedd gwledig. Yr ydym eisiau sicrhau fod cyflenwyr bwyd yn cael blaenoriaeth uchel wrth adfer cyflenwadau tanwydd.

My central message to the Assembly this morning is that, over the next few days, the situation will improve more quickly if members of the wider public act as responsibly as possible in relation to fuel and food. I am extremely grateful for the patience displayed by many so far. We need to maintain that patience and responsibility over the weekend. The first fuel to become available must be used for essential services. Any problems in food distribution will be overcome if those of us with food in the cupboard, the fridge and the freezer draw on those stocks over the weekend, rather than using scarce fuel to make food scarce too. We all have a part to play in this, and I hope that that message will go out loud and clear from the Assembly today.

Fy neges ganolog i'r Cynulliad y bore yma yw y bydd y sefyllfa, dros yr ychydig ddyddiau nesaf, yn gwella'n gynt os bydd aelodau o'r cyhoedd yn ymddwyn mor gyfrifol ag y bo modd mewn perthynas â thanwydd a bwyd. Yr wyf yn ddiolchgar iawn am yr amynedd y mae cymaint wedi ei ddangos hyd yn hyn. Mae angen inni gynnal yr amynedd a'r cyfrifoldeb hwnnw dros y penwythnos. Rhaid i wasanaethau hanfodol gael y tanwydd cyntaf a fydd ar gael. Caiff unrhyw broblemau o ran dosbarthu bwyd eu goresgyn os bydd y rheini ohonom sydd â bwyd yn ein cypyrddau, ein hoergelloedd a'n rhewgelloedd yn defnyddio'r stociau hynny dros y penwythnos, yn hytrach na defnyddio tanwydd prin i wneud bwyd yn brin hefyd. Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae yn hyn, a gobeithiaf y bydd y neges honno yn cael ei chyfleu yn uchel ac yn glir o'r Cynulliad heddiw.

In the meantime, I pay tribute to those who work in essential services, including health and social services, who are making great efforts to ensure that people who need treatment or support are receiving it. Inevitably, as I said on Tuesday and as all of us know, services have been seriously disrupted in key areas. I pay tribute to passenger transport operators who continue to ensure that people can travel to work or school in most cases. I also pay tribute to the utilities and businesses in general for their efforts. I want to put on record how important it has been that networks of people have worked together extremely well. Local government, health authorities, police, fire services and others have delivered extremely well on the ground.

Yn y cyfamser, talaf deyrnged i'r rheini sydd yn gweithio yn y gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, sydd yn gwneud ymdrechion mawr i sicrhau bod pobl y mae angen triniaeth neu gymorth arnynt yn ei gael. Yn anochel, fel y dywedais ddydd Mawrth ac fel y gŵyr pob un ohonom, amharwyd yn ddifrifol ar wasanaethau mewn meysydd allweddol. Talaf deyrnged i'r gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus sy'n parhau i sicrhau y gall pobl deithio i'r gwaith neu i'r ysgol yn y rhan fwyaf o achosion. Talaf deyrnged hefyd i'r cyfleustodau a'r busnesau yn gyffredinol am eu hymdrechion. Hoffwn gofnodi bod y rhwydweithiau o bobl sydd wedi gweithio gyda'i gilydd yn eithriadol o dda wedi bod yn bwysig iawn. Mae llywodraeth leol, awdurdodau iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth tân ac eraill wedi gweithio'n eithriadol o dda yn ymarferol.

The situation remains very serious in the health service, notwithstanding the withdrawal of protesters. The Secretary for Health and Social Services will make a fuller statement to the Health and Social Services Committee later today, and her statement will be made available to all Members. Emergency health services are being maintained, but non-urgent hospital and community activity is increasingly restricted. The current levels of service are being

Erys y sefyllfa yn ddifrifol iawn yn y gwasanaeth iechyd, er bod y protestwyr wedi gadael. Bydd yr Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud datganiad llawnach i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddiweddarach heddiw, a bydd ei datganiad ar gael i bob Aelod. Mae'r gwasanaethau iechyd brys yn cael eu cynnal, ond mae achosion nad ydynt yn rhai brys mewn ysbytai, a gweithgareddau cymunedol, yn cael eu

achieved by dedicated staff and managers, working flexibly and making the best use of diminishing resources. However, even this is not sustainable unless there is an immediate and rapid improvement in fuel supplies for staff and for firms that provide drugs, food and other essential supplies to hospitals and health centres. It is very clear that, to run emergency services, staff must be able to get to work. Hospitals not only need fuel for ambulances; they also need doctors, nurses and other workers. This is a very important message. General practitioners and health visitors need to be able to visit vulnerable people in their homes. Home help and meals on wheels services must be delivered to those who cannot care fully for themselves.

cyfyngu'n gynyddol. Mae lefelau presennol y gwasanaeth yn cael eu cyflawni gan staff a rheolwyr ymroddedig, yn gweithio'n hyblyg ac yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sy'n lleihau. Fodd bynnag, nid yw hyn hyd yn oed yn gynaliadwy oni fydd yna welliant sydyn a chyflym mewn cyflenwadau tanwydd ar gyfer staff ac ar gyfer cwmnïau sydd yn darparu cyffuriau, bwyd a chyflenwadau hanfodol eraill i ysbytai a chanolfannau iechyd. Mae'n amlwg iawn fod yn rhaid i staff, er mwyn cynnal gwasanaethau brys, allu cyrraedd eu gwaith. Nid dim ond tanwydd ar gyfer ambiwlansys y mae ar ysbytai ei angen; mae arnynt hefyd angen meddygon, nyrsys a gweithwyr eraill. Mae hon yn neges bwysig iawn. Mae angen i feddygon teulu ac ymwelwyr iechyd allu ymweld â phobl ddiamddiffyn yn eu cartrefi. Rhaid i gymorth cartref a gwasanaeth pryd ar glud fod ar gael i bawb na allant ofalu'n llawn amdanynt eu hunain.

It is against this wider background that we must ensure that priority is given to those people as fuel stocks are released. A distribution mechanism must be established today. The co-operation of the wider public in helping to make this work will make all the difference in the way things work out on the ground. All health and social services continue to suffer due to the inability of staff to travel. We must remember that the crisis hit Wales earlier than it hit most of England, and that people are now carrying unsustainable burdens. That is a very important message.

Yn erbyn y cefndir ehangach hwn rhaid i ni sicrhau bod y flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r bobl hynny wrth i'r stociau tanwydd gael eu rhyddhau. Rhaid sefydlu dull dosbarthu heddiw. Bydd cydweithrediad y cyhoedd o ran cynorthwyo i sicrhau bod hyn yn gweithio yn gwneud gwahaniaeth mawr i'r ffordd y bydd pethau yn gweithio allan yn ymarferol. Mae'r holl wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn parhau i ddioddef oherwydd anallu staff i deithio. Rhaid i ni gofio bod yr argyfwng wedi taro Cymru yn gynharach nag y gwnaeth yn y rhan fwyaf o Loegr, a bod pobl yn awr yn cario beichiau anghynaliadwy. Mae hon yn neges bwysig iawn.

In that context, I pay tribute to the work of Assembly officials. They have worked hard during recent days to ensure that we play our part in responding to the crisis.

Yn y cyd-destun hwnnw, talaf deyrnged i waith swyddogion y Cynulliad. Maent wedi gweithio'n galed dros y dyddiau diwethaf i sicrhau ein bod yn chwarae ein rhan wrth ymateb i'r argyfwng.

12:30 p.m.

I also want to clarify the role that the Assembly has played. The command and control buttons in this matter have rested, as they should, with the UK Government's Department of Trade and Industry and the Home Office. The detailed emergency planning in the implementation of priority distribution has, quite properly, been at local

Hoffwn hefyd egluro'r rôl y mae'r Cynulliad wedi ei chwarae. Mae'r botymau gorchymyn a rheoli yn y mater hwn wedi bod, fel y dylent, yn nwylo Adran Diwydiant a Masnach Llywodraeth y DU a'r Swyddfa Gartref. Mae'r gwaith cynllunio manwl wrth weithredu'r dosbarthiad o ran blaenoriaeth wedi digwydd, yn gywir, ar lefel awdurdod

authority level. Our task has been to ensure that the situation in Wales is fully and accurately collated and relayed to the UK Government and local services. That is why I travelled to London yesterday for meetings with ministers and apprised them last night of the urgent and serious situation here. I assure you that I got that message across to those present. That is why we have arranged for our Assembly officials to be in constant touch with officials in London, who are dealing with a national situation. Paul Murphy and David Hanson have also been closely involved on our behalf in all the Westminster considerations.

lleol. Ein tasg ni fu sicrhau bod y sefyllfa yng Nghymru yn cael ei chyfleu a'i throsglwyddo i Lywodraeth y DU ac i wasanaethau lleol yn llawn ac yn gywir. Dyna pam y teithiais i Lundain ddoe am gyfarfodydd gyda gweinidogion a dweud wrthynt neithiwr am y sefyllfa frys a difrifol yma. Fe'ch sicrhaf fy mod wedi cyfleu'r neges i'r rheini a oedd yn bresennol. Dyna pam ein bod wedi trefnu bod ein swyddogion yn y Cynulliad mewn cysylltiad cyson â swyddogion yn Llundain sydd yn delio â sefyllfa genedlaethol. Mae Paul Murphy a David Hanson wedi bod mewn cysylltiad agos hefyd ar ein rhan ym mhob un o ystyriaethau San Steffan.

Together, we have done and will continue to do everything possible in partnership with the UK Government to try to ensure an orderly return of supplies to Wales. I want to repeat that the public can help by using services as carefully as possible while recovery is effected. I hope that Members will use all their contacts with constituencies to urge this. Our communications unit, which has been operating from Cathays Park, is a 24-hour service and will continue to operate over the weekend or as long as is needed. Therefore, if Members need information or want to pass the number on, please do so. I pay tribute to our staff there. They have come together extremely well and have been very dedicated.

Gyda'n gilydd, yr ydym wedi gwneud popeth posibl a byddwn yn parhau i wneud hynny mewn partneriaeth â Llywodraeth y DU er mwyn ceisio sicrhau y dychwelir cyflenwadau i Gymru mewn modd trefnus. Yr wyf am ailadrodd y gall y cyhoedd helpu drwy ddefnyddio gwasanaethau mor ofalus â phosibl tra bod y gwaith adfer yn mynd rhagddo. Gobeithiaf y bydd yr Aelodau yn defnyddio pob cyswllt sydd ganddynt â'u hetholaethau i bwysleisio hyn. Mae ein huned gyswllt, sydd wedi bod yn gweithredu o Barc Cathays, yn wasanaeth 24 awr a bydd yn parhau y weithredu dros y penwythnos neu cyhyd ag y bo ei angen. Felly, os bydd ar Aelodau angen gwybodaeth neu os dymunant roi'r rhif i bobl eraill, mae croeso iddynt wneud hynny. Talaf deyrnged i'n staff yma. Maent wedi gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn ac wedi bod yn ymroddedig iawn.

I want to end by looking to the future. We in Wales and in the Assembly will want to review the events of recent days and our response to them. We will also want to revise and update our contingency arrangements in the light of the events. The Prime Minister has made it clear that no democratic country can be held to ransom by the actions of a group of individuals. I condemned the actions of the blockades on Tuesday and I repeat that condemnation now. However, as the First Secretary has made clear, once the blockades have been called off, we will want to talk to all those who are concerned about the effect of rising fuel prices on parts of the Welsh economy. That will be done. I announced on Tuesday a mechanism through which we would do that, to allow all those people who

Yr wyf am orffen drwy edrych i'r dyfodol. Byddwn ni yng Nghymru ac yn y Cynulliad am adolygu digwyddiadau'r dyddiau diwethaf a'n hymateb iddynt. Byddwn hefyd am arolygu a diweddaru ein trefniadau wrth gefn yng ngoleuni'r digwyddiadau. Mae'r Prif Weinidog wedi pwysleisio na all gweithrediadau grŵp o unigolion ddal unrhyw wlad ddemocratig am bridwerth. Condemniais weithrediadau'r blocadau ddydd Mawrth ac ailadroddaf y condemniad hwnnw yn awr. Fodd bynnag, fel y pwysleisiodd y Prif Ysgrifennydd, unwaith y bydd y blocadau wedi eu codi, byddwn am siarad â phawb sydd yn ymboeni am effaith prisiau tanwydd cynyddol ar rannau o'r economi yng Nghymru. Caiff hynny ei wneud. Cyhoeddais ddydd Mawrth

have an interest, including local authorities, public transport operators and user groups, to have a say, and to hold discussions with those who have a contribution to make. This is the proper way forward to conduct our dialogue democratically. Once the immediate crisis is over, I look forward to that process beginning as openly and constructively as possible.

fecanwaith y gallem ei ddefnyddio i wneud hynny, gan roi llais i'r holl bobl hynny sydd â diddordeb, gan gynnwys awdurdodau lleol, gweithredwyr trafnidiaeth gyhoeddus a grwpiau defnyddwyr, a chynnal trafodaethau gyda'r rhai sydd â chyfraniad i'w wneud. Dyma'r ffordd gywir o gynnal deialog yn ddemocratig. Unwaith y bydd yr argyfwng uniongyrchol ar ben, edrychaf ymlaen at weld y broses honno yn dechrau mor agored ac adeiladol â phosibl.

To summarise, the situation in Wales remains worse, in general, than in many parts of England, as it has been since the action started. We now hope that this morning's good news will spread throughout the country and that we will soon be firmly on the way to recovery. A return to complete normality, however, could take two or three weeks. The ease with which the return is accomplished will depend upon the actions of us all.

I grynhoi, mae'r sefyllfa yng Nghymru yn parhau'n waeth, yn gyffredinol, nag y mae mewn llawer o rannau yn Lloegr, fel y bu ers i'r gweithredu ddechrau. Gobeithiwn yn awr y bydd newyddion da y bore hwn yn lledaenu drwy'r wlad ac y byddwn yn fuan ar y ffordd i adfer y sefyllfa. Fodd bynnag, gallai dychwelyd i normalrwydd llwyr gymryd dwy neu dair wythnos. Bydd pa mor rhwydd y cyflawnir hynny yn dibynnu ar weithrediadau pob un ohonom.

Helen Mary Jones: I thank Sue Essex for her statement and offer our support for some of her comments. We join her in warmly thanking all those working in essential services for their sterling efforts, and National Assembly staff for what they have done. I also join her in urging us all to be responsible during the next few days, and I am sure that we will take that message back to our constituencies.

Helen Mary Jones: Diolch i Sue Essex am ei datganiad a chynigiaf ein cefnogaeth i rai o'i sylwadau. Yr ydym ninnau hefyd yn diolch o galon i bawb sydd yn gweithio yn y gwasanaethau hanfodol am eu hymdrechion rhagorol, ac i staff y Cynulliad Cenedlaethol am yr hyn y maent hwy wedi ei wneud. Ategaf hefyd ei chais ar i bawb ohonom fod yn gyfrifol dros yr ychydig ddyddiau nesaf, ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn mynd â'r neges honno yn ôl i'n hetholaethau.

I am surprised by what the Secretary said about non-violent direct action. I was under the impression that that was a vital part of a vibrant democracy and I thought that in the past, the Secretary agreed—

Synnaf at yr hyn a ddywedodd yr Ysgrifennydd am weithredu uniongyrchol di-drais. Yr oeddwn o dan yr argraff fod hynny'n rhan holl bwysig o ddemocratiaeth fywiog a chredwn fod yr Ysgrifennydd, yn y gorffennol, yn cytuno—

The Deputy Presiding Officer: Order. Can you ask a question, please? I asked for questions on the statement.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A allwch ofyn cwestiwn, os gwelwch yn dda? Gofynnais am gwestiynau ar y datganiad.

Helen Mary Jones: I appreciate that, Deputy Presiding Officer. I will quickly ask my question. We also welcome the protesters' decision to bring their action to an end—

Helen Mary Jones: Yr wyf yn gwerthfawrogi hynny, Ddirprwy Lywydd. Gofynnaf fy nghwestiwn yn gyflym. Yr ydym ninnau hefyd yn croesawu penderfyniad y protestwyr i ddod â'u gweithredu i ben—

The Deputy Presiding Officer: Can you ask

Y Dirprwy Lywydd: Allwch chi ofyn

a question on the statement, please?

Helen Mary Jones: I will certainly do that. However, the way that today's questions on the statement are being dealt with is different from the way in which they were dealt with on Tuesday. I will ask my question.

Will the Assembly Secretary fully acknowledge the genuine concerns that have led to these widespread protests and not dismiss those concerns? Will she ask the UK Government to give serious consideration to reducing the rate of fuel duty in the short-term while the international price remains so high? Although I welcome what she has said about opening a dialogue, I question whether that dialogue would be happening at all without this process. I ask her to urge that that dialogue be conducted by her colleague, the First Secretary, as well as her other colleagues, in order to give full credence to the seriousness of the situation that led to these demonstrations in the first place.

Sue Essex: I thought that I had made it clear on Tuesday that I support peaceful demonstration—I have been involved in peaceful demonstration myself. However, I thought that I also made it clear on Tuesday that it was apparent to all that the consequences of the actions were extremely severe and could pose a real danger to people. At that stage, I—as, I hope, would most Members in this Chamber—would say that that was the point when any rational person would take a different form of action. The First Secretary, in his statement, was concerned about what was happening with the blockade. He said that if that action was taken away we could have dialogue. There comes a point when any sane and rational person has to decide—however upset and concerned they are—whether the action has reached a point where it is seriously endangering people and worrying them enormously, and that it must therefore stop. I said on Tuesday that the protesters have made their views known quite clearly, people have listened, they have got coverage, and enough is enough. I have always adhered to that. I would not have stayed at any demonstration if I thought that innocent people would be harmed. I do not think that

cwestiwn ar y datganiad, os gwelwch yn dda?

Helen Mary Jones: Gwnaf hynny'n sicr. Fodd bynnag, mae'r cwestiynau heddiw ar y datganiad yn cael eu trin mewn modd gwahanol i gwestiynau dydd Mawrth. Gofynnaf fy nghwestiwn.

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cynulliad lwyr gydnabod y pryderon gwirioneddol sydd wedi arwain at y protestiadau eang hyn a pheidio â diystyru'r pryderon hynny? A wnaiff ofyn i Lywodraeth y DU roi ystyriaeth ddifrifol i ostwng cyfradd y doll tanwydd yn y tymor byr tra bod y pris rhyngwladol yn parhau mor uchel? Er fy mod yn croesawu'r hyn a ddywedodd ynglŷn â chychwyn deialog, yr wyf yn amau a fyddai'r ddeialog honno yn digwydd o gwbl heb y broses hon. Gofynnaf iddi sicrhau bod y ddeialog honno'n cael ei chynnal gan ei chyd-Aelod, y Prif Ysgrifennydd, yn ogystal â'i chyd-Aelodau eraill, er mwyn rhoi hygrededd llawn i ddifrifoldeb y sefyllfa a arweiniodd at y gwrthdystiadau yn y lle cyntaf.

Sue Essex: Credwn fy mod wedi egluro ddydd Mawrth fy mod yn cefnogi gwrthdystio heddychlon—yr wyf wedi cymryd rhan mewn gwrthdystiadau heddychlon fy hun. Fodd bynnag, credwn hefyd fy mod wedi egluro ddydd Mawrth ei bod yn amlwg i bawb fod canlyniadau'r gweithredu yn ddifrifol iawn ac y gallent fod yn berygl gwirioneddol i bobl. Ar yr adeg honno, byddwn i—a gobeithiaf, y rhan fwyaf o'r Aelodau yn y Siambr hon—yn dweud mai dyna'r adeg pan fyddai person rhesymegol yn gweithredu mewn ffordd arall. Yr oedd y Prif Ysgrifennydd, yn ei ddatganiad, yn gofidio am yr hyn a oedd yn digwydd gyda'r blocâd. Dywedodd y gallem gynnal deialog pe bai'r gweithredu yn dod i ben. Mae adeg yn dod pan fydd yn rhaid i unrhyw berson call a rhesymegol benderfynu—faint bynnag y mae'n gofidio ac yn pryderu—a yw'r gweithredu wedi cyrraedd pwynt lle mae'n peryglu pobl yn ddifrifol ac yn eu poeni'n fawr a bod yn rhaid, felly, rhoi'r gorau iddo. Dywedais ddydd Mawrth fod y protestwyr wedi mynegi eu barn yn eithaf clir, bod pobl wedi gwrando, eu bod wedi cael sylw, ac mai digon yw digon. Yr wyf bob amser wedi glynu wrth hynny. Ni fyddwn wedi aros mewn unrhyw wrthdystiad pe bawn yn credu

most people here would do so. They have made their point. That is an important fact.

y byddai pobl ddiniwed yn cael eu niweidio. Nid wyf yn credu y byddai'r rhan fwyaf o bobl yma yn gwneud hynny yn awr. Maent wedi gwneud eu pwynt. Mae honno'n ffaith bwysig.

On reducing the rate of fuel duty, we said that the price of oil is important, but we also pointed out that the element of the increase that is down to duty is small. We cannot have knee-jerk reactions. That is important, because it is a volatile situation. I am sure that the Chancellor will be taking all those points once the OPEC decision is made about where the sustainability of price levels is. We can take that into consideration. The method that you mentioned about this dialogue is there for us to use. The transport forum is up and running and we will supplement it with the groups that need to be represented, an arrangement that can be put in place quickly. You say that we had no intention of listening, but that transport forum is there—we have been listening. We have been listening to the rural quarters and Rhodri has been listening to the business quarter. It is important that in that forum we have a representation of all interests. I know that the First Secretary will want to be involved, because part of that interest is businesses. The way forward is in the comprehensive approach of all those voices, because we can have constructive dialogue.

Ar fater gostwng cyfradd y doll tanwydd, dywedasom fod pris olew yn bwysig, ond nodwyd hefyd fod elfen y cynnydd sydd o ganlyniad i doll yn fach. Ni allwn gael ymateb difeddwl. Mae hynny'n bwysig, gan ei bod yn sefyllfa gyfnewidiol. Yr wyf yn siŵr y bydd y Canghellor yn ystyried yr holl bwyntiau hynny unwaith y bydd penderfyniad OPEC wedi ei wneud ynglŷn â ble y mae cynaliadwyedd y lefelau prisiau. Gallwn gymryd hynny i ystyriaeth. Mae'r dull y sonioch amdano ynglŷn â deialog yno i ni ei ddefnyddio. Mae'r fforwm trafnidiaeth wedi ei sefydlu a byddwn yn ychwanegu ato y grwpiau y mae angen iddynt gael eu cynrychioli, trefniant y gellir ei roi ar waith yn gyflym. Dywedwch nad oedd yn fwriad gennym wrando, ond mae'r fforwm trafnidiaeth yno—yr ydym wedi bod yn gwrando. Yr ydym wedi bod yn gwrando ar yr ardaloedd gwledig ac mae Rhodri wedi bod yn gwrando ar y busnesau. Mae'n bwysig fod pawb sydd â diddordeb wedi ei gynrychioli yn y fforwm hwnnw. Gwn y bydd y Prif Ysgrifennydd am ymwneud ag ef, am fod busnesau yn rhan o'r diddordeb hwnnw. Mae'r ffordd ymlaen yn ymagwedd gynhwysfawr yr holl leisiau hynny, oherwydd gallwn gael deialog adeiladol.

Nick Bourne: I have several questions on the statement. The Secretary for the Environment, Planning and Transport has referred several times to statements made by the First Secretary. I am not sure where these statements have been made, but they have not been made to this Assembly since the crisis began. I return to the point that we should have had a full statement, particularly if you will refer to statements that he has made. They were not made to us.

Nick Bourne: Mae gennyf sawl cwestiwn ar y datganiad. Mae Ysgrifennydd yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth wedi cyfeirio sawl gwaith at ddatganiadau a wnaed gan y Prif Ysgrifennydd. Nid wyf yn sicr ble y gwnaethpwyd y datganiadau hyn, ond ni chawsant eu gwneud i'r Cynulliad hwn ers i'r argyfwng ddechrau. Dychwelaf at y pwynt y dylem fod wedi cael datganiad llawn, yn arbennig os mynnwch gyfeirio at ddatganiadau a wnaeth ef. Ni chawsant eu gwneud i ni.

Secondly, does she agree that all this could have been avoided if this administration, and particularly the Government in Westminster, had been listening to the protests that have been growing for some time? Those protests are not limited to the people who have been

Yn ail, a yw hi'n cytuno y gellid bod wedi osgoi hyn i gyd pe bai'r weinyddiaeth hon, ac yn arbennig y Llywodraeth yn San Steffan, wedi bod yn gwrando ar y protestiadau sydd wedi bod yn cynyddu ers peth amser? Nid yw'r protestiadau hynny wedi eu cyfyngu i'r

on picket lines at oil depots—this is widespread throughout Wales and the United Kingdom. Is there evidence that the Government here in Wales and in Westminster is listening now so that this can be avoided in future and so that we do not return to this situation? I join her in praising the essential services and officials. Will she also praise those peaceful protesters and Farmers for Action who have let essential supplies through for emergency services, a fact that remains unacknowledged by the administration? Can she give a view on that? Most importantly—

bobl sydd wedi bod ar linellau piced mewn depos olew—mae hyn yn gyffredinol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig. A oes tystiolaeth fod y Llywodraeth yma yng Nghymru ac yn San Steffan yn gwrando yn awr fel y gellir osgoi hyn yn y dyfodol ac fel nad ydym yn dychwelyd at y sefyllfa hon? Ategaf ei chanmoliaeth i'r gwasanaethau a'r swyddogion hanfodol. A wnaiff hi hefyd ganmol y protestwyr heddychlon hynny a Farmers for Action sydd wedi caniatáu i gyflenwadau hanfodol ddod drwodd ar gyfer gwasanaethau brys, ffaith nad yw'r weinyddiaeth wedi ei chydnabod? A all hi roi barn ar hynny? Yn bwysicaf oll—

The First Secretary: What do you think you use petrol for, Nick?

Y Prif Ysgrifennydd: Ar gyfer beth y credwch y defnyddir petrol, Nick?

Nick Bourne: If the First Secretary wants to make a contribution, we would be more than grateful to hear him make one from the podium, where he should have been speaking on this crisis from the start, as the person most responsible for this crisis in Wales.

Nick Bourne: Os yw'r Prif Ysgrifennydd am wneud cyfraniad, byddem yn fwy na diolchgar o glywed un ganddo o'r podiwm, lle y dylai fod wedi bod yn siarad am yr argyfwng hwn o'r dechrau, fel y person sydd fwyaf cyfrifol am yr argyfwng hwn yng Nghymru.

12:40 p.m.

The Deputy Presiding Officer: Order. Please keep to the question.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Cadwch at y cwestiwn os gwelwch yn dda.

Nick Bourne: I am grateful for this opportunity to ask an important question on the continuation of emergency services in this transitional period, as we will not return to normal immediately. That applies in particular to GPs and so on. I would be grateful for reassurance that we will ensure that they have a continuation of supplies throughout this period. Are you able to do that as the First Secretary is unable to do so himself?

Nick Bourne: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle hwn i ofyn cwestiwn pwysig am barhad y gwasanaethau brys yn y cyfnod pontio hwn, gan na fyddwn yn dychwelyd i normalrwydd ar unwaith. Mae hynny'n arbennig o berthnasol i feddygon teulu ac yn y blaen. Byddwn yn ddiolchgar o gael sicrwydd y byddwn yn gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i gael cyflenwadau drwy gydol y cyfnod hwn. A allwch chi wneud hynny gan nad yw'r Prif Ysgrifennydd yn gallu gwneud hynny ei hun?

Sue Essex: I thought that there was a good question and answer session on Tuesday—with one or two glitches. It is important that we act responsibly, that we ask sensible questions and that I try, as far as I can, to answer them as fully as possible. That must remain the priority for us as an Assembly. That is what the public wants. At this moment, they want to hear the facts and be reassured.

Sue Essex: Yn fy marn i, cafwyd sesiwn holi ac ateb da ddydd Mawrth—gydag un neu ddau anhawster. Mae'n bwysig ein bod yn ymddwyn yn gyfrifol, yn gofyn cwestiynau synhwyrol a'm bod i, hyd eithaf fy ngallu, yn eu hateb mor llawn â phosibl. Rhaid i hynny barhau yn flaenoriaeth i ni fel Cynulliad. Dyna beth mae'r cyhoedd ei eisiau. Ar hyn o bryd, maent am glywed y ffeithiau ac am i ni dawelu eu meddyliau.

I will start with the last question, which is a

Dechreuaf gyda'r cwestiwn olaf, sydd yn un

fair one. Restrictions bit hard here in Wales—they certainly bit us first. We realised that when petrol supplies ran out on Monday, while other parts of the UK remained unaffected. Because of that time sequence, the issues have hurt much harder here than elsewhere. It means that there are still serious concerns about shortages. There is a real danger that it could get worse before it gets better. In those circumstances, it is right that we say that priority must be given to the emergency services and other priority users. I cannot say how long this will continue, but what I have imparted is that this needs to continue as long as necessary. That is why I have told the public to be patient and continue to be frugal with fuel supplies. At the moment, there are tankers leaving the depots. However, you cannot magic more tankers or more drivers—there is a physical capacity limit to that. We will have to see how long it takes. All I know is that the depots that serve Wales are sending out tankers. It will take time.

teg. Effeithiodd y cyfyngiadau yn galed arnom ni yma yng Nghymru—yn sicr effeithiwyd arnom ni yn gyntaf. Sylweddolasom hynny pan ddaeth y cyflenwadau petrol i ben ddydd Llun, tra yr oedd rhannau eraill o'r DU yn parhau heb eu heffeithio. Oherwydd y drefn amser honno, mae'r materion wedi effeithio llawer mwy arnom ni yma nag yn unman arall. Mae'n golygu bod pryderon difrifol o hyd ynglŷn â phrinder. Mae perygl gwirioneddol y gallai waethygu cyn gwella. O dan yr amgylchiadau hynny, mae'n iawn ein bod yn rhoi'r flaenoriaeth i'r gwasanaethau brys a defnyddwyr blaenoriaethol eraill. Ni allaf ddweud am ba hyd y bydd hyn yn parhau, ond yr hyn yr wyf yn ei ddweud yw y bydd hyn yn parhau cyhyd ag y bo angen. Dyna pam fy mod wedi dweud wrth y cyhoedd i fod yn amyneddgar a pharhau i fod yn gynnil gyda chyflenwadau tanwydd. Ar hyn o bryd, mae tanceri yn gadael y depos. Fodd bynnag, ni allwch greu rhagor o danceri neu ragor o yrwyr—mae terfyn gallu corfforol i hynny. Bydd yn rhaid i ni weld pa mor hir y bydd hyn yn ei gymryd. Y cyfan y gwn i yw bod y depos sy'n gwasanaethu Cymru yn anfon tanceri allan. Bydd yn cymryd amser.

On priority users, guidance has been given to police, local authorities and the key agencies, including the oil companies. Along with that guidance on priority users is a list of defined users. We saw the draft list; it is comprehensive. It is still up to local government to add one or two categories or groups if they feel that that is necessary in their area. That is done in conjunction with the police. That list can go on the web, it can be supplied to Members and to local authorities. It will contain the groups of priority people and when they present themselves at petrol stations, the police will ensure that they are able to refill their fuel tanks. We will have to wait a few days to see how the supplies of petrol go. Once we are assured that there are sufficient protected supplies for essential services, we can release more to the public. I hope that that answers your question.

Ar fater defnyddwyr blaenoriaeth, rhoddwyd arweiniad i'r heddlu, awdurdodau lleol a'r asiantaethau allweddol, gan gynnwys y cwmnïau olew. Ynghyd â'r arweiniad hwnnw ar ddefnyddwyr blaenoriaeth mae rhestr o ddefnyddwyr penodedig. Gwelsom y rhestr ddrafft; mae'n gynhwysfawr. Cyfrifoldeb llywodraeth leol o hyd yw ychwanegu un neu ddau gategori neu grŵp os ydynt o'r farn bod angen hynny yn eu hardal. Gwneir hynny mewn cydweithrediad â'r heddlu. Gall y rhestr honno fynd ar y we, gellir ei chyflenwi i'r Aelodau ac i awdurdodau lleol. Bydd yn cynnwys y grwpiau o bobl sydd yn cael blaenoriaeth a phan fyddant yn mynd i'r gorsafoedd petrol, bydd yr heddlu yn sicrhau y gallant lenwi eu tanciau tanwydd. Bydd yn rhaid i ni aros ychydig ddyddiau i weld sut mae'r cyflenwadau petrol yn mynd. Unwaith y cawn sicrwydd bod digon o gyflenwadau wedi eu diogelu ar gyfer gwasanaethau hanfodol, gallwn ryddhau rhagor i'r cyhoedd. Gobeithio bod hynny'n ateb eich cwestiwn.

I referred to Rhodri's statement of yesterday. I believe that the way that he made it was

Cyfeiriais at ddatganiad Rhodri ddoe. Credaf iddo wneud y datganiad mewn ffordd gwbl

perfectly fair. Everyone else seems to have accepted that he communicated with the protesters. That is the important thing. He spoke to the protesters and told them that it was important that they called the blockade off because of the danger, and that if they called it off, that would be the time for discussion.

deg. Ymddengys fod pawb arall wedi derbyn ei fod wedi cyfathrebu gyda'r protestwyr. Dyna'r peth pwysig. Siaradodd â'r protestwyr gan ddweud ei bod yn bwysig eu bod yn codi'r blocâd oherwydd y perygl, a phe byddent yn ei godi, mai dyna'r amser i drafod.

On concern, there has been a lot of public support. We do listen. As the Conservative Government had to listen to the poll tax protesters, we also listen.

Ar fater pryder, bu llawer o gefnogaeth gan y cyhoedd. Yr ydym yn gwrando. Fel y bu'n rhaid i'r Llywodraeth Geidwadol wrando ar brotestwyr treth y pen, yr ydym ninnau hefyd yn gwrando.

It is important that we understand the level of people's concern. [*Interruption.*] If you could be a little quieter, Glyn, then others could hear my answer. It is important that we listen to those voices of concern in Wales. There are many people on low incomes, particularly in rural areas, on whom the hike in petrol prices has made an impact. We all appreciate that. That has been reflected in all kinds of ways. However, I have spoken to people who have become increasingly worried about the way the protest has proceeded. The protests have largely been peaceful, but until we assess the situation, I will not make any comments about what was going on. We will get reports back. However, there is no doubt that as time went on, the public was expressing considerable concern. As we said on Tuesday, enough is enough. This has gone too far. That is what we must bear in mind.

Mae'n bwysig ein bod yn deall lefel pryder pobl. [*Torri ar draws.*] Os gallech fod ychydig yn dawelach, Glyn, gallai eraill glywed fy ateb. Mae'n bwysig ein bod yn gwrando ar y rhai sydd yn lleisio pryder yng Nghymru. Mae codi prisiau petrol wedi effeithio ar lawer o bobl ar incwm isel, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Yr ydym oll yn gwerthfawrogi hynny. Adlewyrchwyd hynny mewn pob math o ffyrdd. Fodd bynnag, yr wyf wedi siarad â phobl sydd wedi mynd i boeni'n gynyddol am y ffordd y mae'r brotest wedi mynd rhagddi. Ar y cyfan mae'r protestiadau wedi bod yn heddychlon, ond nes y byddwn wedi asesu'r sefyllfa, ni fyddaf yn rhoi sylwadau ar yr hyn a oedd yn digwydd. Byddwn yn cael adroddiadau yn ôl. Fodd bynnag, heb unrhyw amheuaeth, wrth i amser fynd yn ei flaen, yr oedd y cyhoedd yn mynegi cryn bryder. Fel y dywedasom ddydd Mawrth, digon yw digon. Mae hyn wedi mynd yn rhy bell. Dyna beth y mae'n rhaid i ni ei gofio.

Kirsty Williams: Can you ensure that there is a fair and equal distribution of petrol to the identified petrol stations and that fears in mid Wales that they will be the last to receive that fuel can be put to rest? Can you also consider including among your priority users community transport schemes, such as dial-a-ride, which enable elderly and disabled people to access services such as supermarkets and doctors' surgeries?

Kirsty Williams: A allwch sicrhau fod yna ddosbarthiad teg a chyfartal o betrol i'r gorsafoedd petrol a enwyd ac a allwch leddfu pryderon pobl yng nghanolbarth Cymru mai nhw fydd yr olaf i gael y tanwydd hwnnw? A allwch hefyd ystyried cynnwys ymhlith eich defnyddwyr blaenoriaeth gynlluniau cludiant cyhoeddus, megis 'dial-a-ride', sydd yn sicrhau bod gwasanaethau megis archfarchnadoedd a meddygfeydd ar gael i hen bobl a phobl anabl?

Sue Essex: We were concerned that there would be a fair distribution throughout Wales with regard to the 200 designated stations. We particularly picked up the point of low

Sue Essex: Yr oeddem yn pryderu ynglŷn â dosbarthu petrol yn deg ledled Cymru i'r 200 o orsafoedd petrol penodedig. Yn arbennig, codasom y pwynt ynglŷn â dosbarthiad

population distribution and geography. We made those points frequently. The oil companies, in fairness, have a good understanding about that distribution and how to distribute. As soon as this is over, I can monitor the distribution and give you more detailed information. The communications unit is collecting that information all the time. I cannot remember off hand all the categories on the list. However, I will look at that list again, and give you and other Members copies, to ensure that your concerns are taken on board. As I said, there is capacity for local authorities—bearing in mind the nature of their own areas—to add groups to that list. That will be done in consultation with the police so that they know who is coming through.

poblogaeth isel a daearyddiaeth. Gwnaethom y pwyntiau hynny yn aml. A bod yn deg, mae gan y cwmnïau olew ddealltwriaeth dda o'r dosbarthiad hwnnw a sut i ddosbarthu. Cyn gynted ag y bydd hyn drosodd, gallaf fonitro'r dosbarthiad a rhoi gwybodaeth fanylach i chi. Mae'r uned gyswllt yn casglu'r wybodaeth honno drwy'r amser. Ni allaf gofio y funud hon yr holl gategorïau ar y rhestr. Fodd bynnag, byddaf yn edrych ar y rhestr honno eto, ac yn rhoi copïau i chi a'r Aelodau eraill, er mwyn sicrhau y rhoddir ystyriaeth i'ch pryderon. Fel y dywedais, mae lle i awdurdodau lleol—gan gofio natur eu hardaloedd hwy eu hunain—ychwanegu grwpiau at y rhestr honno. Gwneir hynny mewn cydweithrediad â'r heddlu fel eu bod hwy yn gwybod pwy sydd yn dod drwodd.

Alun Pugh: If you or I blockaded a public highway we would be subject to criminal proceedings. Yet, a few hundred metres away from this building, a blockade took place. Huge lorries were illegally parked on the highway yet no action was taken by police to clear that illegal obstruction. There is plenty of video evidence available, so will you now ask the chief constable to enforce the law?

Alun Pugh: Pe baech chi neu finnau yn rhwystro priffordd gyhoeddus byddem yn agored i achos troseddol. Ac eto, ychydig gannoedd o fetrau i ffwrdd o'r adeilad hwn, trefnwyd blocâd. Parciwyd lorïau anferth yn anghyfreithlon ar y briffordd ac eto ni chymerodd yr heddlu unrhyw gamau i glirio'r rhwystr anghyfreithlon hwnnw. Mae digon o dystiolaeth fideo ar gael, felly a wnewch chi yn awr ofyn i'r prif gwnstabl orfodi'r gyfraith?

Sue Essex: I am sure that chief constables are listening to your request at this moment. I stress that the operational aspects are the chief constables' responsibility and they refer to the Home Office. However, in the review of what happened over the last few days, I am sure that we would like to consider the policing on the ground and its strengths and weaknesses. It is important that we learn lessons for the future.

Sue Essex: Yr wyf yn siŵr bod y prif gwnstabliaid yn gwrando ar eich cais y funud hon. Pwysleisiaf mai cyfrifoldeb y prif gwnstabliaid yw'r agweddau gweithredol ac maent hwy yn cyfeirio at y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, yn yr adolygiad o'r hyn a ddigwyddodd dros yr ychydig ddyddiau diwethaf, yr wyf yn siŵr y byddem yn hoffi ystyried y plismona ymarferol a'i gryfderau a'i wendidau. Mae'n bwysig ein bod yn dysgu gwersi ar gyfer y dyfodol.

Pauline Jarman: I join you in paying tribute to transport operators who continue to ensure that people get to work or school. Are you aware that Bridgend pupils are stranded in school, because there are no buses to take them home?

Pauline Jarman: Ymunaf â chi wrth dalu teyrnged i'r rheolwyr trafnidiaeth sydd yn parhau i sicrhau fod pobl yn mynd i'r gwaith neu i'r ysgol. A ydych yn ymwybodol fod disgyblion Pen-y-bont ar Ogwr yn yr ysgol o hyd, gan nad oes unrhyw fysys ar gael i'w cludo adref?

Sue Essex: I had not received that news and I am disturbed by it. That graphically illustrates the dilemma we are in today and

Sue Essex: Nid oeddwn wedi derbyn y newyddion hwnnw ac mae'n achosi pryder i mi. Mae hynny'n dangos yn glir y cyfyng-

that this has gone too far. As you know, in Rhondda Cynon Taff and other places children are not going to school and, as in the case you highlighted, not returning home. I will ensure that our communications unit knows about that as soon as the session is concluded so that an arrangement can be made for those children. That is the dilemma that we have reached. Supplies have run out in some cases and we are trying to get connections together. I repeat your point about one of the pluses of this crisis—there have been dark sides and good sides— which is the co-operation and networking that has happened at the local level. There are real strengths there and I emphasise that, although they may not have been seen by many people and may not be getting much coverage in the media, there have been some exceptional operations going on. It is only right that I pay tribute to those people.

gyngor sydd yn ein hwynebu heddiw bod hyn wedi mynd yn rhy bell. Fel y gwyddoch, yn Rhondda Cynon Taf a lleoedd eraill nid yw'r plant yn mynd i'r ysgol ac, yn yr achos a amlygwyd gennych, nid ydynt yn dychwelyd adref. Byddaf yn sicrhau bod ein huned gyswllt yn gwybod am hyn cyn gynted ag y daw'r sesiwn i ben fel y gellir gwneud trefniadau ar gyfer y plant hynny. Dyna'r dilema sydd gennym. Mae cyflenwadau wedi dod i ben mewn rhai achosion ac yr ydym yn ceisio dod â'r cysylltiadau ynghyd. Ategaf eich pwynt ynglŷn ag un o fanteision yr argyfwng hwn—mae ochr dywyll ac ochr dda wedi bod iddo—sef y cydweithrediad a'r rhwydweithio sydd wedi digwydd ar y lefel leol. Mae cryfderau gwirioneddol yno a phwysleisiaf, er na welwyd hwy gan lawer o bobl ac er nad ydynt yn cael llawer o sylw yn y cyfryngau, fod rhai gweithrediadau eithriadol wedi digwydd. Mae'n deilwng y dylwn dalu teyrnged i'r bobl hynny.

Glyn Davies: I am also pleased that the protests are over. I thank you, Sue, for your measured and reasonable response to many of our questions. However, I am disappointed that you did not recognise the reasonable behaviour of groups such as the group of protestors to whom I have been talking and who are not far from this building. Do you share my concern about the non-engagement of the First Secretary with this issue? He did not want a debate. He did not want to answer questions from the podium, as you have done reasonably. He did not even want to discuss with the protestors how the emergency services could be helped, which they were keen to do. I find that hugely disappointing. When we are faced with the most serious issue that we have faced since the Assembly has been established, our First Secretary has been under the desk. Can you give us some idea of what he is actually here for?

Glyn Davies: Yr wyf finnau hefyd yn falch fod y protestiadau wedi dod i ben. Diolch i chi Sue, am eich ymateb pwyllog a rhesymol i lawer o'n cwestiynau. Fodd bynnag, yr wyf yn siomedig na wnaethoch gydnabod ymddygiad rhesymol grwpiau fel y grŵp o brotestwyr yr wyf wedi bod yn siarad â hwy nid nepell o'r adeilad hwn. A ydych yn rhannu fy mhryder na fu'r Prif Ysgrifennydd yn ymwneud â'r mater hwn? Nid oedd am gael dadl. Nid oedd am ateb cwestiynau o'r podiwm, fel yr ydych chi wedi gwneud mewn ffordd resymol. Nid oedd hyd yn oed am drafod gyda'r protestwyr sut y gellid helpu'r gwasanaethau brys, rhywbeth yr oeddent hwy yn awyddus i'w wneud. Mae hynny'n siom fawr i mi. A ninnau'n wynebu'r mater mwyaf difrifol yr ydym wedi ei wynebu ers i'r Cynulliad gael ei sefydlu, mae ein Prif Ysgrifennydd wedi bod o dan y ddesg. A allwch chi roi rhyw syniad i ni beth yn union yw ei ddiben yma?

12:50 p.m.

Sue Essex: I appreciate your first comment, but not your second. I am baffled, unless you want to say that you have got no confidence in me. I hope that I have convinced people over the last few days that it was appropriate for me to take the lead on this because this is a transport issue. It has been appropriate for

Sue Essex: Yr wyf yn gwerthfawrogi eich sylw cyntaf, ond nid yr ail un. Mae'n ddirgelwch i mi, onid ydych am ddweud nad oes gennych unrhyw hyder ynof. Gobeithio fy mod wedi argyhoeddi pobl dros yr ychydig ddyddiau diwethaf ei fod yn briodol i mi arwain ar y mater hwn gan ei fod yn

me to deal, as Rhodri has been doing himself, with Paul Murphy and David Hanson. It was appropriate for me to go to London twice yesterday to meet with Cabinet members. Government is not and never has been a one-person band. This is about a whole team of people working together. As I said to Pauline, teamwork is the lesson of all of this. We are dependent on people working together. Rhodri has played an important part. He has been at the communications unit. He has been on the telephone and has acted in many ways. It is extraordinary to say that any crisis or worry, whether that be in health, education or local government, has to be covered by the First Secretary. [*Interruption.*] If Members can be quiet, I will carry on.

ymwneud â thrafnidiaeth. Mae wedi bod yn briodol i mi ddelio, fel y gwnaeth Rhodri ei hun, â Paul Murphy a David Hanson. Yr oedd yn briodol i mi fynd i Lundain ddwywaith ddoe i gwrdd ag aelodau o'r Cabinet. Nid yw'r Llywodraeth yn fand un person ac ni fu erioed. Mae hyn yn ymwneud â thîm cyfan o bobl yn gweithio gyda'i gilydd. Fel y dywedais wrth Pauline, gwaith tîm yw'r wers yn hyn i gyd. Yr ydym yn ddibynnol ar bobl yn gweithio gyda'i gilydd. Mae Rhodri wedi chwarae rhan bwysig. Mae wedi bod yn yr uned gyswllt. Mae wedi bod ar y ffôn ac wedi gweithredu mewn sawl ffordd. Mae'n rhyfedd dweud bod yn rhaid i'r Prif Ysgrifennydd fod yn gyfrifol am unrhyw argyfwng neu ofid, boed hynny mewn iechyd, addysg neu lywodraeth leol. [*Torri ar draws.*] Os gall yr Aelodau fod yn dawel, fe barhaf.

In London, this is being dealt with by the Department of Trade and Industry and the Home Office, as they are the two appropriate departments. In Wales, the situation is being led by myself in close conjunction with Rhodri Morgan as First Secretary and with the Secretary of State for Wales.

Yn Llundain, mae'r Adran Masnach a Diwydiant a'r Swyddfa Gartref yn delio â hyn, gan mai dyma'r ddwy adran briodol. Yng Nghymru, arweinir y sefyllfa gennyf i fy hun mewn cydweithrediad agos â Rhodri Morgan fel y Prif Ysgrifennydd ac ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

The Deputy Presiding Officer: Order. I ask Members to please be courteous and listen when the Assembly Secretary is responding.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Gofynnaf i'r Aelodau fod yn gwrtais a gwrando wrth i'r Ysgrifennydd Cynulliad ymateb.

Jenny Randerson: I have two questions. First, the emphasis so far has rightly been on the emergency services. I emphasise the bad effect that this has had on industry and on industry employees, many of whom are only paid for the hours that they can work. I received a phone call yesterday from a representative of AB Automotor Electronics, which is located in your constituency but employs people from mine. The company was named 'exporter of the year' last year. Half of its production is exported and the company calculate that this month's profit will have been wiped out by what has happened this week. When this is over, will there be an audit or analysis of the damaging effects on industry? Will you pass on the question to the First Secretary if you cannot answer it now? When you go to Westminster again, Sue, will you press Gordon Brown to release the unexpected additional tax that he has taken as a result of the rise in the price of

Jenny Randerson: Mae gennyf ddau gwestiwn. Yn gyntaf, mae'r pwyslais yn gywir wedi bod ar y gwasanaethau brys. Pwysleisiaf yr effaith wael a gafodd hyn ar ddiwydiant ac ar weithwyr y diwydiant, y telir llawer ohonynt am yr oriau y gallant eu gweithio yn unig. Derbyniais alwad ffôn ddoe gan gynrychiolydd AB Automotor Electronics, a leolir yn eich etholaeth ond sydd yn cyflogi pobl o'm hetholaeth i. Dyfarnwyd y cwmni yn 'allforiwr y flwyddyn' y llynedd. Allforir hanner ei gynnyrch ac mae'r cwmni yn cyfrifo y bydd elw'r mis hwn wedi cael ei ddileu oherwydd yr hyn a ddigwyddodd yr wythnos hon. Pan ddaw hyn i ben, a fydd yna archwiliad neu ddadansoddiad o'r effeithiau andwyol ar ddiwydiant? A fyddwch yn trosglwyddo'r cwestiwn i'r Prif Ysgrifennydd os na allwch ei ateb yn awr? Pan ewch i San Steffan eto, Sue, a fyddwch yn pwyso ar Gordon Brown i ryddhau'r dreth ychwanegol annisgwyl y mae

crude oil? Will you press him to release a fair share of that money to Wales so that we can use it for decent public transport systems?

wedi ei chymryd o ganlyniad i'r cynnydd ym mhris olew crai? A fyddwch yn pwyso arno i ryddhau cyfran deg o'r arian hwnnw i Gymru fel y gallwn ddefnyddio'r arian ar gyfer systemau trafnidiaeth gyhoeddus boddhaol?

Sue Essex: You are right that we were starting to see severe impacts on industry. We have been informed through faxes and telephone calls that some firms had to close down. That is when the situation started to get out of hand and to impact on everybody, as we said it would do. An audit would be a sensible way to investigate how this has impacted upon people on the ground socially, economically—and environmentally in some cases. We will do that. One issue that has come to the forefront over the last few days is the reason for the whole system clogging up so quickly. What has become apparent—David Davies raised the point on Tuesday about how the distribution network now functions—is that there is little capacity in the system for storage. It works according to a 'just-in-time' concept, which may work financially when everything is hunky-dory but causes difficulties and could be potentially disastrous when things are not. The review must address how the distribution network functions, not only in relation to petrol but to food supplies. That, along with panic buying, is why the normal situation collapsed as quickly as it did. There is a big question mark hanging over the pattern of distribution. In the past, we would not have expected the implications and consequences of this to be so severe after just a few days. However, that is what happened. We need to consider the distribution pattern and logistics with our industrial partners to see whether greater capacity for storage could be built in.

Sue Essex: Yr ydych yn gywir wrth ddweud ein bod yn dechrau gweld effeithiau difrifol ar ddiwydiant. Fe'n hysbyswyd drwy ffacsys a galwadau ffôn fod rhai cwmnïau wedi gorfod cau. Dyna pryd y dechreuodd y sefyllfa fynd dros ben llestri ac effeithio ar bawb, fel y dywedasom y byddai. Byddai archwiliad yn ffordd synhwyrol o ymchwilio i'r modd y mae hyn wedi effeithio ar bobl yn gymdeithasol, yn economaidd—ac yn amgylcheddol mewn rhai achosion. Fe wnawn hynny. Un mater sydd wedi dod i'n sylw dros yr ychydig ddyddiau diwethaf yw'r rheswm pam bod y system gyfan wedi tagu mor gyflym. Yr hyn a ddaeth yn amlwg—cododd David Davies y pwynt ddydd Mawrth ynglŷn â sut y mae'r rhwydwaith dosbarthu yn awr yn gweithredu—yw nad oes llawer o le yn y system i storio. Mae'n gweithio yn unol â chysyniad 'mewn pryd', sydd yn gweithio'n ariannol efallai pan fydd popeth yn mynd yn dda ond sydd yn achosi anawsterau ac a allai fod yn drychinebus pan aiff rhywbeth o'i le. Rhaid i'r arolwg fynd i'r afael â'r modd y mae'r rhwydwaith dosbarthu yn gweithredu, nid yn unig mewn perthynas â phetrol ond â chyflenwadau bwyd. Dyna pam, ynghyd â'r prynu brys, y chwalodd y sefyllfa arferol mor gyflym ag y gwnaeth. Mae cwestiwn mawr ynglŷn â'r patrwm dosbarthu. Yn y gorffennnol, ni fyddem wedi disgwyl i oblygiadau a chanlyniadau hyn fod mor ddifrifol ar ôl ychydig ddyddiau yn unig. Fodd bynnag, dyna beth sydd wedi digwydd. Mae angen i ni ystyried y patrwm dosbarthu a'r logisteg gyda'n partneriaid diwydiannol er mwyn gweld a ellid creu mwy o le i storio.

Pwynt o Drefn
Point of Order

Ieuan Wyn Jones: Point of order. This arises from the conclusion of Sue's statement. I make it perfectly clear that I have no criticism of her role in informing the Assembly of unfolding events. However, I have serious questions about the First Secretary's role. His first duty is to inform

Ieuan Wyn Jones: Pwynt o drefn. Mae hyn yn codi o ddiwedd datganiad Sue. Hoffwn roi ar ddeall nad wyf yn beirniadu ei rôl hi wrth hysbysu'r Cynulliad o ddigwyddiadau sydd yn datblygu. Fodd bynnag, mae gennyf gwestiynau difrifol am rôl y Prif Ysgrifennydd. Ei ddyletswydd gyntaf yw

the Assembly of any action that he takes on this crisis. He has been prepared to appear in television and radio studios to tell the people of Wales what he is doing, but he has not been prepared to be questioned in the Assembly. He should have been prepared to answer certain questions about his role before we break for the next three weeks.

hysbysu'r Cynulliad o unrhyw gamau y mae'n eu cymryd mewn perthynas â'r argyfwng hwn. Mae wedi bod yn barod i ymddangos mewn stiwdios teledu a radio i ddweud wrth bobl Cymru beth mae'n ei wneud, ond nid yw wedi bod yn barod i gael ei holi yn y Cynulliad. Dylai fod wedi bod yn barod i ateb cwestiynau penodol am ei rôl cyn inni dorri am y tair wythnos nesaf.

The First Secretary stated clearly on television that he would be prepared to meet the protesters when the protests stopped. The people of Wales are entitled to hear the First Secretary, in their National Assembly, state when that meeting will take place.

Dywedodd y Prif Ysgrifennydd yn glir ar deledu y byddai'n barod i gwrdd â'r protestwyr pan fyddai'r protestiadau yn dod i ben. Mae gan bobl Cymru yr hawl i glywed y Prif Ysgrifennydd, yn eu Cynulliad Cenedlaethol, yn dweud pryd y cynhelir y cyfarfod hwnnw.

The Deputy Presiding Officer: I am grateful for that point and for Ieuan Wyn Jones's having given prior notice of it. However, the allocation of responsibility between Assembly Secretaries is a matter for the First Secretary. Now is not the time to address that.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf yn ddiolchgar am y pwynt hwnnw ac i Ieuan Wyn Jones am roi hysbysiad ymlaen llaw ohono. Fodd bynnag, mater i'r Prif Ysgrifennydd yw dyrannu cyfrifoldeb rhwng yr Ysgrifenyddion Cynulliad. Nid dyma'r amser i ymdrin â hynny.

Dadl Fer
Short Debate

Y Symud Amhriodol Tuag at Gywirdeb Gwleidyddol yn y Cynulliad
The Inappropriate Slide towards Political Correctness in the Assembly

David Davies: I am pleased to have the opportunity to express my grave concerns about one of the directions that the Assembly is taking, namely, its inappropriate slide towards political correctness. This is not meant to be flippant. I draw Members' attentions to the fact that different organisations and opinions are being treated inconsistently by this Assembly. That inconsistency depends on whether or not the aims and aspirations of organisations fit into a left-of-centre pattern of thought, which I refer to as political correctness. I am not trying to lay the blame for that at the door of any individual or party, but I sense the beginnings of an atmosphere that could be described as an institutionalised left-wing bias, which does not permit dissenting voices—

David Davies: Yr wyf yn falch o gael y cyfle i fynegi fy mhryderon difrifol am un o'r cyfeiriadau y mae'r Cynulliad yn ei gymryd, sef ei duedd amhriodol tuag at gywirdeb gwleidyddol. Nid bod yn wamal yw hyn. Tynnaf sylw'r Aelodau at y ffaith fod y Cynulliad yn trin sefydliadau a barnau gwahanol yn anghyson. Mae'r anghysondeb hwnnw yn dibynnu ar p'un a yw amcanion a dyheadau'r sefydliadau yn cydweddu â phatrwm meddwl i'r chwith o'r canol, y cyfeiriaf ato fel cywirdeb gwleidyddol. Nid wyf yn ceisio rhoi'r bai am hyn ar unrhyw unigolyn neu blaid, ond yr wyf yn amau bod awyrgylch yn dechrau y gellid ei ddisgrifio fel tuedd sefydliadol adain chwith, nad yw'n caniatáu lleisiau anghytûn—

Kirsty Williams: Nick Bourne is leaving. Even he is embarrassed now.

Kirsty Williams: Mae Nick Bourne yn gadael. Mae hyd yn oed ef yn teimlo'n

chwithig.

David Davies: We would all be grateful to see your leader here sometimes, perhaps to discuss the fuel crisis.

David Davies: Byddai pob un ohonom yn falch o weld eich arweinydd yma weithiau, efallai i drafod yr argyfwng tanwydd.

The Deputy Presiding Officer: Order. David Davies must be allowed to make his speech. I remind Members to keep their comments to the issue at hand.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Rhaid gadael i David Davies wneud ei araith. Hoffwn atgoffa'r Aelodau i gadw eu sylwadau ar y mater dan sylw.

David Davies: I will give you some examples. International Women's Day was held a few months ago. Not many people outside the Assembly knew about that day. I did not know. However, International Women's Day has a lovely left-wing feel to it, so the Assembly decided to support it. I felt that it was unnecessary and I mentioned it to some women who were involved—

David Davies: Rhoddaf rai enghreifftiau i chi. Cynhaliwyd Diwrnod Rhyngwladol y Merched ychydig fisoedd yn ôl. Nid oedd llawer o bobl y tu allan i'r Cynulliad yn gwybod am y diwrnod hwnnw. Nid oeddwn i'n gwybod. Fodd bynnag, mae ymdeimlad adain chwith hyfryd i Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched, felly penderfynodd y Cynulliad ei gefnogi. Teimlais nad oedd angen gwneud hyn a soniais am hyn wrth rai o'r merched a oedd yn gysylltiedig â'r diwrnod—

1.00 p.m.

Jenny Randerson: Are you aware that the Women's Institute celebrates International Women's Day?

Jenny Randerson: A ydych yn ymwybodol fod Sefydliad y Merched yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched?

David Davies: I do not think that the WI celebrates it in the same way as it was celebrated in the Assembly. On that day a small group of women came into this Chamber and were allowed to daub the place with garish banners and flags. We spent the whole afternoon debating a motion along the lines of 'this Assembly notes that it is International Women's Day'. We had all worked that out by then and I do not know why we had to spend the whole afternoon debating it. Many people were probably wondering why we were not discussing health, education, rising fuel taxes or any of the other matters that cause people concern. Far be it for me to cause problems. I let it pass at the time and put it from my mind. However, I was reminded of it a few weeks ago when the Merchant Navy Association made a request to fly a Red Ensign outside the Assembly on Merchant Navy Day. These men were willing to sacrifice everything for this country and were not asking for much in return. They did not ask if they could come into this Chamber and put Red Ensigns all

David Davies: Nid wyf yn credu bod Sefydliad y Merched yn ei ddathlu yn yr un modd ag y cafodd ei ddathlu yn y Cynulliad. Ar y diwrnod hwnnw daeth grŵp bach o ferched i mewn i'r Siambr hon a chaniatawyd iddynt roi baneri a fflagiau dichwaeth ar hyd y lle. Treuliwyd y prynhawn cyfan yn dadlau cynnig ar hyd y llinellau bod 'y Cynulliad hwn yn nodi ei bod yn Ddiwrnod Rhyngwladol y Merched'. Yr oedd pob un ohonom wedi gweithio hynny allan erbyn hynny ac nid wyf yn gwybod pam y bu'n rhaid i ni dreulio'r prynhawn cyfan yn ei drafod. Hwyrach fod llawer o bobl yn meddwl tybed pam nad oeddem yn trafod iechyd, addysg, trethi tanwydd cynyddol neu unrhyw un o'r materion eraill sydd yn achosi pryder i bobl. Nid fy lle i yw achosi problemau. Gadewais i'r mater fynd ar y pryd ac anghofiais amdano. Fodd bynnag, fe'm hatgoffwyd ohono ychydig wythnosau yn ôl pan wnaeth Cymdeithas y Llynges Fasnachol gais i chwifio Lluman Coch y tu allan i'r Cynulliad ar Ddiwrnod y Llynges Fasnachol. Yr oedd y dynion hyn yn fodlon aberthu

over the place and have us debate for the afternoon the sacrifice that they had made for this country although, if they had done so, it would have been a perfectly reasonable request. All they asked was to fly a flag from the flagpole outside this building on a day when there were no other flags flying anyway. That was all that they wanted. It was not much to ask.

popeth dros eu gwlad ac nid oeddent yn gofyn llawer am wneud hynny. Ni ofynasant a allent ddod i mewn i'r Siambr hon a rhoi Llumanau Coch ar hyd y lle a'n cael i gael dadl drwy'r prynhawn ar yr aberth a wnaethant dros y wlad hon er, pe baent wedi gwneud hynny, byddai wedi bod yn gais digon rhesymol. Y cyfan yr oeddent yn ei ofyn oedd cael chwifio baner o'r polyn baner y tu allan i'r adeilad hwn ar ddiwrnod pan nad oedd unrhyw faneri eraill yn chwifio beth bynnag. Dyna'r cyfan yr oeddent wedi gofyn amdano. Nid oedd yn ormod i'w ofyn.

Val Feld: Point of order. I fail to see what this has to do with political correctness. Will you intervene to keep David to the topic? I also ask you, as Deputy Presiding Officer, to clarify whether David intends to take interventions or whether he intends to allow Members from the other parties to speak, in which case his time must be allocated accordingly. I do not wish to miss my opportunity to respond to the fascinating issues that he is raising, but on the other hand, I do not wish to stop this fascinating flow.

Val Feld: Pwynt o drefn. Methaf â gweld beth sydd a wnelo hyn â chywirdeb gwleidyddol. A wnewch chi ymyrryd er mwyn cadw David ar y pwnc? Gofynnaf i chi hefyd, fel y Dirprwy Lywydd, egluro a yw David yn bwriadu cymryd ymyriadau neu a yw'n bwriadu caniatáu i Aelodau o'r pleidiau eraill siarad, ac os felly rhaid neilltuo ei amser ef yn unol â hynny. Nid wyf yn dymuno colli fy nghyfle i ymateb i'r materion hynod ddiddorol y mae'n eu codi, ond ar y llaw arall, nid wyf yn dymuno atal y llif hynod ddiddorol hwn.

David Davies: I will see to it that you get your opportunity, do not fear. The sooner you sit down and let me get on with it, the sooner you can make your intervention.

David Davies: Gwnaf yn siŵr y cewch eich cyfle, peidiwch â phoeni. Po gyntaf yr eisteddwch i lawr a gadael i mi barhau, po gyntaf y gallwch ymyrryd.

The Deputy Presiding Officer: I am sure that David will ensure that what he says pertains to the subject that he has chosen for the debate. In the rules of the short debate, any speakers that he allows will speak within his alloted time, which will be at an end by 1.10 p.m.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf yn siŵr y bydd David yn sicrhau bod yr hyn a ddywed yn ymwneud â'r pwnc y mae wedi ei ddewis ar gyfer y ddadl. Yn ôl rheolau'r ddadl fer, bydd unrhyw siaradwyr a ganiateir ganddo yn siarad o fewn ei amser penodedig, a ddaw i ben erbyn 1.10pm.

David Davies: I wish to clarify that I am happy to take interventions from Val Feld, Helen Mary Jones and Kirsty Williams and quick interventions from anyone else. I want to keep within the time frame so I would be grateful if Members could resist making pointless points of order.

David Davies: Yr wyf am egluro fy mod yn fodlon cymryd ymyriadau gan Val Feld, Helen Mary Jones a Kirsty Williams ac ymyriadau cyflym gan unrhyw un arall. Yr wyf am gadw o fewn y ffrâm amser felly byddwn yn ddiolchgar pe na bai'r Aelodau yn gwneud pwyntiau dibwrpas o drefn.

The Merchant Navy issue is relevant because the Assembly was treating two similar requests in different ways. One request was from the people celebrating International Women's Day. They were welcomed into this Chamber and were able to put up flags

Mae mater y Llynges Fasnachol yn berthnasol am fod y Cynulliad yn trin dau gais tebyg mewn ffyrdd gwahanol. Yr oedd un cais gan y bobl a oedd yn dathlu Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Fe'u croesawyd i mewn i'r Siambr hon a chawsant osod

and banners. The Merchant Navy Association simply asked to fly a flag from an empty flagpole and were refused. Why was one organisation treated in one way and another in another way? That is an inconsistency and a lurch towards political correctness that I regret greatly.

fflagiau a baneri. Yr unig beth a ofynnodd Cymdeithas y Llynges Fasnachol oedd cael caniatâd i chwifio baner o bolyn baner gwag ond gwrthodwyd y cais. Pam bod un sefydliad yn cael ei drin mewn un ffordd ac un arall mewn ffordd arall? Mae hyn yn anghyson ac yn gam sydyn tuag at gywirdeb gwleidyddol sydd yn ofid mawr i mi.

Lorraine Barrett *rose—*

Lorraine Barrett *a gododd—*

The Deputy Presiding Officer: Order. I remind Members that the normal rules of the short debate apply. Anybody who wants to speak can do so at the end of the speaker's contribution. It is important that we move on.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. A gaf fi atgoffa'r Aelodau fod rheolau arferol y ddadl fer yn berthnasol. Gall unrhyw un sydd am siarad wneud hynny ar ddiwedd cyfraniad y siaradwr. Mae'n bwysig ein bod yn symud ymlaen.

David Davies: I will move on because I am taking interventions and only have seven minutes left. I will give you another example of a matter that has caused me concern. A couple of months ago you may recall that I held an exhibition here relating to the law on Section 28. I appreciate that genuine views are held on all sides of that argument and I do not wish to address that now. However, it was shocking, and should concern everyone who believes in freedom of speech, that after that exhibition I became the first and only person to be dragged before the Assembly's Standards Committee charged, no less, with wasting a piece of A4 paper and a first class stamp when I invited the MP for Carmarthen to view the exhibition. Those ridiculous charges were dropped shortly afterwards. Privately, several members of the committee expressed their astonishment that the charges had ever been brought. I was less surprised because, even though those charges were quickly dismissed, the message that came across loud and clear was that if you challenge the general, left of centre views of the majority in the Assembly in any way, you should watch your back because at the slightest opportunity action will be taken against you that could end your career and tarnish your reputation.

David Davies: Symudaf ymlaen am fy mod yn cymryd ymyriadau a dim ond saith munud sydd gennyf yn weddill. Dyma enghraifft arall o fater sydd wedi peri pryder i mi. Ychydig fisoedd yn ôl efallai y cofiwch imi gynnal arddangosfa yma a oedd yn ymwneud â'r gyfraith ar Adran 28. Gwerthfawrogaf fod daliadau gwirioneddol ar ddwy ochr y ddadl honno ac nid wyf yn dymuno ymdrin â hynny yn awr. Fodd bynnag, yr oedd yn gywilyddus, a dylai ofidio pawb sy'n credu mewn rhyddid barn, fy mod i a fi yn unig, ar ôl yr arddangosfa honno, wedi cael fy llusgo gerbron Pwyllgor Safonau'r Cynulliad ar gyhuddiad o wastraffu darn o bapur A4 a stamp dosbarth cyntaf, a dim mwy, pan wahoddais yr AS dros Gaerfyrddin i'r arddangosfa. Gollyngwyd y cyhuddiadau gwirion hyn yn fuan wedyn. Yn breifat, mynegodd sawl aelod o'r pwyllgor eu syndod bod y cyhuddiadau wedi eu dwyn yn fy erbyn yn y lle cyntaf. Nid oeddwn i'n synnu gymaint oherwydd, er i'r cyhuddiadau hynny gael eu gollwng yn gyflym, y neges a gyflewyd yn uchel ac yn glir oedd, os byddwch yn herio safbwyntiau cyffredinol, i'r chwith o'r canol, y mwyafrif yn y Cynulliad mewn unrhyw ffordd, y dylech wylio eich cefn oherwydd ar y cyfle lleiaf caiff camau eu cymryd yn eich erbyn a allai roi terfyn ar eich gyrfa a maeddu eich enw da.

Another example of a contrasting approach was when a group called Cymru-Cuba was allowed to set up its stall in the milling area and hand out libellous leaflets, which

Enghraifft arall o ymagwedd gyferbyniol oedd pan ganiatawyd i grŵp o'r enw Cymru-Cuba osod ei stondin yn yr ardal ymgynnull a dosbarthu taflenni enllibus, a oedd yn

hysterically accused American and British politicians, not to mention an alcoholic drinks company, of 'murder against the Cuban people'. These hysterical claims were complemented by a spokesman who told passing members of the public, including school children, that Fidel Castro was a democratic leader. Like everyone else, he is entitled to his views even if his idea of democracy is on a par with that of the National Front. However, such extremist groups should not be in the milling area. If they are found there they should be removed by security at once and an investigation launched into who invited them. I suspect that there is little chance of that happening.

cyhuddo gwleidyddion America a Phrydain, heb sôn am gwmni diodydd alcohol, mewn modd hysteraidd, o 'lofruddiaeth yn erbyn pobl Cuba'. Ategwyd yr honiadau hysteraidd hyn gan lefarydd a ddywedodd wrth aelodau o'r cyhoedd a oedd yn mynd heibio, gan gynnwys plant ysgol, fod Fidel Castro yn arweinydd democratig. Fel pob un arall, mae ganddo hawl i'w farn hyd yn oed os yw ei syniad ef o ddemocratiaeth yr un peth ag un y Ffrynt Cenedlaethol. Fodd bynnag, ni ddylai grwpiau mor eithafol fod yn yr ardal ymgynnull. Os canfyddir hwy yno dylai'r swyddogion diogelwch eu symud ar unwaith a dylid cynnal ymchwiliad i ganfod gan bwy y cawsant wahoddiad. Yr wyf yn amau nad oes fawr ddim posibilrwydd y bydd hynny'n digwydd.

Where is all this leading us? We have an Assembly that was hardly given a ringing endorsement by the people of Wales, and what are we best known for? We are best known for calling for family-friendly hours, finishing at 5:30 p.m. even though the National Assembly for Wales Advisory Group's own guidelines mentions 6 p.m. We do not even start until 2 p.m. or at least we did not until this new timetable was introduced. Two o'clock until 5:30 p.m. two days a week. Are those the hours that people feel that their Assembly Members should be doing?

Ble mae hyn i gyd yn ein harwain? Prin fod gennym Gynulliad a gafodd gefnogaeth ddiasbedol gan bobl Cymru, ac am beth yr ydym yn fwyaf adnabyddus? Yr ydym yn fwyaf adnabyddus am alw am oriau sydd yn gyfeillgar i'r teulu, gan orffen am 5.30 p.m. er bod canllawiau Grŵp Ymgynghorol Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu hunain yn sôn am 6 p.m. Nid ydym hyd yn oed yn dechrau tan 2 p.m. neu o leiaf nid oeddem nes i'r amserlen newydd hon gael ei chyflwyno. Dau o'r gloch tan 5.30 p.m. ddau ddiwrnod yr wythnos. Ai dyna'r oriau y dylai Aelodau'r Cynulliad fod yn eu gwneud ym marn y bobl?

As you know, I was against the establishment of the Welsh Assembly, but the idea of it was to give Wales a voice. I have tried to give my constituents a voice and to work constructively with a body that I did not want. However, day after day, what we see in the Assembly goes against the views of the majority of people in Wales. I tell Members who disagree with me to go out into the streets and into the pubs and talk to people. You will not hear many people calling for family-friendly hours, supporting International Women's Day or expressing support for Fidel Castro. You will hear many people who are worried about Section 28 and who think that the decision not to allow the Red Ensign to fly outside the Assembly was a disgrace. Those are the views of the majority, whom we are meant to be representing and giving a voice. If this

Fel y gwyddoch, yr oeddwn yn erbyn sefydlu'r Cynulliad Cenedlaethol, ond ei fwriad oedd rhoi llais i Gymru. Yr wyf wedi ceisio rhoi llais i'm hetholwyr a gweithio'n adeiladol gyda chorff nad oeddwn yn dymuno iddo fodoli. Fodd bynnag, ddydd ar ôl dydd, mae'r hyn a welwn yn y Cynulliad yn mynd yn groes i farn mwyafrif y bobl yng Nghymru. Dywedaf wrth yr Aelodau sydd yn anghytuno â mi i fynd allan i'r strydoedd ac i mewn i'r tafarndai i siarad â phobl. Ni chlywch lawer o bobl yn galw am oriau sydd yn gyfeillgar i'r teulu, sydd yn cefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Merched neu'n mynegi cefnogaeth i Fidel Castro. Fe glywch lawer o bobl sydd yn gofidio am Adran 28 ac sydd yn credu bod y penderfyniad i beidio â gadael i'r Lluman Coch chwifio y tu allan i'r Cynulliad yn gywilyddus. Dyna yw barn y mwyafrif, yr ydym i fod i'w cynrychioli a

Assembly does not begin to listen to people and to allow views to be expressed, which do not necessarily fit in with the comfortable intellectual left-wing ideals of so many of its Members, it has no chance of success.

rhoi llais iddynt. Os na fydd y Cynulliad hwn yn dechrau gwrando ar bobl a chaniatáu i safbwyntiau gael eu mynegi, nad ydynt o reidrwydd yn cydweddu â delfrydau cyffyrddus deallusol adain chwith gymaint o'i Aelodau, nid oes ganddo unrhyw obaith o lwyddo.

Helen Mary Jones: In the interest of good manners I thank David for allowing me to participate. I understand his disappointment and frustration that the majority of Members in this Assembly have left of centre views but I suggest that he take that up with the people of Wales because it is a matter for them.

Helen Mary Jones: Er budd cwrteisi, diolchaf i David am ganiatáu i mi gyfranogi. Deallaf ei siomedigaeth a'i rwystredigaeth fod gan y mwyafrif o Aelodau'r Cynulliad hwn farn o'r chwith i'r canol ond awgrymaf ei fod yn codi'r mater hwnnw gyda phobl Cymru gan mai mater iddynt hwy ydyw.

I will refer to political correctness as it is more generally understood. My mother was a lady of the old school and had a good definition of political correctness. She used to say that it was a matter of good manners, about not excluding people, not being discourteous, not using language that others find offensive and not calling people by names that upset them. That is how we attempt to conduct business in the Assembly. Further to David's comments about what people are concerned about, I think that if David went out and spoke to women, he would find that they are very concerned about sensible working hours. If he asked women all over Europe whether or not they thought supporting International Women's Day is important, he would probably find that they did think so.

Cyfeiriaf at gywirdeb gwleidyddol fel y'i deellir yn fwy cyffredinol. Yr oedd fy mam yn wraig o'r hen frîd ac yr oedd ganddi ddiffiniad da o gywirdeb gwleidyddol. Arferai ddweud mai mater o foesau da ydoedd, o beidio ag eithrio pobl, o beidio â bod yn anghwrtais, o beidio â defnyddio iaith a fyddai'n dramgwyddus i eraill ac o beidio â galw enwau ar bobl a fyddai'n eu cynhyrfu. Dyna sut yr ydym yn ceisio cynnal busnes yn y Cynulliad. Ymhellach at sylwadau David am yr hyn sydd yn gofidio pobl, yr wyf o'r farn y byddai David, pe bai yn mynd allan ac yn siarad â merched, yn canfod eu bod yn gofidio llawer am oriau gwaith synhwyrol. Pe bai'n gofyn i ferched ar hyd a lled Ewrop a ydynt yn credu bod cefnogi Diwrnod Rhyngwladol y Merched yn bwysig ai peidio, byddai fwy na thebyg yn canfod eu bod yn credu hynny.

When NAAG's report was consulted upon, there was huge support for what David calls political correctness. I suggest, therefore, that he and his right-wing colleagues are out of touch with the people of Wales, not those of us who advocate those values.

Pan drafodwyd adroddiad NAAG, yr oedd llawer iawn o gefnogaeth i'r hyn y mae David yn ei alw yn gywirdeb gwleidyddol. Awgrymaf, felly, mai ef a'i gyd-Aelodau adain dde sydd wedi colli gafael ar safbwyntiau pobl Cymru, ac nid y rhai hynny ohonom sydd o blaid y gwerthoedd hynny.

I bring us back to my mother. She was a kind and courteous lady and she would have had a view about David Davies. She would have thought that he would probably be a very nice young man when he grew up.

Dof â ni yn ôl at fy mam. Yr oedd yn wraig garedig a chwrtais a byddai wedi arddel barn bendant am David Davies. Byddai wedi meddwl y byddai'n siŵr o fod yn ddyn ifanc dymunol iawn ar ôl iddo dyfu i fyny.

Val Feld: I find it sad, David, that you find so much enjoyment in offending people. It raises questions about your approach to politics. That might sound like a very

Val Feld: Mae'n peri tristwch i mi, David, eich bod yn cael gymaint o fwynhad wrth dramgwyddo pobl. Mae'n codi cwestiynau am eich ymagwedd tuag at wleidyddiaeth.

personal comment, but I must be clear and frank about this. I have been listening to you and thinking about what you are trying to say. You have thought about political correctness, which is the title for your debate, but what you said was not about what one understands to be political correctness, which is a term that I abhor because I think that it is meaningless. However, in some ways, you addressed the correction of the political environment of Wales.

Efallai bod hynny'n ymddangos yn sylw personol iawn, ond rhaid i mi fod yn glir ac yn agored am hyn. Yr wyf wedi bod yn gwrando arnoch ac yn meddwl am yr hyn yr ydych yn ceisio ei ddweud. Yr ydych wedi meddwl am gywirdeb gwleidyddol, sef teitl eich dadl, ond nid oedd yr hyn a ddywedasoch yn ymwneud â chywirdeb gwleidyddol, fel y deallaf, sydd yn derm yr wyf yn ei gasáu am ei fod yn ddiystyr yn fy marn i. Fodd bynnag, mewn rhai ffyrdd, gwnaethoch roi sylw i gywirdeb amgylchedd gwleidyddol Cymru.

1:10 p.m.

Helen Mary was right. Finally the views of the people of Wales are being expressed in the political forum. I understand that that must be hard for your party, the views and aspirations of which dominated the people of Wales for many years. That is no longer the case because devolution has changed that. The people of Wales are largely progressive, and individual Welsh Conservative group members are also progressive, except one or two who seem to find it difficult to accept that progressiveness.

Yr oedd Helen Mary yn iawn. O'r diwedd, mae safbwyntiau pobl Cymru yn cael eu mynegi yn y fforwm gwleidyddol. Deallaf fod hynny'n siŵr o fod yn anodd i'ch plaid chi, y llywodraethodd ei safbwyntiau a'i ddyheadau ar bobl Cymru am gymaint o flynyddoedd. Nid yw hyn yn wir bellach am fod datganoli wedi newid hynny. Mae pobl Cymru ar y cyfan yn flaengar, ac mae aelodau unigol o grŵp Ceidwadwyr Cymru hefyd yn flaengar, ar wahân i un neu ddau sydd yn cael anhawster derbyn y blaengaredd hwnnw.

Over the months that we have worked together on many committees, my comrade Alun Cairns has become a new man and is greatly supportive of the Assembly's developing agendas that are about real people. They are about the fact that Wales's population comprised 50 per cent men and 50 per cent women and that black and disabled people are living in our midst. A range of different people live in Wales and we are addressing their needs. The membership of the Assembly almost represents that range of people, except that there are no black people here, which is a great disappointment. However, we are tackling that.

Dros y misoedd yr ydym wedi gweithio gyda'n gilydd ar lawer o bwyllgorau, mae fy nghymrawd Alun Cairns wedi dod yn ddyn newydd gan gefnogi agendâu datblygol y Cynulliad sydd yn ymwneud â phobl go iawn yn fawr iawn. Mae'r agendâu hyn yn ymwneud â'r ffaith bod poblogaeth Cymru yn cynnwys 50 y cant o ddynion a 50 y cant o ferched a bod pobl groenddu ac anabl yn byw yn ein plith. Mae ystod o bobl wahanol yn byw yng Nghymru ac yr ydym yn ymdrin â'u hanghenion. Mae aelodaeth y Cynulliad bron yn cynrychioli'r ystod honno o bobl, heblaw nad oes unrhyw bobl groenddu yma, sydd yn siom fawr. Fodd bynnag, yr ydym yn mynd i'r afael â hynny.

Alun Cairns and Glyn Davies understand those issues. However, the culture of your group stems from the fact that you are a bunch of white men and have a macho culture that requires you to debunk our new kind of democracy all the time instead of participating in this great adventure that tries to engage people and address them. We would love to have David on board for that.

Mae Alun Cairns a Glyn Davies yn deall y materion hynny. Fodd bynnag, mae diwylliant eich grŵp yn tarddu o'r ffaith mai grŵp o ddynion gwyn ydych ac mae gennych ddiwylliant gwrol 'macho' sydd yn golygu bod yn rhaid i chi danseilio bri ein math newydd o ddemocratiaeth drwy'r amser yn lle cymryd rhan yn yr antur fawr hon sydd yn ceisio ennyn diddordeb pobl ac ymdrin â'u

hanghenion. Byddem wrth ein bodd pe bai David yn ymuno â ni yn y fenter hon.

Kirsty Williams: I remind David that there is a Protocol on Conduct in this Assembly, which we all agree to follow and which is intended to ensure that we treat each other—sometimes—and Assembly visitors, with respect and courtesy. We are politically correct in the Assembly in that we do not refer to people as 'queers', 'spastics' or 'Yids'. I hope that even David Davies agrees that that is a good and proper thing. I agree that political correctness can go too far but there is no real evidence in your speech or in this Assembly that that has been the case.

Kirsty Williams: Hoffwn atgoffa David fod yna Brotocol ar Ymddygiad yn y Cynulliad hwn, y mae pob un ohonom yn cytuno i'w ddilyn ac a fwriadwyd er mwyn sicrhau bod pob un ohonom yn trin ein gilydd—weithiau—ac ymwelwyr â'r Cynulliad, gyda pharch a chwrteisi. Yr ydym yn wleidyddol gywir yn y Cynulliad yn yr ystyr nad ydym yn cyfeirio at bobl fel 'queers', 'spastics' neu 'Yids'. Gobeithiaf bod hyd yn oed David Davies yn cytuno bod hynny'n beth da a phriodol. Yr wyf yn cytuno y gall cywirdeb gwleidyddol fynd yn rhy bell ond nid oes unrhyw dystiolaeth wirioneddol yn eich araith nac yn y Cynulliad hwn fod hyn wedi digwydd.

In your speech, you said that you were concerned about the fact that the Assembly discusses issues that are of little importance to the people of Wales. I wonder what the good people of Monmouth would have thought of your choice today following the rare opportunity that you have been given to choose a topic for debate. Perhaps you could have talked about the lack of transport links between Monmouth and Newport or job losses in Llanwern steelworks. Perhaps you could have talked about the threat to your council tax payers and the lack of primary school teachers in the county that you supposedly represent. As Val said, the topic of your debate today can be explained by the fact that you are a member of a group that consists of white, middle-aged, middle-class men.

Yn eich araith, dywedasoch eich bod yn gofidio am y ffaith bod y Cynulliad yn trafod materion nad ydynt o bwys mawr i bobl Cymru. Tybed beth fyddai barn pobl dda Mynwy wedi bod am eich dewis heddiw yn dilyn y cyfle prin a gawsoch i ddewis pwnc dadl. Efallai y gallech fod wedi siarad am y diffyg cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Trefynwy a Chasnewydd neu'r swyddi a gollwyd yng ngwaith dur Llanwern. Efallai y gallech fod wedi siarad am y bygythiad i'ch talwyr treth gyngor a'r prinder athrawon cynradd yn y sir yr ydych yn ôl pob sôn yn ei chynrychioli. Fel y dywedodd Val, gellir egluro pwnc eich dadl heddiw drwy'r ffaith eich bod yn aelod o grŵp sydd yn cynnwys dynion gwyn, canol oed, dosbarth canol.

David Davies: Apart from the fact that Llanwern is not in my constituency, all of those issues have already been addressed in the Assembly. Doubtless, had I addressed one of them, Kirsty would have stood up and asked me why I was addressing it when I had done so previously. Political correctness in the Assembly has not been addressed before and is worth addressing. It relates to freedom of speech and giving Wales a voice, which is what you all say that you want to do. That is why I raised this topic today.

David Davies: Ar wahân i'r ffaith nad yw Llanwern yn fy etholaeth, ymdriniwyd â phob un o'r materion hynny eisoes yn y Cynulliad. Yn ddiau, pe bawn wedi ymdrin ag un ohonynt, byddai Kirsty wedi sefyll a gofyn pam yr oeddwn yn ymdrin ag ef a minnau wedi gwneud hynny'n flaenorol. Nid ymdriniwyd â chywirdeb gwleidyddol yn y Cynulliad o'r blaen ac mae'n werth ymdrin ag ef. Mae'n ymwneud â rhyddid barn a rhoi llais i Gymru, sef yr hyn y mae pob un ohonoch yn dweud eich bod am ei wneud. Dyna pam yr wyf wedi codi'r pwnc hwn heddiw.

The Business Secretary (Andrew Davies): When David talks about 'an inappropriate slide towards political correctness', I am tempted to ask him what he considers an appropriate one. I am not sure whether I prefer David in flippant or serious mode. I note that his party's spokesperson on equality of opportunity left immediately David got to his feet. He wanted to save himself from being embarrassed by what David would say.

I have often thought that the Welsh Tory group is like *Dad's Army*. Unfortunately Captain Mainwaring has left, but I am afraid that we still have to listen to Private Pike.

I had discussions with the First Secretary on the issue of the Merchant Navy Association when we were at the Joint Ministerial Committee in Edinburgh. We decided that the Government would fly the Merchant Navy Association flag over the Government building in Cathays. That is what we did. As an Assembly Member, I attended a service in St Mary's Church in Swansea when the Association's new banner was unfurled. I was proud to be there. My father fought for five years in the far east so I do not need any lectures on patriotism from David.

Lorraine Barrett: I thank Andrew for his comments about merchant seamen. As someone who worked for many years with the late and great Bill Henke, who ran the Merchant Seamen's Association in Cardiff, I would like to put on record that I think every Assembly Member in this building was disappointed that the flag was not flown. Some of us have approached the First Secretary and the Presiding Officer to look at how this could be rectified for the commemorative days of other organisations. I am grateful to you for your comments on that. It was inappropriate and sad that David linked it to the International Women's Day celebrations. Many of the issues discussed during that day related to violence against women, particularly in the home, and raised awareness and funds for causes such as Women's Aid and women's refuges in Wales. It is sad that he took this opportunity to cloud the issue.

Y Trefnydd (Andrew Davies): Pan fydd David yn siarad am 'symud amhriodol tuag at gywirdeb gwleidyddol', caf fy nhemtio i ofyn iddo beth yw un priodol yn ei farn ef. Nid wyf yn siŵr a yw'n well gennyf David pan fo'n gwamalu neu pan fo'n ddifrifol. Nodaf fod llefarydd ei blaid ar gyfle cyfartal wedi gadael yr eiliad y cododd David ar ei draed. Nid oedd am i'r hyn y byddai David yn ei ddweud godi cywilydd arno.

Yr wyf yn aml wedi meddwl bod grŵp Ceidwadwyr Cymru yn debyg i *Dad's Army*. Yn anffodus, mae Capten Mainwaring wedi gadael, ond mae arnaf i ofn bod yn rhaid inni wrando ar Breifat Pike o hyd.

Cefais drafodaethau gyda'r Prif Ysgrifennydd ar fater Cymdeithas y Llynges Fasnachol pan oeddem yn y Cyd-Bwyllgor Gweinidogaethol yng Nghaeredin. Penderfynasom y byddai'r Llywodraeth yn chwifio baner Cymdeithas y Llynges Fasnachol dros adeilad y Llywodraeth yn Cathays. Dyna beth a wnaethom. Fel Aelod Cynulliad, mynychais wasanaeth yn Eglwys y Santes Fair yn Abertawe pan arddangoswyd baner newydd y Gymdeithas. Yr oeddwn yn falch o fod yn bresennol. Ymladdodd fy nhad am bum mlynedd yn y dwyrain pell felly nid oes angen unrhyw ddarlithoedd ar wladgarwch arnaf gan David.

Lorraine Barrett: Diolch i Andrew am ei sylwadau ar fasnachlongwyr. Fel rhywun a weithiodd am lawer o flynyddoedd gyda'r diweddar Bill Henke, dyn gwirioneddol fawr a oedd yn gyfrifol am Gymdeithas y Masnachlongwyr yng Nghaerdydd, hoffwn gofnodi fod pob Aelod Cynulliad yn yr adeilad hwn yn siomedig na chwifiwyd y faner. Mae rhai ohonom wedi cysylltu â'r Prif Ysgrifennydd a'r Llywydd i weld sut y gellid unioni'r cam hwn ar gyfer dyddiau coffa sefydliadau eraill. Yr wyf yn ddiolchgar i chi am eich sylwadau ar hynny. Yr oedd yn amhriodol ac yn drist bod David wedi cysylltu hyn â dathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Yr oedd llawer o'r materion a drafodwyd yn ystod y dydd yn ymwneud â thrais yn erbyn merched, yn arbennig yn y cartref, a chodwyd ymwybyddiaeth ac arian at achosion megis Cymorth i Fenywod a llochesi merched yng Nghymru. Mae'n drist ei fod wedi manteisio

ar y cyfle hwn i gymylu'r mater.

Andrew Davies: Unfortunately, David seems to be rapidly losing his Conservative colleagues. As Jenny will know, the Conservative Business Manager agreed to us tabling and having the debate in Business Committee. There was all-party agreement. At this rate, David will be on his own by the end of this debate.

Andrew Davies: Yn anffodus, ymddengys fod David yn colli ei gyd-Geidwadwyr yn gyflym. Fel y gŵyr Jenny, cytunodd y Rheolwr Busnes Ceidwadol y gallem gyflwyno a chynnal y ddadl yn y Pwyllgor Busnes. Cytunodd bob plaid i hyn. Os aiff ymlaen fel hyn, bydd David ar ei ben ei hun erbyn diwedd y ddadl hon.

We can be fairly confident that the inspiration for this short debate was the rather unsuccessful soundbite of David's leader, William Hague. He declared in May this year that we needed more PCs and less PC. As a slogan, it failed to capture the popular imagination. That is true of a lot of what William Hague does. I suspected that William Hague wanted more personal computers. Others believed that he was urging the building of more public conveniences. I am told that Ieuan Wyn Jones was momentarily under the impression that it meant that Mr Hague wanted more Plaid Cymru Assembly Members and Members of Parliament.

Gallwn fod yn eithaf hyderus mai'r ysbrydoliaeth am y ddadl fer hon oedd datganiad bachog braidd yn aflwyddiannus arweinydd David, sef William Hague. Datganodd ym mis Mai eleni fod angen rhagor o PCs arnom a llai o PC. Fel slogan, methodd â thanio dychymyg y bobl. Mae hynny'n wir am lawer o'r hyn a wna William Hague. Yr oeddwn yn amau bod ar William Hague angen rhagor o gyfrifiaduron personol. Yr oedd eraill yn credu ei fod yn annog adeiladu rhagor o doiledau cyhoeddus. Dywedwyd wrthyf bod Ieuan Wyn Jones am eiliad o dan yr argraff ei fod yn golygu bod angen rhagor o Aelodau Plaid Cymru yn y Cynulliad a rhagor o Aelodau Plaid Cymru yn y Senedd.

It is easy to make fun of what is called political correctness. In fact, it is not a left-wing term. The term was invented in the United States by right-wing politicians and the media to attack attitudes of tolerance. That is its origin. It is not a left-wing phrase at all. It is the raw material of every would-be, saloon-bar Tory comedian, as we have just witnessed. The truth is that the origin of political correctness lies in respect for the feelings of others, as colleagues have already said. The way we treat others is often reflected in the language that we use about them. As Kirsty rightly said, 20 or 30 years ago and in some cases, more recently, people would refer to 'cripples' and 'sbastics'. Those who object to so-called political correctness will ingenuously ask what was wrong with that. They would say that they were merely using descriptive terms for recognised physical conditions. However, everyone in this Chamber, and anyone who remembers his or her childhood and the rough and tumble of the school playground, will know that they were also cruel terms of abuse. As part of that cruel language of insult

Mae'n hawdd gwneud hwyl am ben yr hyn a elwir yn gywirdeb gwleidyddol. Mewn gwirionedd, nid term adain chwith mohono. Bathwyd y term yn yr Unol Daleithiau gan wleidyddion adain dde a'r cyfryngau i feirniadu agweddau goddefgarwch. Dyna yw ei darddiad. Nid ymadrodd adain chwith ydyw o gwbl. Mae'n ddeunydd crai pob darpar gomedïwr Ceidwadol, bar salŵn, fel yr ydym newydd dystio iddo. Y gwir yw bod tarddiad cywirdeb gwleidyddol wedi'i wreiddio mewn parch am deimladau eraill, fel y mae cyd-Aelodau eisoes wedi ei ddweud. Yn aml, adlewyrchir y modd yr ydym yn trin eraill yn yr iaith a ddefnyddiwn amdanynt. Fel y dywedodd Kirsty, 20 neu 30 mlynedd yn ôl ac mewn rhai achosion, yn fwy diweddar, byddai pobl yn cyfeirio at 'cripples' a 'sbastics'. Bydd y rheini sydd yn gwrthwynebu cywirdeb gwleidyddol fel y'i gelwir yn gofyn yn ddidwyll beth oedd o'i le ar hynny. Byddent yn dweud mai defnyddio termau disgrifiadol yr oeddent yn unig ar gyfer afiechydon corfforol cydnabyddedig. Fodd bynnag, bydd pawb yn y Siambr hon, ac unrhyw un sydd yn cofio ei blentyndod ef

and abuse, they undermined the dignity and self-esteem of disabled people who suffered from those conditions. As Helen Mary Jones pointed out recently during the debate on asylum seekers, some Members have used racist language in this Chamber. I will not embarrass them by pointing them out.

neu ei phlentyndod hi a sgarmesoedd iard chwarae'r ysgol, yn gwybod eu bod yn eiriau o sarhad creulon hefyd. Fel rhan o'r iaith greulon honno o sarhad ac anfri, yr oeddent yn tanseilio urddas a hunanbarch pobl anabl a oedd yn dioddef o'r cyflyrau hynny. Fel y dywedodd Helen Mary Jones yn ddiweddar yn ystod y ddadl ar geiswyr lloches, mae rhai Aelodau wedi defnyddio iaith hiliol yn y Siambr hon. Nid wyf am godi cywilydd arnynt drwy eu henwi.

David Davies: I do not believe that it has been proven that any Member has ever used racist language. I would like you to name anyone whom you feel has done so. I was accused of doing so on one occasion but the Presiding Officer stated categorically that I had not.

David Davies: Nid wyf yn credu y profwyd erioed bod unrhyw Aelod wedi defnyddio iaith hiliol. Hoffwn i chi enwi unrhyw un sydd wedi gwneud hyn yn eich barn chi. Cefais fy nghyhuddo o wneud hynny ar un achlysur ond dywedodd y Llywydd yn bendant nad oeddwn wedi gwneud hynny.

Andrew Davies: I do not want to embarrass the Member. The Member was not in your party group. However, the Presiding Officer did call the individual to order and the individual apologised.

Andrew Davies: Nid wyf am godi cywilydd ar yr Aelod. Nid oedd yr Aelod yn eich plaid chi. Fodd bynnag, galwodd y Llywydd yr unigolyn i drefn ac ymddiheurodd yr unigolyn.

We have come a long way since then. The language that we use when we refer to disabling physical or mental conditions is generally respectful of the dignity of those people. If that is political correctness, I am proud to be guilty of it.

Yr ydym wedi datblygu llawer ers hynny. Yn gyffredinol, mae'r iaith a ddefnyddiwn wrth gyfeirio at afiechydon sydd yn anablu'n gorfforol neu afiechydon y meddwl yn parchu urddas y bobl hynny. Os mai dyna yw cywirdeb gwleidyddol, yr wyf yn falch o fod yn euog ohono.

1:20 p.m.

Alun Cairns: I thank the Business Secretary for his comments. I would be surprised if anybody were to disagree with your points about fascist-type language about disabled people and so on. However, do you agree that it is the obsession of some Assembly Members or individuals with political correctness that riles the vast majority of people? On a few occasions I have used the phrase 'businessmen'—

Alun Cairns: Diolchaf i'r Trefnydd am ei sylwadau. Byddwn yn synnu pe bai unrhyw un yn anghytuno â'ch pwyntiau am ddefnyddio iaith ffasgaidd ei natur wrth ddisgrifio pobl anabl ac yn y blaen. Fodd bynnag, a ydych yn cytuno mai obsesiwn rhai Aelodau o'r Cynulliad neu unigolion â chywirdeb gwleidyddol sydd yn cythruddo'r mwyafrif helaeth o bobl? Ar rai achlysuron yr wyf wedi defnyddio'r ymadrodd 'dynion busnes'—

Val Feld: More than a few occasions.

Val Feld: Ar fwy nag un achlysur.

Alun Cairns: I believe that 'businessmen' is a generic phrase in the National Assembly. I have been corrected on its use. People's obsession with political correctness is detracting from the debate. I used the phrase 'businessmen' in a debate on an economic

Alun Cairns: Credaf fod 'dynion busnes' yn ymadrodd generig yn y Cynulliad Cenedlaethol. Yr wyf wedi cael fy nghywiro ar ei ddefnydd. Mae obsesiwn pobl â chywirdeb gwleidyddol yn tynnu oddi ar y ddadl. Defnyddiais yr ymadrodd 'dynion

development issue, probably Objective 1. Val Feld has corrected me now and said that I have used it on a number of occasions. It is a generic phrase and the general public understands that. When people detract from the debate by making interventions to correct me and say that I should use the term 'business people', that annoys the vast majority of people who would stand by many of your comments.

busnes' mewn dadl ar fater datblygu economaidd, Amcan 1 mae'n siŵr. Mae Val Feld wedi fy nghywiro yn awr ac wedi dweud fy mod wedi ei ddefnyddio ar sawl achlysur. Mae'n ymadrodd generig ac mae'r cyhoedd yn deall hynny. Pan fydd pobl yn tynnu oddi ar y ddadl drwy wneud ymyriadau i'm cywiro ac yn dweud y dylwn ddefnyddio'r term 'pobl fusnes', mae hynny'n cythruddo'r mwyafrif helaeth o bobl a fyddai'n cytuno â llawer o'ch sylwadau.

Andrew Davies: There is a difference in perception here. What you call our 'obsession' is our commitment to tackling inequalities and the abuse of language and of other people. I disagree with you. Until we have won that battle, we will raise these issues over and over again. In this country, we have race relations legislation as well as legislation outlawing sex discrimination. Those Acts serve to regulate behaviour. Ultimately, by regulating behaviour, we may see a change in attitudes. It takes a long time but you have to legislate and show your commitment to enforcing that legislation. However, we must not assume that legislation in itself is enough. I quote here from the Macpherson report into the murder of Stephen Lawrence.

Andrew Davies: Mae gwahaniaeth mewn amgyffred yma. Ein hobsesiwn, fel y'i galwch, yw ein hymrwymiad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a chamddefnyddio iaith a phobl eraill. Anghytunaf â chi. Hyd nes y byddwn wedi ennill y frwydr honno, byddwn yn codi'r materion hyn drosodd a throsodd. Yn y wlad hon, mae gennym ddeddfwriaeth cysylltiadau hiliol yn ogystal â deddfwriaeth sydd yn gwahardd gwahaniaethu ar sail rhyw. Mae'r Deddfau hynny yn gwasanaethu i reoleiddio ymddygiad. Yn y pen draw, drwy reoleiddio ymddygiad, efallai y gwelwn newid mewn agweddau. Mae'n cymryd amser hir ond rhaid i chi ddeddfu a dangos eich ymrwymiad i orfodi'r ddeddfwriaeth honno. Fodd bynnag, rhaid i ni beidio â chymryd yn ganiataol bod deddfwriaeth ynddi ei hun yn ddigon. Dyfynnaf yma o adroddiad Macpherson i lofruddiaeth Stephen Lawrence.

Glyn Davies *rose—*

Glyn Davies *a gododd—*

Andrew Davies: I do not have enough time to take an intervention. I quote paragraph 6.56 of the Macpherson report. Chief Constable Tony Burden, of the South Wales Police

Andrew Davies: Nid oes gennyf ddigon o amser i gymryd ymyriad. Dyfynnaf baragraff 6.56 o adroddiad Macpherson. Dywedir am y Prif Gwnstabl Tony Burden, o Heddlu De Cymru, ei fod yn

'rightly impresses upon us that racism exists within all organisations and institutions, and that it infiltrates the community and starts amongst the very young. Recent research in Cardiff showed that 50 per cent of the racist incidents considered by the Race Equality Council involved young people under 16 years old, and 25 per cent of these incidents involved children between the ages of six and 10.'

Paragraph 6.4 states that:

Noda paragraff 6.4:

'Racism in general terms consists of conduct or words or practices which disadvantage or advantage people because of their colour, culture or ethnic origin. In its more subtle form it is as damaging as in its overt form.'

Paragraph 6.17 states that:

Noda paragraff 6.17:

'Unwitting racism can arise because of lack of understanding, ignorance or mistaken beliefs. It can arise from well intentioned but patronising words or actions. It can arise from unfamiliarity with the behaviour or cultural traditions of people or families from minority ethnic communities… Furthermore such attitudes can thrive in a tightly knit community so that there can be a collective failure to detect and to outlaw this breed of racism.'

That refers to our country. There is a great deal to be done. We are not in a position as a society where we can afford to relax our vigilance. Education has an important role to play in developing a tolerant society. We have a commitment to lifelong learning for everybody. The Assembly also has a significant contribution to make. In our strategy document, 'Betterwales.com', one of our three major themes is equality of opportunity and the promotion of a culture in which diversity is valued and equality of opportunity is the reality. Much of what David objects to seems to have nothing to do with political correctness. The term is a convenient weapon to use against almost anything with which David disagrees. It is his way of portraying himself as the sturdy voice of robust common sense. I am sorry to disappoint you, David, but when most of us think of you, 'common sense' is not the phrase that most readily springs to mind. David has enjoyed taking potshots at this Assembly. I have no difficulty with that, but it is easy to be a cynic and always to adopt a negative stance. You could, for example, mock the word 'inclusive', as I am sure David often has. What is so wrong about wanting to see the Assembly move ahead by working together and by co-operating? I pay tribute to David's colleague, William Graham, who works in an inclusive and co-operative way. That is often the reality of how we work, but, occasionally, it is only an aspiration.

Mae hynny'n cyfeirio at ein gwlad ni. Mae llawer iawn i'w wneud. Nid ydym mewn sefyllfa fel cymdeithas lle y gallwn lacio ein gwyliadwraeth. Mae gan addysg rôl bwysig i'w chwarae wrth ddatblygu cymdeithas oddefgar. Mae gennym ymrwymiad i ddysgu gydol oes ar gyfer pawb. Mae gan y Cynulliad gyfraniad sylweddol i'w wneud hefyd. Yn ein dogfen strategaeth, 'Gwellcymru.com', un o'n tair prif thema yw cydraddoldeb cyfle a hyrwyddo diwylliant lle y gwerthfawrogir amrywiaeth a lle bo cydraddoldeb cyfle yn realiti. Ymddengys na wnelo llawer o'r hyn y mae David yn ei wrthwynebu ddim â chywirdeb gwleidyddol. Mae'r term yn arf cyfleus i'w ddefnyddio yn erbyn bron unrhyw beth y mae David yn anghytuno ag ef. Ei ffordd ef yw hyn o bortreadu ei hun fel llais cryf synnwyr cyffredin cadarn. Mae'n flin gennyf eich siomi, David, ond pan fydd y rhan fwyaf ohonom yn meddwl amdanoch chi, nid yr ymadrodd 'synnwyr cyffredin' sydd yn dod i'r cof yn gyntaf. Mae David wedi mwynhau tynnu blewyn o drwyn y Cynulliad hwn. Nid oes gennyf unrhyw anhawster gyda hynny, ond mae'n rhwydd bod yn sinig a mabwysiadu agwedd negyddol bob tro. Gallech, er enghraifft, watwar y gair 'cynhwysol', fel y gwnaeth David yn aml mae'n siŵr. Beth sydd o'i le ar ddymuno gweld y Cynulliad yn symud ymlaen drwy gydweithio a chydweithredu? Talaf deyrnged i gyd-Aelod David, William Graham, sydd yn gweithio mewn modd cynhwysol a chydweithredol. Dyna yn aml yw realiti'r modd yr ydym yn gweithio, ond, yn achlysurol, dyhead yn unig ydyw.

However, most of us are glad that we have aspirations even if they may be just beyond our grasp. Our aspirations give us aims in our political lives. There is a line in Shakespeare that says:

Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf ohonom yn falch fod gennym ddyheadau hyd yn oed os ydynt ychydig y tu hwnt i'n cyrraedd. Mae ein dyheadau yn rhoi amcanion i ni yn ein bywydau gwleidyddol. Mae llinell yng ngwaith Shakespeare sydd yn dweud:

‘Assume a virtue, if you have it not.’

In other words, we should try to be better than we are. Put like that, in the language of a Sunday school teacher, I do not think that even David could object to it. His attacks on what we call political correctness—trying to be better than we are—seems to me to be the sneer of the cynic, the malaise of the malcontent. Come on, David: acting the part of a crusty, middle-aged, dyed-in-the-wool person does not suit you. Join us in working to build a Wales that is open, progressive, tolerant and, yes, even inclusive.

Hynny yw, dylem geisio bod yn well nag yr ydym. O’i roi fel yna, yn iaith athro ysgol Sul, nid wyf yn credu y gallai hyd yn oed David ei wrthwynebu. Mae ei ymosodiadau ar yr hyn a alwn yn gywirdeb gwleidyddol—ceisio bod yn well nag yr ydym—yn ymddangos i mi yn ddirmyg y sinig, salwch yr anfoddog. Dewch yn eich blaen, David: nid yw actio rhan person sychlyd, canol oed, digymrodedd yn gweddu i chi. Ymunwch â ni i weithio er mwyn adeiladu Cymru sydd yn agored, yn flaengar, yn oddefol, ac, ie, hyd yn oed yn gynhwysol.

The Deputy Presiding Officer: If Members are unsure about our code of conduct or about what behaviour is expected of them in this Chamber, they can read Standing Order No. 7 and the appropriate guidance.

Y Dirprwy Lywydd: Os yw’r Aelodau yn ansicr ynglŷn â’n cod ymddygiad neu ba ymddygiad a ddisgwylir ganddynt yn y Siambr hon, gallant ddarllen Rheol Sefydlog Rhif 7 a’r arweiniad priodol.

That brings today’s proceedings to a close. I thank Members for their co-operation.

Daw hynny â thrafodion heddiw i ben. Diolchaf i’r Aelodau am eu cydweithrediad.

Daeth y cyfarfod i ben am 1.30 p.m.
The session ended at 1.30 p.m.